# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaethau Democrataidd**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO**

Dyddiad ac Amser

**10.00 y.b., DYDD IAU, 10FED HYDREF, 2024**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol**

*** NODER ***

***I gael mynediad cyhoeddus i'r cyfarfod, cysylltwch â ni**

Pwynt Cyswllt

**Lowri Haf Evans**

**01286 679878**

**Lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd 3 Hydref 2024)

# PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

## AELODAETH (18)

## Plaid Cymru (8)

Y Cynghorwyr

| | | |
|---|---|---|
| Ioan Thomas | Edgar Wyn Owen | Arwyn Herald Roberts |
| Menna Baines | Elfed Wyn ap Elwyn | Meryl Roberts |
| Huw Rowlands | Sedd wag | |

## Annibynnol (4)

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Angela Russell | Richard Glyn Roberts |
| Rob Triggs | Elwyn Jones |

## Aelodau Lleyg (6)

Mrs Clare Hitchcock
Mr Elwyn Rhys Parry
Carys Edwards
Sharon Warnes
Hywel Eifion Jones
Sedd Wag

## Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

# R H A G L E N


**1. YMDDIHEURIADAU**

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

**3. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**4. COFNODION** 5 - 15

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 5ed Medi 2024 fel rhai cywir

**5. GWEITHREDU PENDERFYNIADAU Y PWYLLGOR** 16 - 19

I ystyried yr adroddiad a chynnig sylwadau

**6. ARCHWILIO CYMRU: 'GOFAL BRYS AC ARGYFWNG: LLIF ALLAN O'R YSBYTY - RHANBARTH GOGLEDD CYMRU'** 20 - 86

I ystyried a derbyn yr adroddiad

**7. CYNNYRCH ARCHWILIO MEWNOL** 87 - 116

I dderbyn yr adroddiad hwn ar waith Archwilio Mewnol am y cyfnod o 1 Ebrill 2024 hyd 30 Medi 2024, sylwebu ar y cynnwys yn ôl dymuniad yr aelodau, a chefnogi'r gweithrediadau cytunedig sydd eisoes wedi'u cyflwyno i reolwyr y gwasanaethau perthnasol.

**8. CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2024/25** 117 - 119

I nodi cynnwys yr adroddiad hwn fel diweddariad o gynnydd yn erbyn cynllun archwilio 2024/25, cynnig sylwadau a derbyn yr adroddiad.

**9. TROSOLWG ARBEDION: ADRODDIAD CYNNYDD AR WIREDDU CYNLLUNIAU ARBEDION** 120 - 129

I nodi'r sefyllfa a'r risgiau perthnasol yng nghyswllt y Trosolwg Arbedion, ystyried penderfyniadau i'r Cabinet a sylwebu fel bo angen..

**10. RHAGLEN GYFALAF 2024/25 – ADOLYGIAD DIWEDD AWST 2024** 130 - 144

I nodi'r sefyllfa ac unrhyw risgiau yng nghyswllt rhaglen gyfalaf y Cyngor,

craffu penderfyniadau i’r Cabinet, a sylwebu fel bo angen.

**11. CYLLIDEB REFENIW 2024/25 – ADOLYGIAD DIWEDD AWST 2024** 145 - 169

I nodi’r sefyllfa a’r risgiau perthnasol yng nghyswllt cyllidebau’r Cyngor a’i adrannau, ystyried penderfyniadau i’r Cabinet a sylwebu fel bo angen.

**12. DIWEDDARIAD CHWARTEROL RHEOLAETH TRYSORLYS** 170 - 175

I ystyried a derbyn yr adroddiad er gwybodaeth.

**13. CYD BWYLLGOR CORFFOREDIG Y GOGLEDD - SEFYDLU IS BWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO** 176 - 185

Bod y Pwyllgor yn enwebu un cynghorydd i wasanaethu ar Is Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio Cyd-bwyllgor Corfforaethol y Gogledd a un Cynghorydd i weithredu fel dirprwy ar gyfer yr aelod hwnnw.

Bod y Pwyllgor yn penderfynu a yw'n dymuno enwebu Aelod Lleyg i Is Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio Cyd-bwyllgor Corfforaethol y Gogledd.

**14. BLAEN RAGLEN Y PWYLLGOR** 186 - 187

I ystyried y flaen raglen

**PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO 5ed Medi 2024**

**Presenoldeb:**

**Cynghorwyr:** Elwyn Jones, Edgar Wyn Owen (o eitem 12 ymlaen), Meryl Roberts, Richard Glyn Roberts, Huw Rowlands, Angela Russell, Ioan Thomas ac Elfed Wyn ap Elwyn

**Aelodau Lleyg**: Sharon Warnes, H Eifion Jones, Clare Hitchcock, Carys Edwards a Rhys Parry

**Swyddogion:** Dewi Morgan (Pennaeth Cyllid), Ffion Madog Evans (Pennaeth Cyllid Cynorthwyol - Cyfrifeg a Phensiynau), Delyth Thomas Jones (Rheolwr Buddsoddi), Caren Rees Jones (Cyfrifydd Grŵp - Cyfalaf a Rheolaeth), Ceri Williams (Cyfrifydd Cynorthwyol), David Lloyd-Williams (Uwch Archwiliwr – Archwilio Mewnol) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

**Eraill a wahoddwyd:**

Y Cynghorydd Paul Rowlinson (Aelod Cabinet Cyllid) a Geraint Owen (Cyfarwyddwr Corfforaethol)

| | |
|---|---|
| Eitem 9 a 10: | Alan Hughes ac Yvonne Thomas (Archwilio Cymru) a Dewi Jones (Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor) |
| Eitem 11 : | Marian Parry Hughes (Pennaeth Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd) a Stephen Wood (Rheolwr Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Gwynedd a Môn) |
| Eitem 12: | Cyng Dyfrig Siencyn (Arweinydd y Cyngor), Cyng Nia Jeffreys (Is-Arweinydd y Cyngor) a Dewi Jones (Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor) |

1. **YMDDIHEURIADAU**

   Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Rob Triggs, Menna Baines ac Arwyn Herald Roberts

2. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

   Dim i'w nodi

3. **MATERION BRYS**

   Dim i'w nodi

4. **COFNODION**

   Derbyniodd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 23ain o Fai fel rhai cywir.

5. **GWEITHREDU PENDERFYNIADAU'R PWYLLGOR**

   Cyflwynwyd adroddiad oedd yn rhoi amlinelliad o sut mae adrannau'r Cyngor wedi ymateb i benderfyniadau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio fel bod modd i'r Aelodau gael

sicrwydd bod eu penderfyniadau yn cael sylw. Nodwyd bod yr adroddiad yn rhoi cyfle i'r Aelodau ystyried y penderfyniad a wnaed gyda bwriad o ddileu'r eitem / penderfyniad pan fydd y weithred wedi cwblhau.

Tynnwyd sylw at gais a wnaed yn y cyfarfod diwethaf i gynnal sesiwn gwybodaeth ar y maes digartrefedd. Roedd yr aelod angen sicrwydd na fyddai'r mater yn cael ei 'golli' ac yn awgrymu, yntau cynnwys y mater yn y flaen raglen os nad yn y cofnod penderfyniadau.

Amlygwyd bod cais wedi ei wneud i Aelodau'r Pwyllgor dderbyn sesiwn hyfforddiant ar egwyddorion Ffordd Gwynedd

**PENDERFYNWYD**

**Derbyn cynnwys yr adroddiad**

Nodyn:

- Bod angen cynnal sesiwn gwybodaeth ar y maes digartrefedd i aelodau'r Pwyllgor ddeall y maes yn well ac i ddeall y rhesymau pam fod costau yn y maes mor uchel
- Dymuniad y Pwyllgor i dderbyn hyfforddiant Ffordd Gwynedd

**6. DATGANIAD O GYFRFION 2023/24 (AMODOL AR ARCHWILIAD)**

Eglurodd y Pennaeth Cyllid Cynorthwyol - Cyfrifeg a Phensiynau bod y cyfrifon wedi eu cwblhau a'u rhyddhau i'w harchwilio gan Archwilio Cymru, ein harchwilwyr allanol, ers canol Mehefin. Nodwyd bod estyniad eto eleni yn yr amserlen statudol ar gyfer archwilio'r cyfrifon, gyda'r bwriad o gwblhau'r archwiliad a chymeradwyo'r cyfrifon ym Mhwyllgor Tachwedd 28ain 2024.

Atgoffwyd yr Aelodau bod sefyllfa ariannol diwedd flwyddyn ar gyfer 2023/24 wedi ei gyflwyno i'r Pwyllgor ar y 23ain o Fai ar ffurf alldro syml, ond bod y Datganiad o'r Cyfrifon, sydd i bwrpas allanol a llywodraethu, yn gorfod cael ei gwblhau ar ffurf safonol CIPFA. Ymddengys bellach yn ddogfen hirfaith a thechnegol gymhleth.

Adroddwyd ar gynnwys yr adroddiad gan egluro bod chwe set o gyfrifon ar gyfer 2023/24, yn cael eu cwblhau

1. Cyngor Gwynedd
2. Cronfa Bensiwn Gwynedd
3. GwE (cydbwyllgor sylweddol ei faint ac felly Datganiadau Llawn wedi eu paratoi)
4. Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru (cydbwyllgor o sylweddol ei faint ac felly Datganiadau Llawn wedi eu paratoi)
5. Harbyrau Gwynedd a
6. Cydbwyllgor Corfforedig y Gogledd

Cyfeiriwyd at yr Adroddiad Naratif oedd yn rhoi gwybodaeth am y Cyfrifon ac am weledigaeth a blaenoriaethau Gwynedd, y Strategaeth Ariannol a'r mesuryddion perfformiad ariannol. Arweiniwyd yr Aelodau drwy'r adroddiad gan fanylu ar rai o'r elfennau:

- Crynodeb o wariant cyfalaf. Bu gwariant o £57 miliwn yn ystod y flwyddyn i gymharu gyda £37 miliwn yn y flwyddyn flaenorol.
- Bod y prif ddatganiadau ariannol yn cynnwys Datganiad Incwm a Gwariant, Mantolen, Llif arian ayyb
- Datganiad Symudiad mewn Reserfau sydd yn ddatganiad pwysig ac yn crynhoi sefyllfa ariannol y Cyngor. Amlygwyd bod balansau cyffredinol y Cyngor yn £7.9 miliwn ar ddiwedd Mawrth 2024, sef yr un lefel â Mawrth 2023 a Mawrth 2022. Bod Reserfau yn amlygu lleihad yn y cronfeydd £104 miliwn ar ddiwedd Mawrth 2023 i £102 miliwn erbyn diwedd Mawrth 2024

- Balansau Ysgolion lle gwelir lleihad ym malansau ysgolion - £17 miliwn ar ddiwedd Mawrth 2024 i gymharu â £12 miliwn erbyn diwedd Mawrth 2023 a £9 miliwn erbyn diwedd 2024 sydd yn amlygu darlun yn agosach at lefel y balansau cyn Covid. Eglurwyd bod hyn yn ddarlun cyffredinol sydd yn cael ei weld yng Nghymru gan fod y balansau ysgolion wedi bod yn uchel yn dilyn nifer o grantiau yn sgil Covid.
- Yng nghyd-destun y fantolen a'r newid i ffigyrau pensiwn, nodwyd bod y flwyddyn 2022 / 23 yn un lle gwelwyd am y tro cyntaf sefyllfa o ased pensiwn yn hytrach nag ymrwymiad, sefyllfa oedd yn ddigynsail, oherwydd amodau y farchnad a chwyddiant uchel. Eglurwyd bod prisiad yr actiwari yn defnyddio bondiau corfforaethol, a gan fod cynnyrch y bondiau hyn wedi bod yn uchel, roedd wedi arwain at gyfraddau disgownt cyfrifyddu uchel oedd yn rhoi gwerth sylweddol is ar yr ymrwymiadau pensiwn. Ategwyd nad oedd y sefyllfa yn unigryw i Wynedd ond yn golygu bod cryn drafodaeth o ran ei driniaeth yn y cyfrifon y llynedd, ac felly roedd rhaid cael arweiniad gan CIPFA a Thim Technegol Archwilio Cymru. Nodwyd eleni, bod mwy o arweiniad wedi ei dderbyn gan yr Actiwari ar y driniaeth a chadarnhad o'r dull gan Archwilio Cymru o'r dull cyfrifo a ffefrir. O ganlyniad, bydd y cyfrifon yn cael eu haddasu i adlewyrchu hyn gyda'r newid yn cael effaith ar y prif ddatganiadau a'r nodiadau cysylltiedig.

Cyfeiriwyd at Nodyn 10 - Gwybodaeth fanwl am gronfeydd sydd yn cynnwys Reserfau wrth gefn a glustnodwyd: Balansau Ysgolion, Reserfau a Glustnodwyd yn cynnwys dadansoddiad o'r £102 miliwn o gronfeydd wrth gefn (gan gynnwys y prif rai sef reserfau cyfalaf, cronfa cynllun y Cyngor, cronfa cefnogi'r strategaeth ariannol a chronfa Premiwm Treth y Cyngor)

Cyfeiriwyd at Nodyn 15 – Eiddo, Offer a Chyfarpar sydd yn cyflwyno dadansoddiad fesul categori tir ac adeiladau, cerbydau, offer a chyfarpar ayyb. Ymrwymiadau Cyfalaf sydd yn cynnwys gwaith cyfalaf Ysgol Treferthyr, Cricieth – y symiau a'r taliadau hyd yma.

Nodyn 22 Darpariaethau sydd yn berthnasol i Safleoedd Gwastraff a hawliadau yswiriant a Nodyn 32 manylion am Incwm Grant sydd wedi ei dderbyn (dros £145 miliwn yn 2023/24 i'w gymharu gyda £108 miliwn yn 2022/23).

Diolchodd y Cadeirydd i'r Adran am y gwaith manwl, gan wahodd cwestiynau a sylwadau gan yr aelodau. Yn ystod y drafodaeth, codwyd y materion a ganlyn:-

- Yn llongyfarch y Pennaeth Cyllid Cynorthwyol ar gyflwyno'r adroddiad mewn modd diddorol a dealladwy. Yr adroddiad yn gynhwysfawr
- Yn llongyfarch yr Adran ar gwblhau'r gwaith o fewn amserlen dynn

Mewn ymateb i sylw ynglŷn â Dyledwyr Treth Cyngor (Nodyn 18b) bod swm y ddyled wedi cynyddu dros y flwyddyn ddiwethaf ac i'r cwestiwn pa ymdrechion oedd yn cael eu gwneud i fynd i'r afael a'r dyledion hyn, nododd y Pennaeth Cyllid bod y Tîm Trethi yn cadw llygad ar y sefyllfa ac yn edrych ar wahanol ddulliau o fynd ar ôl y ddyled drwy sicrhau ymgysylltu effeithiol gyda'r talwyr o geisio anogaeth, cyngor a chefnogaeth. Ategwyd, pe byddai'r ddyled yn parhau i gynyddu, yna bydd rhaid edrych yn fanylach ar y sefyllfa.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn ag ymrwymiadau dibynnol ac awgrym bod angen cynnwys nodyn am geisiadau iawndal yma, nododd y Pennaeth Cyllid bod yr ymrwymiadau yswiriant yn berthnasol i drefniadau yswiriant cyn Awdurdodau (cyn 1996), ond petai achos yn cael ei ddwyn yn erbyn y Cyngor byddai yn cael ei gyfeirio at y Cwmni Yswiriant. Ategodd os bydd gwarchodaeth yn ei le bydd yn cael ei gyfarch drwy'r polisi yswiriant neu ei ariannu drwy gronfa sydd wedi ei sefydlu at y pwrpas yma. Mewn ymateb i gwestiwn ategol ynglŷn â honiadau bod ceisiadau iawndal gerbron y Cyngor ac os yw hyn i'w adnabod fel risg, nododd y Pennaeth Cyllid bod trafodaethau wedi eu cynnal ac

nad oedd yn rhagweld y mater fel mater o risg ar hyn o bryd a bod y warchodaeth yswiriant yn cynnwys atebolrwydd cyhoeddus.

Mewn ymateb i gais am wybodaeth cefndir i'r grantiau Cyfalaf ac a oedd y grantiau hyn yn grantiau oedd wedi eu hadnabod gan y Cyngor i ymateb i flaenoriaethau'r Cyngor, nodwyd bod rhai o'r grantiau yn cael eu rhyddhau gan Llywodraeth Cymru ar faes penodol ac fod y Cyngor yn derbyn swm penodol a ddynodwyd gan y Llywodraeth, tra gyda grantiau eraill bod dewis gan yr Awdurdodau Lleol i wneud cais am ddyraniad a bod elfen o gystadleuaeth rhwg awdurdodau.. Ategodd, mewn trafodaethau gyda'r Llywodraeth, bod dyhead i mwy o grantiau ddod yn rhan o'r setliad blynyddol a bod y grantiau i raddau yn ymateb i benderfyniadau mae'r llywodraeth wedi eu gwneud yn hytrach na bod y grantiau yn ymateb i angen a blaenoriaethau lleol.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn ag yswiriant ar gyfer goblygiadau i achos apêl Her Erthygl 4, nodwyd nad oedd nodyn wedi ei baratoi ar gyfer yr elfen erthygl 4 gan nad oedd y Cyngor ar hyn o bryd yn ystyried bydd costau. Petai Archwilio Cymru yn ystyried y sefyllfa yn wahanol, yna bydd ymrwymiadau dibynnol (contingency liability) yn cael ei ystyried.

**PENDERFYNWYD:**

**Derbyn yr adroddiad**
**Cymeradwyo:**

- **Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw 2023/24**
- **Ffurflen Flynyddol ar gyfer y Flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024, yn amodol ar archwiliad gan Archwilio Cymru**

**Diolch i'r staff am gwblhau'r cyfrifon yn gywir ac amserol**

## 7. DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL CYNGOR GWYNEDD 2023/24

Cyflwynwyd y Datganiad gan y Pennaeth Cyllid. Eglurodd bod y datganiad, er nad yn rhan o'r cyfrifon, yn ddogfen statudol ac angen ei chyhoeddi gyda'r cyfrifon. Yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) a Chod ymarfer CIPFA mae'n rhaid i bob Awdurdod Lleol sicrhau bod datganiad o reolaeth fewnol yn ei le. Adroddwyd mai'r Prif Weithredwr ac Arweinydd y Cyngor sydd yn arwyddo'r datganiad er bod angen cymeradwyaeth gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

Rhoddwyd ychydig o gefndir i'r datganiad sydd yn seiliedig ar Fframwaith CIPFA / SOLACE sydd yn adnabod 7 egwyddor graidd ar gyfer llywodraethu da sydd wedyn yn cael eu rhannu ymhellach i is-egwyddorion. Amlygwyd bod y Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu yn ystyried yr egwyddorion a'r is-egwyddorion hyn gan lunio Cofrestr Risg Llywodraethu sydd yn rhan o Gofrestr Risg Corfforaethol y Cyngor. Adnabuwyd risgiau mewn 24 o feysydd llywodraethu gwahanol, gan nodi'r rheolaethau sydd gan y Cyngor yn eu lle er mwyn lliniaru'r risgiau hynny.

Adroddwyd bod trefniadau rheoli risg yn rhoi ystyriaeth i ddau factor wrth sgorio maint y risg sef effaith y digwyddiad petai'r risg yn cael ei wireddu a thebygolrwydd y risg o gael ei wireddu. Tynnwyd sylw at y newidiadau ers datganiad 2022/23 gan amlygu addasiadau sgôr risg ym maes Cyllid ac Iechyd, Diogelwch a Llesiant ac adroddwyd bod y Grŵp Asesu wedi dod i gasgliad bod 1 maes gyda risgiau uchel iawn, 4 maes risgiau uchel, 10 maes risgiau canolig a 9 maes risgiau isel.

Diolchwyd am yr adroddiad. Cyfeiriwyd at bob risg yn ei dro gan roi cyfle i'r Aelodau holi ynglŷn â'r maes hwnnw. Yn ystod y drafodaeth ddilynol nodwyd y sylwadau canlynol gan aelodau:

Cyllid - bod sgôr risg 2022/23 wedi bod yn rhy isel. Yn croesawu'r addasiad ac yn fodlon gyda'r asesiad – teg fyddai cadw sgôr risg yn 20.
Cyllid - bod angen addasu'r adroddiad Saesneg i adlewyrchu 'risg uchel iawn' yn hytrach na 'medium risk'
Cyfreithlondeb - tebygolrwydd 1 yn gamarweiniol
Iechyd - awgrym y dylai risg fod yn uwch na 15? A yw staff wedi eu hyfforddi yn llawn?
Cyffredinol - bod y penawdau yn rai 'sgolastig' gan awgrymu bod rhai yn fwy pwysig na'i gilydd. A ddylid rhoi ffocws ar y materion sydd yn ganolog bwysig yn hytrach nag ar y 'meddal ddiwydiannol'?
Cyffredinol - bod angen penawdau sydd yn cyfeirio at y casgliad. E.e., materion Cyllid yn glir ac esboniadwy ond gydag elfennau megis Tai a / neu Heneiddio, bod angen cefndir neu grynodeb o feysydd o fewn y maes. Angen ystyried adolygu'r cwestiynau ac addasu'r ddogfen i fod yn eglur i drigolion Gwynedd.

Mewn ymateb i'r sylw ym maes risg Iechyd, nododd y Pennaeth Cyllid bod y sgôr yn un cyffredinol ac wedi ei sgorio gan arbenigwyr Iechyd a Diogelwch o fewn cyd-destun trefniadau'r Cyngor i weithredu yn ddiogel. Ategodd bod rhaglen waith yn ei lle gyda chamau gweithredu i leihau'r sgôr tebygolrwydd.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â pha mor aml roedd y risgiau yn cael eu diweddaru, nododd y Pennaeth Cyllid bod y sgoriau risg yn cael eu hadolygu yn barhaus a bod y meysydd risg uchel yn feysydd lle mae cynlluniau tymor hir wedi cael eu hadnabod i wella'r sefyllfa. Yn y cyfamser bydd Penaethiaid Adran yn adrodd ar y gweithredu ac yn sicrhau bod y gwaith yn mynd i'r cyfeiriad cywir. Ategodd bod y broses sgorio yn cael ei arwain gan gyfuniad o ganfyddiadau neu ddigwyddiadau a bod elfen o wrthrychedd yn ogystal â gwyddoniaeth tu cefn i'r broses

Mewn ymateb i'r sylwadau cyffredinol am fformat y datganiad, nododd y Pennaeth Cyllid bod elfen o hyblygrwydd i'r sgorio ac ymgais i ddilyn canllawiau CIPFA. Derbyniwyd bod yr effaith yn amrywio o faes i faes ac anodd oedd cyffredinoli hyn. Amlygodd bod bwriad i adolygu'r ddogfen, ei symleiddio a'i chyfuno gyda Hunanasesiad Cyngor Gwynedd gan sicrhau un ddogfen eglur i drigolion Gwynedd a dileu'r elfen o ddyblygu gwaith i swyddogion.

**PENDERFYNWYD:**
**Derbyn yr adroddiad**
**Cymeradwyo'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol ac argymell fod Arweinydd y Cyngor a'r Prif Weithredwr yn ei arwyddo**

Nodyn:
Angen ail ystyried sgôr tebygolrwydd Cyfreithlondeb
Angen ystyried adolygu'r cwestiynau ac addasu'r ddogfen i fod yn eglur i drigolion - er yn cydymffurfio â chanllawiau CIPFA, awgrym i ystyried cyfuno gyda'r asesiad o drefniadau llywodraethu sydd wedi ei gynnwys yn Hunanasesiad Cyngor Gwynedd i osgoi dyblygu gwaith

## 8. RHEOLAETH TRYSORLYS

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Buddsoddi yn adrodd ar wir ganlyniadau rheolaeth trysorlys y Cyngor 2023/24, yn erbyn y strategaeth a gymeradwywyd gan y Cyngor Llawn 3ydd Mawrth 2024. Adroddwyd bod y flwyddyn wedi bod yn flwyddyn brysur a llewyrchus iawn i weithgaredd rheolaeth trysorlys y Cyngor wrth i'r gweithgaredd aros o fewn y cyfyngiadau a osodwyd. Cadarnhawyd nad oedd unrhyw fethiant i ad-dalu gan y sefydliadau roedd y Cyngor wedi buddsoddi arian gyda nhw.

Adroddwyd bod £3.5m o log wedi ei dderbyn ar fuddsoddiadau sydd yn uwch na'r £3.2m a oedd yn y gyllideb. Nodwyd, ar ddechrau'r flwyddyn ariannol roedd y Gyfradd Banc wedi ei osod ar 4.25%, ond cynyddodd Pwyllgor Polisi Ariannol Banc Lloegr (MPC) y Gyfradd Banc i 5.25% ym mis Awst 2023 a gynhaliwyd y Gyfradd Banc ar 5.25% hyd at fis Mawrth 2024.

Ar y 31 Mawrth 2024 roedd y Cyngor mewn sefyllfa gref iawn gyda buddsoddiadau net a hynny oherwydd lefel uchel o fuddsoddiadau a chyfalaf gweithredol. Roedd hyn yn cynnwys £56 miliwn o arian y Bwrdd Uchelgais a £31 miliwn y Gronfa Bensiwn. Ategwyd bod y gweithgaredd benthyca wedi bod yn ddistaw iawn yn y flwyddyn gyda dim ond ad-daliadau benthyg wedi digwydd.

Adroddwyd, yng nghyd-destun buddsoddiadau, bod y Cyngor wedi parhau i fuddsoddi gyda Banciau a Chymdeithasau Adeiladu, Cronfeydd Marchnad Arian, Cronfeydd wedi'i pwlio, Awdurdodau Lleol a Swyddfa Rheoli Dyledion sydd yn gyson gyda'r math o fuddsoddiadau sydd wedi eu gwneud ers nifer o flynyddoedd bellach. Nodwyd bod y cronfeydd wedi'i pwlio yn fuddsoddiadau tymor canolig/ tymor hir sydd yn dod a lefel incwm da iawn, a gyda lefelau arian y Cyngor yn iach, yr Uned Buddsoddi yn edrych ar fuddsoddiad pellach i'r cronfeydd yma yn y dyfodol agos.

Yng nghyd-destun adroddiad cydymffurfiad a dangosyddion adroddwyd bod yr holl weithgareddau wedi cydymffurfio'n llawn gyda chod ymarfer CIPFA a strategaeth rheolaeth trysorlys y Cyngor - hyn yn newyddion da, ac yn dangos bod rheolaeth gadarn dros yr arian. Cyfeiriwyd at y dangosyddion lle amlygwyd bod pob dangosydd a osodwyd yn cydymffurfio â'r disgwyl heblaw un (Datguddiad Cyfraddau llog). Eglurwyd bod y dangosydd yma wedi ei osod yn amodau llog isel Mawrth 2023 ac felly'n rhesymol bod y symiau ychydig yn uwch na'r disgwyl.

Diolchwyd am yr adroddiad

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â gwerthu neu waredu buddsoddiad cyn y dyddiad aeddfedu (pooled investments) ac er ar yr wyneb yn amlygu colled o £70k, ond eto'n talu llog da o 5.8%, nododd y Rheolwr Buddsoddi bod y buddsoddiadau hyn yn fuddsoddiadau tymor canolig / tymor hir gydag incwm llog sylweddol ac yn perfformio yn bositif iawn ar ddiwedd eu tymor. Er nad oedd elw wedi ei dderbyn hyd yma, roedd y sefyllfa yn cael ei fonitro yn barhaus a chyngor rheolaidd yn cael ei gyflwyno gan Arlingclose.

**PENDERFYNIAD:**

**Derbyn yr adroddiad er gwybodaeth**

**9. ARCHWILIO CYMRU – DIWEDDARIAD CHWARTER 4**

Croesawyd Alan Hughes ac Yvonne Thomas o Swyddfa Archwilio Cymru i'r cyfarfod i gyflwyno'r adroddiad

Cyflwynwyd diweddariad chwarterol (hyd at 30 Mehefin 2024) o raglen waith ac amserlen Archwilio Cymru. Trafodwyd y gwaith archwilio ariannol a'r gwaith archwilio perfformiad lleol gan amlygu y byddai'r Adroddiad Blynyddol i'w gyhoeddi ym mis Tachwedd 2024.

Cyfeiriwyd at yr Adolygiad Thematig - Gofal Heb ei Drefnu a'r Adolygiad Thematig - Cynaliadwyedd Ariannol gan amlygu bwriad i gyflwyno'r casgliadau i'r Pwyllgor yn fuan. Cyfeiriwyd at astudiaethau cenedlaethol llywodraeth leol sydd wedi eu cynllunio ynghyd ag adroddiadau cenedlaethol ac allbynnau eraill a gyhoeddwyd gan Archwilio Cymru ers Mehefin 2023.

Diolchwyd am yr adroddiad

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â Gwaith Archwilio Perfformiad 2023/24 - Prosiect Lleol - Gwastraff ac Ailgylchu, cadarnhawyd bod yr amserlen yn parhau mewn statws 'i'w gadarnhau' ond bod trafodaethau yn cael eu cynnal i geisio ffordd ymlaen. Ategwyd mai prosiect lleol i'r Cyngor oedd yma ac y byddai Archwilio Cymru yn adolygu trefniadau'r Cyngor i wella ei wasanaeth rheoli gwastraff a chyrraedd targedau ailgylchu statudol. Mewn ymateb i sylwadau'r Swyddog, nododd yr Aelod bod y maes wedi cael llawer o sylw gan y pwyllgor a bod angen pwyso ar gwblhau'r adolygiad.

**PENDERFYNIAD:**

**Derbyn yr adroddiad a nodwyd bod cynnwys y rhaglen waith yn ddiddorol**

**Nodyn:**
**Gwaith Archwilio Perfformiad 'Prosiect Lleol – Gwastraff ac Ailgylchu' – angen pwyso i gadarnhau'r amserlen**

## 10. ARCHWILIO CYMRU – CRYNODEB ARCHWILIO BLYNYDDOL 2023 A CHYNLLUN ARCHWILIO MANWL 2024 CYNGOR GWYNEDD

**Cyngor Gwynedd - Crynodeb Archwilio Blynyddol 2023**

Cyflwynwyd adroddiad gan Swyddogion Archwilio Cymru yn crynhoi canfyddiadau a'r casgliadau ar gyfer y gwaith a gwblhawyd ers Ebrill 2023 yng Nghyngor Gwynedd. Ategwyd bod y crynodeb yn rhan o ddyletswyddau Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Cyfeiriwyd at waith yr Archwilwyr o archwilio datganiadau ariannol y Cyngor yn flynyddol ac adroddwyd, eto eleni, bod yr Archwilydd Cyffredinol wedi rhoi barn gywir a theg ddiamod ar ddatganiadau ariannol y Cyngor, ar 22ain o Ionawr 2024. Nodwyd bod y cyfrifon yn cydymffurfio ag arferion priodol ac mai gweithio i lefel o 'berthnasedd' roedd Archwilio Cymru.

Diolchwyd am yr adroddiad

**Cynllun Archwilio Manwl 2024 Cyngor Gwynedd**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Swyddogion Archwilio Cymru oedd yn manylu ar y gwaith y mae Archwilio Cymru yn bwriadu ei wneud i fynd i'r afael a'r risgiau archwilio i Gyngor Gwynedd 2024/25. Nodwyd y bydd archwiliad o'r datganiadau ariannol yn cael eu cwblhau ynghyd a gwaith archwilio perfformiad i asesu sicrwydd a risg.

Yng nghyd-destun perthnasedd datganiadau ariannol nodwyd y cyfrifir perthnasedd gan ddefnyddio gros 2023-24 sef £570.3 miliwn a chyfeiriwyd at y risg sylweddol a'r risgiau archwilio. Ategwyd bod y risg sylweddol o wrthwneud rheolaethau gan reolwyr yn un oedd yn cael ei gynnwys yng nghynllun manwl pob Awdurdod. Nodwyd hefyd bod y risg archwilio o rwymedigaeth net cronfa bensiwn a phrisio tir ac adeiladau hefyd yn risgiau generig.

Amlygwyd y byddai gwaith ardystio ar hawliadau grant Cyngor Gwynedd, a fydd yn cynnwys Budd-daliadau Tai, Pensiynau Athrawon ac Ardrethi Annomestig hefyd yn cael eu cynnal.

Tynnwyd sylw at y ffioedd, gan nodi na fydd Archwilio Mewnol yn gwneud dim elw o'r gwaith a chyfeiriwyd at enwau a manylion cyswllt aelodau'r tîm fydd yn archwilio Gwynedd.

Diolchwyd am yr adroddiad

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â chyfeiriad at 'sawl achos LGPS cyfreithiol a all effeithio ar brisiad y Gronfa Bensiwn' ac os oedd achos newydd ar wahân i Achos Mc Cloud wedi dod i'r amlwg, cadarnhaodd y Pennaeth Cyllid mai Achos Mc Cloud yw'r achos hanesyddol ac nad oedd achos arall mewn bodolaeth ar y funud. Ategodd bod Adran Pensiynau Cyngor Gwynedd wedi bod yn gwneud llawer o waith gydag argymhellion Achos McCloud.

Mewn ymateb i gwestiwn pan nad y ffioedd yn cynnwys TAW o ystyried bod gofyn i bob busnes dalu TAW, nododd y Pennaeth Cyllid er bod y Cyngor yn talu'r TAW mae ganddo'r hawl gyfreithiol i ad-adhawlio'r dreth ac felly gan mai'r ffi cyn TAW sy'n taro'r gwariant refeniw mae'n fwy ystyrlon i ddangos hynny yn y ddogfen.

**PENDERFYNWYD:**

- **Derbyn Crynodeb 2023**
- **Derbyn y Cynllun Manwl**

**11. ADRODDIAD AROLYGIAD GWASANAETH CYFIAWNDER IEUENCTID GWYNEDD AC YNYS MÔN**

Cyflwynwyd adroddiad gan Pennaeth Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd a Rheolwr Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Gwynedd a Môn yn diweddaru'r Pwyllgor ar ganfyddiadau ac argymhellion Arolygiad o'r Gwasanaeth a gynhaliwyd Tachwedd 2023.

Adroddwyd bod y Bwrdd Rheoli Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid (GCI) Gwynedd ac Ynys Môn yn hynod falch gyda'r graddiad cyffredinol 'Da' oedd wedi ei gyhoeddi yn dilyn yr Arolygiad a diolchwyd i bartneriaid y ddau Awdurdod Lleol, y rhwydwaith Cyfiawnder Troseddol Lleol, a'r Sector Gwirfoddol am eu cefnogaeth yn ystod y gwaith paratoi ac yn ystod wythnos yr Arolygiad. Nodwyd y bu i'r arolygiaeth adnabod sawl maes o ymarfer da gan gynnwys trefniadau partneriaethol cryf sy'n llywio ac yn darparu adnoddau ar gyfer gweithio'n effeithiol â phlant a theuluoedd; grŵp o staff sy'n cael eu cefnogi a'u goruchwylio yn dda, a thystiolaeth bod plant a rhieni yn rhan weithredol o'r gwaith o gynllunio a chyflwyno cefnogaeth.

Cyfeiriwyd at y meysydd sydd i'w gwella, y cynllun gwella sydd wedi ei lunio mewn ymateb i saith argymhelliad yr arolygiad ynghyd a'r camau nesaf. Nodwyd bod y Cynllun Gwella ar y cyd gydag aelodau'r Bwrdd Rheoli, y Grŵp Rheoli Gweithredol a staff y Gwasanaeth yn dilyn cyfarfod ddiwedd mis Ionawr i adolygu'r adroddiad drafft a chychwyn ar y broses o lunio ymateb fel bod y berchnogaeth i weithredu'r Cynllun Gwella yn cael ei dderbyn drwy'r Gwasanaeth a'r partneriaid.

Diolchwyd am yr adroddiad a llongyfarchwyd y staff ar ganlyniadau calonogol a chadarnhaol yr arolygiad – yn bleser darllen yr adroddiad. Yr arolygiad yn amlygu canlyniad da, gofalgar gyda staff ymroddedig.

Mewn ymateb i sylw ynglŷn â phwy fydd yn monitro cynnydd y Cynllun Gwella nodwyd bod y Cynllun Gwella wedi ei gymeradwyo gan y Bwrdd Rheoli ym mis Ebrill 2024 ac y bydd yn cael ei adolygu yn rheolaidd mewn cyfarfodydd o'r Bwrdd Rheoli.

Er yn canmol bod y sgôr am y gwaith cynllunio (maes 3: Datrysiadau tu allan i'r Llys) ar yr elfen bod y 'gwaith cynllunio yn canolbwyntio ar gefnogi ymataliadeth y plentyn' yn 100%, amlygwyd pryder bod y gwaith 'cynllunio yn canolbwyntio'n ddigonol ar gadw'r plentyn yn ddiogel' yn derbyn sgôr o 58%. Mewn ymateb i gwestiwn os oedd y 58% yn adlewyrchu

canran nad oedd y prosesau yn peri risg ac os mai risg o waith gweinyddol oedd yma ynteu risg o waith gofal, nodwyd bod yr elfen yn mynegi bod gwaith digonol yn cael ei wneud i gadw'r plentyn yn saff ond bod angen i'r staff wella cofnodion y cynllun diogelu sydd ynghlwm ag achos y plentyn. Ategwyd bod y mater wedi ei gyfarch yn y cynllun gweithredu.

Awgrymwyd bod angen, yn y maes Gwybodaeth a Chyfleusterau - Amrywiaeth Staff a'r Plant, gynnwys manylion am y canran o'r staff sydd yn siarad Cymraeg a chanran plant sydd yn gofyn am wasanaeth yn y Gymraeg. Mewn ymateb, nodwyd bod oddeutu 95% o staff y gwasanaeth yn siarad Cymraeg a bod 60% o blant yn derbyn gwasanaeth yn y Gymraeg. Ategwyd nad oedd y System Cyfiawnder Troseddol yn cynnig ei hun i'r Gymraeg a bod nifer o ddefnyddwyr gwasanaeth yn defnyddio termau technegol Saesneg oherwydd rhwyddineb y sefyllfa.

Mewn ymateb i sylw bod diffyg absenoldebau o'r Adran Addysg yng nghyfarfodydd y Bwrdd Rheoli Strategol yn amlygu nad oedd cyswllt o waith y gwasanaethau gyda'r gwasanaeth addysg a bod cyfle da yma yn cael ei golli o gyd-gysylltu negeseuon ac ymarfer da, nodwyd bod yr elfen yma bellach wedi ei gyfarch ac er yr absenoldeb, dyletswyddau'r Bwrdd Rheoli Strategol yw rhannu negeseuon a bwydo'r wybodaeth yn nol i'r Adran Addysg. Derbyniwyd bod modd rhannu negeseuon am bolisïau ac ymarfer da fyddai'n cryfhau'r negeseuon gydag Adran Addysg y ddwy Sir a bod modd hefyd cynnal cyfarfod gyda Phenaethiaid Addysg i drafod y gwasanaeth penodol yma.

Mewn ymateb i nifer y gweithrediadau yn y Cynllun Gweithredu ac os oedd yr amserlen heriol yn realistig i ddatrys rhai materion ynghyd ag adnoddau digonol i'w cwblhau, cytunodd y Rheolwr Gwasanaeth bod amserlen gweithrediadau rhai materion yn uchelgeisiol a bod angen i'r Bwrdd addasu hyn. Ategodd bod cysylltiadau gyda Gwasanaethau eraill hefyd yn gallu bod yn heriol a bod trefniadau hyfforddi yn cymryd amser i'w trefnu ond bod rhai gwelliannau eisoes wedi eu cwblhau.

Mewn ymateb i sylw am leoliad y Gwasanaeth ac nad oedd cysylltiadau rhwydwaith da i'r safle, nodwyd nad oedd y swyddfa yn addas i ddefnyddwyr trefniadaeth gyhoeddus ac yn enwedig i unigolion dan 16, ond bod y gwasaneth yn un peripatetig; y gwasanaethau trydydd sector, yr Heddlu a'r Gwasanaeth Iechyd yn cynnig ystafelloedd i'w defnyddio. Ategodd, er y costau teithio uchel, bod y drefn yn cael ei rheoli yn dda.

**PENDERFYNWYD:**

- **Derbyn yr adroddiad ar ganlyniad ac argymhellion yr arolwg**
- **Llongyfarch y Gwasanaeth ar ganlyniadau'r arolygiad**

Nodyn:

- Ychwanegu canran defnyddwyr o dderbyn gwasaneth Gymraeg i'r ystadegau

**12. ADRODDIAD PERFFORMIAD BLYNYDDOL AC HUNANASESIAD CYNGOR GWYNEDD 2023/24**

Croesawyd y Cyng. Dyfrig Siencyn (Arweinydd y Cyngor), Cyng. Nia Jeffreys (Dirprwy Arweinydd y Cyngor) a Dewi Jones (Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor) i'r cyfarfod.

Cyflwynwyd drafft o Adroddiad Perfformiad Blynyddol ac Hunanasesiad Cyngor Gwynedd 2023/24 ar gyfer ystyriaeth y Pwyllgor gan ofyn iddynt gynnig sylwadau ac argymhellion ar gynnwys yr adroddiad. Adroddwyd bod yr Hunanasesiad yn ofyn statudol o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 sydd hefyd yn nodi bod angen cynnwys y Pwyllgor yn y broses hunanasesu.

Tynnwyd sylw at y ffaith bod y Cyngor eisoes yn casglu llawer o dystiolaeth ac yn cyhoeddi dogfennau sy'n cynnwys y math o wybodaeth sy'n ddisgwyliedig i'w gynnwys o fewn yr hunanasesiad - dogfennau megis (ond ddim yn gyfyngedig i) adroddiadau blynyddol Perfformiad, Cydraddoldeb, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Datganiad Cyfrifon Blynyddol. Nodwyd hefyd bod cyswllt agos rhwng y ddogfen yma a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol (gweler eitem 7) ac o ganlyniad, gwaned ymdrech i gadw'r ddogfen hunan asesiad yn gymharol gryno gan gyfeirio tuag at nifer o'r dogfennau lle ceir gwybodaeth bellach er mwyn ceisio osgoi dyblygu.

Diolchwyd am yr adroddiad

Yn ystod y drafodaeth ddilynol nodwyd y sylwadau canlynol:

- Bod angen cynnwys y Pwyllgor yn gynharach yn y broses - awgrym cynnal gweithdy i'r dyfodol fel bod yr Aelodau yn cael cyfle ac amser i drafod yr adroddiad a chynnig mewnbwn ac argymhellion
- Bod fformat yr adroddiad yn glir a hawdd i'w ddeall – yn drefnus a thaclus
- Yr adroddiad yn rhoi darlun gonest o'r sefyllfa
- Bod yr asesiad yn fanwl iawn, yn anodd ei adolygu heb ddealltwriaeth lawn o feysydd
- Bod angen sicrhau bod trigolion yn derbyn gwybodaeth am y gwasanaethau - angen sicrahu cyfathrebu da
- Geiriau megis 'lluniwyd strategaeth – angen gweld mwy o weithrediad
- Teithio llesol - amlwg mwy o adnoddau i ardaloedd trefol / poblogaeth uchel, ond angen gweld mwy o ymdrech i faterion teithio llesol gwledig ar draws y Sir
- Wrth gyflwyno data - angen sicrhau eglurhad llawn e.e, osgoi categorïau ieithyddol mewn ysgolion uwchradd
- Cynyddu Cyflenwad o Dai i Bobl Leol - angen amlygu'r effaith ac nid y nifer yn unig

- Prosiectau Gwynedd Yfory
  - Moderneiddio Adeiladau ac Amgylchedd Dysgu - ychwanegu bod arogliad RAC wedi ei gynnal
  - Hyrwyddo Llesiant Plant a Phobl Ifanc - ychwanegu bod cynlluniau / ymgyrchoedd yn eu lle gan yr Adran Addysg i wella presenoldeb disgyblion
  - Ymestyn Cyfleoedd Chwarae a Chymdeithasu - ychwanegu cefnogaeth ariannol ychwanegol gan y Cyngor i Ganolfannau Bwy'n Iach - hyn wedi bod yn benderfyniad positif

Mewn ymateb i gwestiwn os oedd ymgynghoriad gyda phobl leol, busnesau lleol, staff ac undebau llafur wedi ei gynnal, nodwyd nad oedd ymgynghoriad penodol ar berfformiad wedi ei gynnal ond bod adborth a gwybodaeth o ymgynghoriadau niferus eraill ar draws y Cyngor wedi eu hystyried. Ategwyd bod ymgynghoriad perfformiad wedi ei gynnal ym mis Mai 2023 ac mai ychydig iawn o adborth a dderbyniwyd y pryd hynny (yr adborth yn bwydo mewn i gyfnod Hunanasesiad 2022/23).

Adroddodd yr Arweinydd bod trafodaethau wedi eu cynnal gyda Llywodraeth Cymru sydd yn bwriadu cynnal arolwg preswylwyr cenedlaethol ac y bydd modd i Wynedd gofrestru gyda'r arolwg fel bod modd derbyn adborth i fwydo i mewn i'r Hunanasesiad. Gofynion y Ddeddf yw paratoi Hunanasesiad o fewn y flwyddyn ariannol ac felly pe byddai ymgynghoriad yn cael ei gynnal yn ddiweddarach yn y flwyddyn gellid ystyried cynnwys yr adborth yr adeg hynny.

Mewn ymateb i sylw am deithiau llesol, nodwyd bod amryw o ganllawiau Llywodraeth Cymru sydd yn ymwneud a theithio llesol yn pwysleisio ar yr elfen 'teithio i waith' ac felly

anodd yw cael cyllid ar gyfer cynlluniau gwledig. Er hynny, ategwyd bod trafodaethau yn parhau i geisio newid y canllawiau.

Diolchodd y Dirprwy Arweinydd i'r Aelodau am eu cyfraniad gan nodi y byddai'r sylwadau yn cael eu hymgorffori i'r adroddiad neu'n derbyn sylw i'r dyfodol. Derbyniwyd y sylw bod angen cynnwys pobl Gwynedd yn y broses a'r angen i amlygu effaith y gwaith. Croesawyd yr awgrym i gynnal gweithdy gyda'r Aelodau i'r dyfodol. Petai'r Pwyllgor eisiau cyflwyno sylwadau pellach bydd rhaid iddynt wneud hynny fel Aelodau unigol ac nid fel Pwyllgor

**PENDERFYNIAD**

**Derbyn yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol a'r Hunanasesiad Drafft 2023/24**

Nodyn:
Angen ystyried trefniadau ymgynghori priodol i'r dyfodol i sicrhau mewnbwn trigolion Gwynedd yn y broses
Angen cynnwys y Pwyllgor yn gynharach yn y broses – awgrym i gynnal gweithdy gyda'r Aelodau fel bod y Pwyllgor yn cael mewnbwn a gwell cyfle i gynnig argymhellion
Wrth gyflwyno data - angen sicrhau eglurhad llawn e.e, osgoi categorïau ieithyddol mewn ysgolion uwchradd
Cynyddu Cyflenwad o Dai i Bobl Leol - angen amlygu'r effaith ac nid y nifer yn unig

Prosiectau Gwynedd Yfory
- Moderneiddio Adeiladau ac Amgylchedd Dysgu - ychwanegu os yw arolygiad RAC wedi ei gynnal
- Hyrwyddo Llesiant Plant a Phobl Ifanc - ychwanegu bod cynlluniau / ymgyrchoedd yn eu lle gan yr Adran Addysg i wella presenoldeb disgyblion
- Ymestyn Cyfleoedd Chwarae a Chymdeithasu - ychwanegu cefnogaeth ariannol ychwanegol gan y Cyngor i Ganolfannau Bwy'n Iach - hyn wedi bod yn benderfyniad positif

**13. BLAEN RAGLEN Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO HYD CHWEFROR 2025**

Cyflwynwyd blaen raglen o eitemau ar gyfer cyfarfodydd y Pwyllgor hyd Chwefror 2025.

**PENDERFYNIAD:**

**Derbyn y Rhaglen waith ar gyfer Medi 2024 - Medi 2025**

Nodyn:
Ystyried pryd fyddai'n addas adolygu Rhaglen Waith Hunanasesiad y Pwyllgor

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00 a daeth i ben am 13:30

______________________________

**CADEIRYDD**

| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | **PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO** |
| DYDDIAD | **10 HYDREF 2024** |
| TEITL | **GWEITHREDU PENDERFYNIADAU Y PWYLLGOR** |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | **CYFLWYNO DIWEDDARIAD AR WEITHREDU PENDERFYNIADAU BLAENOROL Y PWYLLGOR** |
| AWDUR | **DEWI MORGAN, PENNAETH CYLLID** |
| GWEITHREDIAD | **ER GWYBODAETH** |

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Pwrpas yr adroddiad yma yw rhoi amlinelliad o sut mae adrannau'r Cyngor wedi ymateb i benderfyniadau'r Pwyllgor Llywodraeth ac Archwilio, fel bod modd i'r aelodau gael sicrwydd fod eu penderfyniadau yn cael sylw.

1.2 Mae hyn yn cyfrannu at roi sicrwydd I'r aelodau fod trefniadau llywodraethu'r Cyngor yn gweithredu'n effeithiol.

1.3 Mae'r eitem hon yn gyfle i holl aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ystyried y penderfyniadau a wnaed. Lle mae'r weithrediad wedi ei gwblhau, neu lle nad oedd gweithrediad pellach yn angenrheidiol, mae'r llinell yn cael ei dynnu o'r tabl ar ôl i'r Pwyllgor ystyried y mater.

## 2. PENDERFYNIADAU ERS SEFYLDU'R CYNGOR NEWYDD (MAI 2022)

**Cyfarfod 9 Chwefror 2023**

| **Eitem** | **Penderfyniad** | **Diweddariad** |
|---|---|---|
| DIWEDDARIAD AR ADRODDIADAU SYDD WEDI EU CYHOEDDI YN DDIWEDDAR GAN ARCHWILIO CYMRU | • Derbyn yr adroddiad ac ymateb y rheolwyr i argymhellion 'Trefniadau ar gyfer ymateb i Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021<br>• Cyflwyno adroddiad ymhen 6 mis i ddiweddaru'r Pwyllgor ar drosglwyddo swyddogaethau Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru i is-bwyllgor grymusol Cydbwyllgor Corfforedig y Gogledd fel bod modd symleiddio llywodraethu ac osgoi dyblygu rhwng y ddau gorff<br>• Derbyn yr adroddiad ac ymateb y rheolwyr i argymhellion ''Diweddariad ar Gynnydd Datgarboneiddio" | **O safbwynt trosglwyddo swyddogaethau Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru i is-bwyllgor grymusol Cydbwyllgor Corfforedig y Gogledd, mae'r cynllun yn symud yn ei flaen ar lefel rhanbarthol. Y dyddiad targed trosglwyddo bellach yw 1 Tachwedd 2024.** |

**Cyfarfod 25 Mai 2023**

| Eitem | Penderfyniad | Diweddariad |
|---|---|---|
| ADRODDIAD BLYNYDDOL PENNAETH ARCHWILIO MEWNOL | • Derbyn yr adroddiad yn unol a gofynion Safonau Archwilio Mewnol y Sector Gyhoeddus am y flwyddyn ariannol 2022/23.<br>• Ail-sefydlu Gweithgor Gwella Rheolaethau. | **Bydd y Gweithgor Gwella Rheolaethau yn cael ei sefydlu pan fydd meysydd yn cael eu hadnabod.** |

**Cyfarfod 5 Medi 2024**

| Eitem | Penderfyniad | Diweddariad |
|---|---|---|
| GWEITHREDU PENDERFYNIADAU'R CYNGOR | Derbyn cynnwys yr adroddiad.<br>Nodyn: Ychwanegu i'r daflen penderfyniad:<br>• Bod angen cynnal sesiwn gwybodaeth ar y maes digartrefedd i aelodau'r Pwyllgor ddeall y maes yn well ac i ddeall y rhesymau pam fod costau yn y maes mor uchel<br>• Dymuniad y Pwyllgor i dderbyn hyfforddiant Ffordd Gwynedd | **Mae gwaith yn mynd rhagddo i adnabod a llunio sesiynau gwybodaeth ar hyn o bryd gyda'r bwriad o'u cynnal yn ystod hydref 2024.** |
| DATGANIAD O GYFRIFON | Derbyn yr adroddiad.<br>Cymeradwyo:<br>• Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw 2023/24<br>• Ffurflen Flynyddol ar gyfer y Flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024, yn amodol ar archwiliad gan Archwilio Cymru | **Dim gweithrediad pellach** |
| DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL CYNGOR GWYNEDD AR GYFER 2023/24 | Derbyn yr adroddiad.<br>Cymeradwyo'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol ac argymell fod Arweinydd y Cyngor a'r Prif Weithredwr yn ei arwyddo<br>Nodyn:<br>• Angen ail ystyried sgôr tebygolrwydd Cyfreithlondeb<br>• Angen ystyried adolygu'r cwestiynau ac addasu'r ddogfen i fod yn eglur i drigolion Gwynedd - er yn cydymffurfio â chanllawiau CIPFA, awgrym i ystyried cyfuno gyda'r asesiad o drefniadau llywodraethu sydd wedi ei gynnwys yn Hunanasesiad Cyngor Gwynedd i osgoi dyblygu gwaith | **Mae'r sgôr Cyfreithlondeb wedi cael ei ystyried gan y Grŵp Llywodraethu (gan gynnwys y Swyddog Monitro) sydd wedi dod i gasgliad fod y sgôr presennol yn briodol.**<br><br>**Bydd arddull y dogfen yn cael ei ystyried wrth baratoi Datganiad 2025.** |
| RHEOLAETH TRYSORLYS 2023/24 | Derbyn yr adroddiad er gwybodaeth. | **Dim gweithrediad pellach** |
| ARCHWILIO Cymru – DIWEDDARIAD CHWARTER 1 | Derbyn yr adroddiad.<br>Nodyn:<br>• Gwaith Archwilio Perfformiad 'Prosiect Lleol – Gwastraff ac Ailgylchu' – angen pwyso i gadarnhau'r amserlen | **Rhagwelir y bydd cadarnhad os bydd y gwaith yn mynd yn ei flaen a'i peidio yn niweddariad Chwarter 2.** |

| | | |
|---|---|---|
| ARCHWILIO CYMRU – CRYNODEB ARCHWILIO BLYNYDDOL 2023 A CHYNLLUN ARCHWILIO MANWL 2024 CYNGOR GWYNEDD | Derbyn Crynodeb 2023 a derbyn y Cynllun Manwl. | **Dim gweithrediad pellach** |
| ADRODDIAD AROLYGIAD GWASANAETH CYFIAWNDER IEUENCTID GWYNEDD AC YNYS MON | Derbyn yr adroddiad ar ganlyniad ac argymhellion yr arolwg.<br><br>Llongyfarch y Gwasanaeth ar ganlyniadau'r arolygiad | **Dim gweithrediad pellach** |
| ADRODDIAD PERFFORMIAD BLYNYDDOL AC HUNANASESIAD (drafft) CYNGOR GWYNEDD 2023/24 | Derbyn yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol a'r Hunanasesiad Drafft 2023/24.<br>Nodyn:<br>1. Angen ystyried trefniadau ymgynghori priodol i'r dyfodol i sicrhau mewnbwn trigolion Gwynedd yn y broses<br>2. Angen cynnwys y Pwyllgor yn gynharach yn y broses – awgrym i gynnal gweithdy gyda'r Aelodau fel bod y Pwyllgor yn cael mewnbwn a gwell cyfle i gynnig argymhellion<br>3. Wrth gyflwyno data – angen sicrahu eglurhad llawn e.e, osogi categorïau ieithyddol mewn ysgolion uwchradd<br>4. Cynyddu Cyflenwad o Dai i Bobl Leol - angen amlygu'r effaith ac nid y nifer yn unig<br><br>Prosiectau Gwynedd Yfory<br>• Moderneiddio Adeiladau ac Amgylchedd Dysgu - ychwanegu bod arolygiad RAC wedi ei gynnal<br>• Hyrwyddo Llesiant Plant a Phobl Ifanc - ychwanegu bod cynlluniau / ymgyrchoedd yn eu lle gan yr Adran Addysg i wella presenoldeb disgyblion<br>• Ymestyn Cyfleoedd Chwarae a Chymdeithasu – ychwaegu cefnogaeth arainnol ychwanegol gan y Cyngor i Ganolfannau Bwy'n Iach – hyn wedi bod yn benderfyniad positif | **1.Mae bwriad i gymeryd rhan yn yr Arolwg Preswylwyr Cenedlaethol sy'n cael ei gydlynu gan Data Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn fuan yn ystod 2025, gyda unrhyw adborth yn bwydo i mewn i hunanasesiadau yn y dyfodol.**<br><br>**2. Gwaith yn mynd rhagddo i geisio adnabod y ffordd orau i gael mewnbwn gan y Pwyllgor yn gynt yn y broses.**<br><br>**3. Y fersiwn drafft a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wedi ei haddasu ar gyfer ei chyflwyno i'r Cabinet a'r Cyngor Llawn er mwyn rhoi eglurhad llawn.**<br><br>**4.Bydd hyn yn digwydd ar lafar wrth gyflwyno'r adroddiad i'r Cabinet a'r Cyngor Llawn.** |

| | | |
|---|---|---|
| BLAEN RAGLEN Y PWYLLGOR | Derbyn y Rhaglen waith ar gyfer Medi 2024 - Medi 2025.<br>Nodyn:<br>• Ystyried pryd fyddai'n addas adolygu Rhaglen Waith Hunanasesiad y Pwyllgor | **Wedi cynnwys eitem ar y blaenraglen sy'n eitem ar wahân ar raglen y Pwyllgor, i'w drafod yng nghyfarfod 16 Ionawr 2025.** |

## 3. ARGYMHELLIAD

3.1 Gofynnir i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ystyried cynnwys y tablau uchod a chynnig unrhyw sylwadau.

| | |
|---|---|
| **ENW'R PWYLLGOR** | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD** | Hydref 10fed 2024 |
| **TEITL YR EITEM** | Adroddiadau Archwilio Cymru |
| **AMCAN** | Rhoi diweddariad i'r Pwyllgor ar adroddiad(au) sydd wedi eu cyhoeddi yn ddiweddar gan Archwilio Cymru – 'Gofal Brys ac Argyfwng: Llif allan o'r Ysbyty – Rhanbarth Gogledd Cymru' |
| **ARGYMHELLIAD** | Gofynnir i Aelodau dderbyn yr adroddiad. |
| **AWDUR** | Dewi W. Jones, Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor/Alan Hughes, Archwilydd Arweiniol, Archwilio Cymru |

**1. CEFNDIR**

1.1. Mae gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio swyddogaeth i adolygu ac asesu trefniadau rheoli risg, rheolaeth fewnol, rheoli perfformiad a llywodraethu corfforaethol y Cyngor ac fel rhan o'r swyddogaeth hon mae disgwyliad i ystyried adroddiadau cyrff adolygu allanol megis Archwilio Cymru, Estyn ac Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC).

1.2. Yn ogystal ag ystyried adroddiadau yn ymarferol, mae disgwyl i bwyllgorau sicrhau eu hunain bod trefniadau ar waith i fonitro a gwerthuso cynnydd yn erbyn unrhyw argymhellion a geir ynddynt.

1.3. Mae copi o adroddiad 'Gofal Brys ac Argyfwng: Llif allan o'r Ysbyty – Rhanbarth Gogledd Cymru' wedi ei gynnwys fel **Atodiad 1** gyda dogfen ymateb sefydliadol ar y cyd wedi ei gynnwys fel **Atodiad 2** sy'n amlinellu'r hyn yr ydym fel Cyngor yn bwriadu ei wneud i ymateb i'r argymhellion o fewn yr adroddiad. Bydd **Dylan Owen, Cyfarwyddwr Corfforaethol ac Aled Davies, Pennaeth Oedolion, Iechyd a Llesiant** yn mynychu'r cyfarfod i ymhelaethu ar yr ymateb, gosod cyd-destun ac ymateb i unrhyw gwestiynau os oes angen**.**

# Gofal Brys ac Argyfwng: Llif allan o'r Ysbyty – Rhanbarth Gogledd Cymru

Dyddiad cyhoeddi: Chwefror 2024

Cyfeirnod y ddogfen: 4081A2024

Mae gan yr Archwilydd Cyffredinol ystod eang o swyddogaethau archwilio a chysylltiedig, gan gynnwys archwilio cyfrifon cyrff y GIG yng Nghymru, ac adrodd wrth y Senedd ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y modd y mae'r sefydliadau hynny wedi defnyddio eu hadnoddau. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gwneud ei waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n fwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

Archwilio Cymru yw'r enw torfol anstatudol ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân y mae ganddynt ill dau eu swyddogaethau cyfreithiol eu hunain fel a ddisgrifir uchod. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol ac nid oes ganddo ef ei hun unrhyw swyddogaethau.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2020. Ni dderbynnir unrhyw atebolrwydd gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti, lle mae'r adroddiad hwn yn y cwestiwn.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

# Cynnwys


**Adroddiad cryno**

Ynglŷn â'r adroddiad hwn 4

Negeseuon allweddol 5

Argymhellion 6

**Adroddiad manwl**

Beth yw maint yr her? 10

Beth sy'n effeithio ar lif effeithiol ac amserol cleifion allan o'r ysbyty? 17

Pa gamau gweithredu sy'n cael eu cymryd? 27

Beth yn fwy ellir ei wneud? 33

**Atodiadau**

Atodiad 1 – dulliau archwilio 36

Atodiad 2 – rhesymau dros oedi cyn rhyddhau cleifion 38

Atodiad 3 – perfformiad gofal brys ac argyfwng 42

Atodiad 4 – arosiadau am asesiadau gofal cymdeithasol a phecynnau gofal 47

Atodiad 5 – ymateb sefydliadol ar y cyd i'r argymhellion archwilio 50

# Adroddiad cryno

## Ynglŷn â'r adroddiad hwn

1 Unwaith yr ystyrir bod claf yn ddigon iach yn feddygol neu'n glinigol i adael yr ysbyty (y cyfeirir ato hefyd fel ffit yn feddygol neu ffit yn glinigol) mae rhyddhau'r claf hwnnw'n amserol i'r lleoliad cywir ar gyfer ei anghenion parhaus yn allweddol. Mae symud cleifion yn amserol, yn effeithiol ac yn effeithlon allan o leoliad ysbyty acíwt yn dwyn manteision pwysig i ofal a phrofiad cleifion yn ogystal ag i'r modd y defnyddir adnoddau'r GIG.

2 Pan fo'r broses ryddhau'n cymryd yn hwy nag y dylai gall fod goblygiadau sylweddol i'r claf o ran ei adferiad, ei adsefydliad a'i annibyniaeth. Bydd achosion o oedi cyn rhyddhau hefyd yn dwyn goblygiadau ar gyfer cleifion eraill sy'n dod i mewn i'r system gofal brys ac argyfwng[1] y mae arnynt angen gwely mewn ysbyty. Mae "llif" cleifion gwael yn creu tagfeydd yn y system sy'n cyfrannu at broblemau tra hysbys megis adrannau achosion brys gorlawn ac analluogi i sicrhau bod cleifion yn cael eu trosglwyddo'n amserol o ofal criwiau ambiwlansys.

3 Yn wreiddiol roedd yr Archwilydd Cyffredinol wedi cynnwys gwaith yn ei gynlluniau archwilio lleol yn 2021 i archwilio materion system gyfan sy'n effeithio ar wasanaethau gofal brys ac argyfwng, gan gynnwys rhyddhau cleifion o'r ysbyty. Fe arweiniodd pandemig COVID-19 at ohirio'r gwaith hwn a'i gynnwys drachefn yng nghynlluniau archwilio 2023. Mae ein gwaith wedi ceisio archwilio a oes gan fyrddau iechyd ac awdurdodau lleol drefniadau effeithiol i sicrhau bod cleifion yn cael eu rhyddhau o'r ysbyty mewn modd amserol. Caiff y dull a fabwysiadwyd gennym i wneud ein gwaith ei ddisgrifio yn **Atodiad 1.**

4 Mae'r gwaith hwn yn rhan o raglen ehangach o waith y mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ei chyflawni ar hyn o bryd mewn perthynas â gwasanaethau gofal brys ac argyfwng yng Nghymru. Rydym hefyd yn archwilio'r trefniadau i helpu i reoli'r galw am ofal brys ac argyfwng, ac i gyfeirio cleifion at y lleoliad gofal sydd fwyaf priodol i'w hanghenion. Byddwn yn adrodd ar wahân ar ganfyddiadau'r gwaith hwnnw yn 2024.

5 Mae gwaith yr Archwilydd Cyffredinol ar ofal brys ac argyfwng wedi'i fwriadu i helpu i gyflawni ei ddyletswyddau statudol. Yn benodol, mae'r gwaith hwn wedi'i fwriadu i argyhoeddi'r Archwilydd Cyffredinol bod gan gyrff y GIG ac awdurdodau lleol drefniadau priodol i sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus, fel sy'n ofynnol yn ôl adrannau 17 a 61 Deddf Archwilio Cyhoeddus Cymru 2004.

[1] Mae gofal brys ac argyfwng yn disgrifio unrhyw ofal heb ei drefnu, brys ac argyfwng a ddarperir gan wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r system gofal heb ei drefnu'n gymhleth gyda nifer o sefydliadau'n rhan o ddarparu gwasanaethau ac mae'n ymdrin â phobl ag afiechyd acíwt, sy'n agored i niwed ac mewn gofid y mae arnynt angen cymorth brys.

6 Mae’r adroddiad hwn yn nodi’r canfyddiadau o adolygiad yr Archwilydd Cyffredinol o’r trefniadau i ategu llif effeithiol allan o’r ysbyty yn rhanbarth Gogledd Cymru (y rhanbarth). Mae’r rhanbarth yn cwmpasu:

- Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (y Bwrdd Iechyd);
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy;
- Cyngor Sir Ddinbych;
- Cyngor Sir y Fflint;
- Cyngor Gwynedd;
- Cyngor Ynys Môn; a
- Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.

7 Wrth wneud y gwaith hwn, rydym hefyd wedi ystyried cynnydd a wnaed gan y Bwrdd Iechyd yn erbyn argymhellion blaenorol a wnaed yn ein hadroddiad yn 2017 ar gynllunio i ryddhau cleifion. Mae ein canfyddiadau o’r gwaith hwn wedi’u nodi mewn adroddiad ar wahân i’r Bwrdd Iechyd.

# Negeseuon allweddol

8 Ar y cyfan, canfuom fel a ganlyn: **er bod partneriaid yn deall llif cleifion allan o’r ysbyty ac yn dangos ymrwymiad i’w wella, mae perfformiad yn dal i fod yn her eithriadol gydag effeithiau anffafriol i brofiad a gofal cleifion. Rhaid i bartneriaid barhau i weithio’n unigol ac yn gydweithredol i bennu a gweithredu canllawiau eglur, lliniaru’r heriau a achosir gan lai o gapasiti a gofal mwy cymhleth, a sicrhau bod effaith gweithgareddau’n cael ei monitro, ei herio a’i chynyddu’n barhaus.**

9 Mae maint yr oedi cyn rhyddhau cleifion yng Ngogledd Cymru wedi tyfu’n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf, a rhwng mis Ebrill 2023 a mis Chwefror 2024, bob mis ar gyfartaledd, roedd 334 o gleifion a oedd yn ffit yn feddygol y bu oedi cyn eu rhyddhau, a chymhlethdod asesiadau oedd y prif achos dros yr oedi. Ar gyfer y flwyddyn hyd yma, hyd at a chan gynnwys mis Chwefror 2024, roedd cyfanswm y dyddiau gwely a gollwyd i oedi cyn rhyddhau yn 71,871 sy’n gyfwerth â chost blwyddyn lawn o £39.202 miliwn. Mae’r effaith ganlyniadol ar lif cleifion mewn ysbytai a’r system gofal brys ac argyfwng yn sylweddol, gydag amseroedd aros mewn adrannau achosion brys a’r amser a gymerir i drosglwyddo o ambiwlansys ymhell islaw targedau cenedlaethol. Ym mis Chwefror 2024, collwyd dros 8,000 o oriau ambiwlans oherwydd oedi cyn trosglwyddo, ac roedd hyd cyfartalog arosiadau yn adrannau achosion brys y Bwrdd Iechyd oddeutu 8.5 awr. Mae anawsterau gyda rhyddhau hefyd yn effeithio ar allu sefydliadau partner i ddiwallu anghenion rhai cleifion yn effeithiol, yn enwedig yng ngorllewin y rhanbarth lle mae cyfran sylweddol o gleifion yn cael eu lleoli mewn llety dros dro ar ôl cael eu rhyddhau o’r ysbyty.

10 Mae nifer o ffactorau’n cyfrannu at achosion o oedi cyn rhyddhau cleifion. Mae gan lawer o gleifion, yn enwedig pobl oedrannus â phroblemau iechyd meddwl,

anghenion cymhleth nad yw'n rhwydd eu diwallu â'r gwasanaethau sydd ar gael. Ceir hefyd heriau o ran y gweithlu yn y sector gofal cymdeithasol, yn enwedig yn ardaloedd Conwy, Sir Ddinbych a Gwynedd. Canfu ein gwaith nifer o wendidau mewn ymarfer a dogfennaeth sy'n ymwneud â chynllunio ar gyfer rhyddhau cleifion ac angen i roi'r model Rhyddhau i Adfer ac yna Asesu (D2RA) ar waith fel a fwriadwyd. Mae angen gwneud gwaith hefyd i ymdrin â diffyg hyfforddiant a chanllawiau y cytunwyd arnynt ar y cyd ar gynllunio ar gyfer rhyddhau i staff iechyd a gofal cymdeithasol, ac i oresgyn anawsterau o ran cyfathrebu a rhannu gwybodaeth ar draws ffiniau sefydliadol.

11 Mae gwella llif cleifion yn nodwedd allweddol ar gynlluniau ar draws y partneriaid sy'n cyd-fynd â chwe nod Llywodraeth Cymru ar gyfer gofal brys ac argyfwng[2]. Mae partneriaid yn cydweithio, yn strategol ac yn weithredol, i wella llif cleifion; fodd bynnag, mae pwysau ar y system yn creu diwylliant di-fudd o fwrw bai. Mae adnoddau ariannol yn cael eu cymhwyso i wella'r modd y cynllunnir ar gyfer rhyddhau cleifion, er bod cyfyngiadau ariannol mewn cyrff sy'n bartneriaid yn arwain at dreiglo cynlluniau'n barhaus ac yn y pen draw yn peidio â gadael rhyw lawer o le ar gyfer syniadau newydd. Er bod y sefyllfa'n cael ei monitro'n rheolaidd mewn sefydliadau unigol, nid oes gan bartneriaid drefniadau i oruchwylio llif cleifion ar draws y system iechyd a gofal gyfan. Mae hyn yn cyfyngu ar gyfleoedd i archwilio datrysiadau system gyfan, gwreiddio gwersi a chanolbwyntio ar effaith gweithgarwch mewn adroddiadau ar berfformiad a chynnydd.

12 Mae angen i bartneriaid hefyd gynyddu i'r eithaf y defnydd o'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol (RIF), gwella goruchwyliaeth ac effaith y mentrau a gyflawnir i roi cymorth i ryddhau cleifion yn amserol ac yn effeithiol, a sicrhau bod gwersi o ddigwyddiadau'n cael eu rhoi ar waith mewn ymarfer rheolaidd.

13 Gyda'i gilydd, mae'r uchod yn dangos, er gwaethaf gwaith caled a bwriadau da ar ran sefydliadau yn y rhanbarth, bod cryn dipyn i'w wneud o hyd i wella'r modd y cynllunnir ar gyfer rhyddhau cleifion a gwella prosesau rhyddhau cleifion. Mae angen gweithredu parhaus ar draws ystod o feysydd i sicrhau'r gwelliannau sy'n angenrheidiol i gleifion, eu teuluoedd a'r system gofal brys ac argyfwng ehangach.

## Argymhellion

14 Manylir ar yr argymhellion sy'n codi o'r archwiliad hwn yn **Arddangosyn 1**. Bydd yr ymateb sefydliadol ar y cyd i'r argymhellion hyn gan y cyrff statudol a gafodd eu cynnwys yn yr adolygiad hwn yn cael ei grynhoi yn **Atodiad 4** unwaith y bydd yr argymhellion wedi cael eu hystyried gan y pwyllgorau perthnasol.

[2] Ceir rhagor o wybodaeth am chwe nod Llywodraeth Cymru ar gyfer gofal brys ac argyfwng trwy https://www.llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-diweddariad-ar-y-rhaglen-chwe-nod-ar-gyfer-gofal-brys-gofal-mewn-argyfwng

**Arddangosyn 1: argymhellion**

**Argymhellion**

**Gwella hyfforddiant a chanllawiau**

A1 Dylai'r Bwrdd Iechyd, gan weithio gydag awdurdodau lleol, ddatblygu canllawiau y cytunwyd arnynt ar y cyd i ddarparu eglurder i'r holl staff ynglŷn â sut y dylai'r broses o gynllunio ar gyfer rhyddhau cleifion weithio ledled y rhanbarth. Dylai'r rhain fod yn seiliedig ar y canllawiau cenedlaethol a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2023 a dylent nodi rolau a chyfrifoldebau, a disgwyliadau, sydd wedi'u diffinio'n glir gan gynnwys pryd y dylid gwneud atgyfeiriadau ar gyfer gofal parhaus.

A2 Dylai'r Bwrdd Iechyd ac awdurdodau lleol sicrhau bod prosesau ar waith i gyfleu canllawiau ynghylch cynllunio ar gyfer rhyddhau cleifion i'r holl staff perthnasol mewn gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, gan gynnwys y rhai sy'n gweithio dros dro, gyda hynny'n cael ei ategu gan raglen barhaus o hyfforddiant diweddaru a hyfforddiant sefydlu i staff newydd.

**Gwella'r modd y cydymffurfir â pholisïau a chanllawiau**

A3 Dylai'r Bwrdd Iechyd wreiddio cylch archwilio rheolaidd i asesu effeithiolrwydd polisïau a chanllawiau ynghylch rhyddhau cleifion a chysondeb o ran y modd y'u rhoddir ar waith, gan gynnwys cymhwyso D2RA.

A4 Dylai'r Bwrdd Iechyd sefydlu rheolaethau i atal staff rhag ychwanegu cleifion at restrau aros lluosog, megis ar gyfer ailalluogi, pecynnau gofal cartref a gofal preswyl i hwyluso proses ryddhau gyflym, ni waeth beth fo'r angen. Bydd hyn yn sicrhau mai dim ond y rhai y mae arnynt angen y gwasanaethau sydd ar y rhestrau aros perthnasol.

**Sicrhau diogelwch cleifion wrth iddynt aros am becynnau gofal**

A5 Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod prosesau ar waith i hysbysu gwasanaethau cymdeithasol cyn bod cleifion yn cael eu rhyddhau adref, lle y mae ar y cleifion hynny angen cymorth parhaus yn eu cartref eu hunain, a lle nad yw'r cymorth hwnnw yn ei le ar adeg eu rhyddhau.

A6 Dylai'r Bwrdd Iechyd ac awdurdodau lleol sicrhau bod mecanweithiau ar waith i fynd ati'n rheolaidd i fonitro cleifion sy'n cael eu rhyddhau adref heb ofal cymdeithasol parhaus wedi'i drefnu ac i uwchgyfeirio materion at y gwasanaeth priodol lle y bo angen.

**Gwella ansawdd gwybodaeth a'r modd y caiff ei rhannu**

**Argymhellion**

A7 Dylai’r Bwrdd Iechyd ac awdurdodau lleol sicrhau bod gan yr holl staff perthnasol ar draws pob sefydliad fynediad cyson at wybodaeth gyfoes am y gwasanaethau sydd ar gael yn y gymuned sydd o gymorth i ryddhau cleifion o’r ysbyty. Bydd hyn yn sicrhau nad yw cyfleoedd i ryddhau cleifion yn gynharach gyda chymorth gan wasanaethau y tu hwnt i ofal cymdeithasol yn cael eu colli.

A8 Dylai’r Bwrdd Iechyd wella trefniadau cadw cofnodion trwy:

8.1. sicrhau bod yr holl staff sy’n rhan o gynllunio ar gyfer rhyddhau cleifion yn meddu ar ddealltwriaeth lawn am bwysigrwydd dogfennu gwybodaeth gynhwysfawr yn nodiadau achosion cleifion i roi cymorth i gynllunio’n effeithiol ar gyfer eu rhyddhau.

8.2. sefydlu rhaglen o archwiliadau o nodiadau achosion sy’n canolbwyntio ar ansawdd trefniadau cadw cofnodion.

A9 Dylai’r Bwrdd Iechyd ac awdurdodau lleol roi ffyrdd ar waith y gellir rhannu gwybodaeth yn fwy effeithiol, gan gynnwys cyfleoedd i ddarparu mynediad ehangach at systemau sefydliadol ac, yn y pen draw, datrysiadau TG ar y cyd.

**Mynd i’r afael â bylchau allweddol mewn capasiti**

A10 Mae angen i’r Bwrdd Iechyd ac awdurdodau lleol gydweithio i ddatblygu datrysiadau ar y cyd i fynd i’r afael â bylchau allweddol yng nghapasiti gwasanaethau, yn enwedig gofal cartref a gwasanaethau ailalluogi a fyddai’n ei gwneud yn bosibl rhyddhau cleifion i’w cartref eu hunain yn fwy amserol.

**Cynyddu defnydd o'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol i’r Eithaf**

A11 Dylai’r Bwrdd Iechyd ac awdurdodau lleol, trwy’r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (BPRh), ddangos sut y maent yn gweithio i fynd ati’n fwyfwy i brif ffrydio cynlluniau hirsefydlog a gyllidir trwy RIF yr ystyrir eu bod yn wasanaethau craidd.

A12 Dylai’r Bwrdd Iechyd ac awdurdodau lleol, trwy’r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, gytuno ar broses ar gyfer defnyddio unrhyw arian llithriant o’r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol yn y dyfodol, gan sicrhau y ceir gwerth a budd priodol o wariant o’r fath.

A13 I helpu i oleuo prosesau penderfynu a thrafodaethau, dylai’r Bwrdd Iechyd ac awdurdodau lleol:

13.1. sicrhau bod gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol fynediad rheolaidd at ddangosyddion perfformiad allweddol sy’n berthnasol i lif effeithiol ac amserol allan o’r ysbyty, gan gynnwys perfformiad gofal brys ac

**Argymhellion**

argyfwng o fewn y Bwrdd Iechyd a rhestrau aros ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol a phecynnau gofal; a

13.2. defnyddio trefniant gweithio'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol i ddatblygu cofrestr risgiau ranbarthol sy'n dwyn ynghyd y risgiau sy'n gysylltiedig ag oedi cyn rhyddhau.

**Gwella goruchwyliaeth ac effaith**

A14 Dylai'r Bwrdd Iechyd ac awdurdodau lleol sicrhau bod gwybodaeth sy'n nodi cynnydd gyda gweithgareddau a mentrau arwyddocaol a gyflawnir i roi cymorth i ryddhau cleifion yn effeithiol ac yn amserol ar gael yn rheolaidd ar lefel gorfforaethol ac ar lefel partneriaeth. Dylai hyn gynnwys gweithgareddau a mentrau a gyflawnir yn unigol ac ar y cyd, o fewn strwythur y BPRh a'r tu allan iddo, eu heffaith a sut y maent yn cyfrannu ar y cyd at ymdrin â'r heriau. Bydd hyn yn helpu i ddarparu sicrwydd bod adnoddau'n cael eu buddsoddi mewn modd sy'n cael yr effaith orau.

**Gwreiddio gwersi o gamau gweithredu i fynd i'r afael ag achosion o oedi cyn rhyddhau cleifion**

A15 Dylai'r Bwrdd Iechyd ac awdurdodau lleol sicrhau bod mecanweithiau'n bodoli i roi gwersi ar waith o gamau gweithredu a gymerwyd i ymdrin ag achosion o oedi cyn rhyddhau, megis y Digwyddiadau Rhyddhau Amlasiantaeth (MADE), ac i gynnal goruchwyliaeth reolaidd i sicrhau bod y gwersi'n cael eu rhoi ar waith.

A16 Dylai'r Bwrdd Iechyd gryfhau trefniadau uwchgyfeirio ar gyfer hysbysu ynghylch digwyddiadau anffafriol neu bryderon sy'n ymwneud â rhyddhau cleifion trwy:

16.1. ymdrin ag unrhyw ddigwyddiadau anffafriol neu bryderon nad ymdriniwyd â hwy eisoes, gan gyfathrebu'n glir gyda'r awdurdod lleol perthnasol; a

16.2. sicrhau bod dull cyson o hysbysu ynghylch digwyddiadau anffafriol a phryderon sy'n ymwneud â rhyddhau cleifion ar waith ar draws y Bwrdd Iechyd.

Ffynhonnell yr Arddangosyn: Archwilio Cymru

# Adroddiad manwl

## Beth yw maint yr her?

15 Mae'r adran hon yn nodi maint yr her y mae'r rhanbarth yn ei hwynebu mewn perthynas ag oedi cyn rhyddhau cleifion a'r effaith ddilynol ar lif cleifion a phrofiad cleifion.

16 Canfuom fod **niferoedd sylweddol o achosion o oedi cyn rhyddhau ledled y rhanbarth sy'n lleihau llif cleifion trwy'r ysbytai gydag effaith ganlyniadol ar wasanaethau gofal brys ac argyfwng a'r gallu i ddiwallu anghenion cleifion.**


### Achosion o oedi cyn rhyddhau cleifion

17 Canfuom fod **niferoedd sylweddol o gleifion yn peidio â gadael yr ysbyty mewn ffordd amserol unwaith yr ystyrir eu bod yn ddigon iach yn feddygol i wneud hynny, ac mai cymhlethdod asesiadau, aros i weithwyr gofal cymdeithasol gael eu dyrannu ac arosiadau am becynnau gofal cartref yw'r prif achosion dros yr oedi.**

18 Mae achosion o oedi cyn rhyddhau cleifion o'r ysbyty wedi bod yn broblem hirsefydlog i gyrff yng Nghymru a rhannau eraill o'r DU. Mae'r data sydd ar gael yn dangos bod y broblem wedi gwaethygu'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf.

19 Mae **Arddangosyn 2** yn nodi nifer yr achosion o oedi cyn rhyddhau a brofwyd gan y Bwrdd Iechyd rhwng mis Ebrill 2023 a mis Chwefror 2024, o'i gymharu â Byrddau Iechyd eraill ledled Cymru. Mae'r rhain yn ymwneud â chleifion yr ystyrir eu bod yn ffit yn feddygol ond sy'n dal i fod mewn gwely yn yr ysbyty 48 awr ar ôl i'r penderfyniad gael ei wneud eu bod yn ddigon iach i adael yr ysbyty. Mae cyfradd yr achosion o oedi cyn rhyddhau cleifion ledled y rhanbarth yn gyson â'r cyfartaledd ar gyfer Cymru fwy neu lai.

**Arddangosyn 2: nifer yr achosion o oedi cyn rhyddhau cleifion am bob 100,000 o'r boblogaeth (Ebrill 2023 - Chwefror 2024)**




Ffynhonnell yr Arddangosyn: Llywodraeth Cymru

20 Ers y pandemig, mae'r ffordd y caiff achosion o oedi cyn rhyddhau cleifion eu mesur wedi newid. Nid adroddwyd yn ffurfiol ar unrhyw ddata ynghylch achosion o oedi cyn rhyddhau cleifion yn y cyfnod rhwng mis Mawrth 2020 a mis Mawrth 2023. Cyn y pandemig, adroddid ar achosion o oedi cyn rhyddhau cleifion fel achosion o 'oedi cyn trosglwyddo gofal' a oedd yn cael eu diffinio fel y rhai sy'n parhau i feddiannu gwely ar ôl y dyddiad pan ddatgenir bod y claf yn barod i symud ymlaen at gam nesaf eu gofal. Mae hyn yn cymharu â'r dull cyfredol o gyfrif achosion o oedi sy'n canolbwyntio ar y rhai sy'n dal i fod mewn gwely yn yr ysbyty 48 awr ar ôl cael eu hadnabod yn gleifion sy'n 'ffit yn feddygol'.

21 Er nad yw'n gymhariaeth uniongyrchol, ym mis Chwefror 2020 adroddodd y Bwrdd Iechyd ar 81 o achosion o oedi cyn trosglwyddo gofal. Mae'r sefyllfa ar ddiwedd mis Chwefror 2024 o 324 o achosion o oedi cyn rhyddhau cleifion yn cyfateb i 16.1% o gyfanswm capasiti gwelyau'r Bwrdd Iechyd[3]. Fodd bynnag, mae hyn islaw

[3] Yn seiliedig ar ddata ynghylch argaeledd gwelyau cyffredinol ac acíwt ym mis Gorffennaf 2023, gwefan StatsCymru (https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Health-and-Social-Care/NHS-Hospital-Activity/NHS-Beds/nhsbeds-by-organisation-site)

cyfartaledd Cymru gyfan o 17.9% (sy'n amrywio rhwng 13.7% a 31.3%) ac yn ail isaf yng Nghymru.

22 Caiff y pum prif reswm dros achosion o oedi yn y Bwrdd Iechyd o'i gymharu â sefyllfa Cymru gyfan eu nodi yn **Arddangosyn 3**, a'r rhesymau mwyaf cyffredin oedd aros am asesiad ar y cyd (rhwng gwasanaethau iechyd a gwasanaethau gofal cymdeithasol) ac aros i weithiwr cymdeithasol gael ei ddyrannu. Ceir rhestr lawn o resymau dros oedi yn y Bwrdd Iechyd yn **Atodiad 2**, ac yn ôl awdurdod lleol.

**Arddangosyn 3: y pum prif reswm dros oedi cyn rhyddhau cleifion (Chwefror 2024)**

| Rheswm dros yr oedi | Canran lle bu oedi | Cyfartaledd Cymru Gyfan |
|---|---:|---:|
| Yn aros am asesiad ar y cyd | 15.7 | 9.0 |
| Yn aros i weithiwr cymdeithasol gael ei ddyrannu | 15.1 | 8.5 |
| Yn aros i asesiad clinigol gael ei gwblhau (nyrsio / gweithiwr proffesiynol perthynol i iechyd / meddygol / fferylliaeth) | 13.3 | 10.3 |
| Yn aros i becyn gofal cartref newydd ddechrau | 10.5 | 8.0 |
| Yn aros i asesiad gael ei gwblhau gan weithwyr gofal cymdeithasol | 5.6 | 15.7 |

Ffynhonnell yr Arddangosyn: Llywodraeth Cymru

23 O'i dadansoddi fesul awdurdod lleol, mae'r gyfradd oedi cyn rhyddhau cleifion am bob 100,000 o'r boblogaeth yn uwch fel rheol na sefyllfa Cymru gyfan ac eithrio Sir y Fflint. Aros am asesiad ar y cyd yw prif achos yr achosion o oedi yng ngorllewin y rhanbarth, ac yn Sir Ddinbych. Aros i weithiwr cymdeithasol gael ei ddyrannu yw prif achos yr oedi yn nwyrain y rhanbarth. Aros am asesiadau clinigol yw prif achos yr achosion o oedi yng Nghonwy, gan fod yn gyfrifol am chwarter yr holl achosion o oedi.

24 Yn seiliedig ar ddata yr adroddwyd arno ym mis Chwefror 2024, roedd cyfanswm nifer y cleifion yn rhoi cyfrif am 6,524 o ddyddiau gwely. Yn seiliedig ar gost nodweddiadol fesul diwrnod gwely[4], mae hyn yn gyfwerth â chostau o oddeutu £3.262 miliwn, ac effaith blwyddyn lawn o £39.202 miliwn.

25 Adnabu ein hadolygiad o nodiadau achosion cleifion mewn ysbytai mewn perthynas â sampl o gleifion argyfwng meddygol fod yr amser yr oedd cleifion yn

[4] Yn seiliedig ar £500 y diwrnod gwely fel a nodwyd ym mhapur briffio Conffederasiwn y GIG ar gyfer y datganiad gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol ar y sefyllfa ariannol yn 2023-24

dal i fod mewn gwely yn yr ysbyty 48 awr ar ôl datgan eu bod yn ffit yn feddygol yn amrywio ar draws prif safleoedd ysbytai'r Bwrdd Iechyd, a bod nifer cyfartalog y diwrnodau yr oedd cleifion yn dal i fod mewn gwely yn yr ysbyty ar ei uchaf yn Ysbyty Maelor (**Arddangosyn 4**).

**Arddangosyn 4: hyd cyfartalog yr amser 48 awr ar ôl datgan eu bod yn ffit yn feddygol (yn seiliedig ar sampl o gleifion â hyd arhosiad o fwy na 21 diwrnod)**

| Safle ysbyty | Nifer cyfartalog y diwrnodau |
|---|---|
| Ysbyty Glan Clwyd | 16 |
| Ysbyty Gwynedd | 20 |
| Ysbyty Maelor | 43 |

Ffynhonnell: Archwilio Cymru

## Effaith ar lif cleifion

26 Canfuom **fod achosion o oedi cyn rhyddhau cleifion yn cael effaith sylweddol ar lif cleifion gydag effeithiau cynyddol sy'n peri gofid mewn rhannau eraill o'r system gofal brys ac argyfwng.**

27 Mae achosion o oedi cyn rhyddhau cleifion o'r ysbyty'n dwyn canlyniadau ar gyfer llif cleifion ac, yn enwedig, gallu cleifion i gael mynediad at wasanaethau pan fo'u hangen arnynt. Mae'r ffaith bod gwelyau'n cael eu defnyddio gan gleifion nad oes mo'u hangen arnynt mwyach yn golygu nad ydynt ar gael i'r rhai y mae eu hangen arnynt gan arwain, er enghraifft, at arosiadau hwy mewn adrannau achosion brys. Mae hyn yn ei dro'n effeithio ar y gallu i griwiau ambiwlansys drosglwyddo cleifion ac ymateb i alwadau 999 yn y gymuned.

28 Mae **Atodiad 3** yn nodi perfformiad y rhanbarth ar draws ystod o ddangosyddion perfformiad gofal brys ac argyfwng o'i gymharu â'r sefyllfa ledled Cymru ers mis Ebrill 2022. Yn gryno:

- mae canran y galwadau coch i'r gwasanaeth ambiwlans yr ymatebwyd iddynt o fewn 8 munud wedi bod fwy neu lai yn gyson â'r sefyllfa ledled Cymru gyfan ar tua 50%, ond islaw'r targed cenedlaethol o 65% (**Arddangosyn 20**);
- mae'r amser canolrifol a gymerir i ymateb i alwadau ambr wedi bod yn sylweddol uwch na'r targed o 20 munud ar oddeutu 3.5 awr, gan ostwng i oddeutu awr dros haf 2023, ond gan godi eto dros y misoedd diwethaf (**Arddangosyn 21**);
- mae canran y trosglwyddiadau o ambiwlansys o fewn 15 munud yn adrannau achosion brys mawr y Bwrdd Iechyd yn is na chyfartaledd Cymru gyfan fel rheol ac ymhlith yr isaf yng Nghymru, yn enwedig yn Ysbyty Glan

Clwyd ac Ysbyty Maelor, ac yn sylweddol is na'r targed cenedlaethol (**Arddangosyn 22**);

- mae canran y trosglwyddiadau o ambiwlansys sy'n cymryd dros un awr wedi bod uwchlaw cyfartaledd Cymru gyfan at ei gilydd gan amrywio rhwng 38.5% a 55%, o'i gymharu â tharged cenedlaethol o sero (**Arddangosyn 23**);
- mae cyfanswm yr oriau a gollwyd yn dilyn hysbysu i drosglwyddiad a gymerodd dros 15 munud ymhell uwchlaw cyfartaledd Cymru gyfan, gan amrywio rhwng 6,000 a 10,000 o oriau y mis dros y misoedd diwethaf (**Arddangosyn 24**);
- unwaith y mae'r claf yn yr adran achosion brys, mae'r amser canolrifol rhwng cyrraedd a brysbennu wedi lleihau ac mae bellach ychydig islaw'r sefyllfa ar gyfer Cymru gyfan ar 21 munud (**Arddangosyn 25**);
- mae'r amser canolrifol rhwng cyrraedd a chael asesiad gan uwch benderfynydd clinigol wedi bod yn sylweddol uwch nag yn yr holl fyrddau iechyd eraill, ar oddeutu pum awr a hanner, ond ers mis Mawrth 2023 mae wedi gostwng i oddeutu dwy awr sy'n dal i fod uwchlaw cyfartaledd Cymru gyfan (**Arddangosyn 26**);
- mae canran y cleifion a welir o fewn 4 awr mewn adran achosion brys mawr gyda'r isaf yng Nghymru. Mae perfformiad yn amrywio ar draws y tri safle ysbyty, gyda pherfformiad yn well yn Ysbyty Maelor (**Arddangosyn 27**);
- mae canran y cleifion sy'n treulio llai na 12 awr mewn adran achosion brys hefyd gyda'r isaf yng Nghymru, gyda pherfformiad yn waeth yn Ysbyty Glan Clwyd ac Ysbyty Gwynedd (**Arddangosyn 28**); ac
- mae cyfran y dyddiau gwely a gronnir gan gleifion â hyd arhosiad o fwy na 21 diwrnod wedi bod yn well na chyfartaledd Cymru gyfan (**Arddangosyn 29**).

29 Yn seiliedig ar ein dadansoddiad ni o ddata'r Bwrdd Iechyd mewn perthynas â'r holl gleifion meddygaeth argyfwng a ryddhawyd ym mis Hydref 2022, canfuom fod cyfanswm cyfartalog hyd arosiadau ar gyfer cleifion sy'n aros am yn hwy na 21 diwrnod yn y safleoedd acíwt yn 51 diwrnod (o'i gymharu â 56 diwrnod ledled Cymru). Roedd hyn yn amrywio ar draws y tri safle acíwt, gyda chyfanswm cyfartalog hyd arosiadau'n cynyddu i 64 diwrnod yn Ysbyty Maelor. Roedd cyfanswm cyfartalog hyd arosiadau yn Ysbyty Glan Clwyd ac Ysbyty Gwynedd yn 39 a 50 diwrnod yn y drefn honno.

30 Mae cyfanswm capasiti gwelyau'r Bwrdd Iechyd wedi amrywio dros y blynyddoedd diwethaf, gyda chyfanswm o 2,123 o welyau ar gael yn 2022-23, ac ychydig o dan hanner wedi'u dyrannu i feddygaeth acíwt (975). Mae defnydd gwelyau yn y gwelyau meddygaeth acíwt wedi bod ar 88.3%, o'i gymharu â lefel ddelfrydol o 85%. Mae'r Bwrdd Iechyd yn un o bedwar bwrdd iechyd sydd â gwelyau ysbyty cymunedol a reolir gan feddygon teulu. Mae'r gwelyau hyn yn darparu cyfleusterau camu-i-lawr ar gyfer cleifion nad oes angen gofal acíwt arnynt mwyach. Fodd

bynnag, mae nifer y gwelyau hyn sydd ar gael yn y Bwrdd Iechyd wedi gostwng o 109 yn 2019-20 i 88 yn 2022-23, ac mae lefelau defnydd wedi bod yn uchel ar 97.2%. Mae'r rhan fwyaf o'r gwelyau hyn yn Sir Ddinbych a Gwynedd.

31 Mae pwysau ar welyau sydd ar gael oherwydd oedi cyn rhyddhau cleifion yn golygu nad yw byrddau iechyd wastad yn gallu sicrhau bod cleifion yn cael eu lleoli ar y wardiau gorau i'w hanghenion clinigol. Er enghraifft, bydd byrddau iechyd fel arfer yn cadw gwelyau gwag ar unedau strôc i sicrhau bod cleifion strôc yn cael mynediad cyflym ac uniongyrchol, gan eu galluogi i gael mynediad at arbenigwyr ac offer strôc.

32 Mae byrddau iechyd yn gynyddol wedi profi anawsterau derbyn cleifion strôc i ward strôc gan bod problemau gyda llif cleifion ac argaeledd gwelyau'n golygu y bu angen y gwelyau hyn ar gyfer cleifion nad ydynt wedi cael strôc. Dros y 12 mis diwethaf, dim ond chwarter y cleifion strôc a dderbyniwyd i'r Bwrdd Iechyd gafodd eu derbyn yn uniongyrchol i uned strôc o fewn pedair awr. Fodd bynnag, mae perfformiad ychydig bach yn well na'r sefyllfa ledled Cymru gyfan.

33 Mae effaith llif cleifion gwael yn aml yn cael ei theimlo o fewn gofal wedi'i drefnu (neu wedi'i gynllunio) hefyd, gan bod cleifion gyda'u gweithdrefnau wedi'u bwcio yn gynyddol yn cael canslo'u triniaethau oherwydd diffyg gwelyau sydd ar gael. Yn ystod 2022-23, cafodd 641 o dderbyniadau gofal wedi'i gynllunio eu canslo oherwydd nad oedd gwely ar gael ar ward yn y Bwrdd Iechyd, gyda thros hanner y rheiny yn ystod mis Rhagfyr 2022 a mis Ionawr 2023. Ar gyfer y cyfnod, sef 2023-24 hyd at a chan gynnwys mis Chwefror 2024, cafodd 1,036 o dderbyniadau gofal wedi'i gynllunio eu canslo. Mae'r lefel hon o gansladau'n cynrychioli profiad gwael i gleifion ac yn creu perygl y bydd cyflyrau cleifion gofal wedi'i gynllunio'n gwaethygu ymhellach tra'u bod yn aros i'w triniaeth gael ei haildrefnu.

## Diwallu anghenion cleifion

34 Canfuom **fod achosion o oedi cyn rhyddhau cleifion yn effeithio ar allu sefydliadau i ddiwallu anghenion rhai cleifion yn effeithiol gyda chyfran sylweddol o gleifion yng ngorllewin y rhanbarth yn cael eu rhyddhau i mewn i lety dros dro.**

35 Gall y pwysau i ryddhau cleifion a diffyg opsiynau gofal sydd ar gael arwain at ryddhau cleifion i leoliadau nad ydynt wastad y rhai mwyaf priodol i'w hanghenion gan gynnwys:

- cael eu rhyddhau adref cyn bod pecyn gofal priodol yn ei le;
- cael eu rhyddhau i gartref gofal preswyl pan allent fod wedi mynd adref gyda phecyn cymorth;
- cael eu rhyddhau i gartref gofal preswyl dros dro i aros nes bod lleoliad tymor hwy ar gael;
- cael eu rhyddhau i wely mewn ysbyty cymunedol i aros nes bod pecyn gofal ar gael; a
- chael eu rhyddhau i leoliad sy'n bell i ffwrdd oddi wrth deulu a ffrindiau.

36 Gall cleifion sy’n profi oedi yn yr ysbyty gael eu datgyflyru, ac maent yn wynebu mwy o risg o gael anaf o ganlyniad i gwympo neu o ddal haint a geir yn yr ysbyty a all waethygu eu hanghenion gofal, gan hwyhau eu harhosiad yn yr ysbyty a’u gwneud yn fwy agored i orfod cael eu derbyn drachefn ar ôl iddynt gael eu rhyddhau.


37 O fewn y rhanbarth, mae effaith oedi ar brofiad a deilliannau cleifion yn rhywbeth y canfuom fod staff iechyd a gofal cymdeithasol yn ymwybodol iawn ohoni ac yn gweithio’n galed i’w hosgoi. Fodd bynnag, mae dewis a phrofiad cleifion yn gynyddol yn cael eu peryglu i sicrhau bod cleifion yn cael eu rhyddhau’n fwy amserol, ac roedd staff y siaradom ni gyda hwy’n aml yn sôn bod mwy o angen i reoli disgwyliadau cleifion a theuluoedd. Gydag opsiynau cyfyngedig ar gyfer gofal parhaus, canfuom fod staff yn aml yn cael eu gadael yn ystyried opsiynau amgen i alluogi cleifion i gael eu rhyddhau. Clywsom enghreifftiau o staff yn ychwanegu cleifion at restrau aros lluosog, megis ar gyfer ailalluogi[5], pecynnau gofal cartref a gofal preswyl, i hwyluso proses ryddhau fwy amserol ni waeth beth fo anghenion penodol cleifion**.**

38 Clywsom hefyd am enghreifftiau lle’r oedd cleifion yn cael eu rhyddhau adref heb gymorth i aros nes byddai pecyn gofal ar gael. Mae partneriaid yn gweithio i leihau achosion o’r fath yn gymaint â phosibl, gan fabwysiadu dull sy’n seiliedig ar risg ac archwilio amryw opsiynau i bontio bylchau yn y cymorth ffurfiol a roddir megis trwy ofyn i deuluoedd neu ffrindiau cleifion roi cymorth byrdymor. Er bod gan rai cynghorau, gan gynnwys Conwy, Gwynedd a Wrecsam, drefniadau i fonitro llesiant cleifion sy’n aros am becyn gofal, nid oes gan rai. Clywsom hefyd am sefyllfaoedd prin ond a oedd yn peri pryder lle caiff cleifion eu rhyddhau adref i aros am becyn gofal a hynny heb hysbysu timau’r gwasanaethau cymdeithasol**.**

39 Mae **Arddangosyn 5** yn nodi i ba raddau y mae llety cartref gofal byrdymor heb ei gynllunio’n cael ei ddefnyddio ledled y rhanbarth. Ers mis Tachwedd 2022, bu gan y rhanbarth rai o'r niferoedd uchaf o oedolion am bob 100,000 o’r boblogaeth a oedd wedi’u lleoli mewn llety cartref gofal byrdymor heb ei gynllunio. Mae hyn yn arbennig o wir yng ngorllewin y rhanbarth. Mae cyfran yr oedolion sydd mewn lleoliadau heb eu cynllunio am yn hwy na 6 mis yng Ngwynedd yn uwch nag yn unrhyw ran arall o Gymru, gyda chyfran yr oedolion sy’n aros mewn lleoliadau dros dro rhwng 3 a 6 mis ar Ynys Môn yn ail uchaf yng Nghymru.

**Arddangosyn 5: nifer yr oedolion am bob 100,000 o’r boblogaeth sy’n aros mewn cartref gofal heb unrhyw ddyddiad terfyn arfaethedig, ni waeth beth fo’r rheswm y maent yn aros (+3 mis) Gorffennaf 2023 – Chwefror 2024**

[5] Mae ailalluogi’n disgrifio gwasanaethau i bobl ag iechyd corfforol neu feddyliol gwael i’w helpu i addasu i’w hafiechyd trwy ddysgu neu ailddysgu’r sgiliau sy’n angenrheidiol ar gyfer bywyd pob dydd.




Ffynhonnell yr Arddangosyn: Llywodraeth Cymru

* Sylwer – ni chyflwynwyd unrhyw ddata ar gyfer Wrecsam ar gyfer y cyfnod.

# Beth sy'n effeithio ar lif effeithiol ac amserol cleifion allan o'r ysbyty?

40 Mae'r adran hon yn nodi'r materion sy'n effeithio ar gynllunio'n effeithiol ar gyfer rhyddhau cleifion a llif amserol cleifion allan o'r ysbyty ledled y rhanbarth.

41 Canfuom **er bod cymhlethdod y galw'n cynyddu, fod capasiti iechyd a gofal cymdeithasol wedi lleihau gan adael opsiynau cyfyngedig ar gyfer gofal parhaus a bod yr heriau hyn yn cael eu gwaethygu gan ddiffyg rhannu gwybodaeth a'r ffaith bod y broses o gynllunio ar gyfer rhyddhau'n dechrau'n rhy hwyr yn nhaith claf.**

## Maint a chymhlethdod y galw

42 Canfuom y **bu cynnydd yng nghymhlethdod y galw a nifer y cleifion oedrannus â phroblemau iechyd meddwl.**

43 Yng Ngogledd Cymru roedd pobl dros 65 oed yn rhoi cyfrif am 20% o'r boblogaeth yn 2020, ond mae disgwyl i'r ffigwr hwnnw gynyddu i 29% erbyn 2040[6]. Wrth i bobl fyw am yn hwy, ceir cynnydd cydberthynol yn niferoedd y bobl sy'n byw gyda

[6] Daw data amcanestyniadau poblogaeth gan Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru https://olderpeople.wales/wp-content/uploads/2023/01/221222-Understanding-Wales-ageing-population-24-November.pdf

chyflyrau hirdymor lluosog ac anghenion iechyd cymhleth y bydd angen felly iddynt ddibynnu ar wasanaethau iechyd a gofal i gael cymorth.

44 Roedd y rhai y siaradom ni gyda hwy yn ystod yr adolygiad hwn yn siarad am gynnydd sylweddol y maent yn ei weld yn y galw, yn enwedig o ran galw mwy cymhleth, sy'n ymwneud ag achosion mwy acíwt. Dywedwyd wrthym yn aml fod cleifion yn dod i mewn gydag un broblem, ond bod profion rheolaidd yn gallu canfod yn gyflym bod cyflyrau eraill y mae angen eu trin a'u rheoli, a fydd yn nodweddiadol yn golygu bod angen proses fwy cymhleth i gynllunio ar gyfer eu rhyddhau.

45 Fe wnaeth COVID-19 waethygu'r cynnydd hwn mewn galw cymhleth. Yn ystod y pandemig, fe ostyngodd y galw am ofal mewn adrannau achosion brys yn gyflym wrth i bobl ddilyn cyngor cenedlaethol i warchod gwasanaethau rheng-flaen craidd. Hefyd, bu teuluoedd yn rhoi gofal a chymorth ychwanegol i osgoi'r angen i'w hanwyliaid gael eu derbyn i'r ysbyty neu ofal hirdymor oherwydd yr ofn y gallent ddal COVID-19. Dywedwyd wrthym, wrth i'r pandemig ysgafnhau, fod galw wedi dechrau ymgyflwyno trwy'r adrannau achosion brys a oedd yn llawer mwy cymhleth nag o'r blaen gan bod cyflyrau pobl wedi dirywio gartref.

46 Mae cartrefi gofal wedi gweld cymhlethdod cynyddol ymhlith eu cleifion hefyd. Roedd iechyd meddwl pobl oedrannus yn aml yn cael ei grybwyll fel pwysau sylweddol, gyda niferoedd uwch o gleifion oedrannus yn ymgyflwyno yn yr ysbyty gyda chyflyrau iechyd meddwl y mae cartrefi gofal yn eu cael yn gynyddol anodd neu amhosibl i'w lletya ar ôl iddynt gael eu rhyddhau.

## Capasiti'r gweithlu

47 Canfuom **fod heriau o ran capasiti'r gweithlu, yn enwedig yn y Bwrdd Iechyd ac yng ngwasanaethau cymdeithasol oedolion Gwynedd a Wrecsam, gydag arosiadau am asesiadau gofal cymdeithasol mewn rhai cynghorau ymhlith yr uchaf yng Nghymru.**

48 Yn gynyddol mae staff sy'n rhan o gynllunio ar gyfer rhyddhau cleifion yn canfod bod eu capasiti dan bwysau oherwydd ffactorau megis cyfraddau swyddi gwag uchel a chyfraddau absenoldeb heb ei gynllunio. Mae niferoedd is o staff yn arwain naill ai at ddibyniaeth ar staff asiantaeth neu at lai o staff parhaol yn ceisio rheoli cleifion mwyfwy cymhleth a threfnu'r gofal parhaus y mae ei angen arnynt i gael eu rhyddhau. Mae defnydd uchel o staff asiantaeth yn cael effeithiau anorfod ar barhad o fewn y gweithlu.

49 O ran y sefyllfa ym mis Ionawr 2024, roedd y Bwrdd Iechyd yn nodi bod 9.0% o swyddi gwag fel canran o gyfanswm ei swyddi staff, gyda swyddi gwag nyrsio a bydwreigiaeth ar 11.7%, a swyddi gwag meddygol ar 6.2%. Roedd cyfraddau'r swyddi gwag ar eu huchaf yng nghanol y rhanbarth. Roedd y gyfradd absenoldeb heb ei gynllunio ar 6.7% ar gyfer staff nyrsio a bydwreigiaeth, ond yn llawer is ar 2.2% ar gyfer staff meddygol. Roedd defnydd o staff banc ac asiantaeth yn rhoi cyfrif am 8.9% o swyddi nyrsio a bydwreigiaeth, gyda'r defnydd uchaf o staff banc ac asiantaeth hefyd yng nghanol y rhanbarth.

50 Ym mis Mehefin 2023, roedd cynghorau Gogledd Cymru'n nodi bod cyfraddau'r swyddi gwag mewn gwasanaethau cymdeithasol oedolion rhwng 0% a 45%, gyda'r gyfradd swyddi gwag uchaf yn Wrecsam a'r isaf yn Sir y Fflint[7]. Ym mis Chwefror 2024, roedd y gyfradd absenoldeb heb ei gynllunio mewn gwasanaethau cymdeithasol oedolion yn amrywio rhwng 6% a 10%, fel a ddangosir yn **Arddangosyn 6**.

**Arddangosyn 6: canran yr absenoldeb heb ei gynllunio mewn gwasanaethau cymdeithasol oedolion (Chwefror 2024)**

| Awdurdod lleol | Absenoldeb heb ei gynllunio |
|---|---:|
| Conwy | 7 |
| Sir Ddinbych | 10 |
| Sir y Fflint | 6 |
| Gwynedd | 10 |
| Ynys Môn | 8 |
| Wrecsam | 8 |

[7] Sir y Fflint 0%, Ynys Môn 5%, Conwy 6%, Sir Ddinbych 6%, Gwynedd 9%, a Wrecsam 45%. Nid oes unrhyw ddata wedi bod ar gael ers mis Mehefin 2023.

| Awdurdod lleol | Absenoldeb heb ei gynllunio |
|---|---|
| **Cyfartaledd Cymru Gyfan** | **7.9** |

Ffynhonnell yr Arddangosyn: Llywodraeth Cymru

51 Mae Gwynedd a Wrecsam wedi profi cyfraddau uwch o absenoldeb heb ei gynllunio a swyddi gwag o'i gymharu â'r sefyllfa ar gyfer Cymru gyfan, gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn cario lefel sylweddol o swyddi gwag am sawl mis. Mae'r defnydd o staff asiantaeth ar draws y chwe awdurdod yn isel fel rheol (gan amrywio rhwng 1% a 3%), o'i gymharu â'r sefyllfa ar gyfer Cymru gyfan o 2%. Nodwyd y gyfradd uchaf yng Nghonwy ar 3%. Ar gyfer y chwe mis blaenorol, roedd y gyfradd staff asiantaeth yng Ngwynedd wedi bod yn sylweddol uwch, gan amrywio rhwng 11% a 21% y mis, sy'n adlewyrchu'r cyfraddau swyddi gwag ac absenoldeb heb ei gynllunio y mae'r Cyngor wedi bod yn eu profi.

52 Gall cyfyngiadau ar gapasiti'r gweithlu effeithio'n anffafriol ar y broses o gynllunio ar gyfer rhyddhau cleifion. Er enghraifft, mae pwysau ar niferoedd nyrsio ar wardiau'n golygu y cyfyngir ar yr amser sydd ar gael i gynllunio'n iawn ar gyfer rhyddhau, a all gael ei waethygu gan ddefnyddio staff asiantaeth sy'n llai cyfarwydd â phrosesau rhyddhau, neu pan nad yw gweithwyr cymdeithasol yn gallu cwblhau asesiadau ar gyfer claf mewn ffordd amserol. Fel a amlygir yn **Arddangosyn 3**, mae oedi gydag asesiadau ar y cyd rhwng staff iechyd a gofal cymdeithasol ac asesiadau clinigol gan staff ysbyty'n rhai o'r prif resymau dros oedi cyn rhyddhau cleifion ledled y rhanbarth, gan roi cyfrif am 28% o'r holl achosion o oedi. Mae oedi wrth aros i weithiwr gofal cymdeithasol gael ei ddyrannu ac wrth aros am asesiadau gofal cymdeithasol yn rhoi cyfrif am 20.7% pellach o'r holl achosion o oedi o ran y sefyllfa ym mis Chwefror 2024. Mae **Arddangosyn 7** yn nodi i ba raddau y gall gwasanaethau cymdeithasol oedolion ar draws y chwe awdurdod lleol ateb y galw am asesiadau. Mae nifer y cleifion sy'n aros am asesiad gofal cymdeithasol yn yr ysbyty'n rhoi cyfrif am gyfran fach o gyfanswm y bobl sy'n aros am asesiad.

**Arddangosyn 7: nifer yr asesiadau gofal cymdeithasol a gwblhawyd ac sy'n aros i gael eu cwblhau am bob 100,000 o'r boblogaeth y mis (Chwefror 2024)**

| Awdurdod lleol | Asesiadau gofal cymdeithasol a gwblhawyd | Oedolion yn aros am asesiad gofal cymdeithasol | % y rhai sy'n aros am asesiad gofal cymdeithasol sydd yn yr ysbyty |
|---|---|---|---|
| Conwy | 252 | 48 | 4.3% |
| Sir Ddinbych | 263 | 178 | 0.7% |
| Sir y Fflint | 195 | 136 | 1.8% |
| Gwynedd | 148 | 153 | 1.3% |

| Awdurdod lleol | Asesiadau gofal cymdeithasol a gwblhawyd | Oedolion yn aros am asesiad gofal cymdeithasol | % y rhai sy'n aros am asesiad gofal cymdeithasol sydd yn yr ysbyty |
|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 298 | 226 | 3.1% |
| Wrecsam | 152 | - | - |
| **Cyfartaledd Cymru Gyfan** | **250** | **125** | **8.7%** |

Ffynhonnell yr Arddangosyn: Llywodraeth Cymru

* Sylwer – ni chyflwynwyd unrhyw ddata gan Wrecsam ar gyfer oedolion yn aros.

53 Mae rhestrau aros ar gyfer asesiadau gofal cymdeithasol yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru gyfan yn Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd ac Ynys Môn, ac ymhlith yr uchaf yng Nghymru. Mae'r rhestr aros yng Ngwynedd yn debyg neu'n uwch na nifer yr asesiadau a gwblhawyd gan awgrymu bod yr awdurdod lleol hwnnw'n ei chael yn anodd dygymod â'r galw am asesiadau gofal cymdeithasol.

54 I'r gwrthwyneb, er bod Wrecsam wedi profi nifer sylweddol o swyddi gwag, roedd nifer yr asesiadau gofal cymdeithasol a gwblhawyd yn ystod haf 2023 gyda'r uchaf yng Nghymru (sef oddeutu 470 y mis), gan ostwng islaw'r cyfartaledd ar gyfer Cymru gyfan i fod rhwng 100 a 150 bob mis. I ymdrin â phrinderau staff, mae Cyngor Wrecsam wedi defnyddio micro-fentrau i roi cymorth iddo ddarparu gwasanaethau cymdeithasol, a chwblhau asesiadau gofal cymdeithasol.

## Capasiti'r sector gofal

55 Canfuom **fod capasiti dan bwysau ar draws y sector gofal cymdeithasol, yn enwedig mewn perthynas â'r ddarpariaeth gofal cartref.**

56 Gall argaeledd pecynnau gofal cartref a llety cartref gofal preswyl hirdymor fod yn ffactorau allweddol sy'n achosi oedi cyn rhyddhau cleifion ledled Cymru. O fewn y rhanbarth, yn ystod ein cyfweliadau clywsom dro ar ôl tro am effaith prinderau staff gofal cartref ledled Gogledd Cymru gydag achosion o oedi cyn dechrau pecynnau gofal cartref newydd yn rhoi cyfrif am 10.5% o'r holl achosion o oedi ym mis Chwefror 2024. Roedd aros i gartref preswyl fod ar gael yn rhoi cyfrif am 8.6% pellach o'r holl achosion o oedi. Mae **Arddangosyn 8** yn nodi nifer yr oedolion sy'n cael cymorth yn y sector gofal ac i ba raddau y ceir arosiadau am ddarpariaeth. Mae **Atodiad 4** yn nodi perfformiad o ran rhestrau aros ar gyfer asesiadau gofal cymdeithasol a phecynnau gofal ers mis Tachwedd 2022.

**Arddangosyn 8: nifer yr oedolion sy'n cael pecynnau a lleoliadau gofal (ac yn aros amdanynt) am bob 100,000 o'r boblogaeth y mis (Chwefror 2024)**

| Awdurdod lleol | Gofal cartref[8] yn cael ei dderbyn (arosiadau) | Ailalluogi[9] yn cael ei dderbyn (arosiadau) | Llety cartref gofal hirdymor[10] yn cael ei dderbyn (arosiadau) |
|---|---|---|---|
| Conwy | 896 (39) | 56 (4) | 677 (5) |
| Sir Ddinbych | 534 (66) | 17 (0) | 625 (9) |
| Sir y Fflint | 615 (42) | 34 (18) | 494 (-) |
| Gwynedd | 796 (123) | 73 (-) | 752 (27) |
| Ynys Môn | 585 (42) | 18 (7) | 536 (19) |
| Wrecsam | 388 (21) | 28 (21) | 497 (-) |
| **Cyfartaledd Cymru Gyfan** | **665 (34)** | **46 (9)** | **536 (11)** |

Ffynhonnell yr Arddangosyn: Llywodraeth Cymru

57 Mae'r Arddangosyn yn dangos anawsterau wrth baru'r galw a chapasiti ar gyfer gwasanaethau gofal cartref a/neu ailalluogi ar draws y rhan fwyaf o awdurdodau lleol yng Ngogledd Cymru, gyda nifer y bobl sy'n aros am ofal yn uwch na'r sefyllfa dros Gymru gyfan ar gyfer rhai o'r gwasanaethau hyn. I'r gwrthwyneb, mae nifer yr oedolion sy'n cael gwasanaethau cartref yn ardaloedd cynghorau Conwy, Sir Ddinbych a Gwynedd, a gwasanaethau ailalluogi yng Nghonwy, yn uwch na'r cyfartaledd dros Gymru gyfan, gan awgrymu bod argaeledd gwasanaethau gofal cartref ac ailalluogi'n fwy yn yr ardaloedd hyn nag mewn rhannau eraill o Gymru. Mae'r ddarpariaeth mewn cartrefi gofal hirdymor hefyd yn uwch yn ardaloedd cynghorau Conwy, Sir Ddinbych, Gwynedd ac Ynys Môn.

58 Mae **Arddangosyn 9** yn dynodi i ba raddau y mae oriau gofal cartref heb eu llenwi, a nifer cyfartalog yr oriau a ddarperir fesul oedolyn.

**Arddangosyn 9: oriau gofal cartref heb eu llenwi ac oriau cyfartalog o ofal cartref a ddarperir fesul oedolyn, am bob 100,000 o'r boblogaeth (Chwefror 2024)**

| Awdurdod lleol | Oriau o ofal cartref yn aros i gael eu llenwi | Oriau cyfartalog fesul oedolyn sy'n cael gofal cartref |
|---|---|---|
| Conwy | 525 | 11.2 |
| Sir Ddinbych | 875 | 9.5 |
| Sir y Fflint | 481 | 12.7 |

[8] Mae'n cynnwys gofal cartref a ddarperir ac a gomisiynwyd gan awdurdodau lleol.
[9] Mae'n cynnwys gwasanaethau ailalluogi a ddarperir gan awdurdodau lleol.
[10] Mae'n cynnwys llety cartref gofal hirdymor a gomisiynwyd gan awdurdodau lleol.

| Awdurdod lleol | Oriau o ofal cartref yn aros i gael eu llenwi | Oriau cyfartalog fesul oedolyn sy’n cael gofal cartref |
|---|---|---|
| Gwynedd | 1001 | 10.9 |
| Ynys Môn | 356 | 12.7 |
| Wrecsam | 165 | 15.3 |
| **Cyfartaledd Cymru Gyfan** | **353** | **13.2** |

Ffynhonnell yr Arddangosyn: Llywodraeth Cymru

59 Mae’r data’n awgrymu darlun cymysg iawn ledled y rhanbarth gyda Wrecsam yn nodi lefel isel o oriau o ofal cartref yn aros i gael eu llenwi, tra bo nifer yr oriau o ofal cartref heb eu llenwi yng Nghonwy, Sir Ddinbych, Gwynedd ac Ynys Môn gyda’r uchaf yng Nghymru. Yn ddiddorol, mae nifer cyfartalog yr oriau o ofal cartref a ddarperir fesul unigolyn yn ardaloedd rhai cynghorau’n llai na’r cyfartaledd ar gyfer Cymru gyfan. Er y gall hyn adlewyrchu’r gofal y mae ar bobl ei angen, gallai hefyd fod yn arwydd o broblemau gyda'r cyflenwad o ofal cartref gyda chynghorau o bosibl yn ceisio gwasgaru adnodd cyfyngedig yn denau i sicrhau bod cymaint â phosibl o bobl yn cael eu cefnogi â gofal cartref ond nid ar y lefel y mae arnynt ei hangen o anghenraid.

## Proses rhyddhau cleifion

60 Canfuom **fod gwendidau mewn ymarfer a dogfennaeth sy’n ymwneud â chynllunio ar gyfer rhyddhau cleifion a waethygir gan ddull rhy bwyllog a diffyg hyfforddiant a chanllawiau y cytunwyd arnynt ar y cyd.**

61 Mae cynllunio’n dda ar gyfer rhyddhau cleifion yn ddibynnol ar gyfathrebu a chydlynu da ar draws gwahanol grwpiau proffesiynol, gan roi ystyriaeth i ryddhau cyn gynted ag y mae claf yn dod i sylw gwasanaethau. Mae cynllunio’n dda ar gyfer rhyddhau cleifion hefyd yn cael ei hwyluso trwy fod â phrosesau wedi’u dogfennu’n glir a gaiff eu rhannu gyda’r holl staff sy’n rhan o’r broses i hybu dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth am y gwahanol rolau yn y broses ryddhau.

62 Roedd ein hadolygiad o nodiadau achosion cleifion mewn ysbytai’n awgrymu nad oedd cynllunio ar gyfer eu rhyddhau’n cael ei ystyried yn ddigon cynnar yn nhaith cleifion ac nad yw’n cael ei ddogfennu’n dda. Canfuom amrywiaeth yn ansawdd a chyflawnrwydd dogfennaeth rhyddhau cleifion rhwng clinigwyr, wardiau a safleoedd. Roedd gwybodaeth atgyfeirio rhwng arbenigaethau, yn ogystal â ffurflenni ‘Beth sy’n Bwysig i Mi’[11] yn anghyflawn i raddau helaeth neu’n absennol yn y nodiadau a adolygwyd gennym. Roedd nodiadau ffisiotherapi a therapi

[11] Mae ‘Beth sy’n Bwysig i Mi’ yn cyfeirio at sgyrsiau y mae disgwyl i staff ysbytai eu cael gyda chleifion. Mae’r sgyrsiau wedi’u strwythuro o gwmpas yr hyn y gall cleifion ei wneud drostynt hwy eu hunain a’r hyn y bydd arnynt angen cymorth parhaus gydag ef.

galwedigaethol yn gynhwysfawr a thrylwyr fel rheol, a gwelsom rai nodiadau wedi cael eu cwblhau gan weithwyr cymdeithasol.

63 Fodd bynnag, roedd dogfennaeth bellach yr oeddem yn disgwyl ei gweld, er enghraifft atgyfeiriadau Pwynt Mynediad Sengl neu asesiadau nyrsio, yn brin. Nid oedd yr un o'r nodiadau achosion a adolygwyd gennym yn cynnwys adran wedi'i chwblhau o fewn ffurflen yr Adran Achosion Brys a oedd yn rhoi syniad o ddyddiad rhyddhau a ragwelir. Er ein bod yn cydnabod efallai nad yw wastad yn bosibl rhoi'r syniad yma ar adeg mor gynnar, mae'n arfer da bod rhyddhau'n cael ei ystyried cyn gynted ag y mae claf yn dod wyneb yn wyneb â gwasanaethau ysbyty, ac yn enwedig ar yr adeg pan ystyrir ei bod yn briodol derbyn y claf i'r ysbyty.

64 I raddau helaeth, roedd cyfeiriadau at gynllunio ar gyfer rhyddhau mewn nodiadau achosion yn digwydd dim ond unwaith yr ystyrid bod y claf yn ffit yn feddygol i gael ei ryddhau, ac yn aml roeddent yn syml yn cyfeirio at 'gynllunio ar gyfer rhyddhau' gyda diffyg manylion o ran yr hyn yr oedd ei angen ar gyfer gofal parhaus (os o gwbl) neu beth oedd dymuniadau'r cleifion a'u teuluoedd. Er bod nodiadau achosion yn dangos peth tystiolaeth gyfyngedig o drafod gyda chleifion a theuluoedd, mae defnydd annigonol o sgyrsiau 'Beth sy'n Bwysig i Mi' yn rhwystr i gynllunio ar gyfer rhyddhau gan bod penderfyniadau ar gyfer gofal parhaus yn cael eu gwneud heb wybodaeth uniongyrchol gan y claf na'u teulu am eu galluoedd, cyfyngiadau, ac amgylchedd cartref arferol. Roedd llai na hanner y nodiadau achosion a adolygwyd yn dangos bod y teulu'n cael gwybodaeth gyson am gynllun gofal y claf.


65 Nid oedd achosion o oedi cyn rhyddhau wedi'u disgrifio'n dda mewn nodiadau achosion, gan fod yn gyfyngedig yn aml i gyfeiriadau at fod yn 'aros am becynnau gofal' neu'n 'aros am gyfarfodydd budd pennaf'[12] heb ddisgrifio'r hyn a oedd yn achosi'r oedi a phryd y disgwylid i gamau nesaf ddigwydd. Nid oedd canlyniadau cyfarfodydd budd pennaf wedi'u cofnodi'n ffurfiol yn y nodiadau achosion a adolygwyd gennym ni. Unwaith yr oedd prosesau rhyddhau'n mynd rhagddynt, anaml yr oedd trefniadau logistaidd yn cael eu disgrifio, h.y. pa un a oedd angen cludiant ar y claf neu a oedd eu meddyginiaethau wedi cael eu paratoi. Mewn rhai achosion, roedd hi'n aneglur i ble'r oedd y claf wedi cael ei ryddhau (h.y. diffyg ffurflen trosglwyddo gofal neu nodiadau ar y ffurflen).

66 Fe wnaethom nodi hefyd bod rhyddhau cleifion o'r ysbyty'n dal i fod yn weithgaredd sy'n digwydd ar ddiwrnodau yn ystod yr wythnos gan mwyaf, gydag ychydig iawn o brosesau rhyddhau'n digwydd ar benwythnosau (a'r rheiny'n bennaf yn rhai syml) oherwydd patrymau gweithio staff mewn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Fe wnaeth adolygiad o ddata ynghylch yr holl gleifion a ryddhawyd o safleoedd acíwt y Bwrdd Iechyd ym mis Hydref 2022 ddynodi mai dim ond 7.2% o gleifion a ryddhawyd ar y penwythnos (**Arddangosyn 10**). Mae

[12] Cyfarfod amlddisgyblaethol a drefnir i wneud penderfyniad penodol ynglŷn â gofal / triniaeth claf, pan ystyrir nad oes gan rywun y galluedd meddyliol i wneud y penderfyniad hwnnw drostynt eu hunain, yw Cyfarfod Budd Pennaf.

hyn i’w briodoli i batrymau gwaith staff mewn gwasanaethau cymdeithasol ac mewn lleoliadau ysbytai, yn ogystal â’r ffaith na wnaiff y rhan fwyaf o ddarparwyr dderbyn cleifion dros y penwythnos. Yn ystod yr wythnos, mae prosesau rhyddhau’n cyrraedd eu hanterth ar ddydd Gwener ar draws yr holl safleoedd acíwt, gyda'r gyfran uchaf o brosesau rhyddhau ar ddydd Gwener yn digwydd yn Ysbyty Maelor. Mae rhyddhau cleifion ar ddydd Gwener yn creu risg efallai na fydd gwasanaethau cymorth angenrheidiol gartref ar gael dros gyfnod y penwythnos.

**Arddangosyn 10: diwrnod rhyddhau’r holl gleifion a ryddhawyd o safleoedd ysbytai acíwt ym mis Hydref 2022, fel canran o gyfanswm y prosesau rhyddhau[13]**




Ffynhonnell: Archwilio Cymru

67 Pan siaradom ni gyda’r rhai a oedd yn rhan o’r broses ryddhau o safbwynt iechyd a gofal cymdeithasol, canfuom wahaniaethau yn eu canfyddiad ynghylch sut y dylai’r broses ryddhau weithio. Y prif fater o bwys oedd gwahaniaethau barn ynglŷn â phryd y dylai atgyfeiriadau ddigwydd fel rhan o gynllunio ar gyfer rhyddhau gyda phryderon gan weithwyr cymdeithasol eu bod naill ai’n cael eu hysbysu’n rhy gynnar neu’n rhy hwyr i hwyluso llif effeithiol ac amserol allan o’r ysbyty. Mae’r safbwyntiau gwahanol hyn yn achosi oedi pellach cyn rhyddhau cleifion yn ogystal â rhai tensiynau yn y perthnasoedd gweithio rhwng gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol.

[13] Nid yw’n cynnwys cleifion a fu farw.

68 Siaradodd staff wardiau hefyd am ddiwylliant o amharodrwydd i dderbyn risg, lle'r oedd staff, yn enwedig meddygon iau, yn gyndyn o ddatgan bod claf yn ffit yn feddygol a'i ryddhau am eu bod yn ofni efallai na fyddai'r claf yn ymdopi cystal gartref. Er y gallai staff fod yn gweithredu allan o garedigrwydd, efallai nad ydynt yn gweithredu er budd pennaf claf. Mae cadw cleifion yn yr ysbyty am yn hwy nag y mae arnynt ei angen yn feddygol yn cael effaith negyddol ar brofiad a deilliannau cleifion yn ogystal â llif ehangach cleifion yn yr ysbyty. Er bod llawer y siaradom ni gyda hwy'n cydnabod yr effaith negyddol y mae oedi cyn rhyddhau'n ei chael ar annibyniaeth a llesiant cleifion, ceir cyndynrwydd parhaus i gymryd risgiau ystyriol ac i gydnabod yr effaith gynyddol y mae oedi cyn rhyddhau'n ei chael ar lif cleifion a'r system ehangach.

69 Ledled Gogledd Cymru, canfuom wahaniaethau mewn trefniadau rhwng safleoedd ysbytai a rhwng awdurdodau lleol mewn perthynas â rhyddhau cleifion, gan gynnwys sut y gwneir atgyfeiriadau a chan bwy. Mae defnydd uchel o staff asiantaeth a banc yn y Bwrdd Iechyd yn ychwanegu at her cynnal dull cyson a chlir. Er y gallai hyfforddiant a chanllawiau fynd i'r afael ag anghysonderau, yn ystod ein gwaith maes dywedodd staff nad oeddent wedi cael hyfforddiant i gynllunio ar gyfer rhyddhau cleifion. Cyflwynodd y Bwrdd Iechyd hyfforddiant Rhyddhau ar Sail Meini Prawf yn ddiweddar, ond mae ymwybyddiaeth a chyfraddau cwblhau'n amrywio ar draws safleoedd. Mae gweithdrefn weithredu safonol ddrafft ar gyfer rhyddhau cleifion yn bodoli, a honno'n nodi cyfrifoldebau a safonau, ond ymddengys yn anorffenedig, ac nid oedd llawer o staff y Bwrdd Iechyd yn ymwybodol o'i bodolaeth.

70 Yn 2018, fe gyflwynodd Llywodraeth Cymru'r model Rhyddhau i Adfer ac yna Asesu (D2RA), sydd wedi'i fwriadu i gynorthwyo pobl i adfer gartref cyn cael eu hasesu ar gyfer unrhyw angen parhaus, gan felly leihau hyd eu harhosiad yn yr ysbyty. Cafodd y broses o roi'r model ar waith ei chyflymu yn ystod y pandemig, ac ers hynny mae Llywodraeth Cymru wedi cefnogi rhanbarthau ag arian ychwanegol i wreiddio D2RA ymhellach.

71 Mae data cenedlaethol a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru yn gynnar yn 2023 yn dynodi bod y Bwrdd Iechyd yn cael anhawster rhyddhau cleifion i leoliad priodol ar gyfer eu hasesiad, fel a ffefrir gan D2RA. Roedd data ar gyfer y Bwrdd Iechyd yn dangos bod ganddo gyfrannau uchel o gleifion yn aros i drosglwyddo i lwybrau D2RA. Roedd llawer o'r cleifion hyn yn aros i gael eu rhyddhau i'w cartrefi eu hunain, sy'n dynodi oedi oherwydd ffactorau fel aros am asesiadau gofal cymdeithasol, pecynnau gofal neu addasiadau i'w tai. Mae cleifion eraill yn aros i gael eu rhyddhau i welyau camu-i-lawr ond nid ydynt yn gallu gadael yr ysbyty oherwydd diffyg argaeledd gwelyau o'r fath yn y gymuned.

72 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi bod yn disgwyl am ganllawiau cenedlaethol wedi'u diweddaru ynghylch D2RA cyn datblygu ei ganllawiau ei hun a ddylai ei gynorthwyo i wreiddio'r polisi ymhellach. Fodd bynnag, o ystyried rhai o'r anghysonderau mewn dealltwriaeth rhwng gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol am sut y dylai'r broses ryddhau weithio, byddai canllawiau a hyfforddiant y cytunwyd arnynt ar y cyd yn helpu i sefydlu ac egluro disgwyliadau cyffredin i'w

defnyddio'n ymarferol gan yr holl staff sy'n rhan o'r broses o gynllunio ar gyfer rhyddhau cleifion. Cyhoeddwyd y canllawiau cenedlaethol ym mis Rhagfyr 2023.

## Rhannu gwybodaeth

73 Canfuom **fod anawsterau gyda chyfathrebu a rhannu gwybodaeth ar draws ffiniau sefydliadol yn ychwanegu at oedi.**

74 Bydd yn ofynnol fel rheol i weithwyr proffesiynol o fewn a rhwng sefydliadau rannu gwybodaeth am y claf i hwyluso trefniadau rhyddhau priodol a gofal parhaus, yn enwedig lle mae gan y claf anghenion mwy cymhleth. Yn ystod ein gwaith maes canfuom, er bod trefniadau i rannu gwybodaeth rhwng staff o fewn ysbytai'n gwella, bod rhannu gwybodaeth rhwng sefydliadau i'w weld fel pe bai'n rhwystr sylweddol.

75 Ar gyfer cleifion sy'n debygol o fod angen cymorth gofal cymdeithasol parhaus, nid yw'r broses lle mae'r ysbytai'n rhannu gwybodaeth gyda gwasanaethau cymdeithasol yn dechrau'n ddigon cynnar yn dilyn eu derbyn i'r ysbyty. Yn y rhan fwyaf o achosion, ni fydd gweithwyr cymdeithasol yn dod yn ymwybodol o glaf nes ystyrir bod y claf yn ddigon iach yn feddygol i adael yr ysbyty. O ystyried y cyfyngiadau ar gapasiti gofal cymdeithasol a ddisgrifir yn **Arddangosyn 6**, a'r achosion o oedi gydag asesiadau gofal cymdeithasol (**Arddangosyn 7**), mae'n bwysig bod atgyfeiriadau'n cael eu gwneud mor gynnar â phosibl yn nerbyniad cleifion i alluogi cynllunio ac asesu effeithiol i ddigwydd. Unwaith y mae atgyfeiriad wedi cael ei wneud, dywedodd staff wardiau a gwasanaethau cymdeithasol ei bod hi'n anodd cysylltu â'i gilydd i drafod achos y claf, sydd hefyd yn gallu arwain at oedi. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi rhoi Hyb Gartref yn Gyntaf ar waith i helpu i gydlynu atgyfeiriadau, ond nid yw hwn wedi cael ei wreiddio'n llawn nac yn cael ei ddefnyddio'n gyson eto.

76 Nid yw systemau sy'n dal gwybodaeth am gleifion wedi cael eu cysylltu â'r holl staff sy'n rhan o roi gofal i gleifion unigol nac wedi cael eu gwneud yn weladwy iddynt gan nad yw amryw systemau TG wedi bod yn hygyrch ar draws sefydliadau. Er bod pedwar o'r awdurdodau lleol wedi rhoi System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru[14] ar waith, nid yw Cyngor Sir Ddinbych na Chyngor Sir y Fflint wedi gwneud hynny ac er bod y Bwrdd Iechyd wedi ymrwymo i ddefnyddio'r system ac wedi cynnal cynllun peilot bach yn y timau nyrsio a therapi cymunedol, nid yw wedi rhoi'r system ar waith ar draws y Bwrdd Iechyd eto. Er ein bod wedi gweld effaith gadarnhaol y system STREAM[15] sydd ar waith ar rai wardiau mewn ysbytai, nid

[14] System unigol a chofnod electronig a rennir i gael eu defnyddio ar draws ystod eang o wasanaethau oedolion a phlant yw System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS). Y syniad yw y dylai pob un o'r 22 o awdurdodau lleol a'r saith bwrdd iechyd ei rhoi ar waith, gyda diwedd 2018 wedi'i nodi fel y dyddiad y bwriadwyd iddi gael ei rhoi ar waith i ddechrau.

[15] Offeryn i gynllunio'n glinigol ar gyfer rhyddhau cleifion sy'n cefnogi llif cleifion mewn lleoliad acíwt yw STREAM.

oedd yr wybodaeth ddefnyddiol hon am gleifion yn gallu cael ei rhannu'n fwy eang ar draws y sefydliad na chyda phartneriaid allweddol, megis y gwasanaethau cymdeithasol. Ers amser ein hadolygiad ni, rydym wedi clywed bod y timau Gartref yn Gyntaf wedi dechrau cael mynediad uniongyrchol at systemau cleient yr awdurdod lleol i'w gwneud yn bosibl rhannu gwybodaeth yn well.

77 Mae gwasanaethau a gaiff eu rhedeg gan y sector gwirfoddol ynghyd â gwasanaethau cymunedol yn hanfodol i gefnogi'r broses ryddhau ar gyfer llawer o gleifion. Mae felly'n arfer gorau bod y gwasanaethau hyn yn cael eu cynnwys yn y broses o gynllunio ar gyfer rhyddhau cleifion. Roedd dealltwriaeth am dirwedd gwasanaethau y tu allan i ysbytai'n fratiog serch hynny, gan olygu bod cyfleoedd i ryddhau cleifion yn gynharach gyda chymorth gan wasanaethau y tu hwnt i ofal cymdeithasol yn cael eu colli. Canfuom fod mynediad at wybodaeth am wasanaethau cymunedol a gwirfoddol yn aml yn amrywiol a bod diffyg hyfforddiant i ddarparu gwybodaeth ar gyfer staff perthnasol**.**

# Pa gamau gweithredu sy'n cael eu cymryd?

78 Mae'r adran hon yn ystyried y camau gweithredu sy'n cael eu cymryd gan y sefydliadau statudol, gan gynnwys trwy'r BPRh i wella llif cleifion allan o'r ysbyty.

## Cynlluniau strategol a gweithredol

79 Canfuom **fod gwella llif cleifion yn nodwedd allweddol ar gynlluniau ar draws y partneriaid sy'n cyd-fynd â chwe nod Llywodraeth Cymru ar gyfer gofal brys ac argyfwng.**

80 Fe wnaethom adolygu cynlluniau perthnasol gan y Bwrdd Iechyd ac awdurdodau lleol mewn perthynas â chynllunio ar gyfer rhyddhau cleifion a gofal heb ei drefnu a gofal cymdeithasol yn fwy cyffredinol. Canfuom fod cynlluniau yn y rhanbarth yn adlewyrchu dealltwriaeth dda am yr heriau sy'n effeithio ar lif cleifion allan o'r ysbyty. Mae cynlluniau hefyd yn adlewyrchu ymrwymiad partneriaid i ddatrys rhai o'r heriau allweddol sy'n gysylltiedig â llif megis bylchau yn y gweithlu ac argaeledd cyfyngedig cartrefi gofal. Mae cynlluniau wedi'u goleuo gan ddata ac amcanestyniadau o'r galw, yn enwedig o'r Asesiad o Anghenion Poblogaeth Gogledd Cymru, a ddatblygwyd gan y BPRh. Yn bwysig, mae cynlluniau'n adlewyrchu gofynion cynllunio allweddol Llywodraeth Cymru, megis y chwe nod ar gyfer gofal brys ac argyfwng, yn ogystal â her 1,000 o welyau Llywodraeth Cymru[16].

[16] Ym mis Gorffennaf 2022 fe osododd y Gweinidog Iechyd a Gofal Cymdeithasol her i Fyrddau Iechyd ac Awdurdodau Lleol sefydlu 1,000 o welyau ychwanegol neu'r hyn sy'n cyfateb iddynt i roi cymorth i ryddhau cleifion yn amserol https://www.llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-diweddariad-ar-y-rhaglen-chwe-nod-ar-gyfer-gofal-brys-gofal-mewn-argyfwng

81 Mae rhaglen y chwe nod ar gyfer gofal brys ac argyfwng, a gyflwynwyd yn 2021, yn cynnwys dau nod sy'n gysylltiedig â gwella prosesau rhyddhau cleifion: 'nod pump – darparu'r gofal a'r ymarfer rhyddhau gorau posibl i'r claf ar ôl iddo gael ei dderbyn i'r ysbyty', a 'nod chwech: dull 'gartref yn gyntaf' a lleihau'r risg o orfod mynd yn ôl i'r ysbyty'. Cafodd rhaglen gofal brys ac argyfwng bresennol y Bwrdd Iechyd ei hailfframio yn 2022 i gyd-fynd â rhaglen y chwe nod. Mae cynllun y Bwrdd Iechyd yn cynnwys amrywiaeth o gynlluniau sy'n cyd-fynd â'r chwe nod. Er enghraifft, ymrwymiad i gynyddu'r defnydd o'r lolfa ryddhau, gan gynnwys datblygu lolfa ryddhau saith-diwrnod. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn rhoi blaenoriaeth i roi'r system STREAM ar waith ar draws pob ward i fynd ati'n gyson i gipio camau gweithredu yng ngofal cleifion i hwyluso'r broses o'u rhyddhau, yn ogystal â rhoi'r Fframwaith Llif Delfrydol ar waith, gan gynnwys gwreiddio egwyddorion llif cleifion SAFER[17] ar draws y Bwrdd Iechyd.

82 Mae cynllun rhanbarthol Gogledd Cymru 2023-28 yn nodi egwyddorion, deilliannau a blaenoriaethau lefel uchel ar gyfer gweithio'n rhanbarthol ar draws gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yng Ngogledd Cymru, yn seiliedig ar yr Asesiad o Anghenion y Boblogaeth. Er nad yw'r cynllun yn trafod materion mewn perthynas â'r llif allan o'r ysbyty'n uniongyrchol, ymhlith ei flaenoriaethau allweddol mae cydweithio i gefnogi pobl gartref, yn ogystal ag ymdrin ag effaith recriwtio a chadw yn y gweithlu gofal cymdeithasol ehangach ar ofalwyr di-dâl. Mae'n adnabod bod partneriaid yn ymrwymedig i ymdrin â'r heriau hyn trwy'r strwythur BPRh.

83 Yn ein gwaith maes, fe wnaethom archwilio cynllun gaeaf y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2022-23, sy'n cyd-fynd â'i raglen gofal brys ac argyfwng. Fodd bynnag, roedd rhai o elfennau'r cynllun wedi'u bwriadu i wella arferion rheolaidd yn hytrach nag ymdrin ag ymchwydd yn y galw. Mae enghreifftiau'n cynnwys safonau proffesiynol mewnol a gweithdrefn weithredu safonol ar gyfer cleifion sy'n ffit yn feddygol. Cymeradwywyd y cynllun gan bartneriaid trwy'r BPRh ym mis Rhagfyr 2022, a allai fod wedi cyfyngu ar ei effaith o ran rheoli'r galw ar gyfer y gaeaf. Roedd cynlluniau gaeaf awdurdodau lleol yn adlewyrchu gweithgareddau'r Bwrdd Iechyd, gan bwysleisio'r cynnydd mewn capasiti a darparu dewisiadau eraill ar gyfer cleifion sy'n barod i adael yr ysbyty. Roedd yr holl gynlluniau'n cydnabod yr angen i hybu capasiti staff i ymdopi â'r galw.

84 Roedd heriau o ran recriwtio a chadw'n cael eu cydnabod gan bartneriaid fel ffactorau sy'n cael effaith uniongyrchol ar ddarparu gwasanaethau, yn enwedig mewn perthynas ag argaeledd gofal cartref a lleoliadau mewn cartrefi gofal. Roedd Strategaeth Gweithlu Gofal Cymdeithasol ac Iechyd Cymunedol Gogledd Cymru 2018-21 wedi'i bwriadu i ddatblygu dull cydgysylltiedig o ymdrin â heriau a chyfleoedd mewn perthynas â'r gweithlu. Ar adeg ein gwaith maes, roedd Bwrdd Gweithlu'r BPRh yn gweithio i ddiweddaru'r strategaeth. Roedd y rhan fwyaf o'r

[17] Ceir rhagor o wybodaeth am y model SAFER trwy https://www.adss.cymru/cy/blog/view/patient-flow/fileAttachment

cynlluniau, strategaethau ac adroddiadau a adolygwyd gennym yn cyfeirio at heriau o ran y gweithlu ac roedd cryn dipyn o weithgarwch yn canolbwyntio ar y rheiny gan gynnwys prosiectau a gyllidir gan y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol (RIF) (megis Camu i Waith[18]) a gweithgarwch a gomisiynwyd gan lawer o grwpiau a byrddau ledled y rhanbarth.

## Gweithio mewn partneriaeth

85 Canfuom **fod partneriaid yn cydweithio, yn strategol ac yn weithredol, i wella llif cleifion; fodd bynnag, mae pwysau ar y system yn creu diwylliant di-fudd o fwrw bai rhwng y gwahanol bartïon sy'n rhan o gynllunio ar gyfer rhyddhau cleifion.**

86 Mae strwythur a threfn lywodraethu BPRh Gogledd Cymru'n gymhleth oherwydd bod nifer uchel o grwpiau'n i'w cael yn lleol ac yn isranbarthol. Fodd bynnag, mae adborth gan aelodau'n awgrymu ei fod wedi llwyddo i hwyluso trefniadau cydweithio ar ffrydiau gwaith penodol a threfniadau ar gyfer gweithio mewn partneriaeth yn fwy cyffredinol. Yn fwy diweddar mae newidiadau i'r aelodaeth yn dilyn trosiant ymhlith uwch arweinwyr, yn enwedig o fewn y Bwrdd Iechyd, wedi creu her o ran egluro atebolrwydd a meithrin perthnasoedd

87 Mae cofnodion y BPRh, a'r Grŵp Arweinwyr sy'n adrodd wrth y BPRh, yn adlewyrchu trafodaethau rheolaidd ynglŷn â phwysau gofal brys ac argyfwng a chynllunio ar gyfer rhyddhau cleifion, gan gynnwys diweddariadau rheolaidd am yr her 1,000 o welyau tuag at ddiwedd 2022. Y gofyniad gan Lywodraeth Cymru oedd bod Gogledd Cymru'n cyflenwi 243 o'r 1,000 o welyau erbyn mis Hydref 2022. Ym mis Tachwedd 2022, adroddodd y rhanbarth ei fod wedi adnabod 203 o welyau. Mae'r gwelyau hyn yn dal i fod ar gael ar gyfer 2023-24.

88 Canfuom dystiolaeth bod partneriaid yn buddsoddi eu hamser yn helaeth mewn gweithgarwch i hwyluso llif amserol, yn enwedig mewn ysbytai. Dangosodd ein harsylwadau ni ar y broses ryddhau yn ysbytai acíwt y Bwrdd Iechyd fod sylw ac adnoddau sylweddol yn cael eu neilltuo i reoli llif ar draws y safle. Fe arsylwom ni ar lu o gyfarfodydd gweithredol gan gynnwys cyfarfodydd rheolwyr safle ac ymweliadau â wardiau sy'n digwydd sawl gwaith y dydd ac sy'n cynnwys ystod eang o weithwyr proffesiynol. Ceir cyfarfodydd amrywiol rhwng y Bwrdd Iechyd ac awdurdodau lleol hefyd, naill ai'n feunyddiol neu sawl gwaith yr wythnos i uwchgyfeirio a rheoli achosion o oedi cyn rhyddhau cleifion ym mhob un o'r ardaloedd.

89 Yn weithredol, roedd perthnasoedd rhwng staff iechyd a gofal cymdeithasol i'w gweld fel pe baent yn amrywio. Oherwydd y nifer uchel o brosesau rhyddhau cymhleth sy'n golygu bod angen mewnbwn gan weithwyr proffesiynol amrywiol,

[18] Prosiect cydweithredol rhwng gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol i ddarparu hyfforddiant a lleoliadau i unigolion sydd â diddordeb mewn dilyn gyrfa ym maes gofal gyda'r nod eu bod yn gallu sicrhau cyflogaeth a dod yn rhan o'r gweithlu gofal yw Camu i Waith. https://www.northwalescollaborative.wales/step-into-work/

mae staff iechyd a gofal cymdeithasol mewn cyswllt rheolaidd iawn â’i gilydd, ac fe ddywedodd nifer wrthym ni fod ganddynt berthnasoedd gweithio cadarnhaol. Fodd bynnag, roedd hi’n amlwg o’n gwaith maes, wrth i broblemau gydag oedi cyn rhyddhau ddod yn fwy acíwt, bod tensiwn cynyddol mewn perthnasoedd gweithio. Siaradodd staff am y pwysau y maent yn eu hwynebu i anfon cleifion o’r ysbyty, a sut y gall hynny arwain at ddiwylliant o fwrw bai rhwng gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol lle ystyrir mai gweithiwr proffesiynol arall neu eu sefydliad hwy sy’n achosi’r oedi. Mae’r diwylliant hwn o fwrw bai yn ei dro’n creu amddiffynoldeb a all gael effaith negyddol ar sut y mae staff yn rhyngweithio â’i gilydd yn ystod y broses ryddhau.

## Defnyddio cyllid

90 Canfuom **fod adnoddau ariannol yn cael eu defnyddio i wella’r broses o gynllunio ar gyfer rhyddhau cleifion; fodd bynnag, ceir rhai heriau gyda chynlluniau a gyllidir gan y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol ac angen ar y cyfan i adrodd yn fwy eglur pa un a yw’r mentrau a gyllidwyd wedi cael yr effaith a ddymunir.**

91 Mae’r rhanbarth yn defnyddio’r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol (RIF) ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol i gefnogi cynlluniau sydd wedi’u bwriadu i wella’r modd y cynllunnir ar gyfer rhyddhau cleifion. Cronfa 5-mlynedd gan Lywodraeth Cymru i gyflawni rhaglen o newid rhwng mis Ebrill 2022 a mis Mawrth 2027 yw’r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol. Nod y gronfa yw sefydlu a phrif ffrydio o leiaf chwe model cenedlaethol newydd o ofal integredig i ddarparu gwasanaeth di-dor ac effeithiol ar gyfer pobl Cymru. Mae dau’n cynnwys cyswllt amlwg â gwella llif allan o’r ysbyty ar gyfer cleifion, sef: Gwasanaethau Gartref o’r Ysbyty; ac Atebion Seiliedig ar Lety. Ceir disgwyliad eglur yng nghanllawiau’r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol bod partneriaid yn darparu cyllid cyfatebol hyd at 50% ar gyfer prosiectau erbyn diwedd blwyddyn 5, gyda chyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer pob prosiect yn meinhau bob blwyddyn i alluogi prosiectau llwyddiannus i ddod yn fusnes fel arfer.

92 Ar gyfer 2022-23, cafodd y rhanbarth £32.5 miliwn o gyllid y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol ar y cyfan, yr oedd peth ohono wedi’i glustnodi ar lefel genedlaethol i gefnogi gwasanaethau penodol gan gynnwys dementia. Fe gymeradwyodd y BPRh ei raglen ranbarthol dan y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol ar gyfer 2022-23 gyda dyraniadau i bob un o’r chwe model o ofal. Roedd rhaglen 2022-23 yn cynnwys 40 o gynlluniau rhanbarthol a oedd yn cyd-fynd â’r chwe model o ofal. Roedd pum cynllun yn ymwneud â Gwasanaethau Gartref o’r Ysbyty a gafodd fuddsoddiad o dros £5.6 miliwn (gan gynnwys cyllid cyfatebol o £261,650) ac roedd pedwar cynllun yn ymwneud ag Atebion Seiliedig ar Lety gyda buddsoddiad o dros £1 miliwn (gan gynnwys cyllid cyfatebol o £40,739). Roedd nifer fach o brosiectau hefyd yn parhau â gwaith blaenorol i Sicrhau’r Maint Cywir ar gyfer Gwasanaethau

Cymunedol[19] a oedd wedi'i fwriadu i ailbennu cydbwysedd darpariaeth gofal i ateb y galw. Yn ôl adroddiad diwedd blwyddyn y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol ar gyfer 2022-23, cyfrannodd partneriaid £13 miliwn ar y cyfan at gynlluniau trwy gyllid cyfatebol.

93 Er eu bod wedi'u cymeradwyo gan y BPRh, canfuom rai cyfyngiadau ar y cynlluniau a ddefnyddiodd gyllid y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol yn 2022-23. Er enghraifft, gellid ystyried bod rhai cynlluniau'n wasanaethau craidd yn hytrach na phrosiectau arloesol newydd, megis gwelyau camu-i-fyny, timau adnoddau cymunedol a thimau pwynt mynediad sengl. Canfuom hefyd enghreifftiau o gynlluniau a gyllidwyd yn 2022-23 a oedd wedi cael eu cyllido'n flaenorol gan y Gronfa Gofal Integredig ragflaenol yn 2017-18. Mae treiglo cynlluniau'n barhaus yn cyfyngu ar y potensial i gyflwyno cynlluniau newydd, arloesol i reoli'r galw'n well. Eglurodd y rhai y siaradom ni gyda hwy fod y gofyniad i ddarparu cyllid cyfatebol ar gyfer prosiectau'n gallu creu cyndynrwydd i ymrwymo i brosiectau newydd y bydd yn ofynnol darparu cyllid cyfatebol ar eu cyfer yn y dyfodol. Yng nghyd-destun yr anawsterau ariannol parhaus sy'n wynebu'r partneriaid yn y rhanbarth, maent yn ei chael yn fwyfwy anodd ymrwymo i wariant yn y dyfodol trwy brosiectau newydd y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol.

94 Mae'r rhanbarth yn cyflwyno gwybodaeth ariannol am sut y mae'n rheoli'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol i Lywodraeth Cymru bob chwarter ac yn cyflwyno adroddiad ar y sefyllfa ddiweddaraf i gyfarfodydd ei BPRh. Yn nhrydydd chwarter 2022-23, roedd y rhanbarth yn nodi llithriant o £4.4 miliwn. Yn ystod ein gwaith maes clywsom ei bod hi'n aml yn cymryd yn hwy i sefydlu prosiect unwaith y mae wedi cael ei gymeradwyo, gan gynnwys amser i recriwtio, a all achosi oedi. Clywsom hefyd nad oes gan bartneriaid broses y cytunwyd arni i ddefnyddio llithriant, nad yw'n cael sylw yn y canllawiau cenedlaethol. Mae rhai'n ceisio llithriant i gefnogi capasiti cymunedol yn gyffredinol, tra bo eraill yn dymuno bod llithriant yn cael ei ailddyrannu i brosiectau llwyddiannus presennol er mwyn iddynt gael eu hehangu. Mae diffyg proses y cytunwyd arni'n gallu achosi tensiwn yn y rhanbarth a'r risg nad yw arian yn cael ei ddefnyddio at y dibenion bwriadedig.

95 Mae Adroddiad Blynyddol y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol yn cyflwyno data ar berfformiad ar gyfer cynlluniau, gan gynnwys effaith gadarnhaol dau gynllun Gartref o'r Ysbyty ar 215 o unigolion[20]. Er bod y rhanbarth wedi casglu dros 70 o astudiaethau achos sy'n amlygu effaith gadarnhaol cynlluniau a gyllidwyd ar unigolion, nid yw'r rhain wedi'u cynnwys mewn adroddiadau cyhoeddus a gyflwynwyd i'r BPRh na chyrff sy'n bartneriaid. Byddai ymgorffori'r astudiaethau achos hyn yn gwella tryloywder. Hefyd, mae ymdrechion cydweithredol rhwng y

[19] Mae sicrhau'r maint cywir ar gyfer gwasanaethau cymunedol yn cyfeirio at waith i sicrhau bod gwasanaethau'n cyd-fynd â'r gwir alw. Ei nod yw sicrhau bod pobl yn cael eu hasesu yn y lleoliadau mwyaf priodol, bod asesiadau'n amserol ac yn canolbwyntio ar ddeilliannau i gyflawni'r deilliannau gorau i unigolion a chynyddu llif cleifion i'r eithaf.

[20] Rhoddodd un cynllun gymorth cadarnhaol i 146 o unigolion, a rhoddodd un cynllun gymorth cadarnhaol i 69 o unigolion.

Bwrdd Iechyd ac awdurdodau lleol y tu allan i strwythur y BPRh yn canolbwyntio ar ddatrysiadau ar y cyd ar gyfer capasiti, megis cartrefi gofal a gyllidir gan y GIG a gweithlu integredig. Fodd bynnag, ychydig iawn o adrodd ar gynnydd ac effaith y mentrau hyn sy'n digwydd o fewn cyrff sy'n bartneriaid.

## Craffu a sicrwydd

96 Canfuom **er bod monitro rheolaidd yn digwydd o fewn sefydliadau unigol, nad oes gan bartneriaid drefniadau i oruchwylio llif cleifion ar draws y system iechyd a gofal yn ei chyfanrwydd, gwreiddio gwersi a bod diffyg ffocws mewn papurau ar effaith gweithgarwch.**

97 Fe wnaethom adolygu lefel yr wybodaeth y mae pwyllgorau, Byrddau a Chabinetau partneriaid yn ei chael mewn perthynas â llif allan o'r ysbyty a chanfuom ddarlun cymysg. Mae'r Bwrdd Iechyd yn monitro nifer o ddangosyddion sy'n ymwneud â gofal brys ac argyfwng a llif cleifion trwy'r Bwrdd ac, yn fwy penodol, y Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth, gan gynnwys:

- % yr ymatebion argyfwng gan ambiwlansys i alwadau wedi'u categoreiddio'n 'goch' sy'n cyrraedd o fewn (hyd at a chan gynnwys) wyth munud;
- yr amser canolrifol rhwng cyrhaeddiad claf mewn adran achosion brys a brysbennu gan glinigydd;
- % y cleifion sy'n treulio llai na phedair awr mewn unedau achosion brys rhwng yr adeg y maent yn cyrraedd a'r adeg y cânt eu derbyn, eu trosglwyddo neu eu rhyddhau;
- nifer y cleifion a dreuliodd 12 awr neu fwy mewn unedau achosion brys rhwng yr adeg y gwnaethant gyrraedd a'r adeg y cawsant eu derbyn, eu trosglwyddo neu eu rhyddhau; a
- nifer y trosglwyddiadau o ambiwlansys sy'n cymryd mwy nag un awr.

98 Mae sylwebaeth mewn adroddiadau ar berfformiad i'r Pwyllgor yn darparu gwybodaeth ychwanegol, megis niferoedd y cleifion sy'n ffit yn feddygol ac sy'n dal i fod mewn gwely yn yr ysbyty. Fodd bynnag, anaml y mae adroddiadau'n trafod y gwahaniaethau rhwng safleoedd ysbytai. Mae adroddiadau'n disgrifio'r camau gweithredu sydd ar waith ar draws llwybrau i geisio gwella llif cleifion. Mae'r Pwyllgor hefyd yn cael diweddariadau ar Ofal Brys ac Argyfwng sy'n cynnwys camau gweithredu dan raglen y chwe nod. Cafodd Pwyllgor Partneriaethau, Pobl ac Iechyd y Boblogaeth y Bwrdd Iechyd ddiweddariadau rheolaidd am waith y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn ystod 2022. Fodd bynnag, yn dilyn ymddiswyddiad holl Aelodau Annibynnol blaenorol y Bwrdd Iechyd ym mis Chwefror 2023, ataliwyd y pwyllgor, gan olygu na chafodd adroddiadau rheolaidd ar weithgareddau'r BPRh eu cyflwyno i'r Bwrdd Iechyd o fis Mawrth 2023. Mae Pwyllgor Cynllunio, Iechyd y Boblogaeth a Phartneriaethau newydd wedi cael ei sefydlu ers hynny ac fe gwrddodd am y tro cyntaf ym mis Ionawr.

99 Mae papurau y mae pwyllgorau a Chabinetau yn y chwe awdurdod lleol yn eu cael yn cynnwys nifer o gyfeiriadau at heriau sy'n gysylltiedig ag agweddau ar lif cleifion

sy'n ymwneud â gofal cymdeithasol. Mae adroddiadau ar berfformiad yn cynnwys dangosyddion gan gynnwys niferoedd yr oedolion sydd naill ai'n cael mynediad at wasanaethau neu'n aros i gael mynediad at wasanaethau. Yn fwy cyffredinol, mae papurau yn aml yn cyfeirio at heriau mewn perthynas â diffyg darpariaeth gofal cartref a chartrefi gofal. Canfuom rai achosion o drafodaeth ym mhapurau awdurdodau lleol am yr effaith ehangach y mae diffyg darpariaeth yn y sector gofal cymdeithasol ac mewn cartrefi gofal yn ei chael ar lif cleifion. Er enghraifft, roedd cyfarfodydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ym mis Gorffennaf a mis Medi 2023 yn cynnwys diweddariadau am yr heriau a oedd yn cael eu hwynebu gan Adran Achosion Brys Ysbyty Maelor a'r gweithgarwch a oedd ar y gweill i liniaru'r heriau hynny, gan gynnwys gwaith ar y cyd rhwng y Cyngor a'r Bwrdd Iechyd.

100 Yn gyffredinol, serch hynny, mae ffocws partneriaid ar fetrigau a gweithgarwch o fewn eu cylch gwaith hwy, yn hytrach nag ar y darlun ehangach o ran y system gyfan. Hefyd, er y canfuom dystiolaeth mewn rhai awdurdodau lleol eu bod yn monitro gwariant mewn perthynas â'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol yn weithredol, ni chanfuom ryw lawer o dystiolaeth o adrodd ar gynlluniau'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol a'u heffaith o fewn Bwrdd, Cabinet neu bwyllgorau awdurdodau lleol a'r Bwrdd Iechyd.

101 Mae'r BPRh yn cael diweddariadau rheolaidd am gynnydd y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol a phapurau bob hyn a hyn ar feysydd sy'n flaenoriaeth allweddol ond nid yw'n cael adroddiadau rheolaidd ar berfformiad gweithredol. Byddai ystyried adroddiadau ar berfformiad yn werthfawr er mwyn deall effaith gweithgareddau'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol ar fynd i'r afael â heriau hirsefydlog o ran perfformiad.

102 Er bod gan bartneriaid fel rheol fecanweithiau i gofnodi risgiau allweddol mewn perthynas ag oedi cyn rhyddhau cleifion, roedd y rhain eto ar wahân i'w gilydd i raddau helaeth. Mae risgiau mewn perthynas â llif cleifion gwael yn cael eu dogfennu o fewn y Bwrdd Iechyd gyda phedair risg haen un wedi'u nodi ar y Gofrestr Risgiau Corfforaethol, sy'n cynnwys risg mewn perthynas â bregusrwydd y sector annibynnol, lle mae gweithgarwch a gyflawnir gyda partneriaid trwy'r BPRh yn cael ei restru. Ceir dwy risg strategol ar Fframwaith Sicrwydd Bwrdd y Bwrdd Iechyd hefyd mewn perthynas ag effaith llif gwael ar ansawdd gofal, diogelwch a phrofiad cleifion. Mae heriau sy'n ymwneud ag agweddau megis bregusrwydd y farchnad cartrefi gofal ac anhawster recriwtio ym maes gofal cartref wedi'u dogfennu ar gofrestrau risgiau corfforaethol y rhan fwyaf o awdurdodau lleol. Nid oes mecanwaith ar hyn o bryd i bartneriaid gytuno ar risgiau cyffredin mewn perthynas ag oedi cyn rhyddhau cleifion a monitro'r risgiau hynny. Mae hyn yn wendid gan ei fod yn ysgogi partneriaid i ganolbwyntio ar liniaru eu risgiau eu hunain heb ystyried sut y gallai eu lliniaru effeithio ar bartneriaid.

103 Yn unol â rhaglen y chwe nod ar gyfer gofal brys ac argyfwng, mae'r Bwrdd Iechyd wedi sefydlu'r Bwrdd Gofal Brys ac Argyfwng, sy'n cael ei gadeirio gan y

Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau[21]. Mae'r Bwrdd yma'n goruchwylio gwaith i gynllunio a chyflawni rhaglen y chwe nod, gan amcanu at sicrhau cynllunio cydweithredol a chydberchnogaeth ymhlith rhanddeiliaid ar draws y system. Mae'n disodli grŵp blaenorol rhaglen y chwe nod a oedd yn bodoli cyn ein gwaith maes ni. Er i ni gyflwyno sawl cais i'r Bwrdd Iechyd, ni fu modd i ni arsylwi ar y Bwrdd na chael unrhyw ddogfennaeth gysylltiedig a chan hynny, nid oeddem yn gallu adolygu ei effeithiolrwydd.

104 Mae mecanweithiau amrywiol yn bodoli o fewn a rhwng partneriaid i fonitro ac uwchgyfeirio materion sy'n gysylltiedig â chynllunio ar gyfer rhyddhau cleifion, ond mae eu heffeithiolrwydd yn amrywio. Mae gwasanaethau cymdeithasol, yn arbennig, yn defnyddio ffurflenni 'Rhyddhau Anffafriol' i amlygu prosesau rhyddhau a reolwyd yn wael. Fodd bynnag, yn Ysbyty Glan Clwyd, roedd diffyg ymateb i'r ffurflenni hyn, gan godi pryderon ynghylch yr atebolrwydd am gynllunio ar gyfer rhyddhau cleifion ar lefel gorfforaethol ar gyfer yr ysbyty hwn. Nid ymatebodd y Bwrdd Iechyd i'n ceisiadau i egluro'r trefniadau ar gyfer prosesu'r cwynion hyn na'r atebolrwydd am gynllunio ar gyfer rhyddhau cleifion ar lefel gorfforaethol ar gyfer yr ysbyty hwn.

105 Cymerodd y rhanbarth ran mewn nifer o Ddigwyddiadau Rhyddhau Amlasiantaeth (MADE) yn 2022, a oedd wedi'u bwriadu i wella llif cleifion trwy ddarparu amser wedi'i ddiogelu i bartneriaid fynd ati ar y cyd i gydnabod heriau a chytuno i ymdrin â hwy'n gydweithredol. Fe wnaeth y rhai y siaradom ni gyda hwy fel rhan o'n gwaith maes ddynodi bod trafodaethau MADE yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr i bartneriaid gydweithio a chanolbwyntio eu hadnoddau ar sicrhau bod prosesau rhyddhau effeithiol yn digwydd. Fodd bynnag, canfuom na weithredir yn gyson ar feysydd i'w gwella a adnabyddir trwy'r digwyddiadau hyn, gyda phwysau ar wasanaethau fel pe baent yn achosi i bartneriaid barhau ag ymddygiadau ac arferion presennol. Dangoswyd hyn trwy adroddiadau o MADE mis Tachwedd 2022 a oedd yn ailadrodd nifer o faterion allweddol a godwyd ym mis Medi 2022 ond na weithredwyd arnynt, megis yr angen i ddefnyddio dull rhyddhau amlasiantaeth ac i fonitro perfformiad yn barhaus.

## Beth yn fwy ellir ei wneud?

106 Er bod cydnabyddiaeth glir gan bartneriaid rhanbarthol i'r problemau sy'n gysylltiedig â rhyddhau cleifion, dyhead i'w datrys, y ffocws cywir mewn strategaethau a chynlluniau, a'u bod yn defnyddio cynlluniau â chyllid wedi'i dargedu, nid yw'r un o'r rhain wedi ysgogi unrhyw welliant sylweddol na chynaliadwy yn y sefyllfa ar y cyfan. Mae ein gwaith ni wedi canfod bod nifer o gamau gweithredu pellach y gellid eu cymryd a fyddai'n helpu i wella llif amserol ac effeithiol allan o'r ysbyty ledled y rhanbarth ac yn lleihau rhai o'r heriau a brofir ar hyn o bryd gan y system iechyd a gofal cymdeithasol. Caiff y camau gweithredu

[21] Y Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Clinigol gynt

hyn eu harchwilio yn yr arddangosyn canlynol ac maent yn cyd-fynd â'r argymhellion a nodir yn gynharach yn yr adroddiad.

**Arddangosyn 11: camau gweithredu pellach ar gyfer partneriaid i helpu i fynd i'r afael â'r heriau ar gyfer llif cleifion allan o'r ysbyty**

| | |
|---|---|
| **Gwella hyfforddiant a chanllawiau** | Mae bod â mynediad at **ganllawiau y cytunwyd arnynt ar y cyd** sy'n nodi'n glir y rolau a chyfrifoldebau, a'r disgwyliadau o ran pryd a sut y dylai staff rannu gwybodaeth, gan gynnwys atgyfeiriadau, yn allweddol i sicrhau cysondeb rhwng wardiau, ysbytai, proffesiynau a sefydliadau.<br><br>Mae cynnig **rhaglen hyfforddi gynhwysfawr** i bawb sy'n gysylltiedig â llif cleifion, gan gynnwys staff banc ac asiantaeth yn ogystal â dechreuwyr newydd, hefyd yn sicrhau bod canllawiau'n cael eu gwreiddio. |
| **Gwella'r modd y cydymffurfir â pholisïau a chanllawiau** | Bod â **chylch archwilio rheolaidd** i asesu effeithiolrwydd polisïau a chanllawiau rhyddhau cleifion a chysondeb o ran y modd y'u rhoddir ar waith, gan gynnwys cymhwyso D2RA.<br><br>Mae **cyfyngu i'r eithaf ar atgyfeiriadau lluosog** a sicrhau mai dim ond y bobl hynny y mae arnynt angen y gwasanaeth sydd ar restrau aros ar gyfer ailalluogi, pecynnau gofal cartref a gofal preswyl yn lleihau i'r eithaf yr aneffeithlonrwydd sy'n deillio o atgyfeiriadau amhriodol ac yn darparu deilliannau gwell i gleifion. |
| **Sicrhau diogelwch cleifion wrth iddynt aros am becynnau gofal** | Bod â **phrosesau cyfathrebu clir** i hysbysu staff y gwasanaethau cymdeithasol pan gaiff cleifion eu rhyddhau i leihau i'r eithaf y risgiau bod cleifion yn cael eu rhyddhau heb hysbysu gwasanaethau yn y gymuned.<br><br>Mae parhau i **gyfathrebu'n rheolaidd gyda chleifion** sy'n aros am becynnau gofal unwaith y maent wedi cael eu rhyddhau adref yn sicrhau bod cleifion yn ddiogel tra'u bod yn aros ac yn darparu deilliannau gwell. |
| **Gwella ansawdd gwybodaeth a'r** | Mae bod â gwell **dealltwriaeth am yr ystod o wasanaethau cymunedol** a allai gefnogi ryddhau effeithiol ac amserol a sut y gellir cael mynediad at y rhain, |

| | |
|---|---|
| **modd y caiff ei rhannu** | yn galluogi staff i wneud penderfyniadau mwy gwybodus wrth gynllunio ar gyfer rhyddhau cleifion.<br><br>Mae bod â **gwybodaeth eglur a chynhwysfawr** yn nodiadau achosion cleifion sy'n nodi'r camau gweithredu sy'n cael eu cymryd i gefnogi'r broses ryddhau yn ei gwneud yn bosibl bod â dealltwriaeth fwy eglur am yr hyn sy'n digwydd gyda chlaf ac mae o gymorth i gynllunio'n effeithiol ar gyfer rhyddhau gan yr holl weithwyr proffesiynol sy'n gysylltiedig â gofal cleifion tra'u bod yn yr ysbyty.<br><br>Mae bod â **systemau cydgysylltiedig** sy'n hygyrch i'r holl staff (ni waeth i ba sefydliad y maent yn perthyn) sy'n gysylltiedig â gofal cleifion unigol yn ei gwneud yn bosibl bod â dulliau cyfathrebu effeithiol ac effeithlon rhwng sefydliadau ac yn cefnogi llif effeithiol allan o'r ysbyty. |
| **Mynd i'r afael â bylchau allweddol mewn capasiti** | Byddai ystyried datrysiadau ar y cyd ar draws sectorau i **fynd i'r afael â bylchau allweddol** fel gofal cartref a gwasanaethau ailalluogi'n ei gwneud yn bosibl rhyddhau cleifion i'w cartref eu hunain yn fwy amserol. |
| **Cynyddu defnydd o'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol i'r Eithaf** | Mae'r arian rhanbarthol ychwanegol yn darparu cyfleoedd i ddatblygu **cynlluniau arloesol a thrawsnewidiol** a all roi cymorth i ryddhau cleifion yn effeithiol ac yn amserol. Mae'r cyfleoedd hyn yn cael eu colli pan fo'r gronfa'n cael ei defnyddio i gefnogi gwasanaethau craidd a ddylai gael eu prif ffrydio.<br><br>Mae bod â phrosesau eglur i **reoli llithriant yn arian y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol** yn galluogi prosesau penderfynu symlach a gefnogir gan yr holl bartneriaid.<br><br>Mae rhoi ystyriaeth reolaidd i **berfformiad gweithredol a chipio risgiau** ar lefel ranbarthol yn galluogi prosesau penderfynu mwy effeithiol ar draws partneriaid wrth ystyried sut orau i ddefnyddio'r cyllid rhanbarthol. |
| **Gwella goruchwyliaeth ac effaith** | Mae sicrhau bod yr holl fentrau a gyflawnir i gefnogi llif amserol ac effeithiol allan o'r ysbyty (o fewn y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a'r tu allan iddo) a'u heffeithiau cysylltiedig yn cael eu **coladu ac yr adroddir arnynt yn agored** yn cyfyngu i'r eithaf ar y risg o ddyblygu ac yn darparu tryloywder. |

| | |
|---|---|
| **Gwreiddio gwersi o gamau gweithredu i fynd i'r afael ag oedi cyn rhyddhau cleifion** | Mae **cynnwys amser ar ôl digwyddiadau dysgu** megis MADE i wreiddio gwersi mewn ymarfer o ddydd i ddydd yn cyfyngu i'r eithaf ar y risg o wynebu'r un heriau drosodd a throsodd ac yn gwella profiad a deilliannau cleifion.<br><br>Mae **digwyddiadau anffafriol neu bryderon** yn darparu cyfle i ddysgu o achosion pan fo pethau'n mynd o chwith mewn perthynas â chynllunio ar gyfer rhyddhau cleifion. Mae bod â phrosesau eglur i sicrhau yr hysbysir yn gyson am ddigwyddiadau anffafriol a phryderon, ynghyd ag ymatebion amserol, yn ei gwneud yn bosibl dysgu gwersi. |

# Atodiad 1

## Dulliau archwilio

Mae **Arddangosyn 12** yn nodi'r dulliau a ddefnyddiwyd gennym i gyflawni'r gwaith yma. Mae ein tystiolaeth yn gyfyngedig i'r wybodaeth a gafwyd trwy'r dulliau hyn.

**Arddangosyn 12: dulliau archwilio**

| Elfen o'r dulliau archwilio | Disgrifiad |
|---|---|
| Dogfennau | Fe wnaethom adolygu ystod o ddogfennau, gan gynnwys:<br>• Papurau Byrddau, Cabinetau a phwyllgorau<br>• Diweddariadau ar raglen y chwe nod a gofal brys ac argyfwng i bwyllgorau<br>• Cynlluniau gweithredol a strategol sy'n ymwneud â gofal brys ac argyfwng<br>• Papurau'r BPRh, gan gynnwys astudiaethau achos<br>• Gweithdrefn Weithredu Safonol i gynllunio ar gyfer rhyddhau cleifion<br>• Cofrestrau risgiau corfforaethol<br>• Adroddiadau MADE |
| Cyfweliadau | Fe wnaethom gyfweld â'r canlynol:<br>• Cyfarwyddwyr Ysbytai, Dwyrain a Chanolog<br>• Cyfarwyddwr Interim Cyflawni Rhanbarthol<br>• Cyfarwyddwr Rhaglen ar gyfer Gofal Brys ac Argyfwng<br>• Arweinydd Clinigol ar gyfer Gofal brys ac argyfwng<br>• Dirprwy Gyfarwyddwr Meddygol Gweithredol<br>• Rheolwr Cynllunio Busnes a Gwella<br>• Arweinydd y Bwrdd Iechyd ar gyfer gwaith gwella Ysbyty Glan Clwyd.<br>• Arweinydd y Bwrdd Iechyd ar gartrefi gofal<br>• Arweinwyr Gweithredol ar gyfer yr Adran Achosion Brys, Ysbyty Gwynedd, Ysbyty Glan Clwyd ac Ysbyty Maelor<br>• Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam<br>• Penaethiaid Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam<br>• Arweinydd ar ran y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol |

| Elfen o'r dulliau archwilio | Disgrifiad |
|---|---|
| | • Prif Swyddog Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru |
| Arsylwadau | Fe arsylwom ni ar y cyfarfod(ydd) canlynol:<br>• Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru<br>• Grŵp Arweinwyr Gogledd Cymru<br>• Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth y Bwrdd Iechyd<br>Fe arsylwom ni hefyd ar yr unigolyn/unigolion canlynol:<br>• Pennaeth Nyrsio a Rheolwr Safle, Ysbyty Gwynedd<br>• Chwiliwr Cynnydd a Swyddog yr Hyb Gartref yn Gyntaf, Ysbyty Maelor<br>• Rheolwr Safle a Swyddog Gartref yn Gyntaf, Ysbyty Glan Clwyd |
| Dadansoddi data | Fe wnaethom ddadansoddi'r data cenedlaethol canlynol:<br>• Set ddata fisol ar y gwasanaethau cymdeithasol a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru<br>• Set ddata fisol ar achosion o oedi cyn rhyddhau cleifion a gyflwynwyd i Weithrediaeth y GIG<br>• Data StatsCymru<br>• Dangosyddion y gwasanaeth ambiwlans<br>Fe wnaethom hefyd ddadansoddi data a ddarparwyd gan y Bwrdd Iechyd mewn perthynas â'r holl gleifion meddygaeth argyfwng a ryddhawyd ym mis Hydref 2022 gyda hyd arhosiad a oedd yn fwy na 21 diwrnod (heb gynnwys y rhai a fu farw) |
| Grwpiau ffocws | Fe gynhaliom ni grwpiau ffocws gyda gweithwyr cymdeithasol o ardal pob awdurdod lleol, ac eithrio Ynys Môn |
| Adolygu nodiadau achosion | Fe wnaethom adolygu sampl o 32 o nodiadau achosion mewn perthynas â chleifion meddygaeth argyfwng a ryddhawyd ym mis Hydref 2022 gyda hyd arhosiad a oedd yn fwy na 21 diwrnod (heb gynnwys y rhai a fu farw). |

# Atodiad 2

## Rhesymau dros oedi cyn rhyddhau cleifion

Mae'r arddangosyn hwn yn nodi'r rhesymau dros oedi cyn rhyddhau cleifion yn y Bwrdd Iechyd o'i gymharu â'r sefyllfa ledled Cymru gyfan.

**Arddangosyn 13: rhesymau dros oedi cyn rhyddhau cleifion fel canran o'r holl achosion o oedi**
**(Chwefror 2024)**

| Rheswm dros yr oedi | Canran lle bu oedi | Cyfartaledd Cymru Gyfan |
|---|---|---|
| Yn aros am asesiad ar y cyd | 15.7 | 9.0 |
| Yn aros i weithiwr cymdeithasol gael ei ddyrannu | 15.1 | 8.5 |
| Yn aros i asesiad clinigol gael ei gwblhau (nyrsio / gweithiwr proffesiynol perthynol i iechyd / meddygol / fferylliaeth) | 13.3 | 10.3 |
| Yn aros i becyn gofal cartref newydd ddechrau | 10.5 | 8.0 |
| Yn aros i asesiad gael ei gwblhau gan weithwyr gofal cymdeithasol | 5.6 | 15.7 |
| Yn aros nes bydd cartref nyrsio ar gael | 4.6 | 2.6 |
| Yn aros i reolwr cartref gofal preswyl ymweld ac asesu (Safon 3 preswyl) | 4.6 | 2.5 |
| Yn aros am argaeledd gofal preswyl Henoed Eiddil eu Meddwl | 4.3 | 2.3 |
| Yn aros am argaeledd cartref preswyl | 4.3 | 2.8 |
| Yn aros am becyn gofal ailalluogi | 3.1 | 3.0 |
| Yn aros i'r gwasanaeth iechyd gwblhau asesiad/darparu offer | 2.8 | 1.4 |
| Yn aros am argaeledd gofal nyrsio Henoed Eiddil eu Meddwl | 1.9 | 2.0 |
| Yn aros am benderfyniad ynghylch cyllid (gofal nyrsio a ariennir / gofal iechyd parhaus) | 1.5 | 1.5 |
| Yn aros i drefniadau gael eu cwblhau cyn lleoli | 0.9 | 3.5 |
| Yn aros am benderfyniad ynghylch cyllid | 0.9 | 0.8 |
| Yn aros i reolwr cartref gofal nyrsio ymweld ac asesu (Safon 3 preswyl) | 0.9 | 2.1 |
| Yn aros am argaeledd gwely arbenigol | 0.9 | 1.1 |
| Dim preswylfa addas | 0.9 | 2.3 |

DRAFT

| | | |
|---|---|---|
| Claf / teulu yn gwrthod symud i gam nesaf y gofal/ y broses ryddhau | 0.9 | 1.6 |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Sylwer: lle mae'r rhesymau dros yr oedi'n ymwneud â dau glaf neu lai, mae'r rhain wedi cael eu hepgor i leihau unrhyw risg o adnabod cleifion unigol.

## Pum prif reswm dros oedi cyn rhyddhau cleifion fesul awdurdod lleol

Mae'r arddangosion canlynol yn nodi'r pum prif reswm dros oedi cyn rhyddhau cleifion ar gyfer pob un o'r awdurdodau lleol o'i gymharu â'r sefyllfa ar draws y Bwrdd Iechyd a thros Gymru gyfan.

**Arddangosyn 14: pum prif reswm dros oedi cyn rhyddhau cleifion fel canran o'r holl achosion o oedi (Chwefror 2024) – Conwy**

| Rheswm dros yr oedi | Canran lle bu oedi | Cyfartaledd y Bwrdd Iechyd | Cyfartaledd Cymru gyfan |
|---|---|---|---|
| Yn aros i asesiad clinigol gael ei gwblhau (nyrsio / gweithiwr proffesiynol perthynol i iechyd / meddygol / fferylliaeth) | 25.5 | 13.3 | 10.3 |
| Yn aros i'r gwasanaeth iechyd gwblhau asesiad/darparu offer | 12.8 | 2.8 | 1.4 |
| Yn aros i reolwr cartref gofal preswyl ymweld ac asesu (Safon 3 preswyl) | 12.8 | 4.6 | 2.5 |
| Yn aros am asesiad ar y cyd | 8.5 | 15.7 | 9.0 |
| Yn aros i becyn gofal cartref newydd ddechrau | 6.4 | 10.5 | 8.0 |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

**Arddangosyn 15: pum prif[22] reswm dros oedi cyn rhyddhau cleifion fel canran o'r holl achosion o oedi (Chwefror 2024) – Sir Ddinbych**

| Rheswm dros yr oedi | Canran lle bu oedi | Cyfartaledd y Bwrdd Iechyd | Cyfartaledd Cymru gyfan |
|---|---|---|---|
| Yn aros am asesiad ar y cyd | 18.8 | 15.7 | 9.0 |
| Yn aros i reolwr cartref gofal preswyl ymweld ac asesu (Safon 3 preswyl) | 15.6 | 4.6 | 2.5 |

[22] Roedd pob rheswm arall yn ymwneud â dau glaf neu lai

| | | | |
|---|---|---|---|
| Yn aros i asesiad clinigol gael ei gwblhau (nyrsio / gweithiwr proffesiynol perthynol i iechyd / meddygol / fferylliaeth) | 12.5 | 13.3 | 10.3 |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

**Arddangosyn 16: pum prif reswm dros oedi cyn rhyddhau cleifion fel canran o'r holl achosion o oedi (Chwefror 2024) – Sir y Fflint**

| Rheswm dros yr oedi | Canran lle bu oedi | Cyfartaledd y Bwrdd Iechyd | Cyfartaledd Cymru gyfan |
|---|---|---|---|
| Yn aros i weithiwr cymdeithasol gael ei ddyrannu | 20.4 | 15.1 | 8.5 |
| Yn aros am asesiad ar y cyd | 18.5 | 15.7 | 9.0 |
| Yn aros i asesiad clinigol gael ei gwblhau (nyrsio / gweithiwr proffesiynol perthynol i iechyd / meddygol / fferylliaeth) | 16.7 | 13.3 | 10.3 |
| Yn aros i becyn gofal cartref newydd ddechrau | 11.1 | 10.5 | 8.0 |
| Yn aros i asesiad gael ei gwblhau gan weithwyr gofal cymdeithasol | 5.5 | 5.6 | 15.7 |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

**Arddangosyn 17: pum prif reswm dros oedi cyn rhyddhau cleifion fel canran o'r holl achosion o oedi (Chwefror 2024) – Gwynedd**

| Rheswm dros yr oedi | Canran lle bu oedi | Cyfartaledd y Bwrdd Iechyd | Cyfartaledd Cymru gyfan |
|---|---|---|---|
| Yn aros am asesiad ar y cyd | 15.7 | 15.7 | 9.0 |
| Yn aros i becyn gofal cartref newydd ddechrau | 15.7 | 10.5 | 8.0 |
| Yn aros nes bydd cartref nyrsio ar gael | 13.7 | 4.6 | 2.6 |
| Yn aros i weithiwr cymdeithasol gael ei ddyrannu | 9.8 | 15.1 | 8.5 |
| Yn aros am argaeledd gofal preswyl Henoed Eiddil eu Meddwl | 7.8 | 4.3 | 2.3 |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

**Arddangosyn 18: pum prif reswm dros oedi cyn rhyddhau cleifion fel canran o'r holl achosion o oedi (Chwefror 2024) – Ynys Môn**

| Rheswm dros yr oedi | Canran lle bu oedi | Cyfartaledd y Bwrdd Iechyd | Cyfartaledd Cymru gyfan |
|---|---|---|---|
| Yn aros am asesiad ar y cyd | 22.7 | 15.7 | 9.0 |
| Yn aros i weithiwr cymdeithasol gael ei ddyrannu | 18.2 | 15.1 | 8.5 |
| Yn aros i asesiad clinigol gael ei gwblhau (nyrsio / gweithiwr proffesiynol perthynol i iechyd / meddygol / fferylliaeth) | 11.4 | 13.3 | 10.3 |
| Yn aros i asesiad gael ei gwblhau gan weithwyr gofal cymdeithasol | 9.1 | 5.6 | 15.7 |
| Yn aros i becyn gofal cartref newydd ddechrau | 9.1 | 10.5 | 8.0 |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

**Arddangosyn 19: pum prif reswm dros oedi cyn rhyddhau cleifion fel canran o'r holl achosion o oedi (Chwefror 2024) – Wrecsam**

| Rheswm dros yr oedi | Canran lle bu oedi | Cyfartaledd y Bwrdd Iechyd | Cyfartaledd Cymru gyfan |
|---|---|---|---|
| Yn aros i weithiwr cymdeithasol gael ei ddyrannu | 21.6 | 15.1 | 8.5 |
| Yn aros am asesiad ar y cyd | 13.4 | 15.7 | 9.0 |
| Yn aros i asesiad clinigol gael ei gwblhau (nyrsio / gweithiwr proffesiynol perthynol i iechyd / meddygol / fferylliaeth) | 11.3 | 13.3 | 10.3 |
| Yn aros i becyn gofal cartref newydd ddechrau | 11.3 | 10.5 | 8.0 |
| Yn aros i asesiad gael ei gwblhau gan weithwyr gofal cymdeithasol | 6.2 | 5.6 | 15.7 |


Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

# Atodiad 3

## Perfformiad gofal brys ac argyfwng


Mae'r arddangosion canlynol yn nodi perfformiad y rhanbarth ar draws ystod o ddangosyddion perfformiad gofal brys ac argyfwng o'i gymharu â'r sefyllfa ledled Cymru ers mis Ebrill 2022.

**Arddangosyn 20: canran yr ymatebion argyfwng i alwadau coch yn cyrraedd o fewn (hyd at a chan gynnwys) 8 munud – targed cenedlaethol o 65%**





Ffynhonnell: Dangosyddion Gwasanaethau Ambiwlans

**Arddangosyn 21: amser ymateb canolrifol ar gyfer galwadau ambr (munudau) – 50fed ganradd – targed cenedlaethol o 20 munud**




Ffynhonnell: Dangosyddion Gwasanaethau Ambiwlans

**Arddangosyn 22: canran y trosglwyddiadau o ambiwlansys o fewn 15 munud mewn adran achosion brys fawr – targed cenedlaethol o 100%**





Ffynhonnell: Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru

**Arddangosyn 23: canran y trosglwyddiadau o ambiwlansys dros 1 awr – targed cenedlaethol o sero**





Ffynhonnell: Dangosyddion Gwasanaethau Ambiwlans

**Arddangosyn 24: cyfanswm yr oriau a gollwyd yn dilyn hysbysu i drosglwyddiad dros 15 munud**





Ffynhonnell: Dangosyddion Gwasanaethau Ambiwlans

**Arddangosyn 25: amser canolrifol (munudau) rhwng cyrraedd mewn adran achosion brys a brysbennu gan glinigydd) – targed cenedlaethol o ostyngiad dros 12 mis**





Ffynhonnell: StatsCymru

**Arddangosyn 26: Amser canolrifol (munudau) rhwng cyrraedd mewn adran achosion brys ac asesiad gan uwch benderfynydd clinigol – targed cenedlaethol o ostyngiad dros 12 mis**




Ffynhonnell: StatsCymru

**Arddangosyn 27: Canran y cleifion sy’n treulio llai na phedair awr mewn adran achosion brys fawr – targed cenedlaethol o 95%**





Ffynhonnell: StatsCymru

**Arddangosyn 28: Canran y cleifion sy’n treulio llai na 12 awr mewn adran achosion brys fawr – targed cenedlaethol o 100%**



Ffynhonnell: StatsCymru

**Arddangosyn 29: Canran o gyfanswm y dyddiau gwely argyfwng a gronnwyd gan bobl â hyd arhosiad o fwy na 21 diwrnod – targed cenedlaethol o ostyngiad dros 12 mis**





Ffynhonnell: StatsCymru

# Atodiad 5

## Arosiadau am asesiadau gofal cymdeithasol a phecynnau gofal


Mae'r arddangosion canlynol yn nodi perfformiad y rhanbarth gydag arosiadau am asesiad gofal cymdeithasol ac i gael ystod o becynnau gofal o'i gymharu â'r sefyllfa ledled Cymru ers mis Tachwedd 2022.

**Arddangosyn 30: nifer yr oedolion sy'n aros am asesiad gofal cymdeithasol (am bob 100,000 o'r boblogaeth)**





Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

**Arddangosyn 31: nifer yr oedolion sy'n aros am ofal cartref (am bob 100,000 o'r boblogaeth)**





Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

**Arddangosyn 32: nifer yr oedolion sy'n aros am wasanaeth ailalluogi (am bob 100,000 o'r boblogaeth)**




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

**Arddangosyn 33: nifer yr oedolion sy'n aros am lety cartref gofal hirdymor (am bob 100,000 o'r boblogaeth)**




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Archwilio Cymru
Audit Wales


Archwilio Cymru
1 Cwr y Ddinas, Stryd Tyndall
Caerdydd CF10 4BZ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost:
Gwefan: www.archwilio.cymru


We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

## Ymateb sefydliadol ar y cyd i'r argymhellion archwilio

| Argymhelliad | Ymateb sefydliadol | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| **Gwella hyfforddiant a chanllawiau**<br>A1 Dylai'r Bwrdd Iechyd, gan weithio gydag awdurdodau lleol, ddatblygu canllawiau y cytunwyd arnynt ar y cyd i ddarparu eglurder i'r holl staff ynglŷn â sut y dylai'r broses o gynllunio ar gyfer rhyddhau cleifion weithio ledled y rhanbarth. Dylai'r rhain fod yn seiliedig ar y canllawiau cenedlaethol a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2023 a dylent nodi rolau a chyfrifoldebau, a disgwyliadau, sydd wedi'u diffinio'n glir gan gynnwys pryd y dylid gwneud atgyfeiriadau ar gyfer gofal parhaus. | **Is-ranbarthol:**<br>Bydd y ddogfen ganllaw genedlaethol yn cael ei defnyddio i greu crynodeb o'r ystyriaethau allweddol. Bydd y crynodeb hwn yn darparu cyfeiriad at y ddogfen lawn ar-lein ac yn cyfeirio at gymorth a chanllawiau ychwanegol sydd ar gael ar gyfer amgylchiadau penodol megis pan fo Penderfyniadau Budd Pennaf yn ofynnol sydd wedi bod yn ffocws ar gyfer gweithgarwch diweddar. Bydd y canllawiau'n canolbwyntio ar y rheidrwydd i weithio'n effeithiol trwy Dimau Amlddisgyblaethol ac ar sail amlasiantaeth ac yn ymgorffori cyfeiriadau i roi cymorth i osgoi prosesau rhyddhau niweidiol.<br>Yn yr ardal ganolog bydd Cynghorau Sir Ddinbych, Conwy a Sir y Fflint a BIPBC yn cydweithio i ddatblygu canllawiau sy'n ymlynu wrth y canllawiau cenedlaethol, yn unol â Llif delfrydol cleifion. Bydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i unrhyw ganllawiau presennol a all fod ar waith ar draws BIPBC i gefnogi cysondeb ar draws y Bwrdd Iechyd o ran adrodd ar oedi gyda llwybrau gofal..<br>Bydd Cyngor Sir Ynys Môn, Cyngor Gwynedd a Gorllewin BIPBC yn datblygu canllawiau o'r fath ymhellach gan ymlynu wrth y canllawiau cenedlaethol, yn dilyn ystyried canllawiau presennol a all fod ar waith mewn rhannau eraill o ogledd Cymru. Gan adeiladu ar drefniadau presennol bydd yr Awdurdodau Lleol a'r Bwrdd Iechyd yn rhannu'r holl | Gorffennaf 2024 | Rheolwr Trawsnewid Gwasanaethau Cymunedol, Cymuned Iechyd Integredig y Dwyrain. |

| Argymhelliad | Ymateb sefydliadol | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| | ganllawiau newydd ar drosglwyddo gofal o ysbytai i'r cartref. Bydd hyn yn rhan annatod o'r datblygiad mewn ymateb i A1 uchod. | | |
| A2 Dylai'r Bwrdd Iechyd ac awdurdodau lleol sicrhau bod prosesau ar waith i gyfleu canllawiau ynghylch cynllunio ar gyfer rhyddhau cleifion i'r holl staff perthnasol mewn gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, gan gynnwys y rhai sy'n gweithio dros dro, gyda hynny'n cael ei ategu gan raglen barhaus o hyfforddiant diweddaru a hyfforddiant sefydlu i staff newydd. | **Is-ranbarthol:**<br>Bydd dogfen ganllaw ardal y Dwyrain y cyfeirir ati mewn perthynas ag A1:<br>• Yn cael ei dosbarthu i'r holl weithwyr cymdeithasol sy'n rhoi cymorth i gynllunio ar gyfer rhyddhau yn Wrecsam a Sir y Fflint<br>• Yn cael ei hymgorffori mewn trafodaethau dychwelyd i'r gwaith, goruchwyliaeth a dulliau rheoli eraill i sicrhau bod gwybodaeth aelodau'r tîm yn seiliedig ar y canllawiau diweddaraf.<br>• Bydd cyfeiriadau at y canllawiau mewn gwybodaeth sefydlu a bwletinau i staff a dogfennau tebyg.<br>• Bydd arweinwyr Gartref yn Gyntaf yn rhoi negeseuon atgoffa rheolaidd i'r holl aelodau allweddol o staff yn ysbytai Ardal y Dwyrain sy'n cefnogi ac yn arwain ar gynllunio ar gyfer rhyddhau.<br>• Bydd cyfleoedd yn cael eu harchwilio i gynnwys y canllawiau yn y rhaglen hyfforddi i'r holl staff gan gynnwys timau ehangach megis Diogelu a Chomisiynu. | O fis Awst / Medi 2024 | Uwch Reolwr Oedolion CSyFf,<br>Penaethiaid Gwasanaethau Pobl Hŷn CBSW,<br>Cyfarwyddwyr Cysylltiol, Gwasanaethau Cymunedol Dwyrain BIPBC |

| Argymhelliad | Ymateb sefydliadol | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| | Gan adeiladu ar drefniadau presennol a'r rhai a nodwyd yn flaenorol, bydd yr Awdurdodau Lleol (Dwyrain, Canol a Gorllewin) a'r Bwrdd Iechyd yn rhannu'r holl ganllawiau newydd ar drosglwyddo gofal o ysbytai i'r cartref. Bydd hyn yn rhan annatod o'r datblygiad mewn ymateb i A1 uchod. | | |
| **Gwella'r modd y cydymffurfir â pholisïau a chanllawiau**<br>A3 Dylai'r Bwrdd Iechyd wreiddio cylch archwilio rheolaidd i asesu effeithiolrwydd polisïau a chanllawiau ynghylch rhyddhau cleifion a chysondeb o ran y modd y'u rhoddir ar waith, gan gynnwys cymhwyso D2RA. | **Bwrdd Iechyd:**<br>Mae polisi diwygiedig drafft BIPBC ar Ryddhau o'r Ysbyty wedi cael ei ddatblygu i ddisodli gofynion rhyddhau yn ystod Covid.<br>Bydd y polisi drafft diwygiedig yn cael ei gyflwyno trwy broses lywodraethu'r Bwrdd Iechyd ar gyfer ei gymeradwyo, a bydd hyn yn cynnwys cyfnod ymgynghori ar wefan BIPBC a chymeradwyaeth gan bwyllgor perthnasol yn y Bwrdd Iechyd.<br>Mae dogfennaeth ategol arall gan gynnwys Canllawiau ar Ryddhau o Ddewis ac yn Gyndyn a rhyddhau dan Arweiniad Meini Prawf yn cael ei hadolygu hefyd fel rhan o'r adolygiad hwn o ddogfennau ryddhau.<br>Fel rhan o'r polisi rhyddhau bydd cylch archwilio'n cael ei gytuno a'i roi ar waith | Medi 2024<br><br>Rhagfyr 2024 | Cyfarwyddwr Cynorthwyol Dros Dro – Cymorth Cartrefi Gofal a Chomisiynu GIP |
| A4 Dylai'r Bwrdd Iechyd sefydlu rheolaethau i atal staff rhag ychwanegu cleifion at restrau aros lluosog, megis ar gyfer ailalluogi, | **Bwrdd Iechyd:**<br>Fel rhan o'r cynllun Archwilio D2RA, Rheolwyr i sefydlu polisi trosfwaol ffurfiol neu Weithdrefn Weithredu Safonol i | Rhagfyr 2024 | Cyfarwyddwr Cynorthwyol Dros Dro – Cymorth |

| Argymhelliad | Ymateb sefydliadol | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| pecynnau gofal cartref a gofal preswyl i hwyluso proses ryddhau gyflym, ni waeth beth fo'r angen. Bydd hyn yn sicrhau mai dim ond y rhai y mae arnynt angen y gwasanaethau sydd ar y rhestrau aros perthnasol. | ategu rheolaeth weithredol a rheolaethau i atal cleifion ar restrau aros lluosog | | Cartrefi Gofal a Chomisiynu GIP |
| **Sicrhau diogelwch cleifion wrth iddynt aros am becynnau gofal**<br>A5 Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod prosesau ar waith i hysbysu gwasanaethau cymdeithasol cyn bod cleifion yn cael eu rhyddhau adref, lle y mae ar y cleifion hynny angen cymorth parhaus yn eu cartref eu hunain, a lle nad yw'r cymorth hwnnw yn ei le ar adeg eu rhyddhau. | **Bwrdd Iechyd:**<br>Adolygu'r broses a sicrhau bod hyn yn cael ei gynnwys yn y Weithdrefn Weithredu Safonol ar gyfer Rhyddhau | Rhagfyr 2024 | Cyfarwyddwr Cynorthwyol Dros Dro – Cymorth Cartrefi Gofal a Chomisiynu GIP |
| A6 Dylai'r Bwrdd Iechyd ac awdurdodau lleol sicrhau bod mecanweithiau ar waith i fynd ati'n rheolaidd i fonitro cleifion sy'n cael eu rhyddhau adref heb ofal cymdeithasol parhaus wedi'i drefnu ac i uwchgyfeirio materion at y gwasanaeth priodol lle y bo angen. | **Is-ranbarthol:**<br>Lle y bo'n briodol a lle y bo capasiti'n caniatáu, mae Gartref yn Gyntaf yn cefnogi cleifion ag angen asesedig am becyn gofal sy'n aros i becyn gofal a drefnwyd ddechrau i bontio'r bwlch<br>Lle mae teulu/ffrindiau'n rhoi cymorth byrdymor neu lle mae cleifion yn hunanryddhau, darperir rhifau ffôn i hysbysu ynghylch anghenion sydd wedi dwysáu. Bydd gan yr holl | Yn barhaus<br><br>Mehefin 2024 | Pennaeth Nyrsio, Cymuned.<br>Uwch Reolwr Oedolion<br>Penaethiaid Gwasanaethau Pobl Hŷn |

| Argymhelliad | Ymateb sefydliadol | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| | bobl ag anghenion asesedig bwynt cyswllt unwaith y byddant gartref a byddant yn cael eu cefnogi cyn gynted ag y bydd capasiti ar gael.<br>Os yw unigolion yn cael eu trosglwyddo adref o'r ysbyty heb asesiad a heb becyn gofal gofynnol, bydd yr Awdurdodau Lleol yn monitro'r sefyllfaoedd hynny. Bydd ffurflen rhyddhau anffafriol yn cael ei chwblhau lle y bo'n ofynnol i gefnogi Dysgu ar draws y gwasanaethau a thaith well ar gyfer cleifion a dylid croesgyfeirio at A16 | Yn barhaus | |
| **Gwella ansawdd gwybodaeth a'r modd y caiff ei rhannu**<br>A7 Dylai'r Bwrdd Iechyd ac awdurdodau lleol sicrhau bod gan yr holl staff perthnasol ar draws pob sefydliad fynediad cyson at wybodaeth gyfoes am y gwasanaethau sydd ar gael yn y gymuned sydd o gymorth i ryddhau cleifion o'r ysbyty. Bydd hyn yn sicrhau nad yw cyfleoedd i ryddhau cleifion yn gynharach gyda chymorth gan wasanaethau y tu hwnt i ofal cymdeithasol yn cael eu colli. | **Is-ranbarthol:**<br>Bydd Dewis fel y pwynt gwybodaeth canolog yn parhau i gael ei hyrwyddo ar draws pob sefydliad.<br>Bydd canllawiau a ddatblygwyd mewn ymateb i A1 yn cyfeirio at y ffaith bod amrywiaeth eang o gymorth cymunedol ar adeg rhyddhau a ble i ganfod gwybodaeth – cyfeirio at Dewis<br>Mae cynghorau sy'n gweithredu'n is-ranbarthol sy'n gweithredu gyda'r Bwrdd Iechyd yn rhannu gwybodaeth o'r fath yn rheolaidd trwy weithio integredig o fewn Pwyntiau Mynediad Sengl y Timau Adnoddau Cymunedol, ffit yn glinigol a hyd arhosiad a byddant yn parhau i wneud hynny. | Yn barhaus<br>Gorffennaf 2024<br>Yn barhaus | Cyfarwyddwyr Cysylltiol Gwasanaethau Cymunedol PBC a Phenaethiaid Gwasanaethau Pobl Hŷn ALlau |
| A8 Dylai'r Bwrdd Iechyd wella trefniadau cadw cofnodion trwy: | **Bwrdd Iechyd:** | Medi 2024 | Cyfarwyddwr Cynorthwyol Dros Dro – Cymorth |

| Argymhelliad | Ymateb sefydliadol | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| a. sicrhau bod yr holl staff sy'n rhan o gynllunio ar gyfer rhyddhau cleifion yn meddu ar ddealltwriaeth lawn am bwysigrwydd dogfennu gwybodaeth gynhwysfawr yn nodiadau achosion cleifion i roi cymorth i gynllunio'n effeithiol ar gyfer eu rhyddhau.<br>b. sefydlu rhaglen o archwiliadau o nodiadau achosion sy'n canolbwyntio ar ansawdd trefniadau cadw cofnodion. | Fel a nodwyd yn A3, mae polisi diwygiedig drafft gan BIPBC ar Ryddhau o'r Ysbyty wedi cael ei ddatblygu i ddisodli'r gofynion rhyddhau yn ystod Covid.<br>Bydd y polisi drafft diwygiedig yn cael ei gyflwyno trwy broses lywodraethu'r Bwrdd Iechyd ar gyfer ei gymeradwyo, a bydd hyn yn cynnwys cyfnod ymgynghori ar wefan BIPBC a chymeradwyaeth gan bwyllgor perthnasol yn y Bwrdd Iechyd.<br>Mae dogfennaeth ategol arall gan gynnwys Canllawiau ar Ryddhau o Ddewis ac yn Gyndyn a rhyddhau dan Arweiniad Meini Prawf yn cael ei hadolygu hefyd fel rhan o'r adolygiad hwn o ddogfennau ryddhau.<br>Fel rhan o'r polisi rhyddhau bydd cylch archwilio'n cael ei gytuno a'i roi ar waith | Rhagfyr 2024 | Cartrefi Gofal a Chomisiynu GIP |
| A9 Dylai'r Bwrdd Iechyd ac awdurdodau lleol roi ffyrdd ar waith y gellir rhannu gwybodaeth yn fwy effeithiol, gan gynnwys cyfleoedd i ddarparu mynediad ehangach at systemau sefydliadol ac, yn y pen draw, datrysiadau TG ar y cyd. | **Is-ranbarthol:**<br>Mae gan Gyngor Sir Ynys Môn, Cyngor Gwynedd a'r Bwrdd Iechyd eisoes gynllun peilot rhannu gwybodaeth ar waith sy'n disgwyl i gael ei werthuso.<br>Mae gan awdurdodau lleol Conwy, Sir Ddinbych a Sir y Fflint a'r Bwrdd Iechyd Gytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru ers rhoi'r Pwyntiau Mynediad Sengl ar waith<br>Mae angen gwaith pellach i wella trefniadau rhannu gwybodaeth pan fo cleifion yn ymgyflwyno yn yr Adran Achosion Brys am nad yw systemau sefydliadol ar gael i | Hydref 2024<br>Hydref 2024 | Penaethiaid Gwasanaethau i Bobl Hŷn<br>Cyfarwyddwr Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd |

| Argymhelliad | Ymateb sefydliadol | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| | bawb. Mae angen system rhannu gwybodaeth integredig i gefnogi hyn<br><br>Bydd yr Ardal Ganolog yn ystyried sut y gellir ymgorffori hyn o fewn cwmpas y broses gaffael newydd, Cysylltu Gofal<br>Ceisio opsiynau i Gartref yn Gyntaf allu cael mynediad at System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru'r Cyngor yn y Dwyrain.<br>Ailedrych ar amserlen y cyfarfodydd amlasiantaeth i wirio bod y pwyntiau cyswllt hynny'n cyflawni safbwynt cyffredin parthed diweddariadau ar gynllunio ar gyfer rhyddhau fel rhan o'r Adolygiad parhaus o Gartref yn Gyntaf yn y Dwyrain<br>Ystyried sut y mae'r defnydd o STREAM yn cael ei ddiweddaru'n gyson gyda photensial ar gyfer mynediad gan awdurdodau lleol<br>Mynd ati'n weithredol i geisio ffyrdd o gynyddu mynediad gan awdurdodau lleol ar gyfer systemau a ddelir o fewn BIPBC. | | |
| **Mynd i'r afael â bylchau allweddol mewn capasiti**<br>A10 Mae angen i'r Bwrdd Iechyd ac awdurdodau lleol gydweithio i ddatblygu datrysiadau ar y cyd i fynd i'r afael â bylchau allweddol yng nghapasiti gwasanaethau, yn enwedig gofal cartref a gwasanaethau | **Is-ranbarthol:**<br>Defnyddio Cyllid Ymhellach, Yn Gyflymach a chynllunio camau gweithredu<br>Yn yr Ardal Ganolog, mae'r tîm D2RA wrth y drws blaen yn gweithio fel Aseswyr Dibynadwy i ymdrin â bylchau mewn capasiti asesu gan gydweithio gydag awdurdodau lleol i gefnogi gwaith parhaus o ran darpariaeth ailalluogi i gefnogi | Yn barhaus | Grŵp Arwain |

| Argymhelliad | Ymateb sefydliadol | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| ailalluogi a fyddai'n ei gwneud yn bosibl rhyddhau cleifion i'w cartref eu hunain yn fwy amserol. | rhyddhau mwy amserol sy'n ofynnol ar gyfer pecynnau gofal gyda llwybrau asesiad Dibynadwy y cytunwyd arnynt<br>Mae Bwrdd Gwasanaethau Integredig yr Ardal Ganolog yn ystyried datblygiad datrysiadau ar y cyd i ymdrin â bylchau allweddol yng nghapasiti gwasanaethau e.e. Rhaglen Iechyd a Gofal Cymdeithasol Dinbych.<br>Mae'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu'r gwasanaeth Tuag Adref yn y Gorllewin i ddarparu gwasanaeth ailalluogi ac mae gofal cartref bellach yn cael ei gomisiynu ar y cyd gan Awdurdodau Lleol a'r Bwrdd Iechyd. | | |
| **Cynyddu defnydd o'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol i'r Eithaf**<br>A11 Dylai'r Bwrdd Iechyd ac awdurdodau lleol, trwy'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (BPRh), ddangos sut y maent yn gweithio i fynd ati'n fwyfwy i brif ffrydio cynlluniau hirsefydlog a gyllidir trwy RIF yr ystyrir eu bod yn wasanaethau craidd. | **Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol:**<br>Mae'r BPRh a phartneriaid yn parhau i wneud cynnydd i brif-ffrydio cynlluniau hirsefydlog a gyllidir trwy RIF. Yn 2023/24 buddsoddwyd £16.9m mewn cynlluniau wedi'u prif-ffrydio. | Yn barhaus | Pennaeth Cydweithio Rhanbarthol |
| A12 Dylai'r Bwrdd Iechyd ac awdurdodau lleol, trwy'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, gytuno ar broses ar gyfer defnyddio unrhyw arian llithriant o'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol | **Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol:**<br>Mae pwysigrwydd defnydd priodol o lithriant wedi cael ei gydnabod ac mewn ymateb fe ddatblygwyd y broses *'Hysbysu ynghylch Newid'*. Mae'r broses yn cael ei | Yn barhaus. Y broses i gael ei hadolygu yn hydref 2024 | Pennaeth Cydweithio Rhanbarthol |

| Argymhelliad | Ymateb sefydliadol | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| yn y dyfodol, gan sicrhau y ceir gwerth a budd priodol o wariant o'r fath. | harchwilio a bydd yn cael ei hadolygu gan Grŵp Arwain y BPRh.<br><br>RIF Change Notification Template | | |
| A13 I helpu i oleuo prosesau penderfynu a thrafodaethau, dylai'r Bwrdd Iechyd ac awdurdodau lleol:<br>a. sicrhau bod gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol fynediad rheolaidd at ddangosyddion perfformiad allweddol sy'n berthnasol i lif effeithiol ac amserol allan o'r ysbyty, gan gynnwys perfformiad gofal brys ac argyfwng o fewn y Bwrdd Iechyd a rhestrau aros ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol a phecynnau gofal; a<br>b. defnyddio trefniant gweithio'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol | **Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol:**<br>Data chwarterol ynghylch llif allan o'r ysbyty i gael ei gyflwyno i Grŵp Arwain y BPRh (gan gynnwys Cyfarwyddwyr CII)<br><br>Cofrestr risg sy'n gysylltiedig ag achosion o oedi cyn rhyddhau i gael ei chwblhau a'i chyflwyno i'r BPRh ddwywaith y flwyddyn | Yn barhaus bob chwarter<br><br>Hydref / Ebrill yn flynyddol | Pennaeth Cydweithio Rhanbarthol / Cyfarwyddwr Cynorthwyol Dros Dro – Cymorth Cartrefi Gofal a Chomisiynu GIP<br><br>Pennaeth Cydweithio Rhanbarthol |

| Argymhelliad | Ymateb sefydliadol | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| i ddatblygu cofrestr risgiau ranbarthol sy'n dwyn ynghyd y risgiau sy'n gysylltiedig ag oedi cyn rhyddhau. | | | |
| **Gwella goruchwyliaeth ac effaith**<br>A14 Dylai'r Bwrdd Iechyd ac awdurdodau lleol sicrhau bod gwybodaeth sy'n nodi cynnydd gyda gweithgareddau a mentrau arwyddocaol a gyflawnir i roi cymorth i ryddhau cleifion yn effeithiol ac yn amserol ar gael yn rheolaidd ar lefel gorfforaethol ac ar lefel partneriaeth. Dylai hyn gynnwys gweithgareddau a mentrau a gyflawnir yn unigol ac ar y cyd, o fewn strwythur y BPRh a'r tu allan iddo, eu heffaith a sut y maent yn cyfrannu ar y cyd at ymdrin â'r heriau. Bydd hyn yn helpu i ddarparu sicrwydd bod adnoddau'n cael eu buddsoddi mewn modd sy'n cael yr effaith orau. | **Is-ranbarthol:**<br>Y Grŵp Cynllunio Clwstwr Cyfan fydd y grŵp arwain i oruchwylio gweithgarwch mewn partneriaeth yn hyn o beth yn y Dwyrain.<br>Yn ogystal â chylchredeg Dangosyddion Perfformiad Allweddol y tu allan i gyfarfodydd (e.e. Gwybodaeth o'r Cyfrifiad Oedi Cyn Trosglwyddo Gofal), bydd eitem sefydlog yn cael ei hychwanegu at bob agenda i ystyried y sefyllfa gyfredol, tueddiadau ac ymatebion sy'n ofynnol.<br>Bydd mecanweithiau adrodd rheolaidd a gwaith i fonitro perfformiad a chynnydd ar draws yr Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd yn parhau gyda ffocws ychwanegol yn y Gorllewin a'r Canol. Mae'r wybodaeth hon hefyd yn cael ei hystyried mewn cyfarfodydd cynllunio integredig strategol.<br>Mae gwaith yn mynd rhagddo i wella'r modd y dadansoddir data ac yr adroddir arno i ddarparu sicrwydd pellach ar draws trefniadau llywodraethu Awdurdodau Lleol. | O fis Medi 2024 ymlaen | Cadeirydd y GCCC |

| Argymhelliad | Ymateb sefydliadol | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| **Gwreiddio gwersi o gamau gweithredu i fynd i'r afael ag achosion o oedi cyn rhyddhau cleifion**<br>A15 Dylai'r Bwrdd Iechyd ac awdurdodau lleol sicrhau bod mecanweithiau'n bodoli i roi gwersi ar waith o gamau gweithredu a gymerwyd i ymdrin ag achosion o oedi cyn rhyddhau, megis y Digwyddiadau Rhyddhau Amlasiantaeth (MADE), ac i gynnal goruchwyliaeth reolaidd i sicrhau bod y gwersi'n cael eu rhoi ar waith. | **Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol:**<br>I gyd-fynd ag A13, a'r gwaith cysylltiedig, bydd ystyriaeth reolaidd yn cael ei rhoi i ddigwyddiadau dysgu ac ymarferion rhannu arfer da rheolaidd. | Yn chwarterol – yn barhaus | Pennaeth Cydweithio Rhanbarthol / Cyfarwyddwr Cynorthwyol Dros Dro – Cymorth Cartrefi Gofal a Chomisiynu GIP |
| A16 Dylai'r Bwrdd Iechyd gryfhau trefniadau uwchgyfeirio ar gyfer hysbysu ynghylch digwyddiadau anffafriol neu bryderon sy'n ymwneud â rhyddhau cleifion trwy:<br>a. ymdrin ag unrhyw ddigwyddiadau anffafriol neu bryderon nad ymdriniwyd â hwy eisoes, gan gyfathrebu'n glir gyda'r awdurdod lleol perthnasol; a<br>b. sicrhau bod dull cyson o hysbysu ynghylch digwyddiadau anffafriol a phryderon sy'n ymwneud â | **Bwrdd Iechyd:**<br>Pob CII i sefydlu Grŵp Rhyddhau'n Anffafriol gyda Chylch Gorchwyl eglur<br>Cynnal gweminarau Rhyddhau gyda Chartrefi Gofal ar draws pob CII i wella cyfathrebu a meithrin ymddiriedaeth rhwng y gwasanaeth Iechyd a Darparwyr | Hydref 2024 | Cyfarwyddwr Cynorthwyol Dros Dro – Cymorth Cartrefi Gofal a Chomisiynu GIP |

| Argymhelliad | Ymateb sefydliadol | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| rhyddhau cleifion ar waith ar draws y Bwrdd Iechyd. | | | |

| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | **PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO** |
| DYDDIAD | **10 HYDREF 2024** |
| TEITL | **CYNNYRCH ARCHWILIO MEWNOL** |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | **AMLINELLU GWAITH ARCHWILIO MEWNOL AM Y CYFNOD HYD AT 30 MEDI 2024** |
| AWDUR | **LUNED FÔN JONES - RHEOLWR ARCHWILIO** |
| GWEITHREDIAD | **DERBYN YR ADRODDIAD, SYLWEBU AR Y CYNNWYS A CHEFNOGI'R GWEITHREDIADAU SYDD EISOES WEDI'U CYTUNO GYDA'R GWASANAETHAU PERTHNASOL** |

---

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r adroddiad yma yn crynhoi gwaith Archwilio Mewnol am y cyfnod o 1 Ebrill 2024 hyd 30 Medi 2024.

## 2. GWAITH A GWBLHAWYD YN Y CYFNOD

2.1 Cwblhawyd y gwaith canlynol o gynllun 2024-25 yn y cyfnod hyd at 30 Medi 2024:

| Disgrifiad | Nifer |
|---|---|
| Adroddiadau am Archwiliadau o'r Cynllun Gweithredol | 11 |

Ceir manylion pellach ar y gwaith yma yng nghorff yr adroddiad hwn ac yn yr atodiadau amgaeedig.

## 2.2 Adroddiadau Archwilio

2.2.1 Mae'r tabl canlynol yn gosod allan yr archwiliadau o'r cynllun a gwblhawyd yn y cyfnod hyd at 30 Medi 2024, gan ddangos y lefel sicrwydd perthnasol a chyfeiriad i'r atodiad perthnasol.

| TEITL | ADRAN | GWASANAETH | LEFEL SICRWYDD | ATODIAD |
|---|---|---|---|---|
| Darpariaeth Addysg Ôl-16 | Addysg | Ysgolion | Uchel | Atodiad 1 |
| Meysydd Parcio - Amgylchedd | Amgylchedd | Trafnidiaeth | Digonol | Atodiad 2 |
| Cofrestr Diogelwch Staff | Cefnogaeth Gorfforaethol | Cefnogol | Digonol | Atodiad 3 |
| Rheoli Absenoldebau a Threfniadau Cyfeirio (Rhan 1) | Corfforaethol | Cefnogol | Digonol | Atodiad 4 |
| Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth | Corfforaethol | Ymchwil a Gwybodaeth | Cyfyngedig | Atodiad 5 |
| Datganiad Cyfrifyddu Harbyrau 2023-24 | Cyllid | Cyfrifeg | Uchel | Atodiad 6 |
| Cronfa'r Degwm | Economi a Chymuned | Adfywio Cymunedol | Uchel | Atodiad 7 |
| Cyfrifon Amgueddfa Lloyd George | Economi a Chymuned | Amgueddfeydd a 'r Celfyddydau | Uchel | Atodiad 8 |
| Plas Pengwaith | Oedolion, Iechyd a Llesiant | Gwasanaethau Preswyl | Cyfyngedig | Atodiad 9 |
| Llys Cadfan | Oedolion, Iechyd a Llesiant | Gwasanaethau Preswyl | Cyfyngedig | Atodiad 10 |
| Plas Hafan | Oedolion, Iechyd a Llesiant | Gwasanaethau Preswyl | Cyfyngedig | Atodiad 11 |

2.2.2 Mae lefelau sicrwydd cyffredinol archwiliadau yn syrthio i un o bedwar categori fel y dengys y tabl isod.

| | | |
|---|---|---|
| **LEFEL SICRWYDD** | **UCHEL** | Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion. |
| | **DIGONOL** | Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach. |
| | **CYFYNGEDIG** | Er bod rheolaethau mewn lle, mae angen gwella cydymffurfiaeth â'r rheolaethau a/neu gyflwyno rheolaethau newydd i leihau'r risgiau mae'r gwasanaeth yn agored iddynt. |
| | **DIM SICRWYDD** | Ystyrir bod y rheolaethau mewn lle yn annigonol gyda methiant i gyflawni amcanion. |

## 3. GWAITH AR Y GWEILL

3.1 Roedd y gwaith canlynol ar y gweill ar 30 Medi 2024:

- Safonau Digidol Addysg *(Addysg)*
- Ysgolion Cyffredinol *(Addysg)*
- Cludiant Ysgolion *(Addysg)*
- Rheoli Prosiect Trafnidiaeth Ysgolion *(Amgylchedd)*
- Meysydd Parcio *(Economi a Chymuned)*
- Dilyniant – Rheolaeth Categori *(Cefnogaeth Gorfforaethol)*
- Rheoli Absenoldebau a Chyfeirio Rhan 2 *(Cefnogaeth Gorfforaethol)*
- Cynghori, Ymgynghoriaeth a Cefnogi Adolygiadau Ffordd Gwynedd *(Corfforaethol)*
- Trefniadau Diogelu- Sefydliadau *(Corfforaethol)*
- Gwaith Atal Twyll ac Atal Llygredigaeth Rhagweithiol a'r Fenter Twyll Genedlaethol *(Corfforaethol)*
- Canu'r Gloch *(Corfforaethol)*
- Defnydd o Ystafelloedd Allanol *(Corfforaethol)*
- Ffonau Symudol *(Cyllid)*
- System Credydwyr - Rheolaethau Allweddol *(Cyllid)*
- Toiledau Cyhoeddus *(Priffyrdd, Peirianneg a YGC)*
- Glanhau Stryd *(Priffyrdd, Peirianneg a YGC)*
- Dilyniant – Manddaliadau *(Tai ac Eiddo)*
- Cynnal y Gofrestr Aros Tai *(Tai ac Eiddo)*
- Cynllun Prynu Cartref Gwynedd *(Tai ac Eiddo)*
- Grant Cymorth Tai *(Tai ac Eiddo)*
- Deddf Etholiadau Cymru *(Tim Arweinyddiaeth Corfforaethol)*

**4. ARGYMHELLIAD**

4.1 Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn yr adroddiad hwn ar waith Archwilio Mewnol am y cyfnod o 1 Ebrill 2024 hyd 30 Medi 2024, sylwebu ar y cynnwys yn ôl dymuniad yr aelodau, a chefnogi'r gweithrediadau cytunedig sydd eisoes wedi'u cyflwyno i reolwyr y gwasanaethau perthnasol.

Atodiad 1

**DARPARIAETH ADDYSG ÔL-16**

**1. Cefndir**

1.1 Dyrannwyd dros £4m i Gyngor Gwynedd gan Lywodraeth Cymru er mwyn cyflenwi darpariaeth addysg ôl-16 mewn ysgolion prif ffrwd. Yn ogystal, dyrannwyd dros £200k ar gyfer darpariaeth dysgu oedolion.

**2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad**

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau cywirdeb tystysgrif dyraniad 'Chweched Dosbarth a Dysgu Oedolion yn y Gymuned' ar gyfer y flwyddyn ariannol 2023-24, gan sicrhau bod cofnodion cyfrifyddu clir wedi eu cynnal i nodi bod cyllid Llywodraeth Cymru wedi ei dderbyn ac wedyn ei ddosbarthu i ysgolion a'r Gwasanaeth Dysgu Cymunedol at ddibenion cyllid fel y nodir yn y llythyr(au) gwobrwyo.

**3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad**

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
|---|---|
| UCHEL | **Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion.** |

**4. Prif Ddarganfyddiadau**

4.1 Gellir datgan sicrwydd o gywirdeb tystysgrif dyraniad 'Chweched Dosbarth a Dysgu Oedolion yn y Gymuned' ar gyfer y flwyddyn ariannol 2023-24. Yn seiliedig ar y profion a gynhaliwyd, gwelwyd fod trywydd archwilio priodol i'r ffigyrau ac y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion.

Atodiad 2

**MEYSYDD PARCIO (AMGYLCHEDD)**

## 1. Cefndir

1.1 Mae'r Cyngor gyda 55 o safleoedd meysydd parcio taladwy sydd yng ngofal yr Adran Amgylchedd gyda 89 o beiriannau casglu ffioedd parcio arian parod. Mae'r Adran wedi cychwyn y broses o uwchraddio eu peiriannau fel bod modd derbyn cardiau yn ogystal ag arian parod. Fel dewis arall, mae'r Adran gyda chytundeb casglu ffioedd dros y we gyda cwmni 'Pay By Phone' sydd yn derbyn cardiau credyd a debyd. Mae gan y Cyngor feysydd parcio ychwanegol sy'n cael eu rheoli gan yr Adran Economi a Chymuned sydd â threfniadau rheoli eu hunain ac yn gweithio ar wahân i brosesau Amgylchedd.

## 2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod trefniadau addas mewn lle i gasglu incwm o feysydd parcio, yn ogystal â gwirio sampl o safleoedd parcio newydd i sicrhau bod prosesau priodol mewn lle ar gyfer casglu arian ac i dalu am y costau a fuddsoddwyd yn brydlon, adnabod unrhyw rwystrau a/neu fod modd eu datrys yn brydlon. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu meddiannu rhestr o feysydd parcio taliadwy a gwirio bod incwm yn cael ei gasglu yn briodol, adolygu meysydd parcio newydd ar gyfer sicrhau bod prosesau priodol yn bodoli ar gyfer casglu yn brydlon. Cyfyngwyd yr archwiliad at asedau'r Cyngor yn unig h.y. nid oedd yr archwiliad yn cynnwys meysydd parcio preifat o dan gytundebau rheolaeth y Cyngor.

## 3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
|---|---|
| **DIGONOL** | **Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.** |

## 4. Sgôr Risg Cyfredol

4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Risg | Nifer |
|---|---|
| **UCHEL IAWN** | 0 |
| **UCHEL** | 0 |
| **CANOLIG** | 2 |
| **ISEL** | 0 |

**5. Prif Ddarganfyddiadau**

5.1 Yn ystod yr archwiliad (Mai 2024), adroddodd y Rheolwr Parcio a Gwaith Stryd Amgylchedd bod y Gwasanaeth wedi cychwyn adnewyddu'r peiriannau Talu ac Arddangos. Ar y pryd, adroddwyd bod 10 o beiriannau gweithredol yn derbyn cardiau credyd yn ogystal ag arian parod. Roedd 15 o beiriannau ychwanegol gyda darllenydd cardiau wedi eu harchebu. Eglurwyd nad oes cyllideb benodol ar gyfer adnewyddu peiriannau parcio a bod y Gwasanaeth yn defnyddio cyllideb gweithiau parcio i dalu am y costau (oddeutu £4,200 fesul peiriant), ac felly mae'n debyg y bydd yn cymryd rhai blynyddoedd i uwchraddio pob peiriant. Yn y cyfamser, mae'r ap "Paybyphone" ar gael i bobl ddefnyddio ar draws y Sir. Serch hynny, adnabuwyd o dan Gynllun Digidol TG y Cyngor mai un o'r amcanion yw gwella cyswllt gyda chwsmeriaid drwy ddarparu peiriannau talu am wasanaeth. Gall posibilrwydd i'r peiriannau dderbyn ystyriaeth ar gyfer eu cyllido o dan Gynllun Digidol TG.

5.2 Detholwyd contractau i'w hadolygu a gwelwyd eu bod yn briodol

5.3 Yn ogystal â chytundeb tair blynedd cynnal a chadw peiriannau a delir ar sail chwarterol, mae'r Adran gyda cytundeb am system 'web-based' ar gyfer monitro defnydd meysydd parcio. Eglurodd y Rheolwr Stryd a Pharcio bod y system yn gallu cynhyrchu adroddiadau o ddata syml e.e. ar gyfer adolygu ffioedd, adnabod amseroedd oedd ymwelwyr yn aros, pa feysydd parcio oedd yn cael eu defnyddio a faint oedd ymwelwyr yn fodlon ei dalu. Mae'r system hefyd yn caniatáu i wirio gwybodaeth yn fyw, megis y gallu i fflagio pa rai sydd yn llawn a gyda llefydd ac yn gallu newid y tariff eu hunain ar gyfer haf a gaeaf ar y peiriannau yn hytrach na dibynnu ar y cwmni i fynd ddwywaith y flwyddyn i newid y meddalwedd y peiriannau.

5.4 Serch hynny, nid yw'n ymddangos bod y Cyngor yn cysoni taliadau yn erbyn y nifer o docynnau sydd yn cael eu cyhoeddi. Mynegodd y Rheolwr Parcio a Gwaith Stryd bod modd gasglu'r data er mwyn cynnal cysoniad ond nid yw'n rhesymol i'w gynnal gyda'r adnodd cyfredol. Cysonir tocynnau yn unig ar gyfer cytundebau meysydd parcio trydydd parti er mwyn gallu cyfrifo'r taliadau.

5.5 Adolygwyd dau faes parcio newydd sydd wedi cael eu sefydlu yn ddiweddar sef, Y Glyn yn Llanberis a'r maes parcio ger y traeth yn Ninas Dinlle er mwyn sicrhau bod peiriannau casglu arian wedi cael eu gosod yn brydlon a bod trefniadau casglu arian priodol mewn lle. Darganfuwyd yn ystod yr archwiliad bod y meysydd parcio yma yn cael eu rheoli gan yr Adran Economi a Chymuned oedd tu allan i sgôp yr archwiliad hwn.

5.6 Gwelwyd bod Strategaeth Barcio (gweithredol o 1af o Ebrill 2021) mewn lle ar gyfer meysydd parcio Amgylchedd. Nodir o dan adran 9.1 o'r strategaeth

'Asedau meysydd parcio mewn adrannau eraill:

*9.1 Mae'n amlwg fod y Cyngor yn berchen ar nifer o feysydd parcio mewn Parciau Gwledig, Canolfannau Hamdden ac ati. Ac yn amlwg mae gweithdrefnau rheoli gwahanol Adrannau yn y Cyngor yn wahanol i'w gilydd o ran sut maent yn ymdrin â'r asedau.*

*9.2 Gan fod y Cyngor yn cael ei weld gan y cyhoedd fel un corff unffurf, ystyrir y byddai'n werth mabwysiadu'r cynigion a amlinellir yn yr adolygiad hwn ar gyfer yr holl asedau parcio sydd ym mherchnogaeth y Cyngor. Ystyrir hefyd y byddai'n llawer mwy ymarferol petai reolaeth yr holl asedau yn eistedd o dan yr Adran Amgylchedd. Gall hyn sicrhau rheolaeth gyson o'r asedau.*

*9.3 Cynigir bod yr Adran Economi a Chymuned yn trosglwyddo eu hasedau o dan reolaeth yr Adran Amgylchedd a chydweithio er mwyn sicrhau fod ffrwd incwm* digonol yn mynd tuag at dargedau arbedion yr Adran Economi a Chymuned.'

5.7 Nid oedd yn ymddangos bod yr asedau wedi'u trosglwyddo hyd at Fehefin 2024. Eglurodd Pennaeth Cynorthwyol Economi a Chymuned bod prin drafodaeth wedi bod ers mabwysiadu'r strategaeth rhwng yr adrannau ond o bosib gellir manteisio ar rai o'r agweddau rheoli o'r Adran Amgylchedd megis gweithredu ar drefniadau gorfodaeth.

## 6. Camau Gweithredu

**Mae'r Gwasanaethau perthnasol wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:**

- **Gwirio bod modd ariannu peiriannau drwy strategaeth Cynllun Digidol TG er mwyn sicrhau bod peiriannau meysydd parcio Gwynedd yn cael eu hadnewyddu yn brydlon.**
- **Parhau i weithredu tuag at y strategaeth i gynnig opsiynau cydweithio/ trosglwyddo asedau rheoli meysydd parcio gydag Adran Economi a Chymuned ar gyfer gwella prosesau rheoli meysydd parcio'r Cyngor ble'n bosib.**

Atodiad 3

# COFRESTR DIOGELWCH STAFF

## 1. Cefndir

1.1 Mae'r Gofrestr Diogelwch Staff yn cynnwys gwybodaeth am unigolion, anifeiliaid neu leoliadau all beri risg i aelodau staff Cyngor Gwynedd. Mae ar gael i unrhyw aelodau staff sy'n delio gyda'r cyhoedd, neu sy'n ymweld â lleoliadau domestig, preifat neu gyhoeddus, i adnabod unrhyw risgiau cyn cyfarfod/ymweld.

## 2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau addas mewn lle ar gyfer adnabod a lliniaru'r risgiau a wynebir gan staff y Cyngor sydd yn gweithio gyda'r cyhoedd. Yn ogystal, sicrhau bod staff perthnasol gyda mynediad i'r wybodaeth yn amserol, a bod trefniadau priodol mewn lle ar gyfer diogelu lles staff. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio trefniadau ar gyfer adrodd a chofnodi digwyddiadau, yn ogystal â dethol sampl o wahanol risgiau sydd wedi eu cofnodi ar y Gofrestr Diogelwch Staff, gan wirio fod y ddogfennaeth ddisgwyliedig yn bresennol, a'r cofnod yn fanwl, yn gyfredol, ac yn gywir.

## 3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
|---|---|
| **DIGONOL** | **Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.** |

## 4. Sgôr Risg Cyfredol

4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Risg | Nifer |
|---|---|
| **UCHEL IAWN** | 0 |
| **UCHEL** | 0 |
| **CANOLIG** | 2 |
| **ISEL** | 1 |

## 5. Prif Ddarganfyddiadau

5.1 Cedwir y Gofrestr Diogelwch Staff ar Fasdata Iechyd a Diogelwch, ac mae'n rhaid gwneud cais ar gyfer cael mynediad. Ar Awst 1af, 2024 roedd 54 cofnod ar y gofrestr, yn gymysgedd o ddigwyddiadau yn ymwneud ag unigolion, anifeiliaid, neu leoliadau. Detholwyd sampl o 50% ar gyfer eu gwirio yn fanwl, sef 27 cofnod. Gwelwyd fod yr amser a gymerwyd rhwng dyddiad y digwyddiad a dyddiad creu'r cofnod ar y gofrestr yn amrywio rhwng 0 ac 282 diwrnod. Eglurodd Arweinydd Tîm Iechyd a Diogelwch fod nifer o resymau pan fod digwyddiad yn gallu cymryd peth amser i'w roi ar y gofrestr, megis:

- Y digwyddiad gwreiddiol ddim yn cyrraedd criteria'r gofrestr ond digwyddiadau pellach neu batrwm yn sbarduno cofnod ymhellach ymlaen. Mae digwyddiadau blaenorol yn parhau i gael eu cynnwys i ddangos esgyniad neu batrwm.
- Digwyddiad difrifol yn golygu fod yr adran wedi edrych nôl ar yr hanes ac wedi gofyn am dystiolaeth o ddigwyddiad hanesyddol ar gyfer y cofnod (efallai o adrannau gwahanol), sy'n gallu cymryd llawer o amser.
- Disgwyl am gyngor cyfreithiol (e.e. oherwydd bod rhywun o dan 18 oed, unigolyn yn gweithio i neu gyda chyswllt agos i'r Cyngor, gwybodaeth sensitif).
- Symud o'r hen system felly dyddiad mewnbynnu heb ei addasu ar y pryd.
- HS11 (ffurflen adrodd ar ddigwyddiad) yn hwyr yn cyrraedd.

5.2 Mae cyfnodau adolygu/cadw digwyddiadau ar y gofrestr yn seiliedig ar y categori risg, ac yn cychwyn o'r dyddiad mae'r cofnod yn cael ei greu ar y gofrestr. Ar gyfer 3 o'r sampl o 27, gwelwyd nad oedd y dyddiad adolygu yn cyd-fynd â'r categori risg na'r dyddiad creu, gyda dyddiad adolygu 1 digwyddiad arall wedi ei gyfrifo drwy ddefnyddio dyddiad y ffurflen HS11, nid dyddiad creu'r digwyddiad ar y gofrestr. Eglurodd Arweinydd Tîm Iechyd a Diogelwch fod cofnodion wedi derbyn adolygiadau yn llawer amlach pan yn defnyddio'r hen system, a bod y cyfnodau adolygu hynny wedi eu trosglwyddo i'r bas-data Iechyd a Diogelwch, ble cedwir y gofrestr gyfredol. O ganlyniad, mae'r staff sydd yn gyfrifol am ddiweddaru'r gofrestr yn gorfod addasu'r dyddiad adolygu eu hunain, gyda'r dyddiadau anghywir wedi eu mewnbynnu ar gyfer 4 yn y sampl. Fe'u cywirwyd yn syth.

5.3 Yn ystod yr archwiliad, gwelwyd 5 cofnod ar y gofrestr gyda'r dyddiad adolygu wedi dod i ben, gydag un dros 6 mis. Cadarnhawyd fod yr amser a gymerwyd i adolygu cofnodion yn ddibynnol ar Reolwyr yn ymateb, a maint y wybodaeth sydd angen ei brosesu. Mae'r gwasanaeth yn gweithio'n agos gyda, ac yn adrodd yn rheolaidd i'r Tim Diogelu Data, sydd yn fodlon gyda trefniadau cadw a gwaredu data'r gwasanaeth.

5.4 Yn dilyn cais i'r gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth, derbyniwyd rhestr o bob aelod staff sydd â mynediad i'r gofrestr, yn ogystal â pha hawliau sydd wedi eu rhoi. Mae bosibl cael yr hawliau canlynol:

- ‘Chwilio’, sy’n caniatáu i chwilio am bersonau neu leoliadau penodol yn unig.
- ‘Defnyddiwr’, sy’n caniatáu mynediad i’r gofrestr llawn gyda gwybodaeth allweddol yn unig.
- ‘Gweinyddwr’, sef mynediad llawn i’r gofrestr â’r holl wybodaeth, sydd wedi ei gyfyngu i staff y gwasanaeth, ac aelodau staff y Fforwm Iechyd a Diogelwch.

5.5 Detholwyd sampl o 32 aelod staff oddi ar y system, sef 5% ar gyfer eu gwirio yn fanwl. Diystyriwyd 6 gan eu bod wedi gadael eu cyflogaeth gyda’r Cyngor bellach. O’r 26 yn weddill, o ystyried natur eu swyddi, tybir ei fod yn dderbyniol iddynt gael mynediad i’r gofrestr, gyda 25 ohonynt hefyd gyda hawliau rhesymol. Fodd bynnag, gwelwyd fod 1 aelod staff gyda hawliau ‘Gweinyddwr’, er nad ydyw’n gweithio i’r gwasanaeth nac yn aelod o’r Fforwm Iechyd a Diogelwch. Cadarnhaodd Arweinydd Tîm Iechyd a Diogelwch fod yr aelod staff dan sylw wedi bod yn aelod o’r Fforwm yn y gorffennol, ac y byddai’n addasu ei hawliau ar unwaith.

5.6 Cadarnhawyd yn ystod yr archwiliad fod y gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth yn y broses o greu system newydd ar gyfer y gwasanaeth Iechyd a Diogelwch, gan gynnwys y Gofrestr Diogelwch Staff. Bydd y system newydd yn galluogi gosod cyfnodau adolygu pendant ac yn danfon nodiadau atgoffa pan fo dyddiadau adolygu yn agosáu. Nododd Arweinydd Tîm Iechyd a Diogelwch fod ymwybyddiaeth o’r gofrestr yn isel, gyda nifer o staff yn anymwybodol o’i fodolaeth, ac eraill wedi anghofio fod ganddynt fynediad.

5.7 Darganfuwyd nad yw hyfforddiant ‘Diogelwch Personol’ wyneb i wyneb wedi ei gynnig i aelodau staff y Cyngor ers 2018, ond bod E-fodiwl o’r un enw ar gael ar y Porth E-ddysgu. O’r 26 defnyddiwr yn y sampl, gwiriwyd eu cofnodion hyfforddiant, gan ddarganfod nad oes unrhyw un wedi cwblhau E-fodiwl ‘Diogelwch Personol’. Mae 12 wedi cwblhau hyfforddiant wyneb i wyneb rhwng 2013-18, gyda 8 wedi cwblhau rhyw fath o hyfforddiant perthnasol. Ni welwyd fod 6 wedi cwblhau unrhyw hyfforddiant perthnasol.

## 6. <u>Camau Gweithredu</u>

**Mae Arweinydd Tîm Iechyd a Diogelwch wedi ymrwymo i weithredu’r camau canlynol i liniaru’r risgiau a amlygwyd:**

- **Parhau i gyd-weithio gyda TG ar gyfer creu system newydd fydd yn galluogi i osod dyddiadau adolygu pendant, a danfon nodiadau atgoffa pan fo dyddiadau adolygu yn agosáu, gan atgoffa staff gweinyddu, yn y cyfamser, i sicrhau fod dyddiadau adolygu yn cael eu cyfrifo yn gywir.**
- **Parhau i gyd-weithio gyda TG ar gyfer creu system newydd fydd yn galluogi allforio data mewn perthynas â defnyddwyr.**
- **Annog cynrychiolwyr adrannau yn y Fforwm Iechyd a Diogelwch i drefnu hyfforddiant addas ar gyfer unrhyw staff sy’n gweithio gyda’r cyhoedd.**

## RHEOLI ABSENOLDEBAU SALWCH A THREFNIADAU CYFEIRIO

### 1. Cefndir

1.1 Mae Cyngor Gwynedd wedi datblygu modiwl rheoli absenoldebau ar system hunanwasanaeth y Cyngor fydd yn disodli'r drefn bapur presennol o wasanaethau yn cwblhau ffurflenni SA1, SA2 a SA3 ynghyd â chadw cofnod o'r absenoldeb ar gofnod ar wahân eu hunain. Bydd yn diddymu'r gwaith gweinyddol o fewn Gwasanaethau ble roedd gweinyddwyr yn gorfod casglu gwybodaeth gan Reolwyr ac Arweinyddion Tim yn ogystal â gorfod cyflwyno adroddiad absenoldeb ar daenlen Excel i'r Gwasanaeth Cefnogol yn fisol i fewnbynnu i system.

1.2 Bydd y polisi newydd - Rheoli Absenoldebau Salwch yn dod i rym ar y 1af o Fehefin 2024 a bydd y system cofnodi newydd yn weithredol o 10fed o Fehefin 2024 ymlaen. Yn dilyn cais gan y Rheolwr Cefnogol, cytunwyd i gynnal yr archwiliad mewn dau ran. Rhan un yn edrych ar y prosesau adeiladu a datblygu rheolaethau'r system a'r ail ran yn mesur perfformiad y system pan ddaw'r system yn weithredol.

### 2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod rheolaethau allweddol a phriodol wedi cael eu sefydlu wrth ddatblygu'r modiwl rheoli absenoldebau ar y system hunanwasanaeth. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio ac adolygu'r rheolaethau mewnol sydd wedi cael eu sefydlu yn y system wrth ddatblygu'r modiwl.

### 3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
|---|---|
| **DIGONOL** | **Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.** |

### 4. Sgôr Risg Cyfredol

4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Risg | Nifer |
|---|---|
| **UCHEL IAWN** | 0 |
| **UCHEL** | 0 |
| **CANOLIG** | 4 |
| **ISEL** | 0 |

## 5. Prif Darganfyddiadau

5.1 Profodd yr Archwiliwr y system brawf rheoli absenoldebau salwch staff a gwelwyd bod y system yn weithredol briodol ar gyfer cofnodi salwch absenoldebau staff, cwblhau'r ffurflen dychwelyd yn ôl a chyfeirio at Iechyd Galwedigaethol.

5.2 Gwelwyd bod polisïau newydd wedi cael eu sefydlu, staff wedi cael eu hysbysu a hyfforddiant cynhwysfawr ar gyfer rhyddhau'r weithdrefn rheoli absenoldebau salwch newydd wedi cael eu rhedeg ynghyd â gwybodaeth wedi ei gylchredeg i holl staff y Cyngor.

5.3 Adnabuwyd bod y system wedi cael ei datblygu yn fewnol gan Wasanaeth TG y Cyngor. Adnabuwyd bod swyddog prosiect yn gyfrifol am gydlynu'r prosiect gyda swyddogion atebol ar gyfer datblygu, profi a hyfforddiant.

5.4 Gwelwyd bod rheolaethau ar gyfer cadarnhau patrymau gwaith unigolion, blychau angenrheidiol yn cael eu cwblhau, 'triggers' ar y system yn hysbysu'r rheolwyr o'r camau nesaf/atgoffa rheolwyr i ddiweddaru/ angen gweithredu ar y cam nesaf ar y system.

5.5 Adroddwyd yn yr hyfforddiant bod modd i ddefnyddwyr allforio gwybodaeth a chreu adroddiadau, ni phrofwyd hyn yn ystod yr archwiliad. Yn ogystal, ni dderbyniwyd cadarnhad o'r e-byst atgoffa fydd yn mynd allan i staff a rheolwyr i'w hatgoffa/hysbysu o ddiweddaru cofnodion salwch. Eglurodd y Swyddog Prosiect bod y system yn caniatáu allforio ffurflen cofnodi yn unig ar hyn o bryd, nid yw'r gallu i greu a rhedeg adroddiadau wedi cael ei adeiladu i'r system gan y datblygwyr TG ond bod hyn ar y gweill. Adroddodd y Swyddog Prosiect bod trywydd archwilio yn bodoli ar gyfer rheoli'r risg o gamddefnydd e.e. gormodedd o allforio ffurflenni yn digwydd heb angen.

5.6 Derbyniwyd y gofrestr risg ac adnabuwyd bod prif risgiau / rheolaethau wedi eu hystyried megis rheoliadau diogelu data, cyfnod cadw cofnodion salwch gan gynnwys "fit notes" ar iGwynedd, trywydd archwilio ar gyfer adnabod pwy sydd wedi mewnfwydo data salwch, bod dirprwyo ond yn digwydd i lawr y gangen ond bod yr e-byst cadarnhau yn parhau i gael eu hanfon at sylw'r rheolwr llinell. Yn ogystal, gwelwyd bod blychau mandadol angen eu cwblhau ac adroddwyd nad oes modd i unigolion fewnbynnu salwch ei hunain.

5.7 Darganfuwyd bod y system salwch yn gweithio ar fasdata craidd System Swyddi Gwynedd (SSG) sydd yn cael ei ddiweddaru gan y Gwasanaeth Cyflogau yn rheolaidd drwy Cyborg. Mae'r SSG yn gweithredu ar rifau swyddi ac felly mae'r hawliau ar y system salwch wedi cael eu gosod yn erbyn rhifau swyddi a ddynodwyd ar gyfer pob swyddog. Fel canlyniad, mae unrhyw addasiadau mewn swyddi e.e. dechreuwyr newydd, staff yn ymadael â'r swydd ayb, yn golygu bod y newid yn digwydd ar unwaith gan Cyflogau a diweddarir y system salwch ar yr un pryd. Adroddodd y Swyddog Prosiect bod yr adrannau/gwasanaethau canlynol gyda cyfrifoldebau fel y ganlyn:

- Cefnogol yn gyfrifol am dderbyn ymholiadau staff ynglŷn â gweithrediad y system.
- Adnoddau Dynol ar gyfer unrhyw ymholiad ynglŷn â'r polisi salwch.
- Rheolwyr Gwasanaethau yn adrodd ar niferoedd salwch eu gwasanaeth.
- Adnoddau Dynol gyda rôl monitro rheolaeth.

5.8 Er bod Cefnogol gyda rôl i ddelio ag ymholiadau'r system, mynegwyd nad oes gan y swyddogion hawl i allu gweithredu ar rannau o'r system sydd yn golygu bydd ceisiadau yn mynd at y datblygwyr i'w gweithredu. Pwysleisiodd bod cais gan y Rheolwr Gwasanaethau Cefnogol wedi cael ei wneud ar gyfer rhyddhau'r hawliau hyn i staff Cefnogol fel bod dim dibyniaeth ar ddatblygwr a'u tîm i ddarparu cefnogaeth i Reolwyr/Arweinyddion, a bod Cefnogol yn gallu delio â'r ceisiadau hyn heb ddibyniaeth ar y datblygwyr. Hyd y bydd hyn yn weithredol, bydd yn ofynnol i reoli'r risg o ddata sensitif yn disgyn i'r adrannau/swyddogion anghywir, h.y. bydd yn rhaid sicrhau bod y Gwasanaeth Cefnogol yn anfon ceisiadau yn uniongyrchol at y datblygwyr ac nid i Ddesg Gymorth TG.

5.9 Ymddengys bod sylfaen y modiwl yn weithredol ond bod angen rhoi sylw i'r rheolaethau allweddol canlynol:

- Profi bod sicrwydd dros drefniadau cadw copi wrth gefn ac adfer data.
- Bod hawl creu adroddiadau a gallu i reoli math o wybodaeth ac echdynnu o'r system wedi ei gyfyngu at swyddog/ïon penodol.

5.10 Yn ogystal, cadarnhawyd bod prosesau rheoli prosiect digonol wedi'u dilyn wrth gynnal a datblygu'r prosiect yn seiliedig ar fethodoleg Agile.

## 6. <u>Camau Gweithredu</u>

**Mae'r Swyddog Prosiect wedi ymrwymo i'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:**

- **Derbyn sicrwydd gan TG bod gwybodaeth yn cael ei arbed yn llwyddiannus neu bod modd adnabod copïau wrthgefn sydd yn aflwyddiannus.**
- **Cynnal prawf adfer o ddata wrthgefn ar y modiwl a sicrhau bod y data wedi cael ei adfer yn gywir drwy gadarnhau gyda gwasanaeth/au berthnasol.**
- **Gwirio bod cydymffurfiaeth â Rheoliadau Diogelu Data h.y. adolygu datganiad preifatrwydd.**
- **Bod trywydd archwilio yn bodoli ar gyfer adnabod y sawl sydd yn rhedeg adroddiadau ac allforio ffurflenni.**
- **Cyfathrebu manylion cyswllt ar gyfer y prif swyddogion cyfrifol fydd yn delio ag ymholiadau/gweithrediadau yn y system.**
- **Monitro defnydd a chydymffurfiad y system.**
- **Parhau i ddatblygu a phrofi'r system er mwyn sicrhau bod modd rhedeg adroddiadau pwrpasol rheoli absenoldebau salwch.**

Atodiad 5

## CEISIADAU RHYDDID GWYBODAETH

### 1. Cefndir

1.1 Daeth y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 i rym yn llawn ym mis Ionawr 2005. Mae'r Ddeddf yn rhoi'r hawl i unigolion roi cais am amrywiaeth o wybodaeth gan awdurdod cyhoeddus, ac yn gosod y canllawiau ar gyfer sut y dylid ymateb i'r ceisiadau hynny. Mae'r Ddeddf hefyd yn amlinellu pa fath o wybodaeth sydd wedi ei eithrio rhag bod ar gael. Mae'r Ddeddf (Adran 10) yn nodi bod gan ymgeiswyr yr hawl i ddisgwyl ymateb erbyn yr ugeinfed diwrnod gwaith ar ôl i'r cais gael ei dderbyn.

### 2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod trefniadau addas mewn lle ar gyfer gweinyddu a gweithredu ceisiadau am wybodaeth drwy'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu adolygu'r trefniadau sydd mewn lle ar gyfer derbyn, dosbarthu, casglu ac ymateb i geisiadau o dan y Ddeddf, ynghyd a chofnodi'r gweithrediadau hynny er mwyn gallu cadw ystadegau ac asesu perfformiad.

### 3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
|---|---|
| CYFYNGEDIG | **Er bod rheolaethau mewn lle, mae angen gwella cydymffurfiaeth â'r rheolaethau a/neu gyflwyno rheolaethau newydd i leihau'r risgiau mae'r gwasanaeth yn agored iddynt.** |

### 4. Sgôr Risg Cyfredol

4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Risg | Nifer |
|---|---|
| UCHEL IAWN | 0 |
| UCHEL | 0 |
| CANOLIG | 2 |
| ISEL | 0 |

### 5. Prif Darganfyddiadau

5.1 Yn unol â'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, y dyddiad targed ar gyfer ymateb yw 20 diwrnod gwaith, ond os yw'n amlwg na fydd y Cyngor yn gallu ymateb o fewn y dyddiad targed, dylid hysbysu'r ymgeisydd ac egluro'r rheswm am yr oedi.

5.2 Mae gan y Gwasanaeth Cefnogol system ceisiadau gwybodaeth ar system 'sharepoint' sydd wedi ei datblygu yn fewnol ac yn bwrpasol ar gyfer cofnodi a thracio ceisiadau am wybodaeth a dderbynnir. Mae swyddog penodol wedi ei benodi ar gyfer tracio'r ceisiadau ar y system ganolog ac i anfon y ceisiadau i'r adrannau cywir.

5.3 Yn ôl ystadegau rhyddid gwybodaeth Llywodraeth y DU, yn 2023, ar draws yr holl gyrff sy'n cael eu monitro, cafodd 81% o geisiadau eu hymateb mewn pryd, sydd i lawr o 86% yn 2022. Gwelwyd bod perfformiad Gwynedd ychydig yn is na'r ystadegau yma gyda chyfradd prydlondeb o 77%. Cafodd 1,160 o geisiadau eu derbyn yn ystod y flwyddyn ariannol 2023-24, a 267 o'r ceisiadau hyn heb dderbyn ymateb o fewn yr amserlen a ganiateir. Mae'r ystadegau yma'n cael eu hadrodd i'r Grŵp Llywodraethu Gwybodaeth ac o dan y drefn herio perfformiad yr adran Cefnogaeth Gorfforaethol.

5.4 Mae gwefan 'WhatDoTheyKnow' yn hwyluso gofyn am wybodaeth gan awdurdodau cyhoeddus y DU ac yn cyhoeddi'r ceisiadau ar-lein. Gwiriwyd sampl o 20 o geisiadau gafodd ei wneud drwy'r wefan yma, gan eu croes-gyfeirio gyda system mewnol y Cyngor, a gwelwyd mai dim ond 1/20 o'r ceisiadau yma cafodd eu hymateb o fewn yr amserlen a ganiateir yn ôl y Ddeddf. O'r 20 o'r ceisiadau, gwelwyd bod 12/20 cais ble mae'r ceisiadau wedi eu hanfon at swyddog penodol ond nad oes ymateb wedi ei roi, 1/20 yn disgwyl i adolygiad mewnol gael ei gwblhau (ble mae'r ymgeisydd yn anhapus gyda ymateb y Cyngor), 2/20 wedi derbyn ateb ond bod cwestiynau dilynol gan yr ymgeisydd a nad oes ymatebion pellach wedi eu rhoi. Nid oes cofnod bod 3/20 wedi eu cofnodi ar system fewnol y Cyngor, a nid oedd un o'r ceisiadau yn gais rhyddid gwybodaeth ond wedi ei gyfeirio i'r gwasanaeth perthnasol. Gwelwyd bod un o'r ceisiadau yn dyddio yn ôl i 2019, a nad oes ymateb wedi ei roi.

5.5 O'r sampl a wiriwyd, gwelwyd bod y Cyngor yn gwrthod darparu ateb ar sail diogelu data i unrhyw geisiadau sydd thu hwnt y ddeddf, yn ogystal a peidio darparu ymateb llawn os nad yw'r data ganddynt.

5.6 Mae'n ofynnol o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 bod pob awdurdod cyhoeddus yn cynnal Cynllun Cyhoeddi sydd wedi ei gymeradwyo gan y Comisiynydd Gwybodaeth. Mae'r Cynllun Cyhoeddi yn disgrifio'r wybodaeth mae'r Cyngor yn ei gyhoeddi, neu'n bwriadu ei gyhoeddi. Gwelwyd bod Cynllun Cyhoeddi Cyngor Gwynedd wedi ei leoli ar y safle wê. Mae'r Cynllun Cyhoeddi yn cynnwys rhestr o'r gwahanol feysydd o wybodaeth sydd wedi ei gyhoeddi ac sydd ar gael i'r cyhoedd i'w weld, yn ogystal a pwyntiau cyswllt ar gyfer y gwahanol feysydd o wybodaeth. Gwelwyd nad yw'r Cynllun wedi cael ei ddiweddaru ers cyfnod, ond bod cynlluniau ar y gweill i wneud hyn.

**6. Camau Gweithredu**

**Mae'r Gwasanaeth Ymchwil a Gwybodaeth wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:**

- **Parhau i annog adrannau i ymateb o fewn yr amserlen statudol.**
- **Cynnal y rhwydwaith pwyntiau cyswllt adrannol.**
- **Bod yn rhagweithiol drwy roi mwy o setiau data ar y wefan (data agored).**
- **Diweddaru y Cynllun Cyhoeddi a sicrhau ei fod yn gyfredol ar wefan y Cyngor.**
- **Sicrhau bod swyddogion o fewn adrannau yn ymateb i geisiadau o fewn yr amserlen statudol.**

Atodiad 6

# DATGANIAD CYFRIFYDDU HARBYRAU 2023-24

## 1. Cefndir

1.1 Yn unol â'r gofynion statudol o dan Ddeddf Harbyrau 1964 mae'n rhaid i Wynedd, fel awdurdod harbyrau, ddarparu datganiad cyfrifon blynyddol sy'n ymwneud â gweithgareddau harbyrau Pwllheli, Porthmadog, Abermaw ac Aberdyfi.

## 2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau cywirdeb datganiad cyfrifyddu blynyddol 'Harbyrau' ar gyfer y flwyddyn 2023/24, yn ogystal â chadarnhau bod rheolaethau mewnol priodol mewn lle.

## 3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
|---|---|
| UCHEL | **Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion.** |

## 4. Prif Ddarganfyddiadau

4.1 Gellir datgan sicrwydd o gywirdeb datganiad cyfrifyddu 'Harbyrau' ar gyfer y flwyddyn ariannol 2023/24. Yn seiliedig ar y profion a gynhaliwyd, gwelwyd fod trywydd archwilio priodol i'r ffigyrau ac y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion. Mae cyfrifon priodol wedi'u cadw a chynhelir cysoniadau banc fel rhan o weithgareddau ar draws y Cyngor.

4.2 Yn seiliedig ar y profion a gynhaliwyd gwelwyd fod sampl o daliadau wedi eu cefnogi gydag anfonebau neu derbynebau priodol, a bod treth ar werth wedi ei drin yn briodol. Roedd hefyd trywydd priodol i sampl o drosglwyddiadau eraill a wnaethpwyd drwy drosglwyddiadau mewnol.

4.3 Gweinyddir costau staff drwy Uned Cyflogau Cyngor Gwynedd ble chymhwyswyd gofynion TWE ac Yswiriant Gwladol yn briodol. Cofnodir y costau staffio yma yn briodol yn y datganiad.

4.4 Cefnogir y ffigwr asedau sefydlog ar y datganiad cyfrifyddu gyda'r cofrestr asedau.

Atodiad 7

**CRONFA'R DEGWM**

**1. Cefndir**

1.1 Mae Cronfa'r Degwm yn deillio o Ddeddf Eglwysi Cymru 1914. Mae Cyngor Gwynedd yn gweinyddu'r gronfa ac yn dosbarthu'r llog yn flynyddol ar ffurf grantiau i elusennau cofrestredig yng Ngwynedd er mwyn hyrwyddo a chefnogi gweithgareddau sydd o fudd i drigolion Gwynedd, ac yn cyfoethogi cymunedau. Mae modd i sefydliadau megis Eisteddfodau lleol, gweithgareddau celfyddydol, mudiadau addysg, hamdden a chwaraeon, cadwriaethol ac elusennau sy'n cefnogi pobl wael neu bobl anabl geisio am y grant. Mae'n bosib gwneud cais am unrhyw swm, ond bydd grantiau unigol yn dueddol i fod rhwng £100 a £3,000.

**2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad**

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd cynnal gwiriad annibynnol o ddatganiad o gyfrifon Cronfa'r Degwm am y flwyddyn ariannol 2023/24, yn unol â gofynion y Comisiwn Elusennau.

**3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad**

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
|---|---|
| **UCHEL** | **Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion.** |

**4. Prif Ddarganfyddiadau**

4.1 Yn unol â gofynion y Comisiwn Elusennau, mae'n rhaid cynnal archwiliad annibynnol o'r cyfrifon os yw incwm blynyddol y gronfa dros £25,000. Buddsoddwyd arian y gronfa er mwyn denu llog, ac felly rhagorwyd y trothwy incwm ym mlwyddyn ariannol 2023/24.

4.2 Gellir datgan sicrwydd o gywirdeb datganiad o gyfrifon Cronfa'r Degwm ar gyfer y flwyddyn ariannol 2023/24. Yn seiliedig ar y profion a gynhaliwyd, gwelwyd fod trywydd archwilio priodol i'r ffigyrau.

Atodiad 8

**CYFRIFON AMGUEDDFA LLOYD GEORGE**

**1. Cefndir**

1.1 Mae Amgueddfa Lloyd George a cartref ei blentyndod, Highgate, Llanystumdwy, yn olrhain bywyd cyn Brîf Weinidog y DU. Gweinyddir yr amgueddfa, sy'n elusen gofrestredig, gan Gyngor Gwynedd gyda chymorth Cyfeillion yr Amgueddfa sy'n cefnogi a chynorthwyo datblygiad yr Amgueddfa a'i defnydd addysgiadol. Oherwydd bod yr elusen wedi uchafu trothwy incwm o £25,000, rhaid cyflwyno cyfrifon i'r Comisiwn Elusennau am 2023-24, gan gynnwys adroddiad archwiliwr annibynnol o'r cyfrifon.

**2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad**

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd cwblhau adroddiad archwiliwr annibynnol o gyfrifon yr Amgueddfa am y flwyddyn ariannol 2023-24, gan roi sicrwydd bod yr hyn a gyflwynir i'r Comisiwn Elusennau yn gywir. Gwnaethpwyd hyn drwy eu cysoni gyda chyfriflyfr y Cyngor, gan sicrhau bod yr holl drafodion yn berthnasol i'r Amgueddfa.

**3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad**

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

| **Lefel Sicrwydd** | **Disgrifiad** |
|---|---|
| UCHEL | **Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion.** |

**4. Sgôr Risg Cyfredol**

4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

| **Lefel Risg** | **Nifer** |
|---|---|
| **UCHEL IAWN** | 0 |
| **UCHEL** | 0 |
| **CANOLIG** | 0 |
| **ISEL** | 1 |

**5. Prif Ddarganfyddiadau**

5.1 Darganfuwyd fod y cyfrifon ar gyfer 2023-24 yn briodol ac felly cwblhawyd adroddiad yr archwiliwr annibynnol er mwyn datgan hynny.

5.2 Er gwaethaf eu hymdrechion, nid yw’r Gwasanaeth Amgueddfeydd a Chelfyddydau wedi gallu uwchlwytho cyfrifon 2022-23 i wefan y Comisiwn Elusennau, sydd ar hyn o bryd yn dynodi eu bod yn hwyr, gan bod yr amserlen o 31 Ionawr 2024 wedi mynd heibio. Mae’r Gwasanaeth am ail-ymweld â hyn.

**6. <u>Camau Gweithredu</u>**

**Mae’r Gwasanaeth wedi ymrwymo i weithredu’r camau canlynol i liniaru’r risgiau a amlygwyd:**

- **Cyflwyno datganiadau ariannol yr elusen i wefan y Comisiwn Elusennau.**

Atodiad 9

**CARTREF PLAS PENGWAITH**

**1. Cefndir**

1.1 Mae Cartref Plas Pengwaith wedi ei leoli ym mhentref Llanberis ac yn darparu gofal ar gyfer hyd at 31 o breswylwyr dros 18 oed, gan arbenigo mewn cefnogi pobl sy'n byw gyda dementia.

**2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad**

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau addas mewn lle ar gyfer rheoli a chynnal y cartref yn briodol ac yn unol â rheoliadau a safonau perthnasol. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio bod trefniadau'r cartref yn ddigonol o ran gweinyddiaeth a staffio, rheolaeth gyllidebol, caffael nwyddau a derbyn incwm, iechyd a diogelwch, monitro perfformiad ynghyd â sicrhau bod y defnyddwyr gwasanaeth a'u heiddo'n cael eu diogelu.

**3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad**

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
|---|---|
| **CYFYNGEDIG** | **Er bod rheolaethau mewn lle, mae angen gwella cydymffurfiaeth â'r rheolaethau a/neu gyflwyno rheolaethau newydd i leihau'r risgiau mae'r gwasanaeth yn agored iddynt.** |

**4. Sgôr Risg Cyfredol**

4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Risg | Nifer |
|---|---|
| **UCHEL IAWN** | 0 |
| **UCHEL** | 3 |
| **CANOLIG** | 2 |
| **ISEL** | 0 |

**5. Prif Ddarganfyddiadau**

5.1 Gwiriwyd sampl o 10 anfoneb, ond gan nad oedd y cartref yn cadw cofnod o ddyddiad codi archebion, ni ellid cadarnhau eu bod wedi eu codi cyn derbyn yr anfoneb. Cadarnhaodd y Clerc ei bod yn derbyn sawl anfoneb i'w talu heb archeb i'w cefnogi, ond ei bod ar achlysuron tebyg, yn holi'r Rheolwr neu staff y gegin (sydd â hawl i godi archeb) am ddilysrwydd yr anfoneb cyn talu. Cytunodd o hyn ymlaen i gofnodi dyddiadau codi archebion.

5.2 Yn ystod yr ymweliad gwelwyd fod nifer o brofion wedi eu methu ar y larymau tân, goleuadau argyfwng, llwybrau dianc, a'r diffoddwyr tân. Cadarnhaodd y Rheolwr ei bod yn ddiweddar wedi rhoi'r ddyletswydd o wirio'r Llyfr Log Tân i aelod penodol o staff, mewn ymgyrch i adnabod pan fydd profion yn cael eu methu yn y dyfodol.

5.3 Gwelwyd nad oedd niferoedd o feddyginiaethau yn cysoni gyda cofnodion y cartref ar bob achlysur. Gwiriwyd sampl o feddyginiaethau 5 preswylydd yn ystod yr ymweliad, 7 gwahanol feddyginiaeth i gyd. Ar gyfer un, roedd 10 yn fwy o dabledi Paracetamol yn bresennol nad oedd wedi eu cofnodi ar wiriadau stoc y cartref. Cadarnhaodd y Cymhorthydd a oedd yn bresennol ar y pryd, y byddai'n nodi hyn yn y nodiadau 'hand-over'. Cadarnhaodd y Rheolwr yn ein cyfarfod cloi y byddai'n diweddaru'r cofnodion yn syth.

5.4 Mae cartrefi yn derbyn sawl Archwiliad Sicrwydd Ansawdd yn flynyddol, wedi eu cynnal yn fewnol gan Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant, yn ogystal ag Archwiliadau Iechyd a Diogelwch gan y Gwasanaeth Eiddo, ac Archwiliadau Meddyginiaeth gan GIG a'r fferyllfa leol. Pe byddai unrhyw elfen o'r Archwiliad Mewnol eisoes wedi ei wirio yn ddiweddar fel rhan o'r Archwiliadau Sicrwydd Ansawdd, Iechyd a Diogelwch, neu Feddyginiaeth, penderfynwyd dibynnu ar yr adroddiadau, gan dderbyn eu sicrwydd.

5.5 Fodd bynnag, ymddengys nad yw argymhellion yn deillio o Archwiliadau Sicrwydd Ansawdd nac Archwiliadau Meddyginiaeth yn cael eu gweithredu ar bob achlysur. Mae gwiriadau ar dymheredd yr oergell a'r ystafell feddyginiaeth yn parhau heb eu gweithredu yn ddyddiol, er i'r fferyllfa amlygu hyn yn eu harchwiliad dyddiedig Ionawr 10fed 2024. Yn ogystal, mae goruchwylio a gwerthuso staff yn parhau heb eu cwblhau yn amserol ers Archwiliad Sicrwydd Ansawdd 5ed o Chwefror, 2024. Eglurodd y Rheolwr fod trefniadau eisoes mewn lle ar gyfer cynnal cyfarfodydd goruchwylio. Yn dilyn ymweld â'r cartref, cadarnhawyd fod pob aelod staff wedi eu gwerthuso erbyn hyn.

5.6 Nid yw meddyginiaethau yn cael eu cadw o fewn y tymheredd cywir. Mae disgwyl i dymheredd yr ystafell feddyginiaeth gael ei gadw o dan 25°C, a'r oergell rhwng 2°C-8°C. Ar ddiwrnod yr ymweliad roedd yr ystafell yn 25.7°C, a'r oergell yn 12.8°C. Roedd y cofnodion a gedwir yn cadarnhau fod y tymereddau yn rhy uchel ar sawl achlysur. Yn ogystal, gwelwyd fod y thermomedr ar gyfer cofnodi tymheredd yr ystafell wedi ei leoli mewn ystafell wahanol i ble cedwir y feddyginiaeth. Trefnwyd fod y thermomedr yn cael ei symud i'r ystafell gywir yn ystod yr ymweliad. Yn dilyn yr ymweliad darganfu'r Rheolwr fod yr oergell wedi ei diffodd ac ers ei throi ymlaen, mae tymheredd yr oergell wedi bod o fewn y graddfeydd cywir.

5.7 Nododd y Rheolwr fod adroddiadau cyllidebol yn cael eu derbyn yn fisol gan yr Uned Gyllid, ond ei bod, oherwydd diffyg hyfforddiant priodol, yn bryderus i gysylltu'n uniongyrchol gyda'r Uned gydag unrhyw ymholiadau. Mynegodd ddiddordeb mewn derbyn hyfforddiant cyllidebol cyfredol.

**6. <u>Camau Gweithredu</u>**

**Mae'r Rheolwr a'r Clerc wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:**

- **Sicrhau fod archeb yn cael ei chodi ar bob achlysur wrth archebu nwyddau, gan gadw cofnod o'r dyddiad.**
- **Sicrhau fod profion tân yn cael eu cynnal yn amserol.**
- **Sicrhau fod gwiriadau stoc meddyginiaeth cywir yn cael eu cynnal yn wythnosol, yn ogystal a gwiriadau misol wrth archebu stoc.**
- **Atgoffa staff nos i wirio a chofnodi tymheredd yr oergell a'r 'stafell feddyginiaeth yn dyddiol, gan fonitro am gyfnod ers symud thermomedr yr ystafell, ac ystyried opsiynau ar gyfer rheoli'r tymheredd os nad yw o fewn y graddfeydd disgwyliedig.**
- **Ymdrechu i weithredu ar argymhellion archwiliadau allanol yn brydlon, yn benodol, goruchwyliaeth staff.**

Atodiad 10

**CARTREF LLYS CADFAN**

**1. Cefndir**

1.1 Mae Cartref Llys Cadfan wedi ei leoli yn nhref Tywyn ac yn darparu gofal ar gyfer hyd at 33 o breswylwyr dros 18 oed, gan arbenigo mewn cefnogi pobl sy'n byw gyda dementia.

**2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad**

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau addas mewn lle ar gyfer rheoli a chynnal y cartref yn briodol ac yn unol â rheoliadau a safonau perthnasol. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio bod trefniadau'r cartref yn ddigonol o ran gweinyddiaeth a staffio, rheolaeth gyllidebol, caffael nwyddau a derbyn incwm, iechyd a diogelwch, monitro perfformiad ynghyd â sicrhau bod y defnyddwyr gwasanaeth a'u heiddo'n cael eu diogelu.

**3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad**

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
|---|---|
| **CYFYNGEDIG** | **Er bod rheolaethau mewn lle, mae angen gwella cydymffurfiaeth â'r rheolaethau a/neu gyflwyno rheolaethau newydd i leihau'r risgiau mae'r gwasanaeth yn agored iddynt.** |

**4. Sgôr Risg Cyfredol**

4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Risg | Nifer |
|---|---|
| **UCHEL IAWN** | 0 |
| **UCHEL** | 1 |
| **CANOLIG** | 6 |
| **ISEL** | 1 |

**5. Prif Ddarganfyddiadau**

5.1 Mae cartrefi yn derbyn sawl Archwiliad Sicrwydd Ansawdd yn flynyddol, wedi eu cynnal yn fewnol gan Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant, yn ogystal ag Archwiliadau Iechyd a Diogelwch gan y Gwasanaeth Eiddo, ac Archwiliadau Meddyginiaeth gan GIG a'r fferyllfa leol. Pe byddai unrhyw elfen o'r Archwiliad Mewnol eisoes wedi ei wirio yn ddiweddar fel ran o'r Archwiliadau Sicrwydd Ansawdd, Iechyd a Diogelwch, neu Feddyginiaeth, penderfynwyd dibynnu ar yr adroddiadau, gan dderbyn eu sicrwydd.

5.2 Cynhaliwyd Archwiliad Sicrwydd Ansawdd ar ffeiliau staff Cartref Llys Cadfan ym mis Mawrth 2024, ble wiriwyd hyfforddiant cyffredinol, ymaelodi Gofal Cymdeithasol Cymru, cofnodion goruchwylio a gwerthuso, yn ogystal â chytundebau cyflogaeth. Er nad oedd popeth yn bresennol ac yn gywir ar y pryd, gwelwyd bod yr argymhellion yn deillio o'r Archwiliad Sicrwydd Ansawdd wedi eu gweithredu erbyn ymweld â'r cartref, ac y ffeiliau staff yn gyflawn.

5.3 Cynhaliwyd Archwiliad Meddyginiaeth gan y fferyllfa leol ym mis Ionawr 2024. Nodwyd fod y cartref yn cadw cofnodion priodol, a bod trefniadau addas mewn lle ar gyfer archebu, cadw, gweinyddu, a gwaredu meddyginiaethau. Cadarnhawyd yn yr adroddiad fod hyfforddiant staff yn gyfredol, a phawb wedi mabwysiadu'r Polisi Meddyginiaeth. Er hynny, yn ystod yr ymweliad, gwelwyd fod drws yr ystafell heb ei gau. Fe'i gaewyd yn syth gan y Rheolwr. Gwelwyd fod nodyn eisoes ar y drws yn atgoffa staff i'w gloi ar bob achlysur.

5.4 Gwelwyd nad oedd y niferoedd o feddyginiaethau yn cytuno gyda chofnodion y cartref ar bob achlysur. Gwiriwyd meddyginiaeth 6 preswylydd, 9 gwahanol feddyginiaeth ar y cyfan. Ar gyfer un preswylydd, roedd cofnodion yn cartref yn cadarnhau 125 o dabledi 'Paracetamol' ar eu cyfer, gydag ond 121 yn y bocs. Yn dilyn yr ymweliad, cadarnhaodd y Rheolwr fod yr anghysondeb yn deillio o fethiant un aelod o staff i nodi'r nifer cywir o dabledi ar y cofnodion ond bod y cofnodion wedi'i gywiro bellach.

5.5 Ni welwyd fod poster 'Diogelu' wedi ei arddangos yn y cartref. Fodd bynnag, roedd cardiau 'Diogelu' wedi eu cadw wrth y llyfr ymwelwyr. Cadarnhaodd y Rheolwr y byddai'n trefnu i arddangos poster.

5.6 Gwelwyd nad oedd ymwelwyr yn arwyddo'r llyfr ymwelwyr ar pob achlysur wrth adael y cartref. Nododd y Rheolwr byddai'n trefnu fod poster yn cael ei roi wrth y llyfr ymwelwyr ar gyfer atgoffa pawb i arwyddo wrth adael.

5.7 Ni welwyd fod rhai o asesiadau risg generig y cartref wedi eu hadolygu ers 2022 ond eu bod yn y broses o gael eu diweddaru.

5.8 Gwelwyd nad oedd Cofrestr Eiddo'r cartref yn gyfredol. Fodd bynnag, cadarnhaodd y Rheolwr fod trefniadau eisoes mewn lle i staff nos ei ddiweddaru.

5.9 Gwiriwyd sampl o gardiau gwyliau 4 aelod staff yn ystod yr ymweliad, gan wirio fod yr hawl gwyliau blynyddol yn cytuno gyda'r fformiwla. Ar gyfer un aelod staff, roedd y fformiwla yn cadarnhau hawl gwyliau o 270.1 awr, ond y cerdyn gwyliau yn nodi ond 240. Cadarnhaodd y Rheolwr mai camgymeriad oedd hyn a fe'i gywiriwyd yn syth. Mynegodd bod risg o gam cyfrifo hawl gwyliau oherwydd derbyniwyd y ddogfen fformiwla gwreiddiol nôl yn 2021, ond ers hynny, mae unrhyw addasiadau yn cael eu derbyn drwy negeseuon e-byst gan yr Ymgynghorydd Adnoddau Dynol, gyda'r Rheolwr yn gorfod diweddaru'r ddogfen wreiddiol.

Gwelwyd y ddogfen fformiwla yn ystod yr ymweliad a gwelwyd bod sawl fformiwla wedi eu croesi allan a fformiwlâu newydd wedi eu hychwanegu gyda llaw. Credir byddai'n haws petai yn derbyn un ddogfen swyddogol eisoes wedi ei ddiweddaru, gyda chanllawiau clir.

5.10 Gwelwyd fod gan y Cartref Ddatganiad o Ddiben cynhwysfawr, ond nad ydyw wedi ei gyflwyno i'r safon a ddisgwylir gan yr Awdurdod, gyda maint a steil y ffont yn amrywio drwy'r ddogfen, prif lythrennau yng nghanol brawddegau, penawdau heb eu hamlygu, a chanllawiau ar sut i lenwi'r ddogfen heb eu dileu.

5.11 Nododd y Rheolwr ei bod yn derbyn adroddiadau cyllidebol yn rheolaidd gan yr Uned Gyllid, ac er ei bod yn cynnal gwiriad sylfaenol, nid yw wedi derbyn unrhyw hyfforddiant perthnasol. Mynegodd diddordeb mewn derbyn hyfforddiant cyllidebol cyfredol.

**6. <u>Camau Gweithredu</u>**

**Mae'r Rheolwr wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:**

- **Staff wedi cael eu hatgoffa o'r angen i gadw drws ystafell feddyginiaeth ar gloi.**
- **Sicrhau fod cofnodion stoc meddyginiaeth yn gywir ac yn cysoni.**
- **Arddangos poster 'Diogelu' mewn man priodol, ble bydd pob aelod staff yn ei weld.**
- **Trefnu fod poster yn cael ei roi wrth y llyfr ymwelwyr yn atgoffa pawb i arwyddo wrth adael.**
- **Sicrhau fod asesiadau risg yn gyfredol ac yn derbyn adolygiad rheolaidd.**
- **Sicrhau fod y Gofrestr Eiddo yn cael ei ddiweddaru ac yn derbyn adolygiad blynyddol.**
- **Sicrhau cywirdeb wrth gyfrifo gwyliau staff.**
- **Adolygu safon cyflwyno Datganiad o Ddiben.**

Atodiad 11

**CARTREF PLAS HAFAN**

**1. Cefndir**

1.1 Mae Cartref Plas Hafan wedi ei leoli yn Nefyn ac yn darparu gofal ar gyfer hyd at 30 o breswylwyr dros 18 oed, ac o dan reolaeth Rheolwr newydd ers Chwefror 2024.

**2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad**

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau addas mewn lle ar gyfer rheoli a chynnal y cartref yn briodol ac yn unol â rheoliadau a safonau perthnasol. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio bod trefniadau'r cartref yn ddigonol o ran gweinyddiaeth a staffio, rheolaeth gyllidebol, caffael nwyddau a derbyn incwm, iechyd a diogelwch, monitro perfformiad ynghyd â sicrhau bod y defnyddwyr gwasanaeth a'u heiddo'n cael eu diogelu.

**3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad**

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
|---|---|
| **CYFYNGEDIG** | **Er bod rheolaethau mewn lle, mae angen gwella cydymffurfiaeth â'r rheolaethau a/neu gyflwyno rheolaethau newydd i leihau'r risgiau mae'r gwasanaeth yn agored iddynt.** |

**4. Sgôr Risg Cyfredol**

4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Risg | Nifer |
|---|---|
| **UCHEL IAWN** | 0 |
| **UCHEL** | 1 |
| **CANOLIG** | 5 |
| **ISEL** | 1 |

**5. Prif Ddarganfyddiadau**

5.1 Mae cartrefi yn derbyn sawl Archwiliad Sicrwydd Ansawdd yn flynyddol, wedi eu cynnal yn fewnol gan yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant, yn ogystal ag Archwiliadau Iechyd a Diogelwch gan y Gwasanaeth Eiddo, ac archwiliadau meddyginiaeth gan GIG a'r fferyllfa leol. Pe byddai unrhyw elfen o'r Archwiliad Mewnol eisoes wedi ei wirio yn ddiweddar fel rhan o'r Archwiliadau Sicrwydd Ansawdd, Iechyd a Diogelwch, neu Feddyginiaeth, penderfynwyd dibynnu ar yr adroddiadau, gan dderbyn eu sicrwydd.

Cynhaliwyd Archwiliad Sicrwydd Ansawdd ar ffeiliau staff Cartref Plas Hafan ym mis Chwefror 2024 ble gwiriwyd hyfforddiant cyffredinol, ymaelodiad Gofal Cymdeithasol Cymru, cofnodion goruchwylio a gwerthuso, yn ogystal â chytundebau cyflogaeth. Nodwyd fod popeth yn bresennol ac yn gyfredol yn eu harchwiliad.

5.2 Gwelwyd fod gan y Cartref Ddatganiad o Ddiben cynhwysfawr, ond nad ydyw wedi ei gyflwyno i'r safon ddisgwylir gan yr Awdurdod, gyda maint a steil y ffont yn amrywio drwy'r ddogfen, penawdau heb eu hamlygu, a chanllawiau ar sut i lenwi'r ddogfen heb eu dileu.

5.3 Nid yw cynlluniau gofal preswylwyr wedi eu cadw mewn lleoliad diogel. Mae'r cynlluniau wedi eu cadw mewn cypyrddau yn y cyntedd. Er fod y cypyrddau wedi eu cloi, mae'r allweddi yn cael eu cadw ar fachyn uwchben, ble mae gan pob ymwelydd i'r cartref fynediad. Cytunodd y Rheolwr i ystyried gwahanol opsiynau ar gyfer diogelu'r allweddi yn well.

5.4 Mae cartrefi preswyl wedi gwaredu â thaflenni amser bellach, gyda'r Rheolwyr yn cofnodi oriau eu staff mewn taenlen i'w chyflwyno i'r Gwasanaeth Cyflogau. Detholwyd sampl o 4 aelod staff, gan wirio fod yr oriau ar eu cyfer ar 'rota' waith Ebrill 2024, yn cytuno gyda'r daenlen. O'r sampl, cytunwyd 3 allan o 4, gydag anghysondeb o 6 awr ar gyfer un aelod staff. Roedd y 'rota' ar gyfer wythnos yn diweddu Ebrill 27ain yn cadarnhau bod 45 awr wedi'u gweithio, gyda 51 awr wedi eu cofnodi ar y daenlen. Awgrymodd y Rheolwr fod yr anghysondeb yn deillio o gamgymeriad yn y daenlen ym mis Mawrth 2024, sydd wedi'i gywiro mis Ebrill. Fodd bynnag, ni welwyd trywydd archwilio na chofnodion cefnogol ar gyfer yr addasiad.

5.5 Nid yw cofrestr eiddo'r cartref yn cael ei adolygu'n flynyddol. Gwelwyd fod nifer o dderbynebau yn y ffeil ar gyfer eitemau newydd wedi eu prynu, ond nad oeddynt wedi eu hychwanegu ar y gofrestr. Eglurodd y Rheolwr y byddai'n trefnu adolygiad yn fuan.

5.6 Ni welwyd fod poster 'Diogelu' wedi ei arddangos yn y cartref. Cadarnhaodd y Rheolwr ei bod newydd ei dderbyn. Yn dilyn yr ymweliad, cadarnhawyd fod y poster wedi ei arddangos.

5.7 Ar gyfer rhai meddyginiaethau, gwelwyd nad oeddent wedi derbyn gwiriad stoc ers pythefnos o ddyddiad yr ymweliad, ble mae disgwyl eu cynnal yn wythnosol. Yn ogystal, gwelwyd nad oedd y niferoedd o feddyginiaethau yn cytuno gyda chofnodion y cartref ar pob achlysur. Gwiriwyd meddyginiaeth 5 preswylydd, 9 gwahanol feddyginiaeth ar y cyfan. Ar gyfer un preswylydd, roedd 2 yn fwy o dabledi 'Paracetamol' na'r hyn oedd wedi eu cofnodi gan y cartref, gyda tabledi 'Apixaban' preswylydd arall yn brin o 28 o'i gymharu a'u cofnodion.

5.8 Detholwyd sampl o 10 aelod staff ar gyfer gwirio eu cofnodion hyfforddiant, yn benodol, hyfforddiant Tân, Cymorth Cyntaf, Diogelu, Symud a Thrin, a Meddyginiaeth. Gwelwyd fod sawl aelod staff gyda hyfforddiant unai wedi dod i ben, neu heb unrhyw hyfforddiant perthnasol o gwbwl. Cadarnhaodd y Rheolwr ei bod yn ymwybodol o hyn, ac yn cadw cofnod o'r staff hynny ar gyfer trefnu hyfforddiant yn y dyfodol agos.

5.9 Nododd y Rheolwr ei bod yn derbyn adroddiadau cyllidebol yn reolaidd gan yr Uned Gyllid, ond credir oherwydd diffyg hyfforddiant priodol bod angen cymorth pellach i'w deall. Mynegodd ddiddordeb mewn derbyn hyfforddiant cyllidebol cyfredol.

**6. <u>Camau Gweithredu</u>**

**Mae'r Rheolwr wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:**

- **Adolygu safon cyflwyno Datganiad o Diben.**
- **Sicrhau fod allweddi i'r cypyrddau ble cedwir cynlluniau gofal yn cael eu cadw mewn man diogel, allan o afael ymwelwyr, ble mai staff yn unig sydd â mynediad.**
- **Bod unrhyw addasiadau i oriau'r 'rota' waith yn cael eu cofnodi, unai ar y 'rota' neu ar y daenlen cyflogau, fel y gellir egluro unrhyw addasiadau/anghysondebau.**
- **Sicrhau fod y Gofrestr Eiddo yn cael ei diweddaru ac yn derbyn adolygiad blynyddol.**
- **Arddangos poster 'Diogelu' mewn man priodol, ble bydd pob aelod staff yn ei weld.**
- **Sicrhau fod gwiriadau stoc meddyginiaeth yn cael eu cynnal yn wythnosol.**
- **Trefnu hyfforddiant Tân, Cymorth Cyntaf, Diogelu, Symud a Thrin, a Meddyginiaeth, ar gyfer yr aelodau staff perthnasol, gan sicrhau fod yr hyfforddiant yn cael ei adnewyddu yn reolaidd.**

| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | **PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO** |
| DYDDIAD | **10 HYDREF 2024** |
| TEITL | **CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2024/25** |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | **DIWEDDARU'R PWYLLGOR AR Y CYNNYDD YN ERBYN CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2024/25** |
| AWDUR | **LUNED FÔN JONES - RHEOLWR ARCHWILIO** |
| GWEITHREDIAD | **ER GWYBODAETH** |

---

**1. CYFLWYNIAD**

1.1 Mae'r adroddiad yma yn ddiweddariad ar y sefyllfa gyfredol o ran cwblhau Cynllun Archwilio Mewnol 2024/25.

**2. CRYNODEB O WAITH Y CYNLLUN**

2.1 Mae Cynllun Archwilio 2024/25 wedi ei gynnwys yn Atodiad 1, gyda statws y gwaith ar 27 Medi 2024 wedi ei nodi, yn ogystal â'r amser a dreuliwyd ar bob archwiliad. Roedd statws y gwaith yn y cynllun gweithredol ar y dyddiad hwnnw fel a ganlyn:

| **Statws yr Archwiliad** | **Nifer** |
|---|---|
| Wedi ei gynllunio | 16 |
| Gwaith Maes ar y gweill | 13 |
| Disgwyl Adolygiad | 4 |
| Adroddiad Drafft | 1 |
| Wedi ei gau | 0 |
| Adroddiad Terfynol | 11 |
| **Cyfanswm** | **45** |
| | |
| **Canslwyd** | **3** |

2.2 Mae'r gwasanaeth yn anelu i gael 95% o archwiliadau'r cynllun unai wedi eu cau neu gydag adroddiad terfynol wedi ei ryddhau erbyn 31 Mawrth 2025. Mae proffil y dangosydd fesul chwarter fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Diwedd chwarter 1 | 8% |
| Diwedd chwarter 2 | 20% |
| Diwedd chwarter 3 | 50% |
| Diwedd chwarter 4 | 95% |

2.3 Gwelir o'r tabl uchod mai gwir gyrhaeddiad Archwilio Mewnol hyd at 27 Medi 2024 oedd **24%** - allan o'r **45** archwiliad unigol yng nghynllun 2024/25 roedd **11** wedi eu rhyddhau yn derfynol/cwblhau, neu wedi cau.

**3. ADDASIADAU I'R CYNLLUN**

3.1 Yn wreiddiol, rhagwelwyd bod oddeutu 660 diwrnod o adnoddau archwilio ar gael i gwblhau Cynllun Archwilio 2024/25. Roedd hyn ar sail dadansoddi'r adnoddau staffio oedd ar gael, gan gynnwys cyllidebau rhesymol ar gyfer gweithgareddau 'di-gynnyrch' megis gwyliau, salwch, hyfforddiant, rheolaeth a chyfarfodydd. Fodd bynnag, mae archwiliadau pellach wedi eu hychwanegu, felly mae'n anorfod gwneud newidiadau i'r Cynllun.

3.2 I adlewyrchu'r uchod yn y Cynllun Archwilio, penderfynwyd i addasu neu ganslo/gohirio'r archwiliadau canlynol:

| **Archwiliad** | **Dyddiau** | **Ychwanegol Addasiad/Canslo** |
|---|---|---|
| Rheolaeth Categori - Amgylchedd | 20 | Ychwanegol |
| Dilyniant – Rheolaeth Categori Corfforaethol | 5 | Ychwanegol |
| Ymwybyddiaeth Gweithwyr o'r Polisi Diogelu | 15 | Ychwanegol |
| Meysydd Parcio – Economi a Chymuned | 12 | Ychwanegol |
| | ***52*** | |
| Cronfeydd Ysgol (Dilyniant) | -10 | Addasiad |
| Cynghori ac Ymgynghoriaeth, Cefnogi Adolygiadau Ffordd Gwynedd | -10 | Addasiad |
| Lleoliadau All-Sirol | -4 | Addasiad |
| Balansau Wrth Gefn Ysgolion | -8 | Canslo |
| Traffig a Phrosiectau | -10 | Canslo |
| Deddf Etholiadau 2022 | -10 | Canslo |
| | **52** | |

3.3 Yn unol ag arfer gorau a Safonau Archwilio Mewnol y Sector Gyhoeddus, mae'r Cynllun Archwilio Mewnol yn destun adolygiad parhaus i sicrhau ei fod yn parhau'n gyfredol ac yn adlewyrchu newidiadau yn y busnes. I'r perwyl hyn, mae'n ofynnol bod y Cynllun Archwilio yn hyblyg a chaiff y cynllun ei adolygu a'i ddiweddaru'n barhaus.

**4. ARGYMHELLIAD**

4.1 Gofynnir i'r Pwyllgor nodi cynnwys yr adroddiad hwn fel diweddariad o gynnydd yn erbyn cynllun archwilio 2024/25, cynnig sylwadau a derbyn yr adroddiad.

Atodiad 1

| Adran | Archwiliad | Cynllun Gwreiddiol | Cynllun Addasedig | Gwir Ddyddiau | Ar ôl | Statws yr Archwiliad | Lefel Sicrwydd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Addysg | Grant Addysg Ôl-16 | 5 | 5 | 3.91 | 1.1 | Adroddiad Terfynol | Uchel |
| | Cronfeydd Ysgol (Dilyniant) | 30 | 20 | 1.82 | 18.2 | Wedi ei gynllunio | |
| | Safonau Digidol Addysg | 20 | 20 | 1.32 | 18.7 | Gwaith ar y gweill | |
| | Ysgolion Cyffredinol | 5 | 5 | 0.45 | 4.6 | Gwaith ar y gweill | |
| | Balansau Wrth Gefn Ysgolion | 8 | 0 | 0.00 | 0.0 | Wedi canslo | |
| | Clwbiau Brecwast | 25 | 25 | 9.91 | 15.1 | Gwaith ar y gweill | |
| | Cludiant Ysgolion | 15 | 15 | 11.01 | 4.0 | Gwaith ar y gweill | |
| | | | | | | | |
| Amgylchedd | Trefniadau Clefyd Coed Ynn | 15 | 15 | 1.66 | 13.3 | Wedi ei gynllunio | |
| | Rheoli Prosiect Trafnidiaeth Ysgolion | 15 | 15 | 17.82 | -2.8 | Disgwyl adolygiad | |
| | Traffig a Phrosiectau | 10 | 0 | 0.00 | 0.0 | Wedi canslo | |
| | Trefniadau Dosbarthu Biniau | 12 | 12 | 2.81 | 9.2 | Wedi ei gynllunio | |
| | Meysydd Parcio | 20 | 20 | 19.50 | 0.5 | Adroddiad Terfynol | Digonol |
| | Rheolaeth Categori Amgylchedd | 0 | 20 | 14.96 | 5.0 | Gwaith ar y gweill | |
| | | | | | | | |
| Cefnogaeth Gorfforaethol | Cofrestr Diogelwch Staff | 10 | 10 | 11.45 | -1.4 | Adroddiad Terfynol | Digonol |
| | Dilyniant – Rheolaeth Categori Corfforaethol | 0 | 5 | 0.78 | 4.2 | Wedi ei gynllunio | |
| | | | | | | | |
| Cofforaethol | Cynghori ac Ymgynghoriaeth, Cefnogi Adolygiadau Ffordd Gwynedd | 40 | 30 | 6.86 | 23.1 | Wedi ei gynllunio | |
| | Trefniadau Diogelu- Sefydliadau | 3 | 3 | 0.20 | 2.8 | Wedi ei gynllunio | |
| | Gwaith Atal Twyll ac Atal Llygredigaeth Rhagweithiol a'r Fenter Twyll Genec | 50 | 50 | 6.36 | 43.6 | Gwaith ar y gweill | |
| | Rheoli Gwybodaeth - Sefydliadau | 3 | 3 | 0.00 | 3.0 | Wedi ei gynllunio | |
| | Rheoli Absenoldebau a Threfniadau Cyfeirio | 15 | 15 | 12.03 | 3.0 | Adroddiad Terfynol | Digonol |
| | Rheoli Absenoldebau a Chyfeirio Rhan 2 | 15 | 15 | 1.08 | 13.9 | Wedi ei gynllunio | |
| | Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth | 15 | 15 | 18.12 | -3.1 | Adroddiad Terfynol | Cyfyngedig |
| | Trefniadau Diogelu Data | 15 | 15 | 0.00 | 15.0 | Wedi ei gynllunio | |
| | Canu'r Gloch | 25 | 25 | 25.43 | -0.4 | Adroddiad Drafft | |
| | Defnydd o Ystafelloedd Allanol | 15 | 15 | 14.24 | 0.8 | Disgwyl adolygiad | |
| | Defnydd o Ymgynghorwyr | 30 | 30 | 0.00 | 30.0 | Wedi ei gynllunio | |
| | Ymwybyddiaeth Gweithwyr o'r Polisi Diogelu | 0 | 15 | 0.00 | 15.0 | Wedi ei gynllunio | |
| | | | | | | | |
| Cyllid | Ffonau Symudol | 20 | 20 | 6.08 | 13.9 | Gwaith ar y gweill | |
| | Datganiad Cyfrifyddu Harbyrau 2023-24 | 4 | 4 | 4.01 | -0.0 | Adroddiad Terfynol | Uchel |
| | System Credydwyr - Rheolaethau Allweddol | 15 | 15 | 9.39 | 5.6 | Gwaith ar y gweill | |
| | | | | | | | |
| Economi a Chymuned | Cronfa'r Degwm | 3 | 3 | 3.01 | -0.0 | Adroddiad Terfynol | Uchel |
| | Amgueddfa Lloyd George | 3 | 3 | 3.04 | -0.0 | Adroddiad Terfynol | Uchel |
| | Cronfa Ffyniant Gyffredin (SPF - Shared Prosperity Fund) | 15 | 15 | 0.00 | 15.0 | Wedi ei gynllunio | |
| | Meysydd Parcio Economi a Chymuned | 0 | 12 | 8.41 | 3.6 | Disgwyl adolygiad | |
| | | | | | | | |
| Oedolion, Iechyd a Llesiant | Plas Hafan | 12 | 12 | 14.77 | -2.8 | Adroddiad Terfynol | Cyfyngedig |
| | Llys Cadfan | 12 | 12 | 13.89 | -1.9 | Adroddiad Terfynol | Cyfyngedig |
| | Plas Pengwaith | 12 | 12 | 13.38 | -1.4 | Adroddiad Terfynol | Cyfyngedig |
| | Gofal Cartref Allanol | 20 | 20 | 0.11 | 19.9 | Wedi ei gynllunio | |
| | | | | | | | |
| Plant a Chefnogi Teuluoedd | Lleoliadau All-Sirol | 24 | 20 | 0.00 | 20.0 | Wedi ei gynllunio | |
| | | | | | | | |
| Priffyrdd, Peirianneg a YGC | Fflyd - Defnydd Tanwydd | 12 | 12 | 0.00 | 12.0 | Wedi ei gynllunio | |
| | Toiledau Cyhoeddus | 8 | 8 | 13.18 | -5.2 | Disgwyl adolygiad | |
| | Glanhau Stryd | 10 | 10 | 3.55 | 6.4 | Gwaith ar y gweill | |
| | Gwasanaeth Profedigaeth | 10 | 10 | 0.00 | 10.0 | Wedi ei gynllunio | |
| | | | | | | | |
| Tai ac Eiddo | Dilyniant - Mandddaliadau | 10 | 10 | 3.24 | 6.8 | Gwaith ar y gweill | |
| | Cynnal y Gofrestr Aros Tai | 10 | 10 | 7.95 | 2.1 | Gwaith ar y gweill | |
| | Cynllun Prynu Cartref Gwynedd | 18 | 18 | 0.74 | 17.3 | Gwaith ar y gweill | |
| | Grant Cymorth Tai | 12 | 12 | 6.07 | 5.9 | Gwaith ar y gweill | |
| | | | | | | | |
| Tîm Arweinyddiaeth Corfforaethol | Cynllunio ar gyfer newid mewn cyfraith - Deddf Etholiadau Cymru | 10 | 0 | 2.23 | -2.2 | Wedi canslo | |
| | | 656 | 656 | 294.80 | 361.2 | | |

| | |
|---|---|
| CYFARFOD: | **PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO** |
| DYDDIAD: | **10 HYDREF 2024** |
| TEITL: | **TROSOLWG ARBEDION:<br>ADRODDIAD CYNNYDD AR WIREDDU CYNLLUNIAU ARBEDION** |
| PWRPAS: | **Adrodd ar y Sefyllfa Ddiweddaraf** |
| GWEITHREDIAD: | **Derbyn yr wybodaeth ac ystyried y risgiau cyffredinol sy'n deillio o lithriadau yn yr arbedion** |
| AELOD CABINET: | **CYNGHORYDD PAUL ROWLINSON** |
| SWYDDOG CYSWLLT: | **FFION MADOG EVANS, PENNAETH CYLLID CYNORTHWYOL** |

---

**1.** Yn unol â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, disgwylir i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio graffu rhai materion ariannol lle'n briodol.

**2.** Bydd yr adroddiad atodol (Trosolwg Arbedion: Adroddiad cynnydd ar wireddu cynlluniau arbedion) yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet ar 15 Hydref 2024.

**3.** Mae'r Aelod Cabinet dros Gyllid, a Chadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wedi gofyn i ni gyflwyno'r adroddiad yma i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i'w graffu.

**4.** Gofynnir i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio nodi'r sefyllfa a'r risgiau perthnasol yng nghyswllt y Trosolwg Arbedion, ystyried penderfyniadau i'r Cabinet a sylwebu fel bo angen.

**Atodiadau:**
Adroddiad Cabinet 15/10/2024: Trosolwg Arbedion: Adroddiad cynnydd ar wireddu cynlluniau arbedion

# CYNGOR GWYNEDD – Adroddiad i Gabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Teitl yr eitem:** | **Trosolwg Arbedion:**<br>**Adroddiad Cynnydd ar Wireddu Cynlluniau Arbedion** |
| **Aelod Cabinet:** | **Y Cynghorydd Paul Rowlinson, Aelod Cabinet Cyllid** |
| **Swyddog perthnasol:** | **Ffion Madog Evans, Pennaeth Cyllid Cynorthwyol**<br>**- Cyfrifeg a Phensiynau** |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **15 Hydref 2024** |

**1. Penderfyniad a geisir**

**1.1** Derbyn y wybodaeth yn yr adroddiad a nodi'r cynnydd tuag at wireddu cynlluniau arbedion 2024/25 a blynyddoedd blaenorol.

**2. Y rheswm pam fod angen i'r Cabinet wneud y penderfyniad**

**2.1** Mae gwireddu'r cynlluniau unigol yn gyfrifoldeb aelodau perthnasol o'r Cabinet, sy'n herio perfformiad yr adrannau gan gynnwys cynnydd y cynlluniau arbedion. Cyfrifoldeb yr Aelod Cabinet dros Gyllid yw cadw trosolwg o'r darlun cyfan.

**3. Cyflwyniad a Rhesymeg**

**Cefndir / Cyflwyniad**

**3.1** Mae'r adroddiad yma'n rhoi trosolwg o sefyllfa arbedion y Cyngor ar gyfer 2024/25 a blynyddoedd blaenorol yn dilyn adolygiad o'r sefyllfa ar ddiwedd Awst 2024.

**3.2** Yn adroddiad Cyllideb 2024/25 i'r Cyngor Llawn ar 7 Mawrth 2024, adroddwyd fod arbedion gwerth £5,648,890 yn ofynnol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2024/25 er mwyn cynorthwyo i gau'r bwlch cyllidol 2024/25. Roedd yr arbedion yn gyfuniad o £3,668,130 oedd wedi eu cymeradwyo yn flaenorol yng Nghabinet 14 Chwefror 2023 ar gyfer cyllideb 2023/24, cynllun gwerth £15,000 a gafodd gymeradwyaeth y Cabinet 19 Chwefror 2019 ond sydd wedi llithro, ynghyd ag arbedion newydd a gymeradwywyd yng Nghabinet 20 Chwefror 2024 gwerth £1,956,760.

**4. Rhesymeg a chyfiawnhad dros argymell y penderfyniad**

Mae gan y Cyngor drefniadau cynllunio ariannol sydd eisoes wedi adnabod arbedion effeithlonrwydd sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf er mwyn isafu toriadau mewn gwasanaeth i drigolion Gwynedd. Dros y blynyddoedd diwethaf gwelwyd fod trafferthion

gwireddu arbedion mewn rhai meysydd ac felly yn ystod 2023/24 bu i werth £2 filiwn o arbedion gael eu dileu.

**5. Cynlluniau Arbedion Adrannol Hanesyddol 2015/16 – 2024/25**

**5.1** Mae **Atodiad 1** yn crynhoi cyrhaeddiad pob adran yn seiliedig ar adolygiad Awst 2024, yn erbyn y targed arbedion diwygiedig sydd wedi ei osod iddynt, **sydd yn gyfanswm o dros £34m. Gellir adrodd bod gwerth £33.7m, neu 98% o'r cynlluniau yma wedi eu gwireddu**, ond mae risg gwireddu rhai o'r cynlluniau arbedion yn parhau.

**5.2** Mae 6 cynllun gwerth £393 yn wynebu risgiau i'w cyflawni; 3 cynllun gan yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant (cyfanswm o £223k), 2 gynllun gan yr Adran Economi a Chymuned (cyfanswm o £145k) ac chynllun gan yr Adran Gyllid (£25k).

**5.3** Mae 4 cynllun gwerth cyfanswm o £164k wedi llithro ond nid yw'r adrannau yn rhagweld problem i'w gwireddu.

**6. Cynlluniau Arbedion Adrannol Newydd 2023/24 – 2024/25**

**6.1** Yng Nghyngor llawn 7 Mawrth 2024 cymeradwywyd adroddiad Cyllideb 2024/25 oedd yn cynnwys cynlluniau arbedion effeithlonrwydd a thoriadau gwerth £5.2m, gyda gwerth £2m ohono i'w weithredu i gyllido bwlch ariannol 2024/25.

**6.2** Mae **Atodiad 2** yn crynhoi cyrhaeddiad pob adran yn seiliedig ar adolygiad Awst 2024 yn erbyn y targed arbedion sydd wedi ei osod iddynt, **sydd yn gyfanswm o dros £12m. Gellir adrodd fod bron i £8m, neu 65% o'r cynlluniau yma eisoes wedi eu gwireddu, gyda £938k, neu 8% pellach ar drac i gyflawni'n llawn ac amserol.**

**6.3** Mae risgiau sylweddol i wireddu un cynllun gan yr Adran Cefnogaeth Gorfforaethol, sef Dysgu a Datblygu'r Sefydliad - torri cyllidebau cyflenwadau, sydd werth £42k. Yn dilyn trosiant o fewn y gwasanaeth, mae gwaith manwl wedi ei wneud er mwyn asesu effaith y toriad. Yn sgil hynny, mae ymrwymiadau wedi eu darganfod ble ymddengys ni ellid eu torri heb gael effaith ar draws y sefydliad. Mae'r gwasanaeth yn cynnal adolygiad pellach er mwyn adnabod beth yw'r gwir swm y gellid ei dorri.

**6.4** Ar hyn o bryd rhagwelir bod rhai risgiau gwireddu gwerth bron i £545k o gynlluniau arbedion; 1 cynllun gan yr Adran Addysg (£41k), 4 gan yr Adran Amgylchedd (£388k), 2 gan yr Adran Gyllid (£53k), 1 gan yr Adran Economi a Chymuned (£3k) ac 1 gan yr Adran Priffyrdd a Pheirianneg (£60k).

**6.5** Mae llithriad ar rai cynlluniau gwerth £632k oedd wedi eu rhaglennu i'w gwireddu yn 2023/24 ac mae peth oediad i wireddu cynlluniau gwerth £2.162k yn 2024/25, felly cyfanswm o £2.794k, ond nid yw'r adrannau yn rhagweld problem i'w gwireddu. Mae rhan helaeth o'r swm yma yn cynnwys arbedion o'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant (£1.2m) a (£444k) gan ysgolion, sydd yn llithro gan fod ysgolion yn gweithio i flwyddyn academaidd ac felly bydd y gwireddu yn llithro i'r flwyddyn ariannol nesaf.

## 7. Cynlluniau Arbedion Adrannol 2025/26 ymlaen

**7.1** Yn sgil y rhagolygon am setliad ariannol gwael a'r hinsawdd economaidd heriol presennol, mae'n anorfod fod rhaid i Awdurdodau Lleol edrych ar arbedion a thoriadau i gynorthwyo'r sefyllfa ariannol. Mae cynlluniau arbedion a thoriadau ychwanegol ar gyfer 2025/26 eisoes dan ystyriaeth gan y Cyngor, fydd yn destun adroddiad dros y misoedd nesaf.

**7.2** Rhestrir arbedion presennol 2025/26 ymlaen, sydd werth £3.9m fesul Adran yn **Atodiad 3**, yr arbedion hanesyddol gwerth £200k yn Nhabl 1 a'r arbedion newydd gwerth £3.7m yn Nhabl 2, ond mae'n gynamserol i adrodd ar statws y cynlluniau yma ar hyn o bryd.

## 8. Casgliad

**8.1** Gellir adrodd bod cyfanswm o £41.7 miliwn o arbedion wedi eu gwireddu ers 2015/16, sydd yn 90% o'r £46.6m gofynnol dros y cyfnod. Mae'n anorfod bod gwireddu'r arbedion wedi bod yn heriol ac rwy'n ddiolchgar i'r holl adrannau a'r Aelodau Cabinet am sicrhau'r llwyddiant yma.

**8.2** Mae'r tabl isod yn crynhoi'r sefyllfa ddiweddaraf o ran y cynlluniau arbedion ers Ebrill 2015 gyda 90% o'r holl gynlluniau wedi eu gwireddu.

**Tabl 1: Crynodeb o statws yr holl gynlluniau arbedion ers Ebrill 2015**

| **Statws yr Arbediad** | **Porth** | **£m** | ***%*** |
|---|---|---|---|
| Wedi gwireddu | 1 | 41.7 | *89.5* |
| Ar drac i gyflawni'n llawn ac amserol | 2 | 0.9 | *2.0* |
| Oediad, ond yn symud yn ei flaen | 3 | 3.0 | *6.4* |
| Rhai risgiau i gyflawni - yn llithro neu methu | 4 | 0.8 | *1.7* |
| Risgiau sylweddol i gyflawni yn llawn neu yn rhannol | 5 | 0.2 | *0.4* |
| **Cyfanswm arbedion** | | **46.6** | ***100*** |

**8.3** Felly, gofynnaf i'r Cabinet nodi'r cyrhaeddiad a amlinellir yn yr adroddiad yma tuag at wireddu'r cynlluniau arbedion.

## 9. Camau nesaf ac amserlen

**9.1** Gweithredu ar yr argymhellion gerbron a chyflwyno adroddiad dilynol i'r Cabinet 25 Ionawr 2025 yn dilyn adolygiad o'r sefyllfa ar ddiwedd Tachwedd 2024.

## 10. Sylwadau Swyddogion Statudol

### 10.1 Prif Swyddog Cyllid

Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

### 10.2 Swyddog Monitro

Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

**Atodiadau:**

Atodiad 1 - Trosolwg cynlluniau arbedion hanesyddol 2015/16 - 2024/25 fesul adran
Atodiad 2 - Trosolwg cynlluniau arbedion newydd 2023/24 - 2024/25 fesul adran
Atodiad 3 - Tabl 1 - Trosolwg cynlluniau arbedion hanesyddol 2025/26 ymlaen fesul adran
- Tabl 2 - Trosolwg cynlluniau arbedion newydd 2025/26 ymlaen fesul adran

**ATODIAD 1**

## TROSOLWG CYNLLUNIAU ARBEDION HANESYDDOL 2015/16 I 2024/25 FESUL ADRAN

| Adran | Cyfanswm Arbedion 2015/16 i 2024/25<br>£ | Cynlluniau wedi eu gwireddu<br>£ | Cynlluniau wrthi'n gweithredu, ond wedi llithro<br>£ | *nifer* | Cynlluniau sydd efo rhai risgiau i gyflawni<br>£ | *nifer* | Sylwadau'r Pennaeth Cyllid |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Addysg | 1,659,740 | 1,659,740 | - | | - | | Holl gynlluniau'r cyfnod wedi'u gwireddu. |
| Ysgolion | 4,331,620 | 4,331,620 | - | | - | | Holl gynlluniau'r cyfnod wedi'u gwireddu. |
| Amgylchedd | 2,972,463 | 2,922,463 | 50,000 | *1* | - | | Llithriad ar un cynllun sef *Darparu pwyntiau gwefru ceir trydan mewn meysydd parcio (£50k).* |
| Cefnogaeth Gorfforaethol | 2,569,218 | 2,569,218 | - | | - | | Holl gynlluniau'r cyfnod wedi'u gwireddu. |
| Cyllid | 1,881,636 | 1,856,636 | - | | 25,000 | *1* | Mae risgiau o wireddu arbedion y cynllun *Denu incwm ychwanegol drwy'r Asiantaeth Casglu Mewnol* (£25k) |
| Economi a Chymuned | 2,996,422 | 2,851,422 | - | | 145,000 | *2* | Mae rhai risgiau o gyflawni arbedion 2 gynllun; cynllun yn ymwneud â *Neuadd Dwyfor* (£100k) a *Sefydlu ffioedd parcio ar draeth Dinas Dinlle a chynyddu ffioedd lansio ar draws traethau Gwynedd o £10 i £15 (£45k).* |
| Oedolion, Iechyd a Llesiant | 6,594,981 | 6,293,051 | 79,360 | *2* | 222,570 | *3* | Mae rhai risgiau cyflawni arbedion 3 cynllun sef *Gwella prosesau gwaith drwy gynnal adolygiad Ffordd Gwynedd a defnyddio modiwlau cyllid y system TG newydd o fewn yr Adran Oedolion* (£40k), *Adolygiad pecynnau Gofal Iechyd Parhaus* (£47.57k) ac *Adolygu'r trefniadau gweithredu o fewn yr Adran Oedolion* (£135k). Mae'r 2 gynllun *Ail strwythuro'r Gwasanaeth Busnes gan leihau cefnogaeth i dimau oddi fewn i'r Adran ac i'r Adran Plant* (£49k) a *Cynyddu incwm a lleihau costau eraill* sydd gyda balans o £30k wedi llithro ond mae'r Adran yn rhagweld gwireddu yn ystod 2024/25. |
| Plant a Chefnogi Teuluoedd | 2,318,908 | 2,318,908 | - | | - | | Holl gynlluniau'r cyfnod wedi'u gwireddu. |

**ATODIAD 1**

## TROSOLWG CYNLLUNIAU ARBEDION HANESYDDOL 2015/16 I 2024/25 FESUL ADRAN

| **Adran** | **Cyfanswm Arbedion 2015/16 i 2024/25**<br>**£** | **Cynlluniau wedi eu gwireddu**<br>**£** | **Cynlluniau wrthi'n gweithredu, ond wedi llithro**<br>**£** | *nifer* | **Cynlluniau sydd efo rhai risgiau i gyflawni**<br>**£** | *nifer* | **Sylwadau'r Pennaeth Cyllid** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Priffyrdd, Peirianneg ac Ymgynghoriaeth Gwynedd | 6,531,580 | 6,496,580 | 35,000 | *1* | - | | Mae'r cynllun *Pont Abermaw – peidio talu Network Rail am yr hawl tramwy dros y bont* (£35k) wedi llithro ond mae'r adran yn parhau i fod mewn trafodaethau efo Network Rail. |
| Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol | 403,240 | 403,240 | - | | - | | Holl gynlluniau'r cyfnod wedi'u gwireddu. |
| Tai ac Eiddo | 843,230 | 843,230 | - | | - | | Holl gynlluniau'r cyfnod wedi'u gwireddu. |
| **Is-gyfanswm** | **33,103,038** | **32,546,108** | **164,360** | *4* | **392,570** | *6* | |
| Arbedion Rheolaethol | 1,200,360 | 1,200,360 | - | | - | | Holl gynlluniau'r cyfnod wedi'u gwireddu. |
| **CYFANSWM** | **34,303,398** | **33,746,468** | **164,360** | *4* | **392,570** | *6* | **Yn nhermau ariannol (£), mae 98% o gynlluniau arbedion hanesyddol 2015/16 - 2024/25 wedi eu gwireddu.** |

**ATODIAD 2**

## TROSOLWG CYNLLUNIAU ARBEDION NEWYDD 2023/24 A 2024/25 FESUL ADRAN

| Adran | Cyfanswm Arbedion newydd 2023/24 a 2024/25 £ | nifer | Cynlluniau wedi eu gwireddu £ | nifer | Cynlluniau ar drac i gyflawni'n amserol £ | nifer | Cynlluniau sydd yn llithro a cynlluniau gyda rhai risgiau i gyflawni'r arbedion £ | nifer | Sylwadau'r Pennaeth Cyllid |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Addysg | 1,304,550 | *31* | 1,194,510 | *26* | 69,040 | *3* | 41,000 | *2* | Mae oediad ar 2 gynllun sydd wedi eu proffilio yn 2024/25 sef *Torri 25% o gyllideb hybiau Ymddygiad Cyfnod Allweddol 4* (£18k) a *Dileu swydd cymhorthydd lefel 3 y Tîm Cynhwysiad* (£23k). Mae 2 gynllun arall ar drac i wireddu'n amserol. |
| Ysgolion | 1,966,100 | *1* * | 1,522,020 | *1* | - | | 444,080 | * | Bu oediad ar ran o'r cynllun *arbedion effeithlonrwydd ysgolion* yn bennaf oherwydd fod ysgolion yn gweithio o fewn blwyddyn academaidd ac felly bydd y swm sy'n weddill yn gwireddu yn ystod y flwyddyn ariannol 2025/26. |
| Amgylchedd | 1,197,750 | *32* | 372,740 | *19* | 35,510 | *1* | 789,500 | *12* | Mae'r adran yn rhagweld rhai risgiau i wireddu 4 cynllun arbedion gweth cyfanswm o £388k - *Rhesymoli trefniadau cefnogaeth adrannol* (£150k), *Cynyddu incwm drwy gasglu Gwastraff Masnachol o lety gwyliau* (£120k), *Parcio a Gwaith Stryd - Ymestyn Oriau Gorfodaeth Parcio ym Meysydd Parcio Arhosiad Byr y Cyngor* (£38k) a *Parcio a Gwaith Stryd - Addasiad i Strwythur Ffioedd Arhosiad Hir Band 2* (£80k). Mae llithriad/oediad ar 8 cynllun gwerth £402k ond maent yn symud yn eu blaen. Mae 1 cynllun ar drac i wireddu'n amserol. |
| Cefnogaeth Gorfforaethol | 517,790 | *20* | 423,750 | *16* | 52,430 | *3* * | 41,610 | *1* | Mae risgiau sylweddol i wireddu arbedion y cynllun *Dysgu a Datblygu'r Sefydliad - Torri cyllidebau cyflenwadau* gwerth £41.6k. Mae'r gwasanaeth yn cynnal adolygiad pellach er mwyn adnabod beth yw'r gwir swm y gellid ei dorri. Rhagwelir y bydd 3 cynllun yn cael eu gwireddu'n amserol. |
| Cyllid | 665,100 | *17* * | 69,260 | *5* | 260,250 | *6* * | 335,590 | *6* * | Mae risgiau i gyflawni arbedion y cynllun *Arbedion trydan drwy ddiffodd cyfarpar oddi allan i oriau craidd* (£15k). Bu llithriad o 23/24 ar 4 cynllun gwerth cyfanswm o £262k, yn gynwysiedig yma mae'r cynllun a*drannol - Cynyddu targedau incwm i fod yn gymesur â'r gwaith* sydd gyda risg i gyflawni targed 24/25 gwerth £38k. Mae oediad ar gynllun yn 24/25 gwerth £21k ond yn symud yn ei flaen. Mae risgiau sylweddol i gyflawni arbedion y cynllun *TG - incwm drwy rannu canolfan ddata gyda chorff arall* (£35k) felly mae'r adran wedi darganfod ffordd amgen i wireddu'r arbedion. Mae 6 cynllun pellach ar drac i wireddu'n amserol. |
| Economi a Chymuned | 513,760 | *36* | 483,120 | *32* | 9,530 | *1* | 21,110 | *3* | Mae peth risg i gyflanwi arbedion o £3k ar gynllun *Marchnata a Digwyddiadau - Cynyddu incwm hysbysebu ar wefan Eryri Mynyddoedd a Môr. Mae oediad ar 2 gynllun gwerth cyfanswm o £18k ond fod 1 cynllun yn symud yn ei flaen ac ar drac i'w wireddu'n amserol.* |

**ATODIAD 2**

## TROSOLWG CYNLLUNIAU ARBEDION NEWYDD 2023/24 A 2024/25 FESUL ADRAN

| **Adran** | **Cyfanswm Arbedion newydd 2023/24 a 2024/25** | | **Cynlluniau wedi eu gwireddu** | | **Cynlluniau ar drac i gyflawni'n amserol** | | **Cynlluniau sydd yn llithro a cynlluniau gyda rhai risgiau i gyflawni'r arbedion** | | **Sylwadau'r Pennaeth Cyllid** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **£** | ***nifer*** | **£** | ***nifer*** | **£** | ***nifer*** | **£** | ***nifer*** | |
| Oedolion, Iechyd a Llesiant | 1,575,650 | *20* | 82,150 | *5* | 266,090 | *8* | 1,227,410 | *7* | Bu llithriad o 2023/24 ar 4 cynllun; *Uned Rheoli Asedau Cleientau: Codi ffi rheoli eiddo yn unol a cyfarwyddyd ymarfer y Llys Gwarchod* (£9k), *Gwneud defnydd o gynllun ad-dalu cenedlaethol i gyllido 25% o gostau cefnogaeth yn y maes camddefnyddio sylweddau* (£25k), *Cyflawni arbedion effeithlonrwydd drwy wneud gwell defnydd o offer/technoleg mewn llety cefnogol i unigolion ag anableddau corfforol* (£10k) a *Iechyd Meddwl, Diogelu a Sicrwydd Ansawdd: Cyflawni arbedion effeithlonrwydd drwy wneud gwell defnydd o offer/technoleg mewn llety cefnogol* (£10k). Mae oediad yn 2024/25 ar 3 cynllun gwerth cyfanswm o £1.173k ac 8 cynllun pellach ar drac i wireddu'n amserol. |
| Plant a Chefnogi Teuluoedd | 238,140 | *6* * | 80,180 | *5* * | 157,960 | *1* * | - | | £158k ar drac i wireddu'n amserol. |
| Priffyrdd, Peirianneg ac Ymgynghoriaeth Gwynedd | 1,025,440 | *18* | 606,940 | *9* | 87,500 | *2* * | 331,000 | *7* * | Mae'r adran yn rhagweld risgiau i wireddu 1 cynllun sef *Gwella effeithlonrwydd/rhesymoli safleoedd depos priffyrdd* (£60k). Bu llithriad o 2023/24 yn ymwneud â 2 gynllun sef *Atal gwaith archwilio lampau dros yr haf* (£5k) a *Codi cyfraniadau gwasanaeth Teledu Cylch Cyfyng i adlewyrchu'r gwir gost* (£5k) gyda'r gweddill o £10k i'w wireddu eleni. Mae oediad ar 4 cynllun eleni sydd â gwerth o £261k ond maent yn symud yn eu blaen a 2 gynllun pellach gyda cyfanswm o £77.5k ar drac i wireddu'n amserol. |
| Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol | 131,190 | *7* | 131,190 | *7* | - | | - | | Holl gynlluniau'r cyfnod wedi'u gwireddu. |
| Tai ac Eiddo | 760,350 | *13* | 610,850 | *11* | - | | 149,500 | *2* | Bu oediad ar 2 gynllun sef *Mewnoli mwy o waith technegol ar gynlluniau Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl (£54k) a Lleihau ein gofod swyddfa yn sgil dulliau newydd o weithio (£95.5k),* ond maent yn symud yn eu blaen. |
| Arbedion Rheolaethol | 2,400,000 | *1* | 2,400,000 | *1* | - | | - | | Yr un cynllun am y cyfnod wedi ei wireddu. |
| **CYFANSWM** | **12,295,820** | ***202*** | **7,976,710** | ***137*** | **938,310** | ***25*** | **3,380,800** | ***40*** | **Yn nhermau ariannol (£), mae 65% o gynlluniau arbedion newydd 2023/24 a 2024/25 eisoes wedi eu gwireddu a 8% pellach ar drac i gyflawni'n amserol erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.** |

** cynlluniau gyda rhaniad statws gwahanol yn y blynyddoedd maent wedi eu proffilio*

**ATODIAD 3**

**TABL 1**

**TROSOLWG CYNLLUNIAU ARBEDION HANESYDDOL 2025/26 YMLAEN FESUL ADRAN**

| Adran | 2025/26<br>£ | 2026/27<br>£ | Cyfanswm Arbedion 2025/26 a 2026/27<br>£ - *nifer* | |
|---|---|---|---|---|
| Oedolion, Iechyd a Llesiant | 200,000 | - | 200,000 | *1* |
| **CYFANSWM CYNLLUNIAU HANESYDDOL** | **200,000** | **0** | **200,000** | ***1*** |

**TABL 2**

**TROSOLWG CYNLLUNIAU ARBEDION NEWYDD 2025/26 YMLAEN FESUL ADRAN**

| Adran | 2025/26<br>£ | 2026/27<br>£ | Cyfanswm Arbedion 2025/26 a 2026/27<br>£ - *nifer* | |
|---|---|---|---|---|
| Addysg | 151,960 | - | 151,960 | *5* |
| Amgylchedd | 1,096,540 | 200,000 | 1,296,540 | *10* |
| Cefnogaeth Gorfforaethol | 248,620 | - | 248,620 | *7* |
| Cyllid | 292,540 | - | 292,540 | *8* |
| Economi a Chymuned | 135,020 | - | 135,020 | *5* |
| Oedolion, Iechyd a Llesiant | 923,120 | 143,090 | 1,066,210 | *12* |
| Priffyrdd, Peirianneg ac Ymgynghoriaeth Gwynedd | 462,500 | - | 462,500 | *5* |
| **CYFANSWM CYNLLUNIAU NEWYDD** | **3,310,300** | **343,090** | **3,653,390** | ***52*** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **CYFANSWM** | **3,510,300** | **343,090** | **3,853,390** | ***53*** |

CYFARFOD: **PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO**

DYDDIAD: **10 HYDREF 2024**

TEITL: **RHAGLEN GYFALAF 2024/25 –**
**ADOLYGIAD DIWEDD AWST 2024**

PWRPAS: **Adroddiad Monitro ar Wariant ac Ariannu'r Rhaglen Gyfalaf**

GWEITHREDIAD: **Derbyn yr wybodaeth, ystyried y risgiau ynglŷn â'r Rhaglen Gyfalaf, a chraffu penderfyniadau i'r Cabinet**

AELOD CABINET: **CYNGHORYDD PAUL ROWLINSON**

SWYDDOG CYSWLLT: **FFION MADOG EVANS,**
**PENNAETH CYLLID CYNORTHWYOL**

---

**1.** Yn unol â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, disgwylir i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio graffu rhai materion ariannol gan gynnwys adroddiadau monitro cyllideb, lle'n briodol.

**2.** Cyflwynir yr adroddiad atodol (Rhaglen Gyfalaf 2024/25 - Adolygiad Diwedd Awst 2024) i'r Cabinet ar 15 Hydref 2024 ar gyfer penderfyniadau ynglŷn â'r rhaglen ddiwygiedig a'i ariannu.

**3.** Mae'r Aelod Cabinet dros Gyllid, a Chadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wedi gofyn i ni gyflwyno'r adroddiad yma i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i'w graffu.

**4.** Gofynnir i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio nodi'r sefyllfa ac unrhyw risgiau yng nghyswllt rhaglen gyfalaf y Cyngor, craffu penderfyniadau i'r Cabinet, a sylwebu fel bo angen.

**Atodiadau:**
Adroddiad Cabinet 15/10/2024: Rhaglen Gyfalaf 2024/25 - Adolygiad Diwedd Awst 2024

## CYNGOR GWYNEDD – Adroddiad i Gabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Teitl yr eitem:** | Rhaglen Gyfalaf 2024/25 –<br>Adolygiad Diwedd Awst (sefyllfa 31 Awst 2024) |
| **Aelod Cabinet:** | Cynghorydd Paul Rowlinson, Aelod Cabinet Cyllid |
| **Swyddog perthnasol:** | Ffion Madog Evans, Pennaeth Cyllid Cynorthwyol |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 15 Hydref 2024 |

1. **Penderfyniad a Geisir:**
   - Derbyn yr adroddiad ar adolygiad diwedd Awst (sefyllfa 31 Awst 2024) o'r rhaglen gyfalaf.
   - Cymeradwyo'r addasiadau canlynol i'r Gyllideb Gyfalaf a gymeradwywyd ar 7 Mawrth 2024 o safbwynt dulliau ariannu'r rhaglen (fel nodir yn rhan 3.2.3 o'r adroddiad), sef:
     - cynnydd o £370,000 mewn defnydd o fenthyca
     - cynnydd o £17,080,000 mewn defnydd o grantiau a chyfraniadau
     - lleihad o £51,000 mewn defnydd o'r gronfa gyfalaf
     - cynnydd o £1,260,000 mewn defnydd o gronfeydd adnewyddu ac eraill.

2. **Y rheswm pam fod angen i'r Cabinet wneud y penderfyniad:**

   Cyfrifoldeb y Cabinet yw cymryd camau, fel bo angen, er mwyn sicrhau rheolaeth briodol dros gyllidebau'r Cyngor. Rhaid sicrhau trefniadau ariannu priodol ar gyfer cynlluniau'r Cyngor i wario ar gyfalaf. Y Cabinet sydd wedi'u hawdurdodi i addasu'r rhaglen gyfalaf. Gofynnir am gymeradwyaeth i'r rhaglen arfaethedig (rhan 3.2.2) a'i ariannu (rhan 3.2.3).

   Argymhellir yma gamau er mwyn sicrhau ffynonellau ariannu pendant am gynlluniau cyfalaf 2024/25 – 2026/27.

3. **Cyflwyniad a Rhesymeg**

   **3.1 Cefndir/ Cyflwyniad**

   Cyflwynir yr adroddiad technegol yma fel rhan o'r drefn adolygu cyllideb 2024/25. Prif ddiben yr adroddiad yw cyflwyno'r rhaglen gyfalaf ddiwygiedig, a chymeradwyo'r ffynonellau ariannu perthnasol. Mae crynodeb yn rhan 3.2.2 a rhan 3.2.3 o'r adroddiad, gyda'r argymhellion yn rhan 1:

   - Rhan 3.2.2: Dadansoddiad fesul Adran o'r rhaglen gyfalaf £169.729m am y 3 blynedd 2024/25 – 2026/27.

- Rhan 3.2.3: Ffynonellau ariannu'r cynnydd net oddeutu £18.665m ers y gyllideb agoriadol.
- Rhan 3.2.4: Manylder grantiau ychwanegol ers y gyllideb agoriadol.
- Rhan 3.2.5: Dadansoddiad dangosyddion darbodus cyfalaf.

Mater o drefn yw ymgorffori ariannu trwy grant, ond hefyd mae angen delio gyda sefyllfaoedd lle bu newid rhwng blynyddoedd mewn proffil gwario a newid mewn gwerth cyfraniadau a derbyniadau cyfalaf.

Materion technegol ynghylch ariannu'r cynlluniau sydd gerbron ac mae ymhlygiadau a dadleuon eisoes wedi'u cyfarch wrth fabwysiadu'r cynlluniau cyfalaf unigol.

**3.2 Rhesymeg a chyfiawnhad dros argymell y penderfyniad**

**3.2.1 Prif Gasgliadau**

Y prif gasgliadau sydd yn codi o'r sefyllfa ddiwygiedig yw:

- Fod cynlluniau pendant mewn lle i fuddsoddi tua £117.0m yn 2024/25 ar gynlluniau cyfalaf, gyda £48.8m (42%) ohono wedi'i ariannu trwy ddenu grantiau penodol.

- Mae £17.2m ychwanegol o wariant arfaethedig wedi'i ailbroffilio o 2024/25 i 2025/26 a 2026/27, ond ni achoswyd unrhyw golled ariannu i'r Cyngor ble gwelwyd cynlluniau yn llithro.

### 3.2.2 Rhaglen Gyfalaf 2024/25 i 2026/27

Gweler isod y rhaglen gyfalaf arfaethedig ddiwygiedig ar ddiwedd Awst 2024:

| Adran | ADOLYGIAD DIWEDD AWST | | | | Cynnydd/(Lleihad) ers y Gyllideb | Addasiad Llithriad | Addasiad Technegol | Newidiadau Eraill |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2024/25 £000 | 2025/26 £000 | 2026/27 £000 | Cyfanswm £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Addysg | 23,529 | 8,666 | 2,795 | 34,990 | **14,173** | 2,213 | - | **11,960** |
| Amgylchedd | 8,399 | 1,446 | 1,742 | 11,587 | **5,598** | 2,062 | - | **3,536** |
| Cefnogaeth Gorfforaethol | 50 | - | - | 50 | **-** | - | - | **-** |
| Cyllid | 2,252 | 498 | 609 | 3,359 | **234** | 234 | - | **-** |
| Economi a Chymuned | 34,372 | 9,166 | - | 43,538 | **11,219** | 9,440 | - | **1,779** |
| Tai ac Eiddo | 25,695 | 10,762 | 6,850 | 43,307 | **7,576** | 7,164 | - | **412** |
| Oedolion, Iechyd a Llesiant | 4,810 | 2,290 | - | 7,100 | **2,952** | 2,552 | - | **400** |
| Plant a Chefnogi Teuluoedd | 1,735 | 160 | - | 1,895 | **1,695** | 290 | - | **1,405** |
| Priffyrdd, Peirianneg ac Ymgynghoriaeth | 12,151 | 2,518 | 4,244 | 18,913 | **5,865** | 5,237 | - | **628** |
| Corfforaethol | 3,990 | 500 | 500 | 4,990 | **2,305** | 3,760 | - | **(1,455)** |
| **CYFANSWM** | **116,983** | **36,006** | **16,740** | **169,729** | **51,617** | **32,952** | **-** | **18,665** |

### 3.2.3 Newidiadau i'r Ffynonellau Ariannu

Mae cynnydd o £51.617m yn y gyllideb ar gyfer y rhaglen gyfalaf dair blynedd ers sefyllfa'r gyllideb wreiddiol gyda £32.952m yn deillio o ail broffilio ar ddiwedd y flwyddyn blaenorol. Nodir isod y ffynonellau ariannu arfaethedig ddiwygiedig ar gyfer hyn :

| **Ariannu** | **ADOLYGIAD DIWEDD AWST** | | | | **Cynnydd/(Lleihad) ers y Gyllideb** | **Addasiad Llithriad** | **Addasiad Technegol *** | **Newidiadau Eraill** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **2024/25 £000** | **2025/26 £000** | **2026/27 £000** | **Cyfanswm £000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** |
| Benthyca gyda chefnogaeth | 4,057 | 4,057 | 4,057 | 12,171 | **(9,272)** | - | -9,272 | **-** |
| Benthyca Arall | 13,376 | 2,930 | 4,119 | 20,425 | **2,410** | 2,040 | - | **370** |
| Grantiau a Chyfraniadau | 58,075 | 17,424 | 4,536 | 80,035 | **37,535** | 11,183 | 9,272 | **17,080** |
| Derbyniadau Cyfalaf | 129 | - | - | 129 | **129** | 129 | - | **0** |
| Refeniw Adrannol a Chorfforaethol | 1,131 | 31 | - | 1,162 | **(44)** | (50) | - | **6** |
| Cronfa Cyfalaf | 14,393 | 6,756 | - | 21,149 | **8,823** | 8,874 | - | **(51)** |
| Cronfeydd Adnewyddu ac Eraill | 25,822 | 4,808 | 4,028 | 34,658 | **12,036** | 10,776 | - | **1,260** |
| **CYFANSWM** | **116,983** | **36,006** | **16,740** | **169,729** | **51,617** | **32,952** | **-** | **18,665** |

**Dangos y Grant Cyffredinol o'r setliad ar y rhes Grantiau yn hytrach na Benthyca/Setliad fel yn y gyllideb 2024/25.*

### 3.2.4 Grantiau Ychwanegol

Ers sefydlu'r gyllideb wreiddiol, llwyddodd y Cyngor i ddenu grantiau ychwanegol o £17,230k a rhestrir y rhai mwyaf isod. Mae nifer o addasiadau ychwanegol gan gynnwys lleihad ar gynlluniau oedd yn is na'r amcan gwreiddiol yn dod â chyfanswm y symudiad i £17,080k (gweler Atodiad 1 am fwy o fanylion) :

- £7,044k Grant Cymunedau Dysgu Cynaliadwy – addasu ac ychwanegu amrywiol gynlluniau
- £2,000k Grantiau o'r Gronfa Trafnidiaeth Lleol (LTF) a'r Gronfa Teithio Llesol (ATF) gan Lywodraeth Cymru ar gyfer nifer o wahanol gynlluniau

- £1,325k Grant Cronfa Tai Gofal ar gyfer cartrefi i blant gan Lywodraeth Cymru
- £1,070k Grant Cynnal a Chadw Ysgolion 2024/25
- £891k Grant Cyfalaf Anghenion Dysgu Ychwanegol
- £800k Rhan cychwynnol o'r Grant Her Ysgolion Cynaliadwy tuag at Ysgol Bontnewydd
- £762k Grant gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu system ar gyfer rheoli llyfrgelloedd
- £700k Grant Blynyddoedd Cynnar tuag at gynllun Ysgol Hirael
- £580k Grant gan Lywodraeth Cymru tuag at y cynllun i ddatblygu Canolfan Iechyd a Lles ym Mangor

**3.2.5 Dangosyddion Darbodus Cyfalaf**

Mae Côd Darbodus CIPFA yn nodi'r angen i adrodd ar y Dangosyddion Darbodus (gweler Atodiad 4 am fwy o fanylion).

**3.3 Camau nesaf**

Gweithredu ar yr argymhellion i ariannu'r rhaglen.

**4. Sylwadau Swyddogion Statudol**

**4.1 Prif Swyddog Cyllid**

Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

**4.2 Swyddog Monitro**

Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb.

**Rhestr Atodiadau:**

Atodiad 1 - Manylion y Prif Newidiadau

Atodiad 2 - Manylion Ailbroffilio'r Gyllideb

Atodiad 3 - Gwariant Cyfalaf 5 mis cyntaf 2024/25

Atodiad 4 – Dangosyddion Darbodus Cyfalaf 2024/25

**Rhestr Dogfennau Cefndir:**

Cyllideb 2024/2025 : Cyllidebau Blynyddol (llyw.cymru)

Strategaeth Cyfalaf 2024/25 : Cyngor Llawn 07/03/24: Eitem 12 - Strategaeth Gyfalaf 2024-25 yn cynnwys Strategaethau Buddsoddi a Benthyca.pdf (llyw.cymru)

**ATODIAD 1**

**Manylion y Prif Newidiadau**

Gweler isod y cynlluniau perthnasol sydd yn achosi'r prif newidiadau i'r ffynonellau ariannu ers yr gyllideb wreiddiol:

| | 2024/25<br>£'000 | 2025/26-2026/27<br>£'000 |
|---|---|---|
| **Benthyca Arall** | | |
| • Cerbydau yn y meysydd priffyrdd, gwastraff ac ailgylchu *(Adrannau Priffyrdd, Peirianneg ac Ymgynghoriaeth; Amgylchedd).* | 370 | |
| **Grantiau a Chyfraniadau** | | |
| • Grant Cynnal a Chadw Ysgolion 2024/25 *(Adran Addysg).* | 1,070 | |
| • Grant Cymunedau Dysgu Cynaliadwy – addasu ac ychwanegu amrywiol gynlluniau *(Adran Addysg).* | 4,209 | 2,835 |
| • Grant Cyfalaf Anghenion Dysgu Ychwanegol *(Adran Addysg).* | 891 | |
| • Rhan cychwynnol o'r Grant Her Ysgolion Cynaliadwy tuag at Ysgol Bontnewydd *(Adran Addysg).* | 800 | |
| • Grant Blynyddoedd Cynnar tuag at gynllun Ysgol Hirael *(Adran Addysg).* | 700 | |
| • Grant gan Lywodraeth Cymru tuag at y cynllun i ddatblygu Canolfan Iechyd a Lles ym Mangor *(Adran Economi a Chymuned).* | 580 | |
| • Ailbroffilio a chynyddu Grant Cronfa Ffyniant Bro gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig Cymru *(Adran Economi a Chymuned).* | 505 | (35) |
| • Addasiad Grant Cronfa Ffyniant Gyffredin gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig - telir swm i Gyngor Gwynedd i'w ddosrannu ar draws siroedd gogledd Cymru *(Adran Economi a Chymuned).* | (152) | |
| • Cyfraniad gan y Grid Cenedlaethol tuag at ailwynebu Maes Parcio yn Llanberis *(Adran Economi a Chymuned).* | 53 | |

| | |
|---|---|
| • Grant gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu system ar gyfer rheoli llyfrgelloedd *(Adran Economi a Chymuned).* | 762 |
| • Grant Chwaraeon Cymru tuag at Canolfan Tennis Arfon *(Adran Economi a Chymuned).* | 106 |
| • Grant Cyfalaf Gofal Plant gan Lywodraeth Cymru *(Adran Plant a Theuluoedd).* | 80 |
| • Grant Cronfa Tai Gofal ar gyfer cartrefi i blant gan Lywodraeth Cymru *(Adran Plant a Theuluoedd).* | 1,325 |
| • Grant gan Lywodraeth Cymru tuag at y cynllun preswyl yn Penrhos, Pwllheli *(Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant).* | 300 |
| • Grant gan Lywodraeth Cymru tuag at gynllun lliniaru llifogydd Afon Cadnant *(Adran Priffyrdd, Peiranneg ac Ymgynghoriaeth).* | 170 |
| • Cywiro ariannu 22/23 efo grant cerbydau allyriadau isel iawn (ULEV) a dderbyniwyd yn 23/24, ond heb ei ddefnyddio bryd hynny *(Adrannau Plant a Theuluoedd; Priffyrdd, Peiranneg ac Ymgynghoriaeth; Tai ac Eiddo).* | 102 |
| • Grant Cyfalaf Diogelwch y Ffyrdd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer nifer o wahanol gynlluniau 20 milltir yr awr *(Adran Amgylchedd).* | 20 |
| • Grantiau o'r Gronfa Trafnidiaeth Lleol (LTF) a'r Gronfa Teithio Llesol (ATF) gan Lywodraeth Cymru ar gyfer nifer o wahanol gynlluniau *(Adran Amgylchedd).* | 2,000 |
| • Grant a chyfraniadau gan Lywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC/WCVA) tuag at gynlluniau gwledig *(Adran Amgylchedd).* | 436 |
| • Grant cynllun "Enable" gan Lywodraeth Cymru *(Adran Tai ac Eiddo).* | 247 |
| • Grant Cynllun Lesu Cymru gan Lywodraeth Cymru *(Adran Tai ac Eiddo).* | 74 |

| | |
|---|---|
| **Refeniw Adrannol a Chorfforaethol** | |
| • Cyfraniadau refeniw tuag at gynlluniau traffig *(Adran Amgylchedd).* | 6 |
| **Cronfa Cyfalaf** | |
| • Cywiro ariannu 22/23 efo grant cerbydau allyriadau isel iawn (ULEV) a dderbyniwyd yn 23/24, ond heb ei ddefnyddio bryd hynny *(Adrannau Plant a Theuluoedd; Tai ac Eiddo).* | (51) |
| **Cronfeydd Adnewyddu ac Eraill** | |
| • Cywiro ariannu 22/23 efo grant cerbydau allyriadau isel iawn (ULEV) a dderbyniwyd yn 23/24, ond heb ei ddefnyddio bryd hynny *(Adran Priffyrdd, Peiranneg ac Ymgynghoriaeth).* | (51) |
| • Addasiad cyfraniadau cyfatebol/ychwanegol tuag at amrywiol gynlluniau *(Adran Economi a Chymuned).* | (39) |
| • Adnewyddu Cerbydau ac Offer o gronfeydd adrannol *(Adran Priffydd, Peiranneg ac Ymgynghoriaeth; Adran Amgylchedd).* | 607 |
| • Cyfraniad y Gronfa Hinsawdd tuag at gynllun adnewyddu cerbydau i rai trydan (*Adrannau Priffydd, Peiranneg ac Ymgynghoriaeth; Oedolion, Iechyd a Llesiant; Amgylchedd; Tai ac Eiddo).* | 742 |

----------------------------

**ATODIAD 2**

**Manylion Ailbroffilio'r Gyllideb**

Gweler isod y prif gynlluniau sydd wedi eu hailbroffilio ers y gyllideb wreiddiol:

| | **2024/25**<br><br>**£'000** | **2025/26 - 2026/27**<br>**£'000** |
|---|---|---|
| Cynlluniau Ysgolion (Cymunedau Dysgu Cynaliadwy ac Eraill) *(Adran Addysg)* | (4,085) | 4,085 |
| Cynlluniau Ysgogi'r Economi ac Unedau Diwydiannol *(Adran Economi a Chymuned)* | (2,652) | 2,652 |
| Cronfa Ffyniant Bro *(Adran Economi a Chymuned)* | (3,143) | 3,143 |
| Cynlluniau Morwrol, Parciau Gwledig a Hamdden *(Adran Economi a Chymuned)* | (168) | 168 |
| Cynllun Canolfan Integredig Maesgeirchen *(Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd)* | (160) | 160 |
| Hwb Iechyd a Gofal Penygroes *(Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant)* | (1,200) | 1,200 |
| Cynlluniau Sefydliadau Preswyl, Gofal Dydd ac eraill yn y maes Oedolion *(Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant)* | (1,090) | 1,090 |
| Adnewyddu Cerbydau ac Offer *(Adrannau Priffyrdd, Peirianneg ac Ymgynghoriaeth; Amgylchedd)* | 80 | (80) |
| Cynlluniau Risgiau Arfordirol ac Atal Llifogydd *(Adran Priffyrdd, Peirianneg ac Ymgynghoriaeth)* | (508) | 508 |
| Cynlluniau Trafnidiaeth *(Adran Amgylchedd)* | (289) | 289 |
| Meysydd Parcio - Ail wynebu *(Adran Amgylchedd)* | (119) | 119 |
| Systemau TG arbenigol Adran Amgylchedd *(Adran Amgylchedd)* | (48) | 48 |
| Cynlluniau Gwastraff ac Ailgylchu *(Adran Amgylchedd)* | (174) | 174 |
| Cynlluniau Grantiau ac Eraill Tai *(Adran Tai ac Eiddo)* | (179) | 179 |
| Cynlluniau Addasiadau i'r Anabl a Swyddfeydd *(Adran Tai ac Eiddo)* | (154) | 154 |

| | | |
|---|---|---|
| Cynlluniau Rheoli Carbon a Phaneli Solar y Cyngor *(Adran Tai ac Eiddo)* | (2,500) | 2,500 |
| Cynlluniau Gwaredu Asbestos *(Adran Tai ac Eiddo)* | (200) | 200 |
| Cynlluniau Datgarboneiddio Gwres *(Adran Tai ac Eiddo)* | (600) | 600 |

**Noder:**
Ni fydd yr ailbroffilio uchod yn golygu unrhyw golled grant.
Mae amrywiol resymau dilys tu ôl i'r ailbroffilio mewn sawl achos, ond gall yr oedi cyn gweithredu'r cynlluniau yma olygu bod gwasanaethau yn ymdopi'n hirach gyda'r asedau presennol heb eu gwella.

**ATODIAD 3**

**Gwariant Cyfalaf 5 Mis Cyntaf 2024/25**

| **CRYNODEB** | **RHAGLEN GYFALAF BLWYDDYN LAWN (adolygwyd Awst) 2024/25 £'000** | **GWIR WARIANT 5 MIS HYD AT 31/08/2024 £'000** |
|---|---:|---:|
| Addysg | 23,529 | 3,014 |
| Amgylchedd | 8,399 | 2,584 |
| Cefnogaeth Gorfforaethol | 50 | - |
| Cyllid (a Thechnoleg Gwybodaeth) | 2,252 | 569 |
| Economi a Chymuned | 34,372 | 5,511 |
| Tai ac Eiddo | 25,695 | 3,338 |
| Oedolion, Iechyd a Llesiant | 4,810 | 151 |
| Plant a Chefnogi Teuluoedd | 1,735 | 64 |
| Priffyrdd, Peirianneg ac Ymgynghoriaeth | 12,151 | 2,722 |
| Corfforaethol | 3,990 | - |
| **CYFANSWM** | **116,983** | **17,953** |

**Noder:**
Mae’r gyfran sydd wedi’i wario eleni (15%) yn uwch na’r sefyllfa adeg yma'r llynedd (gwariant 5 mis 2023/24 yn 11%), ac yn uwch na dwy flynedd yn ôl (11% yn 2022/23).

**ATODIAD 4**

**Dangosyddion Darbodus Cyfalaf 2024/25**

Mae'r Cyngor yn mesur a rheoli ei wariant cyfalaf a benthyca gan gyfeirio at y dangosyddion dilynol.

Mae bellach yn ofyniad yn y Côd Darbodus CIPFA i adrodd ar rhain yn rheolaidd.

Fe adlewyrchir yma'r sefyllfa a'r wybodaeth ddiweddaraf.

**Gwariant Cyfalaf**
Mae'r Cyngor yn ymgymryd ac yn cynllunio gwariant cyfalaf fel a grynhoir isod.

| | **Gwir 2023/24 £m** | **Amcan 2024/25 £m** | **Cyllideb 2025/26 £m** | **Cyllideb 2026/27 £m** |
|---|---|---|---|---|
| Gwasanaethau Cronfa Gyffredinol | 56.9 | 117.3 | 36.4 | 17.1 |
| Prydlesu Cronfa Gyffredinol * | 0.0 | 5.0 | 0.0 | 0.0 |
| **CYFANSWM** | **56.9** | **122.3** | **36.4** | **17.1** |

**Mae'r Gwariant Cyfalaf am 2024/25 yn cynnwys £5m oherwydd newid yn y dull cyfrifo am brydlesau ac nid yw'n cynrychioli gwir wariant.*

Mae prif brosiectau cyfalaf y Gronfa Gyffredinol yn 2024/25 yn cynnwys (gweler yr adroddiadau adolygiad am fanylion ailbroffilio lle bo'n berthnasol) :

- Cynlluniau /Strategaeth Tai - £17.9m
- Cynlluniau Cronfa Ffyniant Gyffredin - £16.4m
- Cynlluniau Cymunedau Dysgu Cynaliadwy - £16.1m
- Cynlluniau Cronfa Ffyniant Bro - £10.1m
- Atal Llifogydd Arfordirol - £3.9m
- Cynlluniau Eiddo - £3.7m

**Gofyn Cyllido Cyfalaf**
Mesurir cyllid sy'n ariannu dyled cronnus y Cyngor yn ôl y gofyn cyllido cyfalaf (GCC). Mae hyn yn cynyddu gyda gwariant cyfalaf newydd a ariennir drwy ddyled, ac mae'n lleihau gyda Darpariaeth Lleiafswm Refeniw (DLlR) a derbyniadau cyfalaf a ddefnyddir i ddisodli dyled.

| | **Gwir 31.3.2024 £m** | **Amcan 31.3.2025 £m** | **Cyllideb 31.3.2026 £m** | **Cyllideb 31.3.2027 £m** |
|---|---|---|---|---|
| Gwasanaethau Cronfa Gyffredinol * | 173.5 | 190.5 | 191.4 | 193.4 |

** Mae'r Gofyn Cyllido Cyfalaf am 2024/25 ac ymlaen i flynyddoedd dilynol yn cynnwys £5m o gynnydd oherwydd newid yn y dull cyfrifo am brydlesau.*

**Dyled Gros a'r Gofyn Cyllido Cyfalaf**
Yn ôl y canllaw statudol, dylai dyled aros islaw'r gofyn cyllido cyfalaf, ac eithrio yn y tymor byr. Mae'r Cyngor yn cydymffurfio ac yn disgwyl y bydd yn parhau i gydymffurfio â'r gofyn hyn yn y tymor canolig fel a ddangosir isod.

| | **Gwir 31.3.2024 £m** | **Amcan 31.3.2025 £m** | **Cyllideb 31.3.2026 £m** | **Cyllideb 31.3.2027 £m** | **Dyled ar 31.08.2024 £m** |
|---|---|---|---|---|---|
| Dyled (gan gynnwys Menter Cyllid Preifat (MCP) a phrydlesau) | 101.3 | 98.7 | 94.0 | 88.6 | 100.0 |
| Gofyn Cyllido Cyfalaf | 173.5 | 190.5 | 191.4 | 193.4 | |

**Dyled a'r Terfyn Awdurdodedig a'r Ffin Gweithredol**

Mae'n ofyn cyfreithiol i'r Cyngor bennu terfyn benthyg fforddiadwy (fe'i gelwir hefyd y terfyn dyled awdurdodedig ar gyfer dyled allanol) bob blwyddyn. Yn unol â chanllaw statudol, pennir "ffin gweithredol" is. Dyma'r lefel rhybudd os bydd dyled yn agosáu at y terfyn.

| | Uchafswm Dyled 2024/25 £m | Dyled ar 31.08.2024 £m | Terfyn Awdurdodedig 2024/25 £m | Ffin Gweithredol 2024/25 £m | Wedi cydymffurfio ? |
|---|---|---|---|---|---|
| Benthyca | 94.3 | 94.3 | | | |
| Menter Cyllid Preifat (MCP) a phrydlesau | 5.7 | 5.7 | | | |
| **Cyfanswm Dyled** | **100.0** | **100.0** | 200 | 190 | Do |

Oherwydd mai offeryn rheolaeth at ddiben monitro o fewn y flwyddyn yw'r ffin gweithredol, nid yw'n arwyddocaol os eir yn uwch na'r ffin ar achlysur oherwydd amrywiadau mewn llif arian ac nid yw hyn yn cael ei ystyried yn fethiant i gydymffurfio.

**Cyfran Costau Ariannu i'r Llif Refeniw Net**

Er nad yw'r gyllideb refeniw yn talu am wariant cyfalaf yn uniongyrchol, mae'r llog sy'n daladwy ar fenthyciadau a Darpariaeth Lleiafswm Refeniw (DLlR) yn gost ar refeniw. Gelwir y ffi net flynyddol yn gostau ariannu. Cymharir hyn gyda'r ffrwd refeniw net h.y. y swm a gyllidir drwy Dreth Cyngor, Trethi Annomestig Cenedlaethol a grantiau cyffredinol gan y llywodraeth.

| | Gwir 2023/24 | Amcan 2024/25 | Cyllideb 2025/26 | Cyllideb 2026/27 |
|---|---|---|---|---|
| Costau Ariannu * (£m) | 7.1 | 9.1 | 9.6 | 10.2 |
| Cyfran y Llif Refeniw Net (%) | 2.2% | 2.8% | 2.9% | 3.0% |

** Mae'r Costau Ariannu am 2024/25 ac ymlaen i flynyddoedd dilynol yn cynnwys £0.7m o gynnydd oherwydd newid yn y dull cyfrifo am brydlesau.*

**Dangosyddion Rheolaeth Trysorlys**

Mae'r dangosyddion hyn (Meincnod Ymrwymiad, Strwythur Aeddfedrwydd Benthyciadau, Buddsoddiadau Rheolaeth Trysorlys Tymor Hir) yn cael eu hadrodd ar wahân fel rhan o'r Adroddiad Rheolaeth Trysorlys am y cyfnod dan sylw.

| | |
|---|---|
| CYFARFOD: | **PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO** |
| DYDDIAD: | **10 HYDREF 2024** |
| TEITL: | **CYLLIDEB REFENIW 2024/25 – ADOLYGIAD DIWEDD AWST 2024** |
| PWRPAS: | **Adroddiad Monitro ar y Sefyllfa Ariannol Ddiweddaraf** |
| GWEITHREDIAD: | **Derbyn yr wybodaeth, ystyried risgiau sy'n deillio o'r tafluniadau gwariant yn erbyn y gyllideb, a chraffu'r penderfyniadau i'r Cabinet yng nghyswllt rheoli cyllidebau'r Cyngor a'i adrannau** |
| AELOD CABINET: | **PAUL ROWLINSON** |
| SWYDDOG CYSWLLT: | **FFION MADOG EVANS, PENNAETH CYLLID CYNORTHWYOL** |

---

**1.** Yn unol â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, disgwylir i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio graffu rhai materion ariannol gan gynnwys adroddiadau monitro cyllideb, lle'n briodol.

**2.** Cyflwynir yr adroddiad atodol (Cyllideb Refeniw 2024/25 – Adolygiad Diwedd Awst 2024) i'r Cabinet ar 15 Hydref 2024.

**3.** Mae'r Aelod Cabinet dros Gyllid a Chadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wedi gofyn i ni gyflwyno'r adroddiad yma i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i'w graffu.

**4.** Gofynnir i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio nodi'r sefyllfa a'r risgiau perthnasol yng nghyswllt cyllidebau'r Cyngor a'i adrannau, ystyried penderfyniadau i'r Cabinet a sylwebu fel bo angen.

**Atodiadau:**
Adroddiad Cabinet 15/10/2024: Cyllideb Refeniw 2024/25 – Adolygiad Diwedd Awst 2024

## CYNGOR GWYNEDD – Adroddiad i Gabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| | Cyllideb Refeniw 2024/25 – Adolygiad Diwedd Awst2024 |
| **Aelod Cabinet:** | Y Cynghorydd Paul Rowlinson, Aelod Cabinet Cyllid |
| **Swyddog perthnasol:** | Ffion Madog Evans, Pennaeth Cyllid Cynorthwyol - Cyfrifeg a Phensiynau |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 15 Hydref 2024 |

**1. Penderfyniad a geisir**

**1.1** Gan nodi bod rhagolygon o orwariant o £7.6 miliwn gan adrannau'r Cyngor, derbyn yr adroddiad ar adolygiad diwedd Awst 2024 o'r gyllideb refeniw, a chefnogi'r camau mae'r Prif Weithredwr wedi eu cyflwyno i ymdrin â'r gorwariant sylweddol gan yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant, Adran Plant a Theuluoedd, Adran Priffyrdd, Peirianneg ac YGC a'r Adran Amgylchedd.

**1.2** Cymeradwyo trosglwyddiad o £1,868k o danwariant ar gyllidebau corfforaethol i Gronfa Cefnogi Strategaeth Ariannol y Cyngor.

**2. Y rheswm pam fod angen i'r Cabinet wneud y penderfyniad**

**2.1** Cyfrifoldeb y Cabinet yw cymryd camau, fel bo angen, er mwyn sicrhau rheolaeth briodol dros gyllidebau'r Cyngor (e.e. cymeradwyo trosglwyddiadau sylweddol neu gyllideb ychwanegol).

**3. Cyflwyniad a Rhesymeg**

**Cefndir / Cyflwyniad**

**3.1** Cyflwynir yr adroddiad ar yr adolygiad diweddaraf diwedd Awst o gyllideb refeniw'r Cyngor am 2024/25, ac amlinellir crynhoad o'r sefyllfa fesul Adran yn **Atodiad 1**. Mae'r rhagolygon presennol yn awgrymu y bydd chwech o'r adrannau yn gorwario erbyn diwedd y flwyddyn. Rhagwelir gorwariant sylweddol ar gyfer yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant, Adran Plant a Theuluoedd, Adran Priffyrdd, Peirianneg ac YGC a'r Adran Amgylchedd.

**3.2** Yn **Atodiad 2,** rhoddir manylion pellach yn ymwneud â'r prif faterion a'r penawdau cyllideb ble rhagwelir gwahaniaethau sylweddol, ynghyd ag argymhellion penodol lle'n briodol.

## 4. Rhesymeg a chyfiawnhad dros argymell y penderfyniad

### Sefyllfa Arbedion

**4.1** Yn adroddiad Cyllideb 2024/25 i'r Cyngor Llawn ar 7 Mawrth 2024, adroddwyd fod arbedion gwerth £5,648,890 yn ofynnol er mwyn cynorthwyo i gau'r bwlch cyllidol 2024/25. Mae'r cyllidebau wedi eu lleihau o'r swm yma; ac felly adroddir ar y sefyllfa yn dilyn ystyriaeth o'r arbedion.

**4.2** Dros y blynyddoedd diwethaf rydym wedi adrodd ar risgiau i gyflawni arbedion. Bu i werth £2 filiwn o gynlluniau arbedion gael eu dileu yn ystod 2023/24. O ran y cynlluniau sydd yn weddill, mae yna risgiau o ran gwireddu rhai o'r cynlluniau.

**4.3** Y sefyllfa ddiweddaraf o ran yr arbedion yw bod £41.7 miliwn, sef 90% o'r cynlluniau arbedion diwygiedig ers 2015 bellach wedi eu gwireddu.

## 5. Adrannau'r Cyngor

### 5.1 Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant

Yn dilyn i'r Adran dderbyn dyraniad cyllideb ychwanegol barhaol o dros £3.2 miliwn eleni i gwrdd â phwysau mewn gwahanol feysydd, mae'r rhagolygon diweddaraf yn awgrymu bydd £2.7 miliwn o orwariant erbyn diwedd y flwyddyn (i'w gymharu â £3.9 miliwn yn 2023/24). Mae'r gorwariant yn ganlyniad i gyfuniad o nifer o ffactorau gan gynnwys cynnydd yn y pwysau ar y ddarpariaeth gofal cartref, gyda chostau staffio uwch, lefelau salwch a chyfraddau oriau digyswllt yn uchel ar y ddarpariaeth fewnol. Y prif faterion eraill yn cynnwys taliadau uniongyrchol sydd yn gorwario £1.3 miliwn yn y gwasanaeth pobl hŷn, a llety cefnogol yn y gwasanaeth anabledd dysgu.

Yn dilyn i waith gael ei gomisiynu gan y Prif Weithredwr y llynedd i edrych ar sefyllfa ariannol yr adran, mae'r gwaith yn derbyn sylw.

### 5.2 Adran Plant a Theuluoedd

Mae sefyllfa ariannol yr adran wedi gwaethygu'n sylweddol ers sefyllfa 2023/24 pryd adroddwyd ar orwariant o £2.6 miliwn, ond sydd bellach wedi cynyddu i £3.2 miliwn; yn bennaf o ganlyniad i gynnydd yng nghostau lleoliadau all-sirol. Gwelwyd cynnydd yng nghymhlethdodau pecynnau a defnydd cynyddol ddiweddar o leoliadau heb eu cofrestru.

O ganlyniad i'r gorwariant eithriadol gan yr Adran Plant a Theuluoedd, mae'r Prif Weithredwr wedi comisiynu gwaith i egluro manylder y darlun yng ngofal Plant, er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r materion a rhaglen glir i ymateb. Bydd y gwaith yn cael ei arwain gan Gyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol.

## 5.3 Adran Addysg

Yn dilyn gorwariant o £1.5 miliwn yn ystod y flwyddyn ariannol 2023/24 ar gludiant ysgolion, bu i'r maes dderbyn dyraniad cyllideb ychwanegol eleni o £896k ar sail barhaol ac £896k pellach am flwyddyn yn unig, i gyfarch y pwysau ar y maes bysus a thacsis ysgolion yn dilyn ail-dendro cytundebau, ac felly adroddir ar sefyllfa ariannol gytbwys.

## 5.4 Byw'n Iach

Dros y blynyddoedd diwethaf gan fod lefelau incwm Cwmni Byw'n Iach wedi cael ei amharu gan Covid, mae'r cwmni wedi derbyn cefnogaeth ariannol flynyddol gan y Cyngor oedd yn £550k yn 2022/23 a £308k yn 2023/24, oedd uwchlaw'r taliad cytundebol y contract ddarparu, i'w galluogi i gynnal eu gwasanaethau. Mae'r gefnogaeth ariannol yn parhau eleni a'r swm gofynnol yn £101k.

## 5.5 Adran Priffyrdd, Peirianneg ac YGC

Rhagwelir gorwariant o £649k gan yr adran, gwelwyd lleihad yn y gwaith sydd yn cael ei gomisiynu gan asiantaethau allanol sydd yn cael effaith negyddol ar incwm gwasanaethau priffyrdd. Ym mwrdeistrefol, mae cyfuniad o ffactorau, gan gynnwys pwysau ychwanegol ar gyllidebau staff glanhau strydoedd a glanhau toiledau cyhoeddus. Tra bod colledion incwm yn faterion yn cynnal tiroedd a thoiledau cyhoeddus. Rhagolygon incwm uwch gan y gwasanaethau profedigaeth ynghyd â thanwariant staffio mewn nifer o feysydd yn cynorthwyo'r sefyllfa ariannol.

## 5.6 Adran Amgylchedd

Gorwariant o £1,083k yn cael ei ragweld, gyda'r tueddiad blynyddol o orwariant yn y maes casglu gwastraff ac ailgylchu yn parhau ac yn gyfrifol am £664k o'r gorwariant. Mae costau cyflogaeth a lefelau salwch a goramser yn broblemus yn y maes; ond y mater yn derbyn sylw ac felly i weld yn lleihau. Mater arall yw costau ychwanegol fflyd o ran hurio cerbydau. Mae diffyg incwm parcio hefyd yn amlwg eleni. Mae yna nifer o gynlluniau arbedion yn llithro yn ogystal sydd yn rhan o'r darlun.

## 5.7 Tai ac Eiddo

Y tueddiad o bwysau sylweddol ar y gwasanaeth llety argyfwng yn parhau, gyda rhagolygon fod gwariant ar y maes am fod yn £6.4 miliwn eleni, hyn i gymharu â 6.8 miliwn y llynedd. Mae'r gorwariant o £227k a adroddir yn dilyn ystyried cyllideb ychwanegol o £3m sydd wedi ei ddyrannu o bremiwm treth cyngor a hefyd £1.2 miliwn o gyllideb un-tro ychwanegol a ddyrannwyd fel rhan o'r drefn bidiau ar gyfer 2024/25 i gynorthwyo gyda'r pwysau ychwanegol.

**5.8 Corfforaethol**

Tanwariant ar gorfforaethol o ganlyniad i ragdybiaethau darbodus wrth osod cyllideb 2024/25, gyda chynnyrch treth ychwanegol a lleihad yn y niferoedd sydd wedi hawlio gostyngiad treth cyngor o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol. Tanwariant ar gyllidebau eraill yn cynorthwyo'r sefyllfa ariannol.

## 6. Casgliad

**6.1** Rhagwelir y bydd nifer o adrannau'r Cyngor yn gorwario erbyn diwedd y flwyddyn gyda gorwariant sylweddol mewn rhai meysydd. Mae rhagolygon gorwariant sylweddol gan yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant, Adran Plant a Theuluoedd, Adran Priffyrdd, Peirianneg ac YGC a'r Adran Amgylchedd eleni. Yn wyneb y rhagolygon gorwariant eithriadol gan yr Adran Plant a Theuluoedd, mae'r Prif Weithredwr wedi comisiynu gwaith i egluro manylder y darlun yng ngofal Plant, er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r materion a rhaglen glir i ymateb. Mae hyn yn gyson â'r trefniadau sydd eisoes ar y gweill yn yr adrannau eraill sydd yn gorwario yn sylweddol. Bydd y gwaith yn cael ei arwain gan y Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol.

Cyflwynwyd adroddiad Cynllun Ariannol Tymor Canolig i Gabinet 14 Mai 2024, oedd yn amlinellu cyfundrefn arbedion a thoriadau er mwyn ymateb i'r sefyllfa ariannol. Roedd hyn yn cynnwys argymell rhewi gwariant yn ystod y flwyddyn pe byddai'n dod i'r amlwg fod gorwariant sylweddol yn debygol. O ystyried y rhagolygon gorwariant diweddaraf, ystyrir fod mesur o'r fath yn briodol. Felly, bydd rhaid cael cyfuniad o drefniadau rhewi gwariant ynghyd â gwneud defnydd o gronfeydd wrth gefn y Cyngor i gyllido'r blwch ariannol a ragwelir am 2024/25.

Yn ychwanegol i hyn, bu i'r Cyngor dderbyn ad-daliad un-tro i'r holl gynghorau o enillion ail-ariannu Parc Adfer, yng Nglannau Dyfrdwy. Mae'r cyfraniad wedi ei roi mewn cronfa, gyda'r galwad cyntaf ohono i'w ddefnyddio i gyllido gorwariant yn y maes gwastraff.

Mae peth ansicrwydd yn parhau yn genedlaethol o ran y sefyllfa setliad tâl ac o ran y cyfraniad gan Lywodraeth Cymru at gynnydd i gyflogau a phensiynau athrawon, disgwylir y bydd y darlun yn fwy eglur erbyn adolygiad diwedd Tachwedd.

## 7. Camau nesaf ac amserlen

**7.1** Gweithredu ar yr argymhellion gerbron a chyflwyno adroddiad dilynol i'r Cabinet 25 Ionawr 2025 yn dilyn adolygiad o'r sefyllfa ar ddiwedd Tachwedd.

## 8. Sylwadau Swyddogion Statudol

**8.1 Prif Swyddog Cyllid**

Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

**8.2 Swyddog Monitro**

Dim sylwadau i'w hychwanegu os safbwynt priodoldeb.

**Atodiadau:**

Atodiad 1 - Crynhoad o sefyllfa net cyllidebau'r adrannau

Atodiad 2 - Manylion y cyllidebau a'r gwahaniaethau sylweddol

## Cyllideb Refeniw 2024/25 - Crynhoad o'r sefyllfa fesul Adran

| | Adolygiad Diwedd Awst | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Cyllideb Arfaethedig 2024/25 £'000 | Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2024/25 £'000 | Addasiadau a Argymhellir £'000 | Amcan Gor/ (Tan) Wariant Addasedig 2024/25 £'000 |
| **Oedolion, Iechyd a Llesiant** | 78,788 | 2,673 | 0 | 2,673 |
| **Plant a Theuluoedd** | 23,473 | 3,205 | 0 | 3,205 |
| **Gwasanaeth Busnes a Chomisiynu Gofal** | 2,641 | (97) | 0 | (97) |
| **Addysg** | 117,900 | (60) | 0 | (60) |
| **Economi a Chymuned** | 6,115 | 127 | 0 | 127 |
| **Priffyrdd, Peirianneg ac YGC** | 18,692 | 649 | 0 | 649 |
| **Amgylchedd** | 17,138 | 1,083 | 0 | 1,083 |
| **Tai ac Eiddo** | 13,175 | 126 | 0 | 126 |
| **Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol** | 2,786 | (63) | 0 | (63) |
| **Cefnogaeth Gorfforaethol** | 8,112 | (23) | 0 | (23) |
| **Cyllid (a Thechnoleg Gwybodaeth)** | 8,474 | (18) | 0 | (18) |
| **Cyllidebau Corfforaethol** *(Gwahaniaethau yn unig)* | * | (1,868) | 1,868 | 0 |
| **Cyfansymiau (net)** | 305,768 | 5,734 | 1,868 | 7,602 |

## CYLLIDEB REFENIW 2024/25 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST

| Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant | Amcan Cyllideb 2024/25 | Amcan Sefyllfa 2024/25 | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2024/25** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2024/25** | Gor / (Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2023/24 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Gwasanaethau Oedolion** | | | | | | |
| Pobl Hŷn | | | | | | |
| Preswyl a Nyrsio - Cartrefi | 24,394 | 23,520 | (874) | | (874) | (720) |
| Gofal Cartref | 10,163 | 11,384 | 1,221 | | 1,221 | 1,228 |
| Anabledd Corff | 3,471 | 2,492 | (979) | | (979) | (1,065) |
| Eraill | 3,774 | 4,685 | 911 | | 911 | 458 |
| | 41,802 | 42,081 | 279 | 0 | 279 | (99) |
| Anabledd Dysgu | 30,091 | 30,455 | 364 | | 364 | 1,955 |
| Iechyd Meddwl | 5,217 | 5,073 | (144) | | (144) | 350 |
| Rheolaeth yr Adran | 589 | 466 | (123) | | (123) | (89) |
| **Cyfanswm Gwasanaethau Oedolion** | **77,699** | **78,075** | **376** | **0** | **376** | **2,117** |
| **Gwasanaethau Darparu (dangos cyllideb net)** | | | | | | |
| Gofal Preswyl | 0 | 211 | 211 | | 211 | 270 |
| Gofal Dydd | (9) | 5 | 14 | | 14 | (113) |
| Gofal Cartref | 139 | 1,761 | 1,622 | | 1,622 | 1,780 |
| Eraill | 0 | 10 | 10 | | 10 | 19 |
| **Cyfanswm Gwasanaethau Darparu** | **130** | **1,987** | **1,857** | **0** | **1,857** | **1,956** |

| CYLLIDEB REFENIW 2024/25 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant** | Amcan Cyllideb 2024/25 | Amcan Sefyllfa 2024/25 | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2024/25** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2024/25** | Gor / (Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2023/24 |
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Gwasanaethau Eraill** | | | | | | |
| Canolog Adrannol *(gan gynnwys arbedion yr Adran)* | 959 | 1,399 | 440 | | 440 | 38 |
| Addasiad Cau Cyfrifon 2023/24 | | | 0 | | 0 | (3,806) |
| **Cyfanswm Gwasanaethau Eraill** | **959** | **1,399** | **440** | **0** | **440** | **(3,768)** |
| **Cyfanswm Oedolion, Iechyd a Llesiant** | **78,788** | **81,461** | **2,673** | **0** | **2,673** | **305** |

**Oedolion, Iechyd a Llesiant**

**Pobl Hŷn** - ym mhreswyl a nyrsio, costau ffioedd uwch gan ddarparwyr preifat yn parhau, ond gweithredu trefniadau yn ymwneud â thaliadau gohiriedig dyledus ar gyfer preswylwyr yn fwy effeithiol. Rhoddwyd cyllideb ychwanegol barhaol o £600k i'r maes yma ar gyfer 2024/25 ac felly rhagwelir tanwariant erbyn diwedd y flwyddyn. Cynnydd yn y pwysau ar gyllideb gofal cartref wrth symud i'r model darparu newydd ac felly yn gorwario £1.2 miliwn. Yn y maes anabledd corff, y tueddiad o lai o alw am ofal cartref ond pwysau cynyddol ar daliadau uniongyrchol yn parhau. Yn 'Eraill', gorwariant o £1.3 miliwn ar daliadau uniongyrchol ond sydd yn cael ei leihau gan danwariant ar wasanaethau dydd.

**Anabledd Dysgu** - yn dilyn gorwariant o £2m ar y maes yn 2023/24, bu i'r gwasanaeth dderbyn dyraniad cyllideb ychwanegol o £1.68 miliwn ar sail barhaol ar gyfer 2024/25 ymlaen, er hyn, amcangyfrifir y bydd gorwariant o £364k eleni. Pwysau yn parhau ar lety cefnogol a swyddi gweithwyr maes uwchlaw'r sefydliad yn cyfrannu at y gorwariant.

**Iechyd Meddwl** - bu i'r gwasanaeth dderbyn dyraniad cyllid ychwanegol parhaol o £419k ar gyfer 2024/25, sydd wedi trawsnewid y rhagolygon ariannol o'r sefyllfa gorwariant a adroddwyd y llynedd. Rhagwelir y bydd y preswyl a nyrsio a gweithwyr maes yn tanwario.

**Rheolaeth yr Adran** - tanwariant ar gyflogau, teithio a'r gyllideb gyfreithiol.

**Gwasanaethau Darparu** - gorwariant ar staff yng ngofal preswyl sydd yn cynnwys defnydd o staff asiantaeth. Er bod cyllideb ychwanegol o £0.5 miliwn wedi ei fuddsoddi yn barhaol yng ngofal cartref yn 2024/25, costau staffio uwch, gyda lefelau salwch a chyfraddau oriau di-gyswllt uchel yn parhau ac yn gyfrifol am £1.6 miliwn o'r gorwariant. Y ddarpariaeth gofal dydd wedi ei leihau dros y blynyddoedd diwethaf, ond costau rhedeg gweddilliol ar gyfer rhai o'r adeiladau.

**Gwasanaethau Canolog Adrannol** - swyddi uwchlaw'r strwythur a diffyg gwireddu arbedion yn gyfrifol am y gorwariant o £440k.

**Arbedion** - o ran sefyllfa gwireddu arbedion ar gyfer yr adran, mae gwerth £356k o arbedion o flynyddoedd blaenorol (ar ôl dileu arbedion gwerth £1.5 miliwn yn 2023/24), ynghyd â £1.44 miliwn o arbedion newydd ar gyfer 2024/25, felly cyfanswm o £1.8 miliwn. Dengys y rhagolygon diweddaraf na fydd modd i 85%, sef £1.5m o'r arbedion yma, gael eu gwireddu eleni.

O ganlyniad i'r gorwariant eithriadol gan yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant yn 2023/24, bu i'r Prif Weithredwr gomisiynu gwaith i egluro manylder cymhleth yn y darlun yng ngofal Oedolion, er mwyn cael gwell dealltwriaeth o’r materion a rhaglen glir i ymateb. Mae'r gwaith wrthi'n derbyn sylw ac yn cael ei arwain gan y Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol, gyda bwriad i adrodd ar y canfyddiadau yn fuan.

**CYLLIDEB REFENIW 2024/25 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST**

| **Adran Plant a Theuluoedd** | Amcan Cyllideb 2024/25 | Amcan Sefyllfa 2024/25 | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2024/25** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2024/25** | Gor / (Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2023/24 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Rheolaeth Gwasanaeth | 688 | 645 | (43) | | (43) | (79) |
| Gweithredol | 2,638 | 2,957 | 319 | | 319 | 555 |
| Lleoliadau | | | | | | |
| Lleoliadau All-Sirol | 5,832 | 7,653 | 1,821 | | 1,821 | 1,497 |
| Cartrefi Grwpiau Bychan | 0 | 0 | 0 | | 0 | 0 |
| Maethu Drwy Asiant | 1,917 | 1,648 | (269) | | (269) | (228) |
| Maethu Mewnol | 3,057 | 2,838 | (219) | | (219) | (268) |
| Gwasanaethau Cefnogol ac Eraill | 2,099 | 2,484 | 385 | | 385 | 196 |
| | 12,905 | 14,623 | 1,718 | 0 | 1,718 | 1,197 |
| Ôl-16 | 1,710 | 1,712 | 2 | | 2 | 122 |
| Gwasanaeth Derwen | 2,631 | 3,770 | 1,139 | | 1,139 | 825 |
| Cyfiawnder Ieuenctid | 288 | 247 | (41) | | (41) | (31) |
| Blynyddoedd Cynnar | 169 | 133 | (36) | | (36) | (83) |
| Uned Datblygu'r Gweithlu | 162 | 162 | 0 | | 0 | 0 |
| Eraill | 2,282 | 2,429 | 147 | | 147 | 105 |
| Addasiad Cau Cyfrifon 2023/24 | | | 0 | | 0 | (2,511) |
| **Cyfanswm Plant a Theuluoedd** | **23,473** | **26,678** | **3,205** | **0** | **3,205** | **100** |

## Plant a Theuluoedd

**Rheolaeth Gwasanaeth** - derbyniad grantiau i gyllido gwariant craidd.

**Gweithredol** - y tueddiad gorwariant yn parhau o ganlyniad i bwysau sylweddol ar gefnogaeth cynlluniau cefnogol ynghyd â staffio uwchlaw'r gyllideb gweithwyr maes.

**Lleoliadau** - gwelwyd cynnydd pellach yn y nifer cyfartalog lleoliadau all-sirol unwaith eto eleni i 34.1 (32.5 yn 2023/24, 25.7 ar gyfer 2022/23), ac felly cynnydd yn y gorwariant ers sefyllfa 2023/24, gyda rhagolygon gorwariant o £1.8 miliwn am y flwyddyn. Er mai £240k yw cost gyfartalog y lleoliadau, mae chwe lleoliad eithriadol eleni, sydd yn costio rhwng £472k a £800k yr un. Gwelwyd cynnydd yn y costau oherwydd cymhlethdodau pecynnau a defnydd cynyddol ddiweddar o leoliadau heb eu cofrestru, sydd fwy costus.

Niferoedd cyfartalog Maethu drwy Asiant a Maethu Mewnol yn gyson efo niferoedd 2023/24 ond gan fod yna nifer o geiswyr lloches heb rieni neu warcheidwaid yn derbyn gwasanaeth, derbyniad incwm ar eu cyfer gan y Swyddfa Gartref yn arwain at danwariant. Yn y gwasanaeth cefnogol ac eraill pwysau cynyddol ar gyllideb y tîm lleoliadau a gweithwyr cefnogol.

**Cartrefi Grwpiau Bychan** - wrthi'n cael eu sefydlu yng Ngwynedd, sef darpariaeth fewnol fydd yn golygu y bydd modd lleoli plant yn fewnol yn hytrach nac efo darparwyr allanol all-sirol, fydd yn ei dro yn lleihau'r gorwariant presennol ar leoliadau.

**Derwen** - y tueddiad gorwariant yn parhau ac wedi dwysau, gyda chostau gweithwyr cynlluniau cefnogol a chefnogaeth arbenigol bellach yn gorwario £1 miliwn. Bu newid yn y pwyslais o ran sut mae'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu, gyda mwy o bwysau ar daliadau uniongyrchol sydd yn gyfrifol am £192k o'r gorwariant. Costau trafnidiaeth a chynnal eiddo yn cyfrannu at orwariant o £49k yn yr Uned Egwyl Fer.

**Cyfiawnder Ieuenctid** - trosiant staff a lleihad yng nghyfraniad y Cyngor tuag at gostau rhedeg y bartneriaeth eleni.

**Blynyddoedd Cynnar** - grantiau ar gael i gyllido gwariant craidd yn arwain at ragolygon tanwariant.

**Eraill** - nifer o ffactorau gan gynnwys gorwariant ar gostau staff, ffioedd gwasanaethau arbenigol ac ar gyfraniadau gwasanaethau ar y cyd.

O ganlyniad i'r gorwariant eithriadol gan yr Adran Plant a Theuluoedd, mae'r Prif Weithredwr wedi comisiynu gwaith i egluro manylder y darlun yng ngofal Plant, er mwyn cael gwell dealltwriaeth o’r materion a rhaglen glir i ymateb. Bydd y gwaith yn cael ei arwain gan y Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol.

**CYLLIDEB REFENIW 2024/25 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST**

| **Gwasanaeth Busnes a Chomisiynu Gofal** | Amcan Cyllideb 2024/25 | Amcan Sefyllfa 2024/25 | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2024/25** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2024/25** | Gor / (Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2023/24 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Cefnogaeth a Chomisiynu | 1,627 | 1,476 | (151) | | (151) | (172) |
| Incwm a Chyllid | 784 | 714 | (70) | | (70) | (26) |
| Gwasanaethau Ataliol | 230 | 354 | 124 | | 124 | (7) |
| **Cyfanswm Gwasanaeth Busnes a Chomisiynu Gofal** | **2,641** | **2,544** | **(97)** | **0** | **(97)** | **(205)** |

## Gwasanaeth Busnes a Chomisiynu Gofal

Y Gwasanaeth Busnes a Chomisiynu Gofal wedi ei symud o'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant yn ystod y flwyddyn i fod yn atebol i'r Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol, gan fod eu maes gwaith yn cwmpasu gofal oedolion a phlant.

**Cefnogaeth a Chomisiynu** - tanwariant ar nifer o bennawdau'r gyllideb gan gynnwys costau staff, teithio, argraffu a gwasanaethau a chyflenwadau.

**Incwm a Chyllid** - nifer o benawdau'r gyllideb yn tanwario gan gynnwys teithio a hyfforddiant ac arbediad sydd wedi ei gyflawni ymlaen llaw.

**Gwasanaeth Ataliol** - y cynllun teleofal yn gorwario £83k o ganlyniad i ddiffyg yn y cyfraniadau o'i gymharu â'r targed, ynghyd â gwariant uwchlaw'r gyllideb offer. Derbyniad grant o £48k o fewn y ffigyrau sydd yn cyfrannu at gostau swydd, felly yn lleihau'r gorwariant a adroddir. Gorwariant o £41k ar wasanaethau ataliol yn dilyn newidiadau diweddar i'r ddarpariaeth.

**CYLLIDEB REFENIW 2024/25 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST**

| **Adran Addysg** | Amcan Cyllideb 2024/25 | Amcan Sefyllfa 2024/25 | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2024/25** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2024/25** | Gor / (Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2023/24 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Ysgolion Datganoledig | 96,629 | 96,629 | 0 | | 0 | 0 |
| Gwasanaethau Ansawdd Ysgolion | (1,514) | (1,527) | (13) | | (13) | (281) |
| Isadeiledd a Gwasanaethau Cefnogol | | | | | | |
| Cludiant | 8,536 | 8,536 | 0 | | 0 | 1,509 |
| Gwasanaeth Atodol | 957 | 929 | (28) | | (28) | (399) |
| Eraill | 4,321 | 4,298 | (23) | | (23) | (16) |
| | 13,814 | 13,763 | (51) | 0 | (51) | 1,094 |
| Arweinyddiaeth a Rheolaeth | 2,667 | 2,643 | (24) | | (24) | (192) |
| Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad | 5,294 | 5,342 | 48 | | 48 | (527) |
| Gwasanaeth Ieuenctid | 1,010 | 990 | (20) | | (20) | 1 |
| Defnydd o Gronfa Tanwariant yr Adran | | | 0 | | 0 | (95) |
| Defnydd o Gronfeydd Eraill yr Adran | | | 0 | | 0 | 0 |
| **Cyfanswm Addysg** | **117,900** | **117,840** | **(60)** | **0** | **(60)** | **0** |

## Addysg

**Gwasanaeth Ansawdd Ysgolion -** cyfuniad o dderbyniad incwm a defnydd o arian grant i gyllido gwariant craidd.

**Cludiant -** yn dilyn gorwariant o £1.5 miliwn yn ystod y flwyddyn ariannol 2023/24, bu i'r maes dderbyn dyraniad cyllideb ychwanegol eleni o £896k ar sail barhaol, ac £896k pellach am flwyddyn yn unig i gyfarch y pwysau ar y maes bysus a thacsis ysgolion yn dilyn ail-dendro cytundebau. Felly, ar hyn o bryd, rhagwelir y bydd sefyllfa ariannol gytbwys.

Mae'r maes cludiant yn parhau i fod yn destun adolygiad strategol i geisio rheoli'r cynnydd yn y gwariant, fel bod modd ceisio lleihau'r gorwariant a manteisio ar gyfleoedd effeithlonrwydd.

**Isadeiledd a Gwasanaethau Cefnogol - Gwasanaeth Atodol -** incwm uwch ar gyfer arlwyaeth yn dilyn derbyniad grant ar gyfer pris yr uned cinio ysgol am ddim ysgolion cynradd. Gorwariant ar gostau staff yn faterion yn glanhau a gofalu ysgolion. Yr elfen gofal o'r clybiau brecwast hefyd yn parhau i orwario, gyda rhagolygon gorwariant o £100k o ganlyniad i gostau staff uwch a diffyg incwm.

**Isadeiledd a Gwasanaethau Cefnogol - Eraill -** tanwariant ar nifer o gyllidebau amrywiol.

**Arweinyddiaeth a Rheolaeth -** arbediad yn deillio o newid system.

**Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad -** darlun cymysg sydd yn gyfuniad o drosiant staff a derbyniad grant ond pwysau ar nifer o benawdau amrywiol eraill. Mae'r amgylchiadau yn ymwneud ag un ganolfan benodol yn parhau, ac yn gyfrifol am orwariant o £101k.

**Gwasanaeth Ieuenctid -** gwireddu cynllun arbedion 2025/26 yn ymwneud â staffio ymlaen llaw.

| CYLLIDEB REFENIW 2024/25 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Adran Economi a Chymuned** | Amcan Cyllideb 2024/25 | Amcan Sefyllfa 2024/25 | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2024/25** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2024/25** | Gor / (Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2023/24 |
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Rheolaeth | 436 | 436 | 0 | | 0 | 10 |
| Rhaglenni Adfywio a Chefnogi Cymunedau | 474 | 464 | (10) | | (10) | (1) |
| Morwrol a Pharciau Gwledig | (153) | (25) | 128 | | 128 | (10) |
| Cytundebau Byw'n Iach a Hamdden Eraill | 2,236 | 2,295 | 59 | | 59 | 88 |
| Rhaglenni Datblygu Economaidd | (72) | (147) | (75) | | (75) | (99) |
| Marchnata a Digwyddiadau | 299 | 259 | (40) | | (40) | 0 |
| Llyfrgelloedd Gwynedd | 1,832 | 1,772 | (60) | | (60) | (25) |
| Amgueddfeydd, Celfyddydau ac Archifau Gwynedd | 1,010 | 1,188 | 178 | | 178 | 124 |
| Defnydd o Gronfa Tanwariant yr Adran | 53 | 0 | (53) | | (53) | (87) |
| **Cyfanswm Economi a Chymuned** | **6,115** | **6,242** | **127** | **0** | **127** | **0** |

## Economi a Chymuned

**Rhaglenni Adfywio a Chefnogi Cymunedau** - arian grant yn cyllido gwariant craidd.

**Morwrol a Pharciau Gwledig** - effaith y tywydd gwael dros yr haf wedi amharu ar y lefelau incwm, sydd wedi golygu diffyg incwm yn y traethau ac wedi cyfrannu at leihad yn incwm Hafan, Pwllheli. Gwariant uwchlaw'r gyllideb hefyd yn faterion yn Hafan, Pwllheli ac yn Noc Fictoria, Caernarfon. Gwell rhagolygon gan y Parciau Gwledig gyda thanwariant o (£69k) o ganlyniad i dderbyniad incwm un-tro gan Netflix ym Mharc Padarn a chyfuniad o dderbyniad grant ac incwm uwch yng Nglynllifon.

**Cytundebau Byw'n Iach a Hamdden Eraill** - trosglwyddwyd y ddarpariaeth hamdden i Gwmni Byw'n Iach yn Ebrill 2019, ond fod cyfrifoldeb am gostau rhedeg yr eiddo yn aros efo'r Cyngor. Dros y blynyddoedd diwethaf gan fod lefelau incwm y cwmni wedi cael ei amharu gan Covid, mae'r cwmni wedi derbyn cefnogaeth ariannol flynyddol gan y Cyngor oedd yn £550k yn 2022/23 a £308k yn 2023/24, oedd uwchlaw'r taliad cytundebol y contract ddarparu, i'w galluogi i gynnal eu gwasanaethau. Mae'r gefnogaeth ariannol yn parhau eleni a'r swm gofynnol wedi lleihau i £101k.

Ymhellach, gorwariant o £59k ar gostau rhedeg eiddo Byw'n Iach.

**Rhaglenni Datblygu Economaidd** - llwyddiant i ddenu grantiau sydd yn rhyddhau cyllideb craidd y Cyngor.

**Marchnata a Digwyddiadau** - arbediad swydd ymlaen llaw sydd yn rhan o gynlluniau arbedion 2025/26.

**Llyfrgelloedd Gwynedd** - swydd wag sydd yn rhan o gynlluniau arbedion 2025/26 ynghyd â llai o wariant ar nifer o benawdau'r gyllideb.

**Amgueddfeydd, Celfyddydau ac Archifau Gwynedd** - gorwariant yn bennaf gan fod diffyg incwm yn faterion yn Neuadd Dwyfor £127k, Storiel £31k ac yn Amgueddfa Lloyd George £16k.

Er mwyn lleihau y gorwariant a adroddir mae'r adran yn defnyddio eu cronfa tanwariant adrannol sydd yn £53k yn llwyr eleni.

**CYLLIDEB REFENIW 2024/25 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST**

| **Adran Priffyrdd, Peirianneg ac YGC (yn cynnwys Cefnffyrdd)** | Amcan Cyllideb 2024/25 | Amcan Sefyllfa 2024/25 | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2024/25** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2024/25** | Gor / (Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2023/24 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Gwasanaethau:** | | | | | | |
| Priffyrdd (cynnwys Cefnffyrdd) | 12,183 | 12,411 | 228 | | 228 | 337 |
| Peirianneg | 509 | 506 | (3) | | (3) | 76 |
| Bwrdeistrefol | 5,734 | 6,125 | 391 | | 391 | 335 |
| Ymgynghoriaeth Gwynedd | 266 | 299 | 33 | | 33 | (61) |
| Addasiad Cau Cyfrifon 2023/24 | | | 0 | | 0 | (587) |
| **Cyfanswm Priffyrdd, Peirianneg ac YGC** | **18,692** | **19,341** | **649** | **0** | **649** | **100** |

## Priffyrdd, Peirianneg ac YGC (gan gynnwys Cefnffyrdd)

**Gwasanaethau Priffyrdd** - llai o waith yn cael ei gomisiynu gan asiantaethau allanol yn cael effaith negyddol ar yr incwm a ragwelir, ynghyd â phwysau cynyddol ar y gyllideb goleuo. Tanwariant ar gostau staff yn lleihau'r gorwariant a adroddir.

**Gwasanaethau Peirianneg** - tanwariant ar amrywiol benawdau.

**Gwasanaethau Bwrdeistrefol** - darlun cymysg sydd yn gyfuniad o ffactorau sydd yn cynnwys pwysau ychwanegol ar gyllidebau staff glanhau strydoedd a glanhau toiledau cyhoeddus. Colledion incwm yn faterion yn cynnal tiroedd a thoiledau cyhoeddus. Rhagolygon incwm uwch gan y gwasanaethau profedigaeth ynghyd â thanwariant staffio mewn nifer o feysydd yn cynorthwyo'r sefyllfa ariannol.

**Ymgynghoriaeth Gwynedd** - rhagolygon o ddiffyg incwm gan sefydliadau allanol megis cynghorau eraill a Llywodraeth Cymru ar y gwasanaeth adeiladu a ffyrdd a pheirianneg.

**CYLLIDEB REFENIW 2024/25 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST**

| **Adran Amgylchedd** | Amcan Cyllideb 2024/25 | Amcan Sefyllfa 2024/25 | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2024/25** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2024/25** | Gor / (Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2023/24 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Rheolaeth yr Adran | 733 | 952 | 219 | | 219 | 0 |
| Gwasanaeth Cynllunio a Rheolaeth Adeiladu | 631 | 866 | 235 | | 235 | 116 |
| Gwasanaethau Gofal Stryd a Thrafnidiaeth | | | | | | |
| Rheolaeth Rhwydwaith (Trafnidiaeth) | 329 | (210) | (539) | | (539) | (169) |
| Parcio a Gorfodaeth Parcio | (2,286) | (1,591) | 695 | | 695 | 541 |
| Cludiant Integredig | 2,586 | 2,639 | 53 | | 53 | 42 |
| | 629 | 838 | 209 | 0 | 209 | 414 |
| Cefn Gwlad a Mynediad | 714 | 680 | (34) | | (34) | 19 |
| Gwarchod y Cyhoedd | 2,079 | 1,869 | (210) | | (210) | (263) |
| Gwastraff | 14,131 | 14,795 | 664 | | 664 | 1,226 |
| Defnydd o Gronfa Tanwariant yr Adran | | | 0 | | 0 | (275) |
| Addasiad Cau Cyfrifon 2023/24 | | | 0 | | 0 | (1,137) |
| Adennill Enillion Cyfrannol Parc Adfer | (1,779) | (1,779) | 0 | | 0 | 0 |
| **Cyfanswm Amgylchedd** | **17,138** | **18,221** | **1,083** | **0** | **1,083** | **1,237** |

**<u>Amgylchedd</u>**

**Rheolaeth yr Adran -** oediad mewn gwireddu gwerth £200k o gynlluniau arbedion ynghyd â gorwariant ar gostau staff a theithio.

**Gwasanaeth Cynllunio a Rheolaeth Adeiladu -** diffyg incwm yn faterion yn Rheolaeth Adeiladu, Rheolaeth Datblygu a Phridiannau Tir, ond sydd yn cael ei leihau gan danwariant ar gostau staff.

**Gwasanaethau Gofal Stryd a Thrafnidiaeth**
**Rheolaeth Rhwydwaith (Trafnidiaeth)** - yn rhagori ar yr incwm ffioedd gwaith stryd, ynghyd â swyddi gweigion a thanwariant ar nifer o benawdau'r gyllideb.

**Parcio a Gorfodaeth Parcio -** y rhagolygon diffyg incwm parcio wedi cynyddu i £824k ond ei effaith yn cael ei leihau gan danwariant ar nifer o gyllidebau eraill.

**Cludiant Integredig** - dyrannwyd cyllideb ychwanegol un-tro o £400k ar gyfer 2024/25 yn dilyn y pwysau ychwanegol yn dilyn ail-dendro cytundebau bysus cyhoeddus. Derbyniad grant gan Trafnidiaeth Cymru hefyd yn cynorthwyo i leddfu'r sefyllfa. Awgrymir y dylid parhau efo'r adolygiad i'r ddarpariaeth cludiant.

**Gwarchod y Cyhoedd -** swyddi gwag a llai o wariant ar nifer o benawdau'r gyllideb gan gynnwys samplau bwyd a gwasanaethau a chyflenwadau. Y rhagolygon incwm i lawr ar gyfer y maes trwyddedu, marchnadoedd, trwyddedu tacsis a diolgelwch bwyd a dŵr, ond yn fwy addawol ar gyfer safonau masnach.

**Gwastraff -** gwaith o gyflwyno’r newidiadau i'r maes yn parhau ac felly ceir lleihad yn y rhagolygon gorwariant o lefelau 2023/24, gyda £664k yn cael ei amcanu erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Nifer o faterion yn gyfrifol am y gorwariant, ond yn bennaf ar gasglu gwastraff ac ailgylchu. Gorwariant hefyd yn amlwg ar gostau rhedeg y canolfannau ailgylchu. Mae costau cyflogaeth a lefelau salwch a goramser yn broblemus, ond y mater yn derbyn sylw ac felly i weld yn lleihau. Mater arall yw costau ychwanegol fflyd o ran hurio cerbydau. Mae yna nifer o gynlluniau arbedion yn llithro sydd hefyd yn rhan o'r darlun.

**Adennill Enillion Cyfrannol Parc Adfer** - Arbediad un-tro i'r holl gynghorau o enillion ail-ariannu Parc Adfer. Mae'r cyfraniad wedi ei roi mewn cronfa, gyda'r galwad cyntaf ohono i'w ddefnyddio i gyllido gorwariant yn y maes gwastraff.

**CYLLIDEB REFENIW 2024/25 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST**

| **Adran Tai ac Eiddo** | Amcan Cyllideb 2024/25 | Amcan Sefyllfa 2024/25 | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2024/25** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2024/25** | Gor / (Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2023/24 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Rheolaeth | 544 | 492 | (52) | | (52) | (72) |
| Gwasanaethau Tai | | | | | | |
| Digartrefedd | 6,475 | 6,702 | 227 | | 227 | 1,996 |
| Tai Sector Breifat | 414 | 376 | (38) | | (38) | (15) |
| Eraill | 364 | 326 | (38) | | (38) | 10 |
| | 7,253 | 7,404 | 151 | 0 | 151 | 1,991 |
| Gwasanaethau Eiddo | | | | | | |
| Eiddo | 5,381 | 5,395 | 14 | | 14 | (153) |
| Gofalu, Arlwyo a Glanhau | (3) | 10 | 13 | | 13 | 64 |
| | 5,378 | 5,405 | 27 | 0 | 27 | (89) |
| Darpariaeth Un-tro Covid Corfforaethol | | | 0 | | 0 | (1,400) |
| Defnydd o Gronfa Tanwariant yr Adran | | | 0 | | 0 | (175) |
| Addasiad Cau Cyfrifon 2023/24 | | | 0 | | 0 | (155) |
| **Cyfanswm Tai ac Eiddo** | **13,175** | **13,301** | **126** | **0** | **126** | **100** |

## Tai ac Eiddo

**Rheolaeth** - tanwariant ar gostau staff ac ar wasanaethau a chyflenwadau.

**Digartrefedd** - y tueddiad o bwysau sylweddol ar y gwasanaeth llety argyfwng yn parhau, gyda rhagolygon fod gwariant ar y maes am fod yn £6.4 miliwn eleni, hyn i gymharu â 6.8 miliwn y llynedd. Mae'r gorwariant o £227k a adroddir yn dilyn ystyried cyllideb ychwanegol o £3m sydd wedi ei ddyrannu o bremiwm treth cyngor ac hefyd £1.2 miliwn o gyllideb un-tro ychwanegol a ddyrannwyd fel rhan o'r drefn bidiau ar gyfer 2024/25 i gynorthwyo gyda'r pwysau ychwanegol.

**Tai Sector Breifat** - trosiant staff a thanwariant ar gyflenwadau a gwasanaethau ond diffyg yn yr incwm grant cyfleusterau i'r anabl.

**Gwasanaethau Tai, Eraill** - derbyniad grant a thanwariant ar gostau staff sydd yn cael ei leihau gan ddiffyg yn y cyfraniadau gan y cymdeithasau tai.

**Gwasanaethau Eiddo** - pwysau ar y gyllideb gwasanaethau a chyflenwadau yn Eiddo ac ar gostau cerbydau yn Difa Pla, derbyniad incwm un tro yn lleihau'r gorwariant.

**Gofalu, Arlwyo a Glanhau** - gorwariant ar gostau staff sydd yn cael ei leihau gan dderbyniad incwm uwch na'r targed.

| CYLLIDEB REFENIW 2024/25 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Adrannau Canolog** | Amcan Cyllideb 2024/25 | Amcan Sefyllfa 2024/25 | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2024/25** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2024/25** | Gor / (Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2023/24 |
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol | 2,786 | 2,723 | (63) | | (63) | (11) |
| Cyllid (a Thechnoleg Gwybodaeth) | 8,474 | 8,456 | (18) | | (18) | (7) |
| Cefnogaeth Gorfforaethol | 8,112 | 8,089 | (23) | | (23) | (10) |
| **Cyfanswm Adrannau Canolog** | **19,372** | **19,268** | **(104)** | **0** | **(104)** | **(28)** |

## Adrannau Canolog

**Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol -** swyddi gwag mewn gwahanol feysydd ynghyd â rhagolygon o ragori incwm o (£38k) gan y gwasanaeth cyfreithiol. Pwysau ychwanegol o £17k ar elfen Gwynedd o gyllideb y Crwner yn lleihau'r tanwariant a adroddir.

**Cyllid (a Thechnoleg Gwybodaeth) -** trosiant staff, sydd yn cael ei leihau gan gostau uwch meddalwedd yn Nhechnoleg Gwybodaeth ac Unedau Trethi, Budd-daliadau, Incwm a Thaliadau. Ni ragwelir y bydd y targedau incwm yn cael eu cyflawni mewn nifer o feysydd ar draws yr adran erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

**Cefnogaeth Gorfforaethol** - cyfuniad o resymau yn gyfrifol am y sefyllfa gan gynnwys swyddi gwag a throsiant staff. Y rhagolygon incwm diweddaraf gan yr Argraffdy yn awgrymu y bydd y targed incwm yn cael ei gyflawni ond rhagwelir diffyg incwm yng Nghyswllt Cwsmer. Dyrannwyd bid barhaol ar gyfer 2024/25 i gyfarch y pwysau ychwanegol ar y gyllideb cwnsela a ffisiotherapi ac felly hynny wedi diddymu'r gorwariant cysylltiedig.

**CYLLIDEB REFENIW 2024/25 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST**

| **Corfforaethol (Dim ond yn adlewyrchu y gwahaniaethau)** | Amcan Cyllideb 2024/25 | Amcan Sefyllfa 2024/25 | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2024/25** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2024/25** | Gor / (Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2023/24 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Treth Cyngor | * | * | (1,250) | 1,250 | 0 | 0 |
| Gostyngiadau Treth Cyngor | * | * | (219) | 219 | 0 | 0 |
| Llogau | * | * | 363 | (363) | 0 | 0 |
| Darpariaeth Arbedion | * | * | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Dychwelyd Cyllidebau / Bidiau | * | * | (1) | 1 | 0 | 0 |
| Eraill | * | * | (761) | 761 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm Corfforaethol** | * | * | **(1,868)** | **1,868** | **0** | **0** |

## Corfforaethol

**Treth Cyngor -** cynnyrch treth ychwanegol o ganlyniad i ragdybiaethau darbodus wrth osod cyllideb 2024/25. Er y gwelwyd leihad o 239 yn y niferoedd o ail gartrefi'r premiwm yn ystod 2023/24, bu cynnydd o 157 yn y nifer hyd yn hyn eleni. Ymhellach i hyn, gwelwyd 118 o eiddo yn trosglwyddo o drethi annomestig i dreth cyngor hyd at ddiwedd Awst (381 yn 2023/24).Ond, yn groes i'r darlun yma, bu i Swyddfa'r Prisiwr ganiatáu 83 eiddo i drosglwyddo o dreth cyngor i drethi annomestig, sydd yn is na mewn blynyddoedd blaenorol (193 yn 2023/24, 452 yn 2022/23, 469 yn 2021/22, 506 yn 2020/21). Yn 2024/25 mae £6m o bremiwm treth cyngor wedi ei neilltuo ar gyfer y Strategaeth Dai a £3m pellach ar gyfer y maes Digartrefedd.

**Gostyngiadau Treth Cyngor -** cyfuniad o osod amcangyfrifon darbodus a lleihad pellach yn y niferoedd sydd yn hawlio'r gostyngiad yng Ngwynedd o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol. Mae ymgyrch ar y gweill i dargedu grwpiau gwahanol i gynyddu niferoedd y ceisiadau.

**Llogau -** lefelau balansau yn y banc i'w buddsoddi yn is na'r disgwyliad wrth osod y gyllideb ac felly yn golygu fod derbyniadau llog yn tangyflawni.

**Dychwelyd Cyllidebau / Bidiau -** y pwysau ar rai cyllidebau ddim cymaint a'r hyn a ddarparwyd.

**Eraill -** ni fu'r galw ar y ddarpariaeth mor uchel a'r hyn a ragwelwyd wrth osod y gyllideb.

**Argymhellir** fod £1.868 miliwn yn cael ei drosglwyddo i Gronfa Strategaeth Ariannol y Cyngor, fel ei fod ar gael i gynorthwyo i gyllido'r bwlch ariannol.

| | |
|---|---|
| CYFARFOD: | **PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO** |
| DYDDIAD: | **10 HYDREF 2024** |
| TEITL: | **DIWEDDARIAD CHWARTEROL RHEOLAETH TRYSORLYS** |
| PWRPAS: | **Mae Cod Ymarfer CIPFA yn mynnu bod y dangosyddion darbodus yn cael eu hadrodd bob chwarter** |
| ARGYMHELLIAD: | **DERBYN YR ADRODDIAD ER GWYBODAETH** |
| AWDUR: | **DELYTH JONES-THOMAS, RHEOLWR BUDDSODDI** |

## 1. Cyflwyniad

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu Cod Ymarfer Rheolaeth Trysorlys yn y Gwasanaethau Cyhoeddus: Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (Cod CIPFA) sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gymeradwyo adroddiadau rheolaeth trysorlys yn chwarterol a blynyddol.

Mae'r adroddiad chwarterol hwn yn darparu’r diweddariad ychwanegol ac yn cynnwys y gofyniad yng Nghod 2021 o adrodd chwarterol ar ddangosyddion darbodus rheoli'r trysorlys.

Cymeradwywyd Strategaeth Rheoli Trysorlys y Cyngor ar gyfer 2024/25 yn y Cyngor Llawn ar 7 Mawrth 2024. Mae'r Cyngor wedi benthyca a buddsoddi symiau sylweddol o arian ac felly mae'n agored i risgiau ariannol gan gynnwys colli arian a fuddsoddwyd ac effaith refeniw newid cyfraddau llog. Felly mae adnabod, monitro a rheoli risg yn llwyddiannus yn ganolog i Strategaeth Rheoli Trysorlys y Cyngor.

## 2. Cefndir Economaidd

Parhaodd chwyddiant prisiau defnyddwyr prif linell y DU (CPI) i ostwng dros y chwarter, gan ostwng o gyfradd flynyddol o 3.2% ym mis Mawrth i 2.0% ym mis Mai, yn unol â tharged Banc Lloegr. Fodd bynnag, gostyngodd y mesur craidd o chwyddiant, o 4.2% i 3.5% dros yr un cyfnod, a oedd, ynghyd â chwyddiant prisiau gwasanaethau ystyfnig ar 5.7% ym mis Mai, wedi helpu i gyfrannu at gynnal Cyfradd Banc Lloegr ar 5.25% yn ystod y cyfnod, lefel heb newid ers Awst 2023.

Dangosodd data a ryddhawyd yn ystod y cyfnod fod economi'r DU wedi dod allan o'r dirwasgiad technegol ar ddiwedd 2023 gan ehangu 0.7% (wedi'i ddiwygio i fyny o'r amcangyfrif cychwynnol o 0.6%) yn chwarter cyntaf y flwyddyn galendr. Dangosodd data GDP misol ddim twf ym mis Ebrill yn dilyn ehangiad o 0.4% yn y mis blaenorol.

Parhaodd data marchnad lafur i ddarparu negeseuon cymysg i lunwyr polisi, a waethygwyd gan faterion y mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn eu cael wrth

lunio'r arolwg gweithlu llafur. Yn y tri mis rhwng Chwefror ac Ebrill 2024, roedd diweithdra ar i fyny, gostyngodd cyflogaeth, tra bod y gostyngiad mewn swyddi gwag wedi arafu a thwf cyflog yn parhau i gynyddu. Cododd diweithdra i 4.4% (3mis / blwyddyn) tra bod enillion rheolaidd ar gyfartaledd (ac eithrio taliadau bonws) yn 6.0% a chyfanswm enillion (gan gynnwys taliadau bonws) yn 5.9%. Gan addasu ar gyfer chwyddiant, cododd cyflog rheolaidd go iawn 2.3% a chyfanswm cyflog 2.2%. O ystyried pa mor frwd y mae Banc Lloegr yn gwylio effaith 'ail-rownd' chwyddiant ar gyflogau, mae'n debygol y bydd llunwyr polisi eisiau gweld mwy o symudiadau ar i lawr cyn torri cyfraddau llog.

Ar ôl dechrau'r flwyddyn ariannol ar 5.25%, cynhaliodd Pwyllgor Polisi Ariannol Banc Lloegr (MPC) Gyfradd Banc Banc Banc Lloegr ar y lefel hon trwy gydol y chwarter. Yn unol â'r disgwyliadau, yn ei gyfarfod ym mis Mehefin, pleidleisiodd y Pwyllgor o fwyafrif o 7-2 o blaid cynnal y status quo. Roedd yn well gan y ddau anghydffurfiwr ostyngiad o 0.25% ar unwaith yng nghyfradd banc i 5.0%. Cynyddodd y gogwydd parhaus hwn gan y Pwyllgor ddisgwyliadau marchnad ariannol y bydd y toriad cyntaf yng Nghyfradd y Banc yn debygol o fod ym mis Awst.

Yn gynharach ym mis Mai, yn ogystal â phenderfyniad cyfradd MPC a phatrwm pleidleisio union yr un fath, cyhoeddodd y Banc y fersiwn ddiweddaraf o'i Adroddiad Polisi Ariannol (MPR). Yn yr adroddiad, nododd y Pwyllgor ei fod yn disgwyl i dwf GDP pedwar chwarter gynyddu dros y cyfnod a ragwelir, gan adlewyrchu effeithiau negyddol y cynnydd yn y Gyfradd Banc yn y gorffennol a'r llwybr llog a ragwelir i lawr a ddylai ddarparu cefnogaeth i weithgaredd economaidd. Roedd llwybr chwyddiant yn debyg yn fras i'r hyn yn yr MPR blaenorol, er ychydig yn is tua diwedd y gorwel a ragwelir oherwydd asesiad diwygiedig y Pwyllgor o ostwng pwysau chwyddiant allanol o godiadau prisiau mewnforio yn y gorffennol. Roedd hyn yn golygu bod y Pwyllgor yn disgwyl i chwyddiant pennawd daro'r targed o 2% dau chwarter yn gynt nag yn MPR mis Chwefror. Fel yr amlygwyd yn gynharach, dangosodd data chwyddiant a gyhoeddwyd ym mis Mehefin fod chwyddiant CPI wedi gostwng i'r targed o 2% ym mis Mai.

Cynhaliodd Arlingclose, ymgynghorwyr rheolaeth trysorlys y Cyngor, ei farn ganolog mai 5.25% yw'r uchafbwynt yng Nghyfradd y Banc ac y bydd cyfraddau llog yn fwyaf tebygol o gael eu torri yn ddiweddarach yn H2 2024. Bernir bod y risgiau dros y tymor canolig yn wyneb i ben oherwydd er bod chwyddiant wedi gostwng i darged, disgwylir iddo godi eto yn ddiweddarach yn y flwyddyn a chan fod chwyddiant prisiau gwasanaethau a thwf cyflog yn dal i fod ar yr ochr gadarnach, gallai'r MPC oedi cyn cyflwyno'r toriad cyfradd gyntaf.

Cynhaliodd Cronfa Ffederal yr Unol Daleithiau gyfraddau llog hefyd dros y cyfnod, gyda'r Gyfradd Cronfeydd Fed rhwng 5.25% -5.50% ar gyfer y seithfed mis yn olynol ym mis Mehefin, fel y disgwyliwyd. Mae llunwyr polisi'r Unol Daleithiau wedi cynnal eu safiad trwy gydol y cyfnod ond maent wedi lleihau'n raddol eu rhagfynegiadau o ran cyflymder ac amseriad toriadau mewn cyfraddau yn wyneb chwyddiant uwch a thwf economaidd mwy cadarn. Yn y cyfarfod, amcanwyd y bydd un toriad yn y gyfradd yng nghalendr 2024 a phedwar yn 2025.

Cafodd cyfraddau Banc Canolog Ewrop eu gostwng ym mis Mehefin, gan leihau ei brif gyfradd ailariannu o 4.50% i 4.25%. Gostyngodd chwyddiant yn y rhanbarth i 2.5% ym mis Mai, ar ôl cynyddu yn y mis blaenorol, ond ers mis Chwefror mae

wedi bod aros rhwng 2.4% a 2.6%. Mae twf economaidd yn y rhanbarth wedi codi ond mae'n parhau i fod yn wan, a gyda chwyddiant yn uwch na tharged yr ECB mae hyn yn parhau i roi pwysau ar lunwyr polisi ar sut i gydbwyso'r ffactorau hyn wrth osod polisi ariannol.

Argymhelliad Arlingclose ydi cadw uchafswm terfyn hyd heb ei warantu ar bob banc ar ei restr gymheradwy ar 100 diwrnod.

## 3. Crynodeb Rheolaeth Trysorlys

Ar 30ain Mehefin 2024 roedd gan y Cyngor fuddsoddiadau net o £100.6m yn deillio o'i weithgareddau refeniw a chyfalaf.

Parhaodd y Cyngor ei strategaeth o gadw benthyciadau a buddsoddiadau o dan eu lefelau sylfaenol, a elwir weithiau yn fenthyca mewnol, er mwyn lleihau risg a chadw costau llog yn isel.

| | **31.3.24 Balans £m** | **Symudiad £m** | **30.6.24 Balans £m** |
|---|---|---|---|
| Benthyca tymor hir | 94.0 | (0.1) | 93.9 |
| Benthyca tymor hir | 5.6 | 0.0 | 5.6 |
| PFI | 1.0 | 0.0 | 1.0 |
| **Cyfanswm benthyca** | **100.6** | **(0.1)** | **100.5** |
| Buddsoddiadau tymor byr | (97.6) | (46.1) | (143.7) |
| Arian a chyfwerthoedd arian | (43.9) | (13.5) | (57.4) |
| **Cyfanswm buddsoddiadau** | **(141.5)** | **(59.6)** | **(201.1)** |
| **Benthyciadau net/ (buddsoddiadau)** | **(40.9)** | **(59.7)** | **(100.6)** |

**Strategaeth a Gweithgaredd Benthyca**: Ni wnaed unrhyw fenthyca tymor hir newydd yn 2023/24 na chwarter cyntaf 2024/25 gyda benthyciadau presennol yn aeddfedu heb eu hadnewyddu. Galluogodd y strategaeth hon i’r Cyngor leihau costau benthyca net (er gwaethaf yr incwm buddsoddi a gollwyd) a lleihau risg trysorlys cyffredinol y Cyngor.

**Gweithgaredd Buddsoddi Trysorlys:** Mae gan y Cyngor gronfeydd buddsoddi sylweddol, sy'n cynrychioli incwm a dderbyniwyd ymlaen llaw o wariant ynghyd â balansau Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ac y Gronfa Bensiwn. Yn ystod y flwyddyn, roedd balansau buddsoddi'r Cyngor yn amrywio rhwng £106.8m a £235.8m oherwydd gwahaniaethau amseru rhwng incwm a gwariant.

**Sefyllfa Buddsoddiaddau**

| | 31.3.24 Balans £m | Symudiad £m | 30.06.24 Balans £m |
|---|---|---|---|
| Banciau a chymdeithasau adeiladu (heb eu diogelu) | 5.9 | 6.5 | 12.4 |
| Awdurdodau Lleol | 81.0 | 22.0 | 103.0 |
| Cronfeydd Marchnad Arian | 43.0 | 12.0 | 55.0 |
| Swyddfa Rheoli Dyledion | 0.0 | 19.1 | 19.1 |
| Cronfeydd wedi'i pwlio | 11.6 | 0.0 | 11.6 |
| **Cyfanswm y buddsoddiadau** | **141.5** | **59.6** | **201.1** |

## 4. Dangosyddion Darbodus Rheolaeth Trysorlys


Fel sy'n ofynnol gan God Rheolaeth Trysorlys CIPFA 2021, mae'r Cyngor yn monitro ac yn mesur y dangosyddion darbodus canlynol ar gyfer rheolaeth trysorlys.

i) **Meincnod ymrwymiad:** Mae'r dangosydd newydd hwn yn cymharu gwir fenthyciadau presennol y Cyngor yn erbyn meincnod ymrwymiad sydd wedi'i gyfrifo i ddangos y lefel risg isaf o fenthyca. Mae'r meincnod ymrwymiad yn arf pwysig i helpu i sefydlu a yw'r Cyngor yn debygol o fod yn fenthyciwr hirdymor neu'n fuddsoddwr hirdymor yn y dyfodol, ac felly siapio ei ffocws strategol a'i benderfyniadau. Mae'n cynrychioli amcangyfrif o swm cronnus y benthyca allanol y mae'n rhaid i'r Cyngor ei ddal i ariannu ei gynlluniau cyfalaf a refeniw cyfredol tra'n cadw buddsoddiadau'r trysorlys ar yr isafswm lefel o £21.5m sydd ei angen i reoli llif arian o ddydd i ddydd.

| | 31.3.24 Gwir | 31.3.25 Amcan | 31.3.26 Amcan | 31.3.27 Amcan |
|---|---|---|---|---|
| CFR Benthyciadau | 172.5 | 184.1 | 188.4 | 180.1 |
| Llai: Adnoddau mantolen | (214.0) | (131.1) | (108.1) | (108.1) |
| **Gofyniad benthyciadau net** | (41.5) | 53.0 | 80.3 | 72.0 |
| Ychwanegu: Gofynion hylifedd | 21.5 | 21.5 | 21.5 | 21.5 |
| **Meincnod ymrwymiad** | **(20.0)** | **74.5** | **101.8** | **93.5** |
| **Benthyciadau presennol** | **100.0** | **94.5** | **90.4** | **94.3** |

Mae'r tabl yn dangos bod y Cyngor yn disgwyl parhau i fenthyca uwchlaw ei feincnod ymrwymiadau hyd at 2025. Mae hyn oherwydd bod y Cyngor yn dal cronfeydd wrth gefn, ac mae llif arian hyd yma wedi bod yn is na'r rhagdybiaethau a wnaed pan fenthycwyd yr arian.

Yn dilyn ymlaen o'r rhagolwg tymor canolig uchod, mae'r meincnod ymrwymiadau hirdymor yn rhagdybio na chaiff unrhyw wariant cyfalaf newydd ei ariannu drwy fenthyca a isafswm darpariaeth refeniw ar wariant cyfalaf newydd yn seiliedig ar ddull llinell syth 50 mlynedd. Dangosir hyn yn y siart isod ynghyd â phroffil aeddfedrwydd benthyciadau presennol y Cyngor.




Mae'r siart yn dangos nad oes angen benthyca yn y tymor hir yn seiliedig ar ragamcanion cyfredol, ond efallai yn y tymor byr yn y dyfodol agos.

ii) **Strwythur Aeddfedrwydd Benthyciadau:** Nod y dangosydd hwn yw rheoli pa mor agored yw'r Cyngor i risg ail gyllido. Bydd y terfynau uchaf ac isaf ar strwythur aeddfedrwydd benthyciadau fel a ganlyn:

| | **30.6.24 Gwir** | **Terfyn Uchaf** | **Terfyn Isaf** | **Cydymffurfio** |
|---|---|---|---|---|
| Dan 12 mis | 5.62% | 25% | 0% | ✓ |
| 12 mis ac o fewn 24 mis | 4.04% | 25% | 0% | ✓ |
| 24 mis ac o fewn 5 mlynedd | 5.86% | 50% | 0% | ✓ |
| 5 mlynedd ac o fewn 10 mlynedd | 25.19% | 75% | 0% | ✓ |
| 10 mlynedd a mwy | 59.30% | 100% | 0% | ✓ |

Mae'r cyfnodau amser yn dechrau ar ddiwrnod cyntaf pob blwyddyn ariannol. Y dyddiad aeddfedrwydd ar fenthyciadau yw'r dyddiad cynharaf y gall y sawl sydd wedi rhoi'r benthyciad fynnu bod y benthyciad yn cael ei ad-dalu.

iii) **Buddsoddiadau Rheolaeth Trysorlys tymor hir:** Pwrpas y dangosydd hwn yw rheoli pa mor agored yw'r Cyngor i'r risg o achosi colledion trwy geisio ad-daliad cynnar o'i fuddsoddiadau. Mae'r terfynau darbodus ar y terfynau rheolaeth trysorlys hirdymor yn:

| | 2024/25 | 2025/26 | 2026/27 | Dim dyddiad penodol |
|---|---|---|---|---|
| Gwir brifswm wedi'i fuddsoddi y tu hwnt i ddiwedd y flwyddyn | £13m | £0 | £0 | £0 |
| Terfyn ar y prif fuddsoddiad y tu hwnt i ddiwedd y flwyddyn | £40m | £20m | £20m | £20m |
| **Cydymffurfio** | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |

**Dangosyddion ychwanegol**
Mae’r Cyngor yn mesur ac yn rheoli ei amlygiadau i risgiau rheoli’r trysorlys gan ddefnyddio’r dangosyddion canlynol:

**Diogelwch:** Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu mesur gwirfoddol o'i amlygiad i risg credyd drwy fonitro sgôr credyd cyfartalog wedi'i bwyso gan amser yn ei bortffolio buddsoddi. Cyfrifir hyn drwy gymhwyso sgôr i bob buddsoddiad a chymryd y cyfartaledd rhifyddol, wedi'i bwysoli gan hyd pob buddsoddiad. Rhoddir sgôr i fuddsoddiadau heb sgôr yn seiliedig ar eu risg canfyddedig.

| | 30.6.24 Gwir | Targed 2024/25 | Cydymffurfio |
|---|---|---|---|
| Sgôr credyd cyfartalog y portffolio | 5.18 | Sgôr o 6 neu is | ✓ |

**Hylifedd:** Mae’r Cyngor wedi mabwysiadu mesur gwirfoddol o’i amlygiad i risg hylifedd drwy fonitro faint o arian sydd ar gael i dalu taliadau annisgwyl o fewn cyfnod treigl o dri mis, heb fenthyca ychwanegol.

| | 30.6.24 Gwir | Targed 2024/25 | Cydymffurfio |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm arian parod ar gael o fewn 3 mis | £159m | £10m | ✓ |

**Datguddiad Cyfraddau Llog**: Nod y dangosydd hwn yw rheoli datguddiad y Cyngor i risg cyfradd llog. Y terfynau uchaf ar effaith refeniw dros flwyddyn yn dilyn codiad neu gwymp o 1% ar gyfraddau llog fyddai:

| | 30.6.24 Gwir | Terfyn 2024/25 | Cydymffurfio |
|---|---|---|---|
| Y terfyn uchaf ar effaith refeniw blwyddyn codiad 1% yng nghyfraddau llog | £1,586,340 | £2,290,000 | ✓ |
| Y terfyn uchaf ar effaith refeniw blwyddyn gyda chwymp o 1% yng nghyfraddau llog | £1,586,340 | £2,290,000 | ✓ |

## 5. Argymhelliad

I dderbyn yr adroddiad er gwybodaeth.

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio** |
| **DYDDIAD** | **10 Hydref 2024** |
| **TEITL** | **Cyd Bwyllgor Corfforedig y Gogledd – Sefydlu Is Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio** |
| **Amcan** | **Enwebu aelodau ar gyfer yr Is Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio** |
| **ARGYMHELLIAD** | **1. Bod y Pwyllgor yn enwebu un cynghorydd i wasanaethu ar Is Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd ac un cynghorydd i weithredu fel dirprwy ar gyfer yr aelod hwnnw.**<br><br>**2. Bod y Pwyllgor yn penderfynu a yw'n dymuno enwebu Aelod Lleyg i Is Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd.** |
| **AWDUR** | **Ian Jones**<br>**Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth** |

1. **Cefndir**

1.1 Mae’r adroddiad yn ymwneud â sefydlu is Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio (‘PLlA’) ar gyfer Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd (‘y CBCG ’) ac enwebu aelodau i wasanaethu arno. Gofynnwyd i'r Cyngor enwebu aelodau'r Pwyllgor i wasanaethu ar PLlA y CBCG. Y rheswm am yr adroddiad hwn yw ceisio enwebiadau gan y Pwyllgor.

**2. Manylion yr adroddiad**

2.1 Roedd Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforaethol y Gogledd 2021 (‘y Rheoliadau’) yn darparu ar gyfer creu’r CBCG yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (‘Deddf 2021’).

2.2 . Darparodd Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 y dylai pob prif gyngor yng Nghymru gael is Bwyllgor Archwilio. Cafodd y pwyllgorau hyn eu hailenwi’n ddiweddarach gan Ddeddf 2021 yn Bwyllgorau Llywodraethu ac Archwilio.

2.3. Mae'r Rheoliadau'n darparu bod yn rhaid i'r CBCG gael ei PLlA ei hun. Rhaid i'r PLlA gynnwys traean o'i aelodaeth yn aelodau lleyg.

2.4. Mae'r CBCG wedi penderfynu creu PLlA. Bydd naw aelod ar y PLlA. Bydd yr aelodaeth yn cynnwys chwe chynghorydd, un o bob un o'r cynghorau cyfansoddol, a thri aelod lleyg. Y cworwm ar gyfer y PLlA fydd saith. Bydd cworwm yn bodoli pan fydd cynghorydd o bob un o’r cynghorau cyfansoddol ynghyd ag un aelod lleyg yn bresennol.

2.5. Disgwylir i'r PLlA gyfarfod yn chwarterol a disgwylir i bob cyfarfod bara tua dwy awr. Bydd cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn rhithwir.

2.6. Mae’r PLlA yn dymuno penodi aelodau o Bwyllgorau Llywodraethu ac Archwilio presennol y cynghorau cyfansoddol. Gofynnwyd i bob un o’r cynghorau cyfansoddol enwebu cynghorydd o’i Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ei hun fel ei brif enwebai ynghyd ag ail gynghorydd i weithredu fel dirprwy er mwyn gallu cyflawni cworwm pan nad yw’r prif enwebai ar gael.

2.7. Mae hefyd wedi gofyn i bob un o’r cynghorau cyfansoddol a fyddai’n dymuno enwebu aelod lleyg i wasanaethu ar y PLlA. Mae Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol wedi caniatau talu lwfans penodol i aelodau lleyg ar yr Is Bwyllgor yn yr un modd ac aelodau lleyg Pwyllgorau Llywodraethu eraill . Penderfynodd y CBCGC fabwysiadu trefn talu fesul awr.

2.8. Os bydd mwy o enwebiadau o’r cynghorau cyfansoddol na’r tri sy’n ofynnol, yna bydd y CBCGC yn dewis aelodau lleyg ar sail eu crynodebau.

2.9. Atodir i'r adroddiad hwn fel Atodiad 1 ddogfen a gynhyrchwyd ar ran y CBCG sy'n cynnwys disgrifiad rôl ar gyfer aelodau lleyg ynghyd â chylch gorchwyl ar gyfer y PLlA.

**ARGYMHELLIAD**

1. **Bod y Pwyllgor yn enwebu un cynghorydd i wasanaethu ar Is  Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio Cyd-bwyllgor Corfforaethol y Gogledd ac un cynghorydd i weithredu fel dirprwy ar gyfer yr aelod hwnnw.**

2. **Bod y Pwyllgor yn penderfynu a yw'n dymuno enwebu Aelod Lleyg i Is Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio Cyd-bwyllgor Corfforaethol y Gogledd.**

**Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio Gogledd Cymru**

**Gwybodaeth gefndir i Aelodau (lleyg) Annibynnol**

Mae Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd (CBC y Gogledd) yn gorff rhanbarthol cyhoeddus newydd a sefydlwyd gan Reoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd 2021 ymhellach i Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Mae aelodaeth CBC y Gogledd yn cynnwys 6 Aelod o'r Cyngor, un ar gyfer pob awdurdod lleol yng ngogledd-orllewin Cymru, ac aelod o Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.

Mae gan CBC y Gogledd gyfrifoldeb am baratoi Cynlluniau Datblygu Strategol, Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol, ac am wneud beth bynnag y bernir ei fod yn angenrheidiol i wella neu hyrwyddo lles economaidd yr ardal.

Mae CBC y Gogledd yn chwilio am dri aelod annibynnol i ymuno â'n His-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio newydd am gyfnod o bedair blynedd.

Bydd yr Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn elfen allweddol o lywodraethu corfforaethol CBC y Gogledd. Diben yr Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio fydd adolygu a chraffu ar faterion ariannol CBC y Gogledd a rhoi ffocws annibynnol ar y trefniadau archwilio, sicrwydd, perfformio ac adrodd sy'n sail i safonau llywodraethu ac ariannol da.

Bydd gan yr Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio 9 aelod, gan gynnwys 6 Chynghorydd a 3 aelod (lleyg) annibynnol. Cynhelir y cyfarfodydd yn chwarterol mewn unrhyw flwyddyn galendr, ac ar-lein ar hyn o bryd.

Amgaeir yr hyn a ganlyn:

- Cylch gorchwyl yr Is-bwyllgor - bydd yn gweithredu gan roi sylw dyladwy i ganllaw arfer da Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA).

- Disgrifiad rôl a manyleb person – rydym yn chwilio am weithwyr proffesiynol annibynnol eu meddyliau, sy'n barod i gefnogi'r Is-Bwyllgor drwy eu gwybodaeth a'u profiad personol mewn meysydd sy'n berthnasol i'w rôl.

Er nad oes angen gwybodaeth fanwl am lywodraeth leol, disgwylir y byddai gan ymgeiswyr posibl ddiddordeb mewn materion sy'n ymwneud â'r sector cyhoeddus ac archwilio. Bydd hyfforddiant anwytho yn cael ei ddarparu i bob aelod newydd. Bydd yr Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cael ei gadeirio gan Berson Lleyg, felly mae parodrwydd a gallu i gyflawni'r rôl hon yn ddymunol.

## Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd

## Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

## Disgrifiad Rôl a Manyleb Person Aelod (Lleyg) Annibynnol

**Atebolrwydd:**

- I'r CBC
- I Gadeirydd yr Is-Bwyllgor

**Cyfrifoldebau Cyffredinol ar gyfer Aelodau Lleyg:**

- Cymryd rhan weithredol yng nghyfarfodydd y Pwyllgor a bod yn wrthrychol, yn annibynnol ac yn ddiduedd
- Rhoi sylw i ofynion Cadeirydd yr Is-bwyllgor a chyngor proffesiynol uwch swyddogion CBC y Gogledd
- Gweithio yn unol â Chylch Gorchwyl yr Is-bwyllgor
- Cyfrannu at ddatblygu'r flaen-raglen waith ar gyfer yr Is-bwyllgor
- Cymryd rhan mewn unrhyw hyfforddiant a datblygiad sy'n ofynnol ar gyfer y rôl
- Dangos annibyniaeth, cywirdeb a didueddrwydd wrth wneud penderfyniadau yn unol â gofynion cyfreithiol, cyfansoddiadol a pholisi
- Cynnal egwyddorion ymddygiad Nolan a gweithredu yn unol â Chyfansoddiad CBC y Gogledd a'i God Ymddygiad
- Adrodd yn ôl yr angen i'r CBC
- Ymateb i unrhyw argymhellion a wnaed gan Archwilydd Cyffredinol Cymru

**Pwrpas a gweithgareddau'r rôl**

Adolygu, craffu, llunio adroddiadau ac argymhellion ar faterion ariannol CBC y Gogledd:

- Goruchwylio trefniadau archwilio mewnol ac allanol yr awdurdod
- Gweithio gydag archwilwyr mewnol ac allanol
- Adolygu'r datganiadau ariannol a baratowyd gan CBC y Gogledd

Adolygu, asesu, llunio adroddiadau ac argymhellion ar drefniadau rheoli perfformiad a llywodraethu corfforaethol CBC y Gogledd a'i effeithiolrwydd:

- Cyfrannu at berfformiad effeithiol y CBC
- Adolygu adroddiad drafft hunanasesiad blynyddol y CBC a gwneud argymhellion ar gyfer newidiadau i'r casgliadau neu'r camau y mae'r CBC yn bwriadu eu cymryd
- Gwneud argymhellion mewn ymateb i adroddiad drafft Asesiad Panel y CBC

Adolygu, asesu, llunio adroddiadau ac argymhellion ar broses rheoli cwynion CBC y Gogledd:

- Adolygu ac asesu gallu'r CBC i ymdrin â chwynion yn effeithiol.
- Llunio adroddiadau ac argymhellion mewn perthynas â gallu'r awdurdod i ymdrin â chwynion yn effeithiol.

Adolygu ac asesu Llywodraethiant, Rheoli Risg a Rheolaeth y CBC:

- Adolygu ac asesu trefniadau rheoli risg, rheolaeth fewnol, a threfniadau llywodraethu corfforaethol y CBC
- Llunio adroddiadau ac argymhellion i'r CBC ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd y trefniadau hynny
- Adolygu ac asesu'r risgiau ariannol sy'n gysylltiedig â llywodraethu corfforaethol, a bod yn fodlon bod datganiadau sicrwydd y CBC, gan gynnwys y Datganiad Llywodraethu Blynyddol, yn adlewyrchu'r amgylchedd risg ac unrhyw weithgareddau sydd eu hangen i'w wella.

**Sgiliau Aelod o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio**

Darparu her a chefnogaeth yn eich rôl o fod yn ffynhonnell annibynnol o gefnogaeth i'r Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio:

- Y gallu i ddadansoddi gwybodaeth gymhleth, cwestiynu, holi a cheisio eglurhad i ddod i farn annibynnol a diduedd.
- Sgiliau rhyngbersonol cryf a'r gallu i weithio, dylanwadu a chynghori rhanddeiliaid amrywiol
- Sgiliau cyfathrebu rhagorol a'r gallu i gyfrannu at drafodaethau
- Hyder i herio a dal uwch staff yn atebol
- Annibyniaeth, gwrthrychedd a disgresiwn gyda barn gadarn
- Y gallu i gadw cyfrinachedd llym

**Cymwysterau a Phrofiad**

Yn ddelfrydol, bydd gennych brofiad o un neu fwy o'r hyn a ganlyn:
- Cefndir ariannol neu fath archwilio a/neu brofiad priodol o reoli ariannol
- Gwerthfawrogiad cryf o egwyddorion llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth, a'u defnydd ymarferol
- Dealltwriaeth gadarn o rolau archwilio mewnol ac allanol
- Gwybodaeth am ofynion adrodd allanol o dan safonau cyfrifeg y DU
- Rheoli cyllideb a phrofiad cynllunio busnes
- Dealltwriaeth o strwythurau, strategaethau ac amcanion sefydliadol
- Profiad o weithio mewn neu gyda sefydliadau mawr, cymhleth sydd â dealltwriaeth o'r amgylchedd gwleidyddol y mae llywodraeth leol yn gweithredu ynddo

**Ymrwymiad Amser**

- Mynychu a pharatoi ar gyfer cyfarfodydd Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a gynhelir yn rhithiol.
- Bydd yr Is-bwyllgor yn cyfarfod bob chwarter o fewn unrhyw flwyddyn galendr.
- Cefnogi'r cadeirydd lleyg yn ei rôl a chyfrannu yn rheolaidd wrth i faterion godi.
- Mynychu hyfforddiant/digwyddiadau drwy gytundeb.

**Telerau**
- Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn cael ei benodi am gyfnod o bedair blynedd. Gall Aelodau Lleyg dreulio hyd at uchafswm o wyth mlynedd ar y pwyllgor.
- Bydd disgwyl i chi fynychu tua phedwar cyfarfod Is-bwyllgor y flwyddyn.
- Bydd yr Is-bwyllgor yn cyfarfod yn ystod y dydd, gan ddechrau am 10am neu 2pm fel arfer. Mae'r cyfarfodydd yn para 2 i 3 awr (ond gallant fod yn hwy o bryd i'w gilydd) a byddai angen i chi hefyd ddarparu rhywfaint o amser paratoi. Cynhelir cyfarfodydd ffurfiol ar-lein ac fe'u gweddarlledir i'r cyhoedd eu gweld.

- Rôl wirfoddol yw'r swydd, ond mae gennych hawl i dâl am amser yn paratoi ac yn mynychu'r Is-bwyllgor. Cyfradd fesul awr Cadeirydd lleyg yr Is-bwyllgorau Llywodraethu ac Archwilio yw £33.50; cyfradd fesul awr aelodau lleyg cyffredinol yw £29.75.

**Cyfyngiadau**

Ni ddylech:

- feddu ar swydd neu gyflogaeth, penodiad cyflogedig cyfredol neu arfaethedig, neu fod wedi cael eich ethol i CBC y Gogledd neu un o'i is-bwyllgorau
- bod wedi cael eich gwahardd rhag bod yn Aelod o Gyngor Cyfansoddol neu BC Eryri
- bod ag unrhyw euogfarnau troseddol neu fod yn fethdalwr heb ei ryddhau
- bod ag unrhyw fusnes sylweddol yn ymwneud â CBC y Gogledd neu unrhyw un o'r chwe chyngor cyfansoddol

**Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio**

Mae'n ofynnol i CBC y Gogledd sefydlu is-bwyllgor a elwir yn Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn unol â pharagraff 16(1) Rheoliadau Sefydlu'r CBC. (*Nodir bod hwn yn cael ei alw'n 'bwyllgor llywodraethu ac archwilio' mewn deddfwriaeth llywodraeth leol, ond gan fod CBC y Gogledd ei hun yn bwyllgor, mae'n briodol cyfeirio ato fel is-bwyllgor mewn perthynas â CBCau*.)

**Swyddogaethau**

Mae cylch gorchwyl yr is-bwyllgor wedi'i nodi yn Rheoliadau Sefydlu'r CBC sy'n nodi bod rhaid i'r is-bwyllgor llywodraethu ac archwilio:

a) Weithredu o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011

b) Bod y pwyllgor yn gyfrifol am gyflawni'r swyddogaethau statudol a ganlyn o dan Adran 81 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 fel y'i diwygiwyd:

c) adolygu a chraffu ar faterion ariannol y CBC,

d) gwneud adroddiadau ac argymhellion mewn perthynas â materion ariannol y CBC.

e) adolygu ac asesu trefniadau rheoli risg, rheolaeth fewnol, asesu perfformiad a threfniadau llywodraethu corfforaethol y CBC,

f) gwneud adroddiadau ac argymhellion i'r CBC ynghylch digonolrwydd ac effeithiolrwydd y trefniadau hynny,

g) adolygu ac asesu gallu'r CBC i ymdrin â chwynion yn effeithiol,

h) gwneud adroddiadau ac argymhellion mewn perthynas â gallu'r CBC i ymdrin â chwynion yn effeithiol,".

i) arolygu trefniadau archwilio mewnol ac allanol y CBC; ac

j) adolygu unrhyw ddatganiadau ariannol a baratoir gan y CBC.

k) Ymgymryd â swyddogaethau pellach y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio dan Bennod 1, Rhan 6 Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (perfformiad a llywodraethu prif gynghorau)

l) Bydd y pwyllgor hefyd yn gyfrifol am gyflawni'r swyddogaethau a ganlyn:-

1(i) hyrwyddo archwilio mewnol, sefydlu amserlen i gynnal adolygiad o reolaeth, datblygu diwylliant gwrth-dwyll ac adolygu gweithrediadau ariannol;

2(ii) ystyried arsylwadau a phryderon ar wasanaethau unigol ar lefel sirol, ar sail adroddiadau gan swyddogion y Cyngor, y Comisiwn Archwilio neu'r Archwilydd Dosbarth a monitro'r ymateb a'r camau gweithredu ar yr argymhellion a'r canfyddiadau.

**Aelodaeth**

Ni all aelodau o Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'r CBC fod yn aelod o'r CBC, yn aelod o weithrediaeth cyngor cyfansoddol na'n aelod cyfetholedig (mae aelod cyfetholedig yn yr achos hwn yn golygu person sydd wedi'i gyfethol ar y CBC, neu i gymryd rhan yng ngweithgareddau'r CBC, heblaw'r Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio).

Rhaid i o leiaf un rhan o dair o aelodaeth yr Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio fod yn aelodau lleyg ac o leiaf ddwy ran o dair o'r cynghorau cyfansoddol. Bydd y penodiad(au) yn cael eu gwneud gan CBC y Gogledd.

Rhaid i Gadeirydd yr Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio fod yn aelod lleyg.

Ni all aelodau o Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'r CBC fod yn aelod o'r CBC, yn aelod o weithrediaeth cyngor cyfansoddol na'n aelod cyfetholedig (mae aelod cyfetholedig yn yr achos hwn yn golygu person sydd wedi'i gyfethol ar y CBC, neu i gymryd rhan yng ngweithgareddau'r CBC, heblaw'r Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio).

Dylai'r Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio gael ei sefydlu gan y CBC sy'n cynnwys aelodau lleyg i'w tynnu o bwyllgorau llywodraethu ac archwilio cynghorau cyfansoddol (neu eu hysbysebu'n allanol os nad yw hyn yn bosibl) ac aelodau o bob cyngor cyfansoddol.

Efallai na fydd yr Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn arfer ei swyddogaethau os yw'r aelodaeth yn mynd yn groes i'r gofynion hyn.

**Canllawiau Gweinidogion Cymru**

Rhaid i'r Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio roi sylw i unrhyw ganllawiau a roddir gan Weinidogion Cymru o dan Adran 85(1) Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.

**Cworwm**

Y cworwm ar gyfer yr is-bwyllgor llywodraethu ac archwilio yw 7 aelod gydag o leiaf un aelod yn bresennol o bob Cyngor Cyfansoddol ac o leiaf un Aelod Lleyg.

## Rheolau Sefydlog

2.22 Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

2.22.1 Rhaid i'r CBC sefydlu is-bwyllgor (a elwir yn Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio)

2.22.2 Nodir Cylch Gorchwyl yr Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn Rhan 4 o'r Adran 5 hon a gall y CBC ddiwygio'r cylch gorchwyl hwnnw o bryd i'w gilydd o fewn gofynion statudol.

2.22.3 Bydd aelodaeth yr Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cynnwys 9 Aelod, gyda 6 ohonynt yn aelodau etholedig a dynnir o Bwyllgorau Llywodraethu ac

Archwilio pob un o'r 6 Chyngor Cyfansoddol ac a enwebir ganddynt a bydd 3 ohonynt yn Aelodau Lleyg.

Cyfarfodydd

2.23 Mae'n ofynnol i'r Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio gyfarfod unwaith bob blwyddyn galendr o leiaf.

**Blaenraglen y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio hyd Hydref 2025**

**28 Tachwedd 2024**
Gweithredu Penderfyniadau'r Pwyllgor
Cyfrifon Terfynol am y Flwyddyn a Ddaeth i Ben 31 Mawrth 2024 a'r Archwiliad Perthnasol
Rheolaeth Trysorlys 2024-25 Adolygiad Canol Blwyddyn
Cynnyrch Archwilio Mewnol
Cynllun Archwilio Mewnol 2024/25
Adroddiadau Archwilio Cymru - Diweddariad Rhaglen Waith ac Amserlen Ch2
Argymhellion a Chynigion Gwella Adroddiadau Archwilio Allanol
Trefniadau'r Cyngor i Ymdrin â Chwynion
Adolygiad o’r Cyfansoddiad
Blaenraglen y Pwyllgor

**16 Ionawr 2025**
Gweithredu Penderfyniadau'r Pwyllgor
Adolygu Rhaglen Waith Hunanasesiad y Pwyllgor
Cyllideb Refeniw 2024/25 – Adolygiad Diwedd Tachwedd 2024
Rhaglen Gyfalaf 2024/25 – Adolygiad Diwedd Tachwedd 2024
Trosolwg Arbedion: Adroddiad Cynnydd ar Wireddu Cynlluniau Arbedion
Adroddiadau Archwilio Cymru
Blaenraglen y Pwyllgor

**6 Chwefror 2025**
Gweithredu Penderfyniadau'r Pwyllgor
Arbedion 2025/26
Strategaeth Gyfalaf 2025/26 (yn cynnwys Strategaethau Buddsoddi a Benthyg)
Cyllideb 2025/26
Diweddariad Canol Blwyddyn ar Risgiau Llywodraethu Cyngor Gwynedd
Argymhellion a Chynigion Gwella Adroddiadau Archwilio Allanol
Adroddiadau Archwilio Cymru Diweddariad Rhaglen Waith ac Amserlen Ch3
Blaenraglen y Pwyllgor

**22 Mai 2025**
Ethol Cadeirydd
Ethol Is-Gadeirydd
Gweithredu Penderfyniadau'r Pwyllgor
Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio 2024-25
Cyfrifon Terfynol Harbyrau Gwynedd am y Flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2025
Cyfrifon Terfynol 2024/25 – Alldro Refeniw
Rhaglen Gyfalaf 2024-25 – Adolygiad Diwedd Blwyddyn (sefyllfa 31 Mawrth 2025)
Cynnyrch Archwilio Mewnol

Adroddiad Blynyddol Pennaeth Archwilio Mewnol 2024/25
Cynllun Ariannol Tymor Canolig
Siarter Archwilio Mewnol
Strategaeth Archwilio Mewnol a'r Cynllun Archwilio Blynyddol 2025/26
Archwilio Cymru - Diweddariad Chwarter 4
Archwilio Cymru - Crynodeb Archwilio Blynyddol Cyngor Gwynedd 2024
Adroddiadau Archwilio Cymru a’r Ymateb Sefydliadol
Adroddiad Chwarterol Rheolaeth Trysorlys
Blaenraglen y Pwyllgor

**Medi 2025**
Gweithredu Penderfyniadau'r Pwyllgor
Datganiad o Gyfrifon 2024/25 (Amodol ar Archwiliad)
Datganiad Llywodraethu Blynyddol Cyngor Gwynedd ar Gyfer 2024/25
Rheolaeth Trysorlys 2024/25
Archwilio Cymru - Crynodeb Archwilio Blynyddol Cyngor Gwynedd 2024
Adroddiadau Archwilio Cymru - Diweddariad Ch1
Adroddiad Archwilio Cymru - Cynllun Archwilio Manwl 2025
Adroddiad Perfformiad Blynyddol ac Hunanasesiad Cyngor Gwynedd 2024/25
Argymhellion a Chynigion Gwella Adroddiadau Archwilio Allanol
Trefniadau'r Cyngor i Ymdrin â Chwynion
Blaenraglen y Pwyllgor

**Hydref 2025**
Gweithredu Penderfyniadau'r Pwyllgor
Cyllideb Refeniw 2025/26 – Adolygiad Diwedd Awst 2025
Rhaglen Gyfalaf 2025/26 – Adolygiad Diwedd Awst 2025
Trosolwg Arbedion: Adroddiad Cynnydd ar Wireddu Cynlluniau Arbedion
Diweddariad Chwarterol Rheolaeth Trysorlys
Cynnyrch Archwilio Mewnol
Cynllun Archwilio Mewnol 2025/26
Adroddiadau Archwilio Cymru
Blaenraglen y Pwyllgor